



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2010  
Tuesday, 12 January 2010**

**Cynnwys  
Contents**

- 4 Atal Rheolau Sefydlog  
Suspension of Standing Orders
- 4 Cynnig i Gymeradwyo Argymhelliad y Prif Weinidog i Ei Mawrhydi i Benodi John Griffiths AC yn Gwnsler Cyffredinol  
Motion to Agree to the First Minister's Recommendation to Her Majesty to Appoint John Griffiths AM as Counsel General
- 5 Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau  
Motions to Elect Members to Committees
- 8 Cwestiynau i'r Prif Weinidog  
Questions to the First Minister
- 40 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes  
Business Statement and Announcement
- 48 Datganiad am y Tywydd Garw Diweddar  
Statement on Recent Adverse Weather Conditions
- 71 Datganiad: y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd ac Uwchgynhadledd Copenhagen  
Statement: Update on the Climate Change Commission and Copenhagen Conference
- 90 Cynnig i Gymeradwyo Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog Rhif 26.4, mewn perthynas â'r Mesur Seneddol ynghylch Plant, Ysgolion a Theuluoedd  
Motion to Approve a Legislative Consent Motion under Standing Order No. 26.4, in respect of the Children, Schools and Families Bill
- 95 Cynnig i Gymeradwyo Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog Rhif 26.4, mewn perthynas â'r Mesur Seneddol ynghylch Gofal Personol yn y Cartref  
Motion to Approve a Legislative Consent Motion under Standing Order No. 26.4, in respect of the Personal Care at Home Bill
- 102 Y Setliad Llywodraeth Leol  
The Local Government Settlement
- 122 Egwyddorion Cyffredinol y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch  
The General Principles of the Proposed Red Meat Industry Measure
- 139 Cyfnod Pleidleisio  
Voting Time
- 144 Arfarniad Ariannol ar gyfer y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch  
Financial Resolution for the Proposed Red Meat Industry Measure

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.  
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Trefn yn y Cynulliad.

**The Presiding Officer:** Order in the Assembly.

### **Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders**

**The Minister for Business and Budget (Jane Hutt):** I move that

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt):** Cynigiaf fod

*the National Assembly for Wales in accordance with Standing Orders Nos. 35.6 and 35.8:*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog Rhifau 35.6 a 35.8:*

*suspends Standing Order No. 7.18(i) and that part of Standing Order No. 6.10 that requires the weekly announcement under Standing Order No. 6.3 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow the motions under items 1 and 2 to be considered in Plenary on Tuesday 12 January 2010. (NDM4378)*

*yn atal Rheol Sefydlog Rhif 7.18(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog Rhif 6.10 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.3 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynigion o dan eitemau 1 a 2 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 12 Ionawr 2010. (NDM4378)*

**Y Llywydd:** Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

**The Presiding Officer:** The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

### **Cynnig i Gymeradwyo Argymhelliaid y Prif Weinidog i Ei Mawrhydi Benodi John Griffiths AC yn Gwnsler Cyffredinol Motion to Agree to the First Minister's Recommendation to Her Majesty to Appoint John Griffiths AM as Counsel General**

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Cynigiaf fod

**The First Minister (Carwyn Jones):** I move that

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 5.1 yn cytuno â'r argymhelliaid gan Brif Weinidog Cymru i Ei Mawrhydi benodi John Griffiths AC fel Cwnsler Cyffredinol. (NNDM4356)*

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 5.1, agrees to the First Minister's recommendation to Her Majesty to appoint John Griffiths AM as Counsel General. (NNDM4356)*

**Y Llywydd:** Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog

**The Presiding Officer:** The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with

Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

### **Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau Motions to Elect Members to Committees**

**The Minister for Business and Budget (Jane Hutt):** I move that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Val Lloyd (Labour) in place of Huw Lewis (Labour) as a member of Legislation Committee No. 1. (NNDM4362)*

I move that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Rhodri Morgan (Labour) and Lynne Neagle (Labour) as members of Legislation Committee No. 2 in place of Jeff Cuthbert (Labour) and Sandy Mewies (Labour). (NNDM4363)*

I move that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Joyce Watson (Labour) as a member of Legislation Committee No. 3 in place of Janice Gregory (Labour). (NNDM4364)*

I move that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Christine Chapman (Labour) and Brian Gibbons (Labour) as members of Legislation Committee No. 4 in place of Lorraine Barrett (Labour) and Joyce Watson (Labour). (NNDM4365)*

I move that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Andrew Davies (Labour) as a member of Legislation Committee No. 5 in place of Lesley Griffiths (Labour). (NNDM4366)*

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt):** Cynigiau fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.3, yn ethol Val Lloyd (Llafur) yn aelod o Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 yn lle Huw Lewis (Llafur). (NNDM4362)*

Cynigiau fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.3, yn ethol Rhodri Morgan (Llafur) a Lynne Neagle (Llafur) yn aelodau o Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 yn lle Jeff Cuthbert (Llafur) a Sandy Mewies (Llafur). (NNDM4363)*

Cynigiau fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.3, yn ethol Joyce Watson (Llafur) yn aelod o Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 yn lle Janice Gregory (Llafur). (NNDM4364)*

Cynigiau fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.3, yn ethol Christine Chapman (Llafur) a Brian Gibbons (Llafur) yn aelodau o Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 yn lle Lorraine Barrett (Llafur) a Joyce Watson (Llafur). (NNDM4365)*

Cynigiau fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog No. 10.3, yn ethol Andrew Davies (Llafur) yn aelod o Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 yn lle Lesley Griffiths (Llafur). (NNDM4366)*

I move that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Andrew Davies (Labour) and Brian Gibbons (Labour) as members of the Enterprise and Learning Committee in place of Huw Lewis (Labour) and Sandy Mewies (Labour).* (NNDM4367)

Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.3, yn ethol Andrew Davies (Llafur) a Brian Gibbons (Llafur) yn aelodau o'r Pwyllgor Menter a Dysgu yn lle Huw Lewis (Llafur) a Sandy Mewies (Llafur).* (NNDM4367)

I move that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Sandy Mewies (Labour), Alun Davies (Labour) and Mohammad Asghar (Conservative) as members of the Communities and Culture Committee in place of Janice Gregory (Labour), Lesley Griffiths (Labour) and Alun Cairns (Conservative).* (NNDM4368)

Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.3, yn ethol Sandy Mewies (Llafur), Alun Davies (Llafur) a Mohammad Asghar (Ceidwadwyr) yn aelodau o'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn lle Janice Gregory (Llafur), Lesley Griffiths (Llafur) ac Alun Cairns (Ceidwadwyr).* (NNDM4368)

I move that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Irene James (Labour) and Joyce Watson (Labour) as members of the Sustainability Committee in place of Alun Davies (Labour) and Lesley Griffiths (Labour).* (NNDM4369)

Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.3, yn ethol Irene James (Llafur) a Joyce Watson (Llafur) yn aelodau o'r Pwyllgor Cynaliadwyedd yn lle Alun Davies (Llafur) a Lesley Griffiths (Llafur).* (NNDM4369)

I move that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Alun Davies (Labour), Jeff Cuthbert (Labour) and Sandy Mewies (Labour) as members of the Public Accounts Committee in place of Janice Gregory (Labour), Lesley Griffiths (Labour) and Huw Lewis (Labour).* (NNDM4370)

Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog No. 10.3, yn ethol Alun Davies (Llafur), Jeff Cuthbert (Llafur) a Sandy Mewies (Llafur) yn aelodau o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle Janice Gregory (Llafur), Lesley Griffiths (Llafur) a Huw Lewis (Llafur).* (NNDM4370)

I move that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Lorraine Barrett (Labour), Andrew Davies (Labour) and Brian Gibbons (Labour) as members of the Finance Committee in place of Alun Davies (Labour), Huw Lewis (Labour) and Joyce Watson (Labour).* (NNDM4371)

Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.3, yn ethol Lorraine Barrett (Llafur), Andrew Davies (Llafur) a Brian Gibbons (Llafur) yn aelodau o'r Pwyllgor Cyllid yn lle Alun Davies (Llafur), Huw Lewis (Llafur) a Joyce Watson (Llafur).* (NNDM4371)

I move that

Cynigiaf fod

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Rhodri Morgan (Labour) as a member of the Subordinate Legislation Committee in place of Joyce Watson (Labour).* (NNDM4372)

I move that

Cynigiau fod

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Rhodri Morgan (Labour) as a member of the Committee on European and External Affairs in place of Sandy Mewies (Labour).* (NNDM4373)

I move that

Cynigiau fod

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Mohammad Asghar (Conservative) as a member of the Committee on Equality of Opportunity in place of Jonathan Morgan (Conservative).* (NNDM4374)

I move that

Cynigiau fod

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Sandy Mewies (Labour) and Joyce Watson (Labour) as members of the Children and Young People Committee in place of Christine Chapman (Labour) and Lynne Neagle (Labour).* (NNDM4375)

I move that

Cynigiau fod

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Christine Chapman (Labour) as a member of the Petitions Committee in place of Val Lloyd (Labour).* (NNDM4376)

I move that

Cynigiau fod

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3:*

*elects Jane Hutt (Labour) as a member of the Business Committee in place of Carwyn Jones (Labour).* (NNDM4377)

*yn ethol Jane Hutt (Llafur) fel aelod o'r Pwyllgor Busnes yn lle Carwyn Jones (Llafur).* (NNDM4377)

**Y Llywydd:** Y cynnig yw bod y cynigion yn **The Presiding Officer:** The proposal is that

cael eu derbyn. A oes gwrthwynebiad?  
Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog  
Rhif 7.35, felly, caiff y cynigion eu derbyn.

the motions be agreed. Is there any objection?  
I see that there is not. In accordance with  
Standing Order No. 7.35, the motions are  
therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynigion.  
Motions agreed.*

## **Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister**

### **Public Transport**

**Q1 Jenny Randerson:** Will the First Minister make a statement on improving public transport in Wales? OAQ(3)2502(FM)

**The First Minister (Carwyn Jones):** The Assembly Government's commitments to improve public transport are outlined in the draft national transport plan. They include initiatives that will improve local bus and rail services, develop the Sustainable Travel Towns initiative, take forward the TrawsCambria bus network, introduce a Welsh entitlement card, and develop strategic park and ride sites.

**Jenny Randerson:** First Minister, I begin by congratulating you on your appointment. With that, I will get straight down to business. As this is a new dawn with new priorities, will you agree to begin by acting immediately to end the scandalous spending on the north-south air link? While every passenger pays about £40 per ticket, be they the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport or anyone else, your Government spends £80 per ticket on it in subsidies. That means that the highest ratio of transport subsidy that your Government provides across the piece goes to the most polluting form of transport available. Given the financial situation that we face and that your first act as First Minister was to go to Copenhagen and to promise us that Wales would do the right thing, it is time to act. Will you commit to reviewing that gross waste of money and to diverting that money, perhaps to the north-south rail link instead? Will this be a new dawn of honesty and of putting people first, or will it be more of the same?

### **Trafnidiaeth Gyhoeddus**

**C1 Jenny Randerson:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wella trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru? OAQ(3)2502(FM)

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Amlinellir ymrwymiadau Llywodraeth y Cynulliad i wella trafndiaeth gyhoeddus yn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol drafft. Maent yn cynnwys cynlluniau a fydd yn gwella gwasanaethau bysiau a threnau lleol, datblygu'r cynllun Trefi Teithio Cynaliadwy, symud y rhwydwaith bysiau TrawsCambria ymlaen, cyflwyno cerdyn hawliau yng Nghymru, a datblygu safleoedd parcio a theithio strategol.

**Jenny Randerson:** Brif Weinidog, dechreuaf drwy eich llongyfarch ar eich penodiad. Gyda hynny o eiriau, bwriadaf fwrw iddi'n syth. Gan fod hyn yn wawr newydd gyda blaenoriaethau newydd, a wnewch gytuno i ddechrau drwy gymryd camau ar unwaith i roi'r gorau i'r gwario gwarthus ar y cyswllt awyr rhwng y gogledd a'r de? Tra bod pob teithiwr yn talu tua £40 y tocyn, pa un ai a ydynt yn Ddirprwy Brif Weinidog a Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth neu'n unrhyw un arall, mae eich Llywodraeth yn gwario £80 y tocyn mewn cymorthdaliadau. Golyga hynny fod y gyfran uchaf o gymhorthdal trafndiaeth a ddarperir gan eich Llywodraeth drwyddi draw yn mynd i'r math o drafnidiaeth sy'n llygru fwyaf. O gofio'r sefyllfa ariannol a wynebwn ac mai eich gorchwyl cyntaf fel Prif Weinidog oedd mynd i Copenhagen gan addo inni y byddai Cymru'n gwneud y peth iawn, mae'n bryd gweithredu. A wnewch ymrwmo i adolygu'r gwastraff affwysol hwn ar arian a gwario'r arian hwnnw ar y rheilffordd rhwng y de a'r gogledd efallai yn lle hynny? A fydd hyn yn



wawr newydd o onestrwydd a rhoi pobl yn gyntaf, ynteu ai rhagor o'r un peth a gawn?

**The First Minister:** First of all, you must consider the number of car journeys that are saved because of that air service. It is not a question of people not travelling. People on Anglesey will either take the car and drive or take the option of air travel, which replaces a number of car journeys.

**Y Prif Weinidog:** Yn gyntaf, rhaid ichi ystyried nifer y teithiau mewn car sy'n cael eu harbed o ganlyniad i'r gwasanaeth awyr hwnnw. Nid yw pobl am roi'r gorau i deithio. Bydd pobl ar Ynys Môn naill ai'n teithio mewn car neu'n dewis teithio mewn awyren, ac mae hynny'n osgoi nifer o deithiau mewn car.

Secondly, the service has been very much welcomed by the people of Anglesey and north Wales particularly, and it has proven to be much more popular than was anticipated at the beginning. It is important that such matters are kept under review, but the service so far has exceeded the expectations.

Yn ail, mae pobl Ynys Môn a'r gogledd yn benodol wedi croesawu'r gwasanaeth hwn yn wresog, ac mae wedi bod yn llawer mwy poblogaidd nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae'n bwysig cadw golwg ar faterion o'r fath, ond hyd yn hyn mae'r gwasanaeth wedi rhagori ar yr hyn a ddisgwyd.

**Christine Chapman:** First Minister, I also start by welcoming you to your first First Minister's questions. I want to raise something with you that has been a consistent theme during the 10 years in which I have been at the Assembly. I would like to acknowledge the real investment that the Labour-led Welsh Assembly Government has made in improving public transport throughout Wales. We look forward to the report on the feasibility of reopening the Aberdare to Hirwaun line, and to the continuing support for bus passes for the over 60s. However, there are still problems that must be addressed. There is the issue of capacity on some rail services, which can have a serious impact on the safety and comfort of those using the services. I have been contacted by constituents about the cancellation of some bus services by private bus companies in the Cynon valley. This has a disproportionate effect on the most vulnerable members of the local community. Do you agree that this is unacceptable, and can you give me an assurance that you will continue to treat the issue of public transport as one of the utmost importance in order to meet the aspiration for Welsh citizens to have a modern, more sustainable future?

**Christine Chapman:** Brif Weinidog, hoffwn innau ddechrau drwy eich croesawu i'ch sesiwn gyntaf o gwestiynau i'r Prif Weinidog. Hoffwn godi mater sydd wedi bod yn thema gyson dros y 10 mlynedd yr wyf wedi bod yn y Cynulliad. Hoffwn gydnabod y buddsoddiad gwirioneddol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru dan arweiniad y blaid Lafur wedi'i wneud o ran gwella trafndiaeth gyhoeddus ledled Cymru. Edrychwn ymlaen at yr adroddiad ar ymarferoldeb ailagor y rheilffordd rhwng Aberdâr a Hirwaun, ac at barhau â'r gefnogaeth i docynnau bws i'r rhai dros 60 oed. Fodd bynnag, pery problemau y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt. Mae capasiti ar rai gwasanaethau rheilffordd yn broblem a gall hyn gael effaith ddifrifol ar ddiogelwch a chyfforddusrwydd y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Mae etholwyr wedi cysylltu â mi ynghylch y ffaith bod rhai gwasanaethau bysiau wedi cael eu canslo gan gwmnïau bysiau preifat yng Nghwm Cynon. Mae hyn yn cael effaith anghymesur ar aelodau mwyaf agored i niwed y gymuned leol. A ydych yn cytuno bod hyn yn annerbyniol, ac a allwch roi sicrwydd i mi y byddwch yn parhau i ystyried trafndiaeth gyhoeddus yn un o'r materion pwysicaf oll er mwyn bodloni dyheadau dinasyddion Cymru i gael dyfodol modern, mwy cynaliadwy?

**The First Minister:** Thank you, Chris, for your words.

**Y Prif Weinidog:** Diolch, Chris, am eich geiriau.

It is undoubtedly right that we need to continue to develop our public transport system. This is something that has been done over the past few years, with the opening of the Vale line and the Ebbw valley line. The Cynon valley line has not been open for that long for passenger transport. As you rightly point out, we are looking at extending passenger services towards Hirwaun.

It is a matter for private bus operators which routes they run, unless those routes are subsidised. If there are routes that local authorities feel should be subsidised, then it is a matter for them to decide upon.

**Nick Ramsay:** I also congratulate the First Minister on his appointment and on his first outing to answer questions. It is good to know that the Labour Party has at least one leader that it actually wants.

**Mick Bates:** Are you sure?

**Nick Ramsay:** No, I am not sure, but I take it as read.

First Minister, the Ryder Cup is fast approaching, and, certainly in my constituency, there have been problems in recent years with public transport—with rail transport in particular—and the ability to get into Cardiff for rugby internationals and other sporting events. What discussions have you or your Government had, or intend to have, with public transport providers in Wales to ensure that when the Ryder Cup gets going and we see that intensive period of travel to view events, the public transport system is able to cope and that the infrastructure is there to support people who want to travel. It is important for Wales, for your Government and for this Assembly that the event is a success. What discussions do you plan to have in this regard? Furthermore, we all know of the problems experienced by disabled people—partially sighted people for example—in accessing public transport. There are improvements that we would like to see in that context. What are you doing to safeguard the interests of disabled people, and those of other interest groups, in relation to accessing public transport later this year?

Heb os nac oni bai, mae angen inni barhau i ddatblygu ein system trafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf, wrth i reilffordd y Fro a rheilffordd Cwm Ebwy agor. Nid yw rheilffordd Cwm Cynon wedi bod ar agor yn hir iawn ar gyfer cludo teithwyr. Fel y dywedaso, yn hollol gywir, yr ydym yn ystyried ehangu'r gwasanaethau i deithwyr tuag at Hirwaun.

Mater i weithredwyr bysiau preifat yw pa lwybrau y maent yn eu rhedeg, oni bai fod y llwybrau hynny'n cael cymhorthdal. Os yw awdurdodau lleol yn teimlo y dylai llwybrau gael cymhorthdal, yna mater iddynt hwy benderfynu arno yw hynny.

**Nick Ramsay:** Hoffwn innau hefyd longyfarch y Prif Weinidog ar ei benodiad ac ar ei brofiad cyntaf o ateb cwestiynau. Mae'n dda gwybod bod gan y Blaid Lafur o leiaf un arweinydd y mae am ei gael.

**Mick Bates:** A ydych yn siŵr?

**Nick Ramsay:** Nac ydwyf, nid wyf yn siŵr, ond cymeraf hynny'n ganiataol.

Brif Weinidog, mae Cwpan Ryder yn prysur nesáu, ac, yn sicr yn fy etholaeth, mae problemau wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf gyda thrafnidiaeth gyhoeddus—yn enwedig ar y rheilffyrdd—a'r gallu i gyrraedd Caerdydd ar gyfer gemau rygbi rhyngwladol a digwyddiadau chwaraeon eraill. Pa drafodaethau yr ydych chi neu eich Llywodraeth wedi'u cael, neu'n bwriadu eu cael, gyda darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru i sicrhau, pan fydd Cwpan Ryder yn cael ei gynnal a ninnau'n gweld y cyfnod dwys hwnnw o deithio i weld digwyddiadau, y bydd y system trafnidiaeth gyhoeddus yn gallu ymdopi a bod y seilwaith yn barod ar gyfer cefnogi pobl sydd am deithio? Mae'n bwysig i Gymru, i'ch Llywodraeth ac i'r Cynulliad hwn fod y digwyddiad yn llwyddiant. Pa drafodaethau y bwriadwch eu cael yn hyn o beth? At hynny, gŵyr pob un ohonom am y problemau a brofir gan bobl anabl—er enghraifft pobl sy'n rhannol ddall—wrth geisio defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Ceir gwelliannau y byddem yn dymuno'u gweld yn y cyd-destun hwnnw. Beth yr ydych yn ei wneud i

ddiogelu buddiannau pobl anabl, a'r rhai mewn grwpiau buddiant eraill, o ran defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn ddiweddarach eleni?

**The First Minister:** Thank you for your words, Nick. You are right to say that this party has one leader. It is also right to say that this party has leaders in Cardiff and Westminster who understand what is devolved and what is not. Given the posters that went up in Wales regarding the NHS, it is clear that it is something that David Cameron does not understand.

**Y Prif Weinidog:** Diolch am eich geiriau, Nick. Yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud mai un arweinydd sydd gan y blaid hon. Mae'n iawn dweud hefyd fod gan y blaid hon arweinwyr yng Nghaerdydd a San Steffan sy'n deall beth sydd wedi'i ddatganoli a beth nad yw wedi'i ddatganoli. O gofio'r posteri a arddangoswyd yng Nghymru ynghylch y GIG, mae'n amlwg nad yw'n rhywbeth y mae David Cameron yn ei ddeall.

However, let us talk about the Ryder Cup. It is important that the Ryder Cup is as accessible as possible to all people, and it is important that the event can be accessed by private and public transport. This will form part of the discussions that will take place as we build up towards what will be one of the most important events that we have ever hosted, at the beginning of October.

Fodd bynnag, gadewch inni siarad am Gwpan Ryder. Mae'n bwysig bod Cwpan Ryder mor hygyrch ag sy'n bosibl i bawb, ac mae gallu cyrraedd y digwyddiad drwy drafndiaeth breifat a chyhoeddus yn bwysig. Bydd hyn yn rhan o'r trafodaethau a gaiff eu cynnal wrth inni ddynesu at yr hyn a fydd yn un o'r digwyddiadau pwysicaf yr ydym erioed wedi'i gynnal, ddechrau mis Hydref.

**Chris Franks:** In your recent discussions with Gordon Brown, were you able to raise the issue of ensuring that the main line between Swansea and London is electrified? You will be aware that the Tory leadership has failed to back this scheme. However, I am concerned that it appears that the UK Government is not backing this vital investment in our transport network either. The Plaid transport Minister has ensured substantial investment in Welsh railways, and it would be outrageous if electrification stopped at Bristol.

**Chris Franks:** Yn eich trafodaethau'n ddiweddar â Gordon Brown, a gawsoch gyfle i godi'r mater yn ymwneud â sicrhau bod y brif reilffordd rhwng Abertawe a Llundain yn cael ei thrydaneiddio? Byddwch yn ymwybodol nad yw arweinwyr y Torïaid wedi cefnogi'r cynllun hwn. Fodd bynnag, yr wyf yn poeni ei bod yn ymddangos nad yw Llywodraeth y DU yn cefnogi'r buddsoddiad hanfodol hwn yn ein rhwydwaith trafndiaeth chwaith. Mae'r Gweinidog dros drafndiaeth o Blaid Cymru wedi sicrhau buddsoddiad sylweddol mewn rheilffyrdd yng Nghymru, a byddai'n warthus petai trydaneiddio'r rheilffyrdd yn dod i ben ym Mryste.

**The First Minister:** As I understand it, the electrification of the Great Western line was an idea that first came from the UK Government. It is absolutely right to say that we want to make sure that electrification takes place not just as far as Cardiff or Swansea, but further west. We would want to see the Valley lines, in time, being electrified also. The electrification of the main line will be vitally important as we look to develop our economy further in the future.

**Y Prif Weinidog:** Yn ôl a ddeallaf, daeth y syniad i drydaneiddio rheilffordd y Great Western yn wreiddiol gan Lywodraeth y DU. Mae'n hollol wir dweud ein bod am sicrhau bod rheilffyrdd yn cael eu trydaneiddio nid yn unig i Gaerdydd neu i Abertawe, ond hefyd ymhellach i'r gorllewin. Byddem am weld rheilffyrdd y Cymoedd yn cael eu trydaneiddio maes o law hefyd. Bydd trydaneiddio'r brif reilffordd yn hanfodol bwysig wrth inni geisio datblygu ein heconomi ymhellach yn y dyfodol.

1.40 p.m.

**Jeff Cuthbert:** First Minister, I add my congratulations and welcome you to your first question session as First Minister. I wish to raise the issue of rail transport. I am sure that we are all agreed that it is important to get people out of private cars, whenever it is practical to do so, and onto public transport, which includes rail transport. I specifically wish to mention the Rhymney valley rail line, which is an issue that I have addressed a number of times. I am grateful to the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport who wrote to me on 4 May to confirm that rail passenger numbers are growing year on year and will continue to do so, that WAG has provided additional rolling stock and that there is a commitment to provide additional rolling stock when demand necessitates. Will you add your voice to those attempting to persuade Arriva Trains Wales to meet its promise of using trains of up to six carriages on the Rhymney valley rail lines, at least at peak times?

**The First Minister:** I know that the Rhymney valley line is well used. You know of the importance of the Caerphilly interchange and of the plans to look at a new station at Energlyn, which reflects the number of passengers who use the line. It will be important in the future that where there is demand, such as that which you have identified, that Arriva looks to increase the number of carriages that it uses on a service. I know that, at one time, the Rhymney valley line had a locomotive-hauled service—I am not sure whether it still does—which was unique on the Valleys lines, at least until quite recently. It is a sign of the success that we have had as a Government in persuading people to travel on public transport, including trains, that the Rhymney valley line is in a situation where we are not talking about falling passenger numbers, but dealing with ensuring that there are sufficient carriages in place. That is something that we will have to get right in future.

**Jeff Cuthbert:** Brif Weinidog, ychwanegaf finnau fy llongyfarchiadau gan eich croesawu i'ch sesiwn gwestiynau gyntaf fel Prif Weinidog. Hoffwn godi mater trafndiaeth rheilffyrdd. Yr wyf yn siŵr bod pob un ohonom yn cytuno ei bod yn bwysig denu pobl allan o geir preifat, lle bynnag y bo'n ymarferol gwneud hynny, ac ar drafndiaeth gyhoeddus, sy'n cynnwys trafndiaeth rheilffyrdd. Hoffwn sôn am reilffordd Cwm Rhymni'n benodol, sy'n fater yr wyf wedi rhoi sylw iddo droeon. Yr wyf yn ddiolchgar i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth am ysgrifennu ataf ar 4 Mai i gadarnhau bod y niferoedd sy'n teithio ar reilffyrdd yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall ac y bydd hynny'n parhau, fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cerbydau ychwanegol a bod ymrwymiad i ddarparu cerbydau ychwanegol pan fo gofyn am hynny. A wnewch ychwanegu eich llais at y rhai sy'n ceisio perswadio Trenau Arriva Cymru i gadw at ei addewid i ddefnyddio trenau gyda hyd at chwe cherbyd ar reilffyrdd Cwm Rhymni, o leiaf yn ystod yr adegau prysur?

**Y Prif Weinidog:** Gwn fod rheilffordd Cwm Rhymni'n brysur iawn. Gwyddoch am bwysigrwydd y gyfnewidfa yng Nghaerffili ac am y cynlluniau ar gyfer ymchwilio i orsaf newydd yn Energlyn, sy'n adlewyrchu nifer y teithwyr sy'n defnyddio'r rheilffordd. Bydd yn bwysig yn y dyfodol, lle y mae galw, megis yr hyn y cyfeiriasoch ato, i Arriva ystyried cynyddu nifer y cerbydau y mae'n ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaeth. Gwn, ar un adeg, mai trên locomotif oedd yn gwasanaethu rheilffordd Cwm Rhymni—nid wyf yn siŵr a yw hynny'n dal yn wir—ac yr oedd hynny'n unigryw ar reilffyrdd y Cymoedd, tan yn weddol ddiweddar o leiaf. Mae'n arwydd o'r llwyddiant yr ydym wedi'i gael fel Llywodraeth wrth berswadio pobl i deithio ar drafndiaeth gyhoeddus, gan gynnwys trenau, fod rheilffordd Cwm Rhymni mewn sefyllfa lle nad ydym yn siarad am niferoedd y teithwyr yn lleihau, ond yn delio â sicrhau bod digon o gerbydau ar gael. Mae hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid inni ei ddatrys i'r dyfodol.

**Ann Jones:** First Minister, I offer you my congratulations on what has, so far, been a good performance. [*Interruption.*]

**Eleanor Burnham:** Will you give him a mark out of 10?

**Ann Jones:** I will mark him out of 10, if you want me to: I will give him 11 and a half. How about that?

**The Presiding Officer:** Order. This is question time, not assessment time.

**Ann Jones:** Sorry, Presiding Officer. May I ask about the rolling stock? I ask you to speak to the Cabinet and the rail operators about the rolling stock on the line between north and south Wales and the line across the north Wales coast. Often, we get carriages that are not suitable as transport. People get off at Chester, which is a main hub, leaving a very nice Virgin train and have to get onto an Arriva train. Will you address that so that we do not feel that we are second-class citizens, travelling from north to south Wales?

**The First Minister:** Ann, I know that you use the service regularly. I know from what has been said in the Chamber in the years gone by that there have been difficulties with the quality and the punctuality of the service. Yesterday, there was such a difficulty: two of my colleagues were in Ludlow for an hour and 10 minutes just 10 feet short of the platform. It is clearly important, given the priority that we have given to the north-south service with the introduction of the Gerallt Gymro, that the service is seen as both reliable and of sufficient quality to attract people out of their cars. We need to make sure that the occasions when people feel that the quality or the punctuality are not there are minimised as much as possible.

**Joyce Watson:** I would also like to congratulate you, First Minister, on your appointment. I welcome you to First Minister's question time. I would like you to join me in welcoming the success of the Bookabus scheme. Bookabus went live only at the end of August, but it has already helped around 500 registered users who live between Carmarthen and Cardigan to get out and about. Does the First Minister agree that

**Ann Jones:** Brif Weinidog, hoffwn eich llongyfarch am berfformiad da hyd yn hyn. [*Torri ar draws.*]

**Eleanor Burnham:** A wnewch roi marc allan o ddeg iddo?

**Ann Jones:** Rhof farc allan o ddeg iddo, os ydych am imi wneud hynny: yr wyf yn dyfarnu 11 a hanner iddo. Beth am hynny?

**Y Prif Weinidog:** Trefn. Sesiwn gwestiynau yw hon, nid sesiwn asesu.

**Ann Jones:** Mae'n flin gennyf, Lywydd. A gaf ofyn cwestiwn am y cerbydau? Gofynnaf ichi siarad â'r Cabinet a'r cwmnïau trenau am y cerbydau ar y rheilffordd rhwng y gogledd a'r de ac ar y rheilffordd ar hyd arfordir y gogledd. Yn aml, cawn gerbydau nad ydynt yn addas i gludo pobl. Mae pobl yn camu oddi ar y trê'n Virgin cyfforddus yng Nghaer, sy'n brif ganolfan, ac yn gorfod mynd i drên Arriva. A wnewch roi sylw i hynny rhag inni deimlo ein bod yn ddinasyddion eilradd, wrth deithio o'r gogledd i'r de?

**Y Prif Weinidog:** Ann, gwn eich bod yn defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd. Gwn hefyd, yn ôl yr hyn sydd wedi'i ddweud yn y Siambr dros y blynyddoedd, fod anawsterau wedi bod mewn cysylltiad â safon y gwasanaeth a'i brydlondeb. Ddoe, cafwyd problem o'r fath: yr oedd dau o'm cyd-Aelodau yn Llwydlo am awr a 10 munud, a dim ond 10 troedfedd rhyngddynt a'r plattform. Yn amlwg, mae'n bwysig bod y gwasanaeth yn cael ei weld yn un dibynadwy ac o safon ddigon uchel i ddenu pobl allan o'u ceir, o gofio'r flaenoriaeth yr ydym wedi'i rhoi i'r gwasanaeth rhwng y gogledd a'r de drwy gyflwyno'r Gerallt Gymro. Mae angen inni sicrhau bod cyn lleied o adegau ag sy'n bosibl lle y mae pobl yn teimlo nad yw'r safon neu'r prydlondeb yn ddigon da.

**Joyce Watson:** Hoffwn innau eich llongyfarch hefyd, Brif Weinidog, ar eich penodiad. Estynnaf groeso ichi i'r sesiwn cwestiynau i'r Prif Weinidog. Hoffwn ichi ymuno â mi i groesawu llwyddiant y cynllun Bookabus. Rhoddwyd y cynllun Bookabus ar waith ddiwedd mis Awst, ond eisoes mae wedi helpu tua 500 o ddefnyddwyr cofrestredig sy'n byw rhwng Caerfyrddin ac Aberteifi i deithio o gwmpas. A yw'r Prif

the early success of Bookabus shows that there has been important progress in delivering on the Labour-led Assembly Government's commitment to support sustainable local transport initiatives, which will help to create more sustainable communities?

**The First Minister:** I could not agree with you more. The ability of a community to access transport is an important part of sustainability. We know that there are many communities where a conventional bus service is never going to work or be viable, but a scheme like Bookabus has been important in demonstrating how an innovative and flexible scheme can be made to work not just for the individuals who need it, but for those communities that are helped by the fact that public transport is available to them. It will also help to make sure that that community remains viable. I am certainly taking an interest in how the scheme is developing to see whether it can be rolled out across the rest of Wales.

**Brynle Williams:** Congratulations on your first First Minister's questions. Going back to the train situation, my colleague Ann Jones brought up the north-south train service. I travelled down on that service yesterday and, frankly, it was about 3 degrees C warmer outside the carriage than it was inside it. If we are to encourage people to use these trains, we have to stop moving them around like cattle trucks and we need better rolling stock. If you transported livestock like people are transported on the north-south train, you would probably get penalised by the law. Can you do something about that, please?

**The First Minister:** I do not think that I can add much to the point that I made in response to Ann's question. It is important that the public feel that punctuality and quality are part of the north-south service.

### Polisiau Cynllunio

**C2 Paul Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisiau cynllunio

Weinidog yn cytuno bod llwyddiant cynnar Bookabus yn dangos bod cynnydd pwysig wedi bod o ran cyflawni ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad, o dan arweiniad y blaidd Lafur, i gefnogi cynlluniau trafndiaeth lleol cynaliadwy, a fydd yn helpu i greu cymunedau mwy cynaliadwy?

**Y Prif Weinidog:** Cytunaf yn llwyr. Mae gallu cymuned i gael gafael ar drafndiaeth yn rhan bwysig o gynaliadwyedd. Gwyddom fod llawer o gymunedau lle nad yw gwasanaeth bysiau confensiynol byth bythoedd yn mynd i weithio o safbwynt hyfywedd, ond mae cynllun fel Bookabus wedi bod yn bwysig o ran dangos sut y gall cynllun arloesol a hyblyg weithio, nid yn unig ar gyfer yr unigolion hynny y mae angen y gwasanaeth arnynt, ond hefyd ar gyfer y cymunedau hynny sy'n cael eu helpu gan y ffaith bod trafndiaeth gyhoeddus ar gael iddynt. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod y gymuned honno'n parhau'n hyfyw. Yn sicr, mae gennyf ddiddordeb mewn gweld sut y mae'r cynllun yn datblygu er mwyn ystyried a ellid ei gyflwyno ledled gweddill Cymru.

**Brynle Williams:** Llongyfarchiadau ar eich sesiwn gyntaf o gwestiynau i'r Prif Weinidog. A mynd yn ôl at sefyllfa'r trenau, soniodd fy nghyd-Aelod, Ann Jones, am y gwasanaeth trenau rhwng y gogledd a'r de. Teithiais i lawr ar y gwasanaeth hwnnw ddoe, ac a bod yn onest, yr oedd tua 3 gradd C yn gynhesach y tu allan i'r cerbyd na'r tu mewn iddo. Os ydym am annog pobl i ddefnyddio'r trenau hyn, rhaid i ni roi'r gorau i'w symud o gwmpas fel petaent yn drelars cludo anifeiliaid ac mae angen gwell cerbydau arnom. Petaech yn cludo da byw fel y mae pobl yn cael eu cludo ar y trêen rhwng y gogledd a'r de, mae'n siŵr y byddech yn cael eich cosbi gan y gyfraith. A allwch wneud rhywbeth am hynny, os gwelwch yn dda?

**Y Prif Weinidog:** Ni chredaf y gallaf ychwanegu llawer at y pwynt a wneuthum wrth ateb cwestiwn Ann. Mae'n bwysig bod y cyhoedd yn teimlo bod prydlondeb a safon yn rhan o'r gwasanaeth o'r gogledd i'r de.

### Planning Policies

**Q2 Paul Davies:** Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly

Llywodraeth Cynulliad Cymru? Government's planning policies?  
 OAQ(3)2506(FM) OAQ(3)2506(FM)

**Y Prif Weinidog:** Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod y system gynllunio yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu, gan gynnwys helpu i adfer yr economi, mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a darparu tai fforddiadwy. Rhaid gwneud penderfyniadau cynllunio mewn ffordd amserol a chyson, yn seiliedig ar y cynlluniau datblygu lleol diweddaraf.

**The First Minister:** Our priority is to ensure that the planning system helps to address the challenges that we face, including supporting economic recovery, addressing climate change, and providing affordable housing. Planning decisions must be made in a timely and consistent manner, based on up-to-date local development plans.

**Paul Davies:** Yr wyf yn ddiolchgar iawn i'r Prif Weinidog am yr ateb hwnnw. Mae'n hanfodol bod polisiau cynllunio yn sicrhau llwyddiant economïau lleol, yn ogystal ag amddiffyn yr amgylchedd. Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wedi galw i mewn geisiadau am ddatblygu dwy chwarel yn fy etholaeth i sydd, ar hyn o bryd, yn cyflogi dros 50 o bobl leol. Mae'n debyg bod y ceisiadau hyn wedi eu caniatáu gan yr awdurdodau lleol heb unrhyw wrthwynebiad bron. Byddai gwrthod y ceisiadau hyn yn drychinebus nid yn unig i'r economi leol ond i'r 50 o bobl a fyddai'n colli eu gwaith, a'u teuluoedd. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno ei bod yn hollbwysig amddiffyn swyddi pwysig fel hyn yng nghanol dirwasgiad ac y byddai gwrthod y ceisiadau hyn yn tanseilio democratiaeth leol?

**Paul Davies:** I am very grateful to the First Minister for that answer. It is essential that planning policies ensure the success of local economies and protect the environment. The Minister for Environment, Sustainability and Housing has called in applications to develop two quarries in my constituency, which are currently employing 50 people. It seems that these applications have been approved by the local authorities with almost no opposition. Opposing these applications would be disastrous not only for the local economy but for the 50 people who would lose their jobs, and their families. Does the First Minister agree that it is crucial to protect important jobs such as these during a recession and that opposing these applications would undermine local democracy?

**Y Prif Weinidog:** Fel y gwyddoch, Paul, ni allaf sôn am unrhyw gais cynllunio byw. Rhywbeth i'r awdurdod lleol ac, os oes angen, i'r Gweinidog dros yr amgylchedd yw hwn. Nid yw hwn yn rhywbeth y gallaf sôn amdano yn fy sefyllfa i.

**The First Minister:** As you know, Paul, I cannot refer to any live planning application. This is an issue for the local authority and, if needed, the Minister for the environment. This is not something that I can talk about in my position.

**Bethan Jenkins:** Yr ydych yn amlwg yn ymwybodol o'r helynt ym Mhorthcawl ac ardal bae Abertawe pan soniwyd am ffermydd gwynt ar y môr yn y gorffennol. Hoffwn wybod pa fath o ddatblygiad o ran swyddi a ddaw yn sgîl Atlantic Array i dde Cymru yn dilyn y datganiad diweddar. Hefyd, hoffwn wybod pa drafodaethau a gafwyd, a pha ymgynghori a fu, rhwng y Llywodraeth yma yng Nghymru a Llywodraeth San Steffan wrth wneud penderfyniad ar brosiect mor fawr â hyn.

**Bethan Jenkins:** You are obviously aware of the trouble in Porthcawl and the Swansea bay area when offshore windfarms were mentioned in the past. I would like to know what kind of development in relation to jobs that Atlantic Array will bring to south Wales following the recent announcement. I would also like to know what discussions and consultation have taken place between the Government here in Wales and the Westminster Government when decisions were made on such a major project.

**Y Prif Weinidog:** Yn gyntaf oll, rhaid

**The First Minister:** First of all, we must

cydnabod nad ni fel Llywodraeth sydd â'r pwerau i roi caniatâd i sefydliadau mawr fel hyn sy'n ymwneud ag ynni. Fodd bynnag, yr ydym yn rhoi ein barn i'r rhai a fydd yn gwneud y penderfyniadau. Edrychir ar nifer o faterion pan gaiff penderfyniad ei wneud ac yr ydym yn gweithio'n agos iawn gydag ystad y Goron er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn dod o fewn y ffiniau amgylcheddol y credwn sy'n iawn.

**Mick Bates:** I also congratulate you on your appointment as First Minister.

I suspect that the Planning Act 2008, and in particular the creation of the Infrastructure Planning Commission, will have a major impact on most planning policies. I am sure that you will agree that Welsh representation on that Infrastructure Planning Commission is essential. Will you and your Ministers have the power to choose and appoint commissioners in order to represent Welsh views?

**The First Minister:** Clearly, it is important that Welsh views are represented, but we are talking about decisions that will be taken in areas that are not devolved. That said, it is important that the Welsh view is taken into account. The commission itself is not a creation of the Assembly Government, so the view that we have taken is that it is important that Welsh interests are represented.

### NHS Services

**Q3 Andrew R.T. Davies:** When will the First Minister next be meeting with ministerial colleagues to discuss raising the standard of NHS services? OAQ(3)2507(FM)

**The First Minister:** Improving the standard of NHS services in Wales is central to the 'One Wales' programme of government, and I will be meeting the Minister for Health and Social Services and my fellow Cabinet members regularly to discuss it.

1.50 p.m.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you, First Minister, for that answer. A key requisite for

recognise that the power to give permission to large energy-related organisations such as these does not lie with us as a Government. However, we give our opinion to those who make the decisions. A number of matters are considered when decisions are made and we work very closely with the Crown estate in order to ensure that any developments fall within the environmental boundaries that we believe to be right.

**Mick Bates:** Hoffwn innau eich llongyfarch hefyd ar eich penodiad fel Prif Weinidog.

Tybiaf y bydd Deddf Cynllunio 2008, a chreu'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn benodol, yn cael effaith sylweddol ar y rhan fwyaf o bolisiâu cynllunio. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno bod cael cynrychiolaeth o Gymru ar y Comisiwn Cynllunio Seilwaith hwnnw'n hanfodol. A fydd gennych chi a'ch Gweinidogion y pŵer i ddewis a phenodi comisiynwyr er mwyn cynrychioli safbwyntiau Cymru?

**Y Prif Weinidog:** Yn amlwg, mae'n bwysig bod safbwyntiau Cymru'n cael eu cynrychioli, ond yr ydym yn sôn am benderfyniadau a gaiff eu cymryd mewn meysydd sydd heb eu datganoli. Wedi dweud hynny, mae'n bwysig bod barn Cymru'n cael ei hystyried. Nid Llywodraeth y Cynulliad a sefydlodd y comisiwn ei hun, felly ein safbwynt yw ei bod yn bwysig bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli.

### Gwasanaethau'r GIG

**C3 Andrew R.T. Davies:** Pryd y bydd y Prif Weinidog yn cwrdd â chyd-Weinidogion nesaf i drafod codi safon gwasanaethau'r GIG? OAQ(3)2507(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae gwella safon gwasanaethau'r GIG yng Nghymru'n ganolog i raglen lywodraethu 'Cymru'n Un', a byddaf yn cyfarfod â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'm cyd-Weinidogion yn y Cabinet yn rheolaidd i drafod y mater.

**Andrew R.T. Davies:** Diolch ichi, Brif Weinidog, am yr ateb hwnnw. Er mwyn codi



raising standards within the NHS is the protection of resources, and financial resources in particular. One pledge that you made when you were elected leader of the Labour Party was to increase spending on education by 1 per cent over what was in the block grant settlement to the Assembly. It is a significant resource issue—if that pledge is to be carried out, it will be £150 million a year. Can you say today that you will safeguard NHS funding so that you are not robbing Peter to pay Paul in order to meet your election pledge?

**The First Minister:** It is not a question of there only being two budgets in the Assembly Government—that is, health and education. I can give that commitment; we all know how important NHS funding is, and it certainly is not the case that extra funding for education should come from the health budget.

**Val Lloyd:** I want to focus on raising standards, which was mentioned in the tabled question, and to draw your attention to a pilot scheme currently running in Morrision Hospital. This project, called releasing time to care, aims to do just that. It has improved patients' safety and experience, staff wellbeing and efficiency. The key is to identify the everyday aspects of work that cause interruptions and hinder spending time on care. Similar initiatives run in the NHS in England have led to a staggering increase of 52 per cent in the percentage of nurses' time spent directly on patient care. Projects such as this are of value in improving the quality of patients' care and experience, and thus contribute to raising standards. Will you review the results of this pilot scheme with a view to implementing it across the NHS in Wales?

**The First Minister:** Anything that frees up the time of health professionals to spend with patients is to be welcomed. I look forward to seeing the results of the pilot scheme and discussing them with my colleague the Minister for Health and Social Services to investigate its effectiveness. From what you have indicated, the results may be positive.

safonau yn y GIG mae'n hollol anhepgor gwarchod adnoddau, ac adnoddau ariannol yn benodol. Un addewid a wnaethoch pan gawsoch eich ethol yn arweinydd y Blaid Lafur oedd y byddech yn cynyddu gwariant ar addysg 1 y cant yn fwy na'r hyn a oedd yn setliad y grant bloc i'r Cynulliad. Mae'n fater sylweddol o safbwynt adnoddau—os caiff yr addewid hwnnw ei wireddu, bydd yn costio £150 miliwn y flwyddyn. A allwch ddweud heddiw y byddwch yn diogelu cyllid y GIG rhag eich bod yn dwyn oddi ar y naill law i dalu i'r llall er mwyn gwireddu eich addewid yn ystod yr etholiad?

**Y Prif Weinidog:** Mae mwy na dwy gyllideb yn Llywodraeth y Cynulliad—hynny yw, iechyd ac addysg. Gallaf roi'r ymrwymiad hwnnw; gŵyr pob un ohonom mor bwysig yw cyllid y GIG, ac yn sicr ni ddylai'r cyllid ychwanegol ar gyfer addysg ddod o'r gyllideb iechyd.

**Val Lloyd:** Hoffwn ganolbwyntio ar godi safonau, sy'n fater y soniwyd amdano yn y cwestiwn a gyflwynwyd, gan dynnu eich sylw at gynllun peilot sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd yn Ysbyty Treforys. Mae'r prosiect hwn, o'r enw rhyddhau amser i ofalu, yn anelu at wneud yr union beth hwnnw. Mae wedi gwella diogelwch a phrofiad cleifion, lles staff ac effeithlonrwydd. Yr hyn sy'n allweddol yw canfod pa agweddau bob dydd ar y gwaith sy'n llesteirio treulio amser ar ofal ac yn tarfu ar hynny. Mae cynlluniau tebyg sydd ar waith yn y GIG yn Lloegr wedi golygu bod nyrsys yn gallu treulio 52 y cant yn fwy o'u hamser yn gofalu'n uniongyrchol am gleifion, sy'n syfrdanol. Mae prosiectau o'r fath yn werthfawr o ran gwella ansawdd gofal a phrofiad cleifion, ac felly'n cyfrannu at godi safonau. A wnewch adolygu canlyniadau'r cynllun peilot hwn er mwyn ystyried ei roi ar waith ledled y GIG yng Nghymru?

**Y Prif Weinidog:** Mae unrhyw beth sy'n rhyddhau amser gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd i dreulio mwy o amser gyda chleifion yn ddatblygiad i'w groesawu. Edrychaf ymlaen at weld canlyniadau'r cynllun peilot a'u trafod gyda'm cyd-Weinidog, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn gweld pa mor effeithiol ydyw. O glywed eich

sylwadau, mae'n bosibl y bydd y canlyniadau'n gadarnhaol.

**The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** On behalf of my group, I offer you my congratulations on your first questions session as First Minister. I have a question about the ambulance service. You will be aware that the ambulance service in England has a response time of eight minutes, and a target of 75 per cent, which it all but met, at 74.3 per cent, on the last occasion. In Wales, the target is 65 per cent, which we have only managed to hit on 50 per cent of the last 14 occasions—that is, seven times out of the last 14. Are you happy that England is outperforming us? If not, what are you doing to ensure that we are brought up to the same standard?

**The First Minister:** It is worth pointing out that in November of last year, 65.8 per cent of first responses to immediately life-threatening calls arrived within eight minutes, 70.7 per cent within nine minutes, and 74.5 per cent within 10 minutes. That is an improvement on past performance, and I am pleased that the Welsh ambulance service reached that 65 per cent target in November. It is also worth pointing that the situation has improved considerably, and in a stable way, over the last few months. Performance in the Welsh ambulance service is improving, and we all hope that that will continue.

**Nick Bourne:** You are right to say that it has improved, but the fact remains that we have a different target and have missed on 50 per cent of the last 14 occasions the target that we have, which is lower than that in England. Our target is 65 per cent, and England's is 75 per cent. Do you think that we should have a higher target? Should we aspire to the standard in England? Also, the position within Wales is patchy, and in Powys and Ceredigion only 50 per cent of ambulances arrive within eight minutes. Are you also happy with that?

**The First Minister:** Clearly, there is room for improvement in some parts of Wales, but

**Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** Ar ran fy mhlaidd, hoffwn eich llongyfarch ar eich sesiwn gyntaf o gwestiynau i'r Prif Weinidog. Mae gennyf gwestiwn am y gwasanaeth ambiwlans. Byddwch yn ymwybodol bod gan y gwasanaeth ambiwlans yn Lloegr amser ymateb o wyth munud, gyda tharged o 75 y cant, a chyflawnodd y targed hwnnw fwy neu lai y tro diwethaf, sef 74.3 y cant. Yng Nghymru, y targed yw 65 y cant, ac yr ydym wedi llwyddo i gyflawni'r targed hwnnw 50 y cant o weithiau'n unig yn yr 14 tro diwethaf—hynny yw, saith gwaith allan o'r 14 tro diwethaf. A ydych yn hapus bod Lloegr yn perfformio'n well na ni? Os nad ydych, beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau ein bod yn cyrraedd yr un safon?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n werth tynnu sylw at y ffaith bod 65.8 y cant o'r ymatebion cyntaf i alwadau lle y mae bywyd yn y fantol wedi cyrraedd o fewn 8 munud ym mis Tachwedd y llynedd, 70.7 y cant o fewn naw munud, a 74.5 y cant o fewn 10 munud. Mae hynny'n well na'r perfformiad yn y gorffennol, ac yr wyf yn falch bod gwasanaeth ambiwlans Cymru wedi cyflawni'r targed hwnnw o 65 y cant ym mis Tachwedd. Mae'n werth nodi hefyd fod y sefyllfa wedi gwella'n sylweddol, a'i bod yn sefydlog, yn ystod y misoedd diwethaf. Mae'r perfformiad yng ngwasanaeth ambiwlans Cymru'n gwella, ac mae pob un ohonom yn gobeithio y bydd hynny'n parhau.

**Nick Bourne:** Yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud bod pethau wedi gwella, ond y gwir amdani o hyd yw bod gennym darged gwahanol a'n bod wedi methu cyrraedd y targed sydd gennym, sy'n is na Lloegr, 50 y cant o'r 14 tro diwethaf. Ein targed yw 65 y cant a'r targed yn Lloegr yw 75 y cant. A ydych yn credu y dylem gael targed uwch? A ddylem anelu at yr un safon â Lloegr? Hefyd, mae'r sefyllfa yng Nghymru'n anghyson, ac ym Mhowys a Cheredigion 50 y cant yn unig o ambiwlansys sy'n cyrraedd o fewn wyth munud. A ydych hefyd yn hapus â hynny?

**Y Prif Weinidog:** Yn amlwg, mae lle i wella mewn rhai rhannau o Gymru, ond dylid

the fact that we are reaching the target is to be welcomed. If we reach a situation where that target is reached with ease, I am sure that my colleague the Minister for health will want to consider raising the target.

**Nick Bourne:** I put it to you that we should aspire to raise that target. There is a higher target in England, which it is meeting consistently. We are not meeting a lower target consistently. You are right that we met it last time across the board, but we did not meet it in many parts of Wales. I repeat the point that in Powys and Ceredigion only on 50 per cent of occasions did ambulances arrive within eight minutes. That, surely, is not satisfactory. Compounding that, on many occasions in this cold snap the time achieved has been nowhere near that. In my own area, in Knighton, it took two hours for an ambulance to reach Ruth Cooper. I pay tribute to the ambulance service, but because of the failure to grit the roads and the lack of ability to get through, it is taking far longer on some occasions. Ms Cooper was lucky that hers was not a life-threatening situation. She had a broken limb, which, although horrific, was not life threatening. What are we doing about that? I come back to the point: are you happy with us having a lower target than England, or do you want to see us come up to the level that England is at, at the very least?

**The First Minister:** In time, we need to aspire to be up with the best. However, I am encouraged by the fact that we are meeting targets now and, as I have said, if that target is being regularly met, the time may well come to increase it. In some parts of Wales, the response rate is lower. The weather has not helped in the last few weeks, although there are a number of four-by-four ambulances that have been used across Wales in this period. I emphasise the point that there was a time when criticism was being voiced in the Chamber that we were not meeting our targets. We are now meeting our targets and doing so on a regular basis, which will mean that we can improve the service and improve response times in the months to come.

croesawu'r ffaith ein bod yn cyflawni'r targed. Petaem yn cyrraedd sefyllfa lle yr ydym yn cyflawni'r targed hwnnw'n rhwydd, yna credaf yn siŵr y byddai fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog dros iechyd, yn dymuno ystyried cynyddu'r targed.

**Nick Bourne:** Awgrymaf i chi y dylem anelu at gynyddu'r targed hwnnw. Ceir targed uwch yn Lloegr, ac mae'n cyflawni'r targed hwnnw'n gyson. Nid ydym yn cyflawni targed is yn gyson. Yr ydych yn llygad eich lle inni gyflawni'r targed yn gyffredinol y tro diwethaf, ond ni wnaethom ei gyflawni mewn sawl ardal yng Nghymru. Yr wyf yn ailadrodd y pwynt mai dim ond 50 cant y cant o weithiau y cyrhaeddodd ambiwlansys o fewn wyth munud ym Mhowys a Cheredigion. Yn sicr ddigon, nid yw hynny'n foddhaol. I wneud y sefyllfa'n waeth, droeon yn ystod y cyfnod oer iawn hwn, nid yw'r amser wedi bod yn agos at hynny o gwbl. Yn fy ardal fy hun, yn Nhrefyclo, bu'n rhaid i Ruth Copper ddisgwyl am ddwy awr am ambiwlans. Rhoddaf deyrnged i'r gwasanaeth ambiwlans, ond oherwydd nad yw'r ffyrdd wedi'u graeanu a'i bod yn anodd iawn mynd o un lle i'r llall, mae'n cymryd mwy o lawer mewn rhai achosion. Yr oedd Ms Cooper yn lwcus nad oedd ei bywyd yn y fantol. Yr oedd wedi torri asgwrn, ac er bod hynny'n ofnadwy, nid oedd ei bywyd yn y fantol. Beth yr ydym yn ei wneud am hynny? Dychwelaf at y pwynt: a ydych yn hapus bod gennym darged is na Lloegr, neu a ydych am ein gweld yn cyrraedd yr un lefel â Lloegr, o leiaf?

**Y Prif Weinidog:** Ymhen amser, mae angen inni anelu at fod ymhlith y goreuon. Fodd bynnag, mae'r ffaith ein bod yn cyflawni'r targedau'n awr yn calondid imi, ac fel yr wyf wedi dweud, os yw'r targed hwnnw'n cael ei gyflawni'n rheolaidd, mae'n bosibl y daw adeg y gellir ei gynyddu. Mewn rhai rhannau o Gymru, mae'r gyfradd ymateb yn is. Nid yw'r tywydd wedi helpu dros yr wythnosau diwethaf, er bod nifer o ambiwlansys gyriant pedair olwyn wedi'u defnyddio ledled Cymru yn y cyfnod hwn. Pwysleisiaf y pwynt bod adeg pan oedd pobl yn y Siambr yn beirniadu'r ffaith nad oeddem yn cyflawni ein targedau. Bellach, yr ydym yn cyflawni ein targedau ac yn gwneud hynny'n rheolaidd, a fydd yn golygu y gallwn wella'r

gwasanaeth a gwella'r amseroedd ymateb yn ystod y misoedd nesaf.

**Helen Mary Jones:** Hoffwn innau hefyd eich llongyfarch, Brif Weinidog, ar eich rôl newydd, ac yr wyf yn edrych ymlaen at gydweithio gyda chi. Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno gyda mi fod gan nyrsys ysgol rôl bwysig o ran darparu gwasanaethau gofal iechyd i blant, ac yr wyf yn ddiolchgar am y cyllid sydd ar gael i'r byrddau iechyd lleol er mwyn creu mwy o swyddi a sicrhau bod hyfforddiant ac ati ar gael. A wnewch chi gydweithio gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod yr arian hwnnw'n cael ei wario mewn digon o amser? Mae pryderon ynglŷn ag oedi, nid o ran y Llywodraeth ond efallai o ran y gwasanaethau iechyd lleol. A wnewch chi ymrwymiad heddiw i gydweithio gyda'r Gweinidog dros iechyd i sicrhau bod yr ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' yn hynny o beth yn cael ei weithredu?

**Y Prif Weinidog:** Mae hyn yn rhywbeth y mae'r Llywodraeth am ei weld yn symud ymlaen. Yr wyf bob amser yn cydweithio gyda fy nghymydog, y Gweinidog dros iechyd, ac yr wyf yn siŵr y byddwn yn symud ymlaen yn y dyfodol er mwyn sicrhau ein bod ni'n cyflawni'r hyn sydd yng nghytundeb 'Cymru'n Un'.

**Peter Black:** I add my voice to those congratulating you on taking up your new post and on your first question time. I will ask you about the recent report of the Welsh Health Estates, which has identified an increase of up to £500 million in the amount of money needed to address the backlog in repairs for hospitals and other buildings around Wales. The amount includes an increase of £7.6 million in high-risk maintenance to £82.2 million; an increase of £1 million in the cost of complying with the fire code to £12 million; and a bill of £18.9 million to meet the requirements of disability discrimination laws. Will you be addressing this issue in your early days as First Minister, and will you be talking to the Minister for health about how you can target the capital money you have in the budget already at dealing with the worst instances, particularly regarding compliance with the disability discrimination legislation and the fire code?

**Helen Mary Jones:** I would also like to congratulate you, First Minister, on your new role, and I look forward to working with you. I am sure that you would agree that school nurses have an important role in providing healthcare services to children, and I am grateful for the funding that is available to the local health boards in order to create more jobs and ensure that training and so on is available. Will you work with the Minister for Health and Social Services to ensure that that money is spent in good time? There are concerns about delays, not on the part of the Government but perhaps on the part of the local health services. Will you commit today to work with the Minister for health to ensure that the 'One Wales' commitment in that respect is met?

**The First Minister:** This is something that the Government wants to see being moved forward. I always work with my neighbour, the Minister for health, and I am sure that we will move forward in the future to ensure that we achieve what is set out in the 'One Wales' agreement.

**Peter Black:** Hoffwn innau ychwanegu fy llais at y rhai sy'n eich llongyfarch ar eich swydd newydd ac ar eich sesiwn gyntaf o gwestiynau i'r Prif Weinidog. Fe'ch holaf am yr adroddiad yn ddiweddar gan Ystadau Iechyd Cymru, sydd wedi nodi bod angen £500 miliwn yn fwy o arian er mwyn rhoi sylw i'r ôl-groniad o ran gwaith atgyweirio mewn ysbytai ac adeiladau eraill ledled Cymru. Mae'r swm yn cynnwys cynnydd o £7.6 miliwn mewn gwaith cynnal a chadw risg mawr i wneud cyfanswm o £82.2 miliwn; cynnydd o £1 miliwn er mwyn cydymffurfio â'r cod tân i wneud cyfanswm o £12 miliwn; a bil o £18.9 miliwn i fodloni gofynion cyfreithiau gwahaniaethu ar sail anabledd. A fyddwch yn rhoi sylw i'r mater hwn yn ystod eich dyddiau cynnar fel Prif Weinidog, ac a fyddwch yn siarad â'r Gweinidog dros iechyd ynghylch sut y gallwch dargedu'r arian cyfalaf sydd gennych eisoes yn y gyllideb er mwyn delio â'r

achosion gwaethaf, yn enwedig o ran cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gwahaniaethu ar sail anabledd a'r cod tân?

**The First Minister:** We would need to see examples of that to assess the situation. A large number of capital projects have been taken forward in recent times, including substantial investment all over Wales—Ysbyty Aneurin Bevan, the Cynon valley community hospital and the new local hospital in Caerphilly, among others. If there is a need to examine the need for capital repairs in the future, that can be looked at by the appropriate authorities—by the local health boards—and then brought to the attention of the Minister for health to see if there is anything that can be done.

### Salt Supplies

**Q4 Trish Law:** Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's programme of allocating salt supplies to local authorities during the recent freeze? OAQ(3)2495(FM)

**The First Minister:** Since the Deputy First Minister's written statement on salting to all Members last week, the situation has moved on due to the continued freeze. An organisation called Salt Cell—I am not sure about the choice of name but Salt Cell is what it is called—has been convened by the Department for Transport to co-ordinate salt deliveries at a UK level. The Assembly Government is represented at its regular meetings. We expect to see the delivery of more salt that we have secured from Salt Cell, which will be distributed to local authorities across Wales on a priority basis.

**Trish Law:** I will take this opportunity to say a huge thank you to the men and women who have worked slavishly and tirelessly to keep open main roads and bus routes across Wales during the big freeze of the last few weeks, not least those at the sharp end: the magnificent men in their gritting machines

**Y Prif Weinidog:** Byddai angen inni weld enghreifftiau o hynny i asesu'r sefyllfa. Mae nifer fawr o brosiectau cyfalaf wedi cael eu rhoi ar waith yn ddiweddar, gan gynnwys buddsoddiad sylweddol ym mhob cwr o Gymru—Ysbyty Aneurin Bevan, ysbyty cymunedol Cwm Cynon a'r ysbyty lleol newydd yng Nghaerffili, ymysg eraill. Os oes angen inni archwilio'r angen am waith atgyweirio cyfalaf yn y dyfodol, yna gall yr awdurdodau perthnasol—sef y byrddau iechyd lleol—edrych ar hynny ac yna eu dwyn i sylw'r Gweinidog dros iechyd i weld a oes unrhyw beth y gellir ei wneud.

### Cyflenwadau Halen

**C4 Trish Law:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am raglen Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddyrannu cyflenwadau halen i awdurdodau lleol yn ystod y cyfnod diweddar o rew? OAQ(3)2495(FM)

**Y Prif Weinidog:** Ers i'r Dirprwy Brif Weinidog gyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar raeau i'r holl Aelodau yr wythnos diwethaf, mae'r sefyllfa wedi newid oherwydd bod y rhew wedi parhau. Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi sefydlu corff sy'n cael ei alw'n Salt Cell—nid wyf yn siŵr am yr enw a ddewiswyd ond caiff ei alw'n Salt Cell beth bynnag—er mwyn cydlynu'r gwaith o ddsbarthu halen ar lefel y DU. Caiff Llywodraeth y Cynulliad ei chynrychioli yn ei gyfarfodydd rheolaidd. Ar ôl sicrhau mwy o halen gan Salt Cell, yr ydym yn disgwyl iddo gyrraedd a chaiff ei ddsbarthu i awdurdodau lleol ledled Cymru ar sail blaenoriaeth.

**Trish Law:** Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddweud diolch yn fawr i'r dynion a'r menywod sydd wedi gweithio'n galed ac yn ddiflino i gadw prif ffyrdd a llwybrau bysiau ar agor ledled Cymru yn ystod y tywydd rhewllyd dros yr wythnosau diwethaf, yn enwedig y rhai yn y rheng flaen: y dynion dewr yn eu lorïau graeanu.

2.00 p.m.

I pay particular tribute to those in my constituency of Blaenau Gwent who have worked around the clock, where gritting lorries have travelled the equivalent distance of 30 round trips to London to ensure that our main arterial routes are kept open and that essential services such as meals on wheels and homecare could continue to be delivered. A Labour Party campaign critical of the lack of gritting in Blaenau Gwent is an insult to those diligent and dedicated teams of council workers. I must, however, sympathise with those living off the beaten track whose roads have not been gritted. It may have something to do with the lack of salt for, according to a *Western Mail* trawl last Wednesday, the amount of salt reserves held by local authorities varies greatly across Wales. Will the First Minister support the notion of the Welsh Assembly Government giving greater priority to those authorities in greatest need of salt supplies?

**The First Minister:** As I said, we are looking to do that. It is a matter for local authorities to decide how much salt they want to keep in reserve. Local authorities are responsible for gritting the roads in their area, although the Heads of the Valleys road through Blaenau Gwent is gritted by Monmouthshire local authority, under contract to the Welsh Assembly Government. I join you in paying tribute to the great work that has been done not only by those driving the gritting machines in Blaenau Gwent, but also by those who have worked on the Heads of the Valleys road, thus helping to keep open, as much as possible, one of our main arterial routes across the south of Wales.

**Joyce Watson:** First, I put on record my thanks to all those who have worked around the clock to keep the roads in Mid and West Wales open. It almost goes without saying that many local authorities have coped well in extremely difficult circumstances. However, while the situation on the roads has mostly been well managed, it has been a different matter on footways. Public concern and frustration with icy pavements has been matched by confusion and rumour about who is responsible for clearing pavements and the legal risks when people do clear paths. First

Rhodaf deyrnged arbennig i'r rhai yn fy etholaeth ym Mlaenau Gwent sydd wedi gweithio bob awr o'r dydd, ac mae'r lorïau graeanu wedi teithio pellter sy'n gyfystyr â 30 taith yn ôl ac ymlaen i Lundain er mwyn sicrhau bod ein prif ffyrdd allweddol yn aros ar agor ac y gellid parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol megis pryd ar glud a gofal cartref. Mae ymgyrch gan y Blaid Lafur yn beirniadu'r prinder graeanu ym Mlaenau Gwent yn sarhau'r timau o weithwyr cyngor diwyd ac ymroddedig. Fodd bynnag, rhaid imi gydymdeimlo â'r rhai sy'n byw mewn lleoedd mwy diarffordd lle nad yw'r ffyrdd wedi cael eu graeanu. Mae'n bosibl bod prinder halen yn rheswm dros hyn, oherwydd canfu'r *Western Mail* ddydd Mercher diwethaf fod maint y cronfeydd halen sydd gan awdurdodau lleol yn amrywio'n fawr ledled Cymru. A wnaiff y Prif Weinidog gefnogi'r syniad y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi mwy o flaenoriaeth i'r awdurdodau hynny y mae arnynt fwyaf o angen cyflenwadau halen?

**Y Prif Weinidog:** Fel y dywedais, yr ydym yn ystyried gwneud hynny. Mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu faint o halen i'w gadw wrth gefn. Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am raeau'r ffyrdd yn eu hardal, er bod ffordd Blaenau'r Cymoedd drwy Flaenau Gwent yn cael ei graeanu gan awdurdod lleol sir Fynwy, o dan gontract i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ymunaf â chi i roi teyrnged i'r gwaith rhagorol sydd wedi'i wneud, nid yn unig gan y rhai sy'n gyrru'r lorïau graeanu ym Mlaenau Gwent, ond hefyd y rhai sydd wedi gweithio ar ffordd Blaenau'r Cymoedd, a thrwy hynny, helpu i gadw un o'n prif ffyrdd allweddol drwy'r de ar agor cyhyd ag sy'n bosibl.

**Joyce Watson:** Yn gyntaf, hoffwn ddatgan ar goedd fy niolch i bawb sydd wedi gweithio bob awr o'r dydd i gadw'r ffyrdd yn y canolbarth a'r gorllewin ar agor. Prin bod angen dweud bod llawer o awdurdodau lleol wedi ymdopi'n dda mewn amgylchiadau hynod o anodd. Fodd bynnag, er bod y sefyllfa ar y ffyrdd wedi'i rheoli'n dda ar y cyfan, nid yw hynny mor wir am lwybrau cerdded. Mae pryder a rhwystredigaeth y cyhoedd gyda phalmentydd sydd â rhew arnynt yr un mor amlwg â'r dryswch a'r sion ynghylch pwy sy'n gyfrifol am glirio

Minister, could you clarify the situation, and do you think that we can learn any lessons about informing the public?

**The First Minister:** Thank you, Joyce. I am reluctant to give legal advice at this stage, but I understand your point. It has been suggested to me that people are afraid to clear footpaths in case they do not do the job sufficiently well and somebody might slip and try to sue them. That is an unlikely scenario, but I accept the need to inform people of what can and cannot be done. In a sensible world, we would all accept that, rather than discourage it, we should encourage and applaud someone who takes it upon themselves to clear a path, perhaps to an elderly neighbour's door, or part of a pavement or footpath.

**Brynle Williams:** First Minister, the cold weather has caused particular hardship for those living in rural areas, and it is abundantly clear in my region of North Wales that those in rural areas are suffering badly. They must contend not only with clearing the snow, but also with the lack of salting and the inability of the emergency services to reach them. In an earlier answer, you referred to certain ambulances being four-wheel-drive vehicles, but I am afraid that there are not enough of them. We know that this period of two to three weeks of consistently cold weather is unusual, but those living in rural areas are suffering just as badly as those in urban areas. Their situation has been exacerbated by vehicles parking illegally on roads, which means that emergency vehicles cannot get through. Elderly people have been confined to their houses and have been there for a fortnight. I contacted Flintshire County Council last week, which just refused my request point-blank. It just said 'sorry' and that it had nothing. A haulage contractor with 15 lorries was parked on the main road, as he could not get the lorries into his yard. What is going to happen? When can we get salt? You have said that it is local authorities' decision. Local authorities are telling me that they can get salt only with the authority of the Welsh Assembly Government. When can we expect to get salt and grit in these areas, please?

palmentydd a'r peryglon cyfreithiol pan fydd pobl yn clirio llwybrau. Brif Weinidog, a allwch egluro'r sefyllfa, ac a ydych yn credu y gallwn ddysgu unrhyw wersi ynghylch rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd?

**Y Prif Weinidog:** Diolch, Joyce. Yr wyf yn gyndyn o roi cyngor cyfreithiol ar hyn o bryd, ond deallaf eich pwynt. Caf ar ddeall fod ar bobl ofn clirio llwybrau troed rhag ofn nad ydynt yn gwneud hynny'n ddigon da a gallai rhywun lithro a cheisio'u herlyn. Mae hynny'n senario annhebygol, ond derbynaf fod angen hysbysu pobl o'r hyn y gellir ac na ellir ei wneud. Mewn byd synhwyrol, byddai pob un ohonom yn derbyn hynny, felly yn hytrach na darbwylllo pobl i beidio â gwneud hynny, dylem annog a chanmol rhywun sy'n mynd ati eu hunain i glirio llwybr, efallai at ddrws cymydog oedrannus, neu ran o balmant neu lwybr.

**Brynle Williams:** Brif Weinidog, mae'r tywydd oer wedi achosi caledi eithriadol ymhlith y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, ac mae'n amlwg iawn yn fy rhanbarth, sef Gogledd Cymru, fod y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn dioddef yn enbyd. Rhaid iddynt ddygymod nid yn unig â chlirio'r eira, ond hefyd â'r diffyg graeanu ac anallu'r gwasanaethau brys i'w cyrraedd. Mewn ateb blaenorol, cyfeiriasoch at y ffaith bod gan rai ambiwlansys yriant pedair olwyn, ond mae'n flin gennyf ddweud nad oes digon ohonynt. Gwyddom fod y cyfnod hwn o ddwy neu dair wythnos o dywydd oer cyson yn anarferol, ond mae'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn dioddef llawn cymaint â'r rhai mewn ardaloedd trefol. Mae eu sefyllfa'n gwaethygu oherwydd bod cerbydau'n parcio'n anghyfreithlon ar ffyrdd, sy'n golygu na all cerbydau argyfwng fynd heibio. Mae pobl oedrannus wedi bod yn gaeth i'w cartrefi ers pythefnos. Cysylltais â Chyngor Sir y Fflint yr wythnos diwethaf, a gwrthododd fy nghais ar ei ben. Dywedodd 'mae'n flin gennyf' ond nid oedd ganddo ddim byd. Yr oedd contractwr cludo nwyddau wedi gorfod parcio 15 lori ar y brif ffordd oherwydd nad oedd yn gallu gyrru'r lorïau i'w iard. Beth sy'n mynd i ddigwydd? Pryd y gallwn gael halen? Yr ydych wedi dweud mai penderfyniad yr awdurdodau lleol ydyw. Mae awdurdodau lleol yn dweud

wrthf mai'r unig ffordd y gallant gael halen yw drwy ganiatâd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Pryd y gallwn ddisgwyl cael halen a graean yn yr ardaloedd hyn, os gwelwch yn dda?

**The First Minister:** Illegal parking is an enforcement matter for the police and, in town centres, for traffic wardens.

**Y Prif Weinidog:** Mae parcio anghyfreithlon yn fater gorfodi i'r heddlu, ac yng nghanol trefi, mae'n fater i wardeiniaid traffig.

As regards the elderly, it is exceptionally important that we send a message out that people should act in a neighbourly fashion, particularly in these times and in areas where people are more isolated, perhaps in rural villages and areas more than in towns. At times like these, if people keep an eye on their elderly neighbours, a great deal can be done to assist them with their welfare, by making sure that the house is properly heated and so forth. That is a strong message that it is important to get out.

O ran yr henoed, mae'n eithriadol bwysig inni gyfleu neges y dylai pobl ymddwyn yn gymdogol, yn enwedig ar adegau fel hyn ac mewn ardaloedd mwy anghysbell, efallai mewn pentrefi ac ardaloedd gwledig yn fwy nag mewn trefi. Ar adegau fel hyn, os gall bobl gadw golwg ar eu cymdogion oedrannus, gellir gwneud cryn dipyn i'w helpu gyda'u lles, drwy wneud yn siŵr bod y tŷ wedi'i wresogi'n briodol ac yn y blaen. Mae honno'n neges gref y mae'n bwysig ei chyfleu.

Salt stocks are a matter for local authorities, as I have said. There are two things that I can say, however. First, we expect to see a delivery this week, and that will be distributed on a priority basis to local authorities. Secondly, the Assembly Government holds stocks, as we directly grit the M4 and the M48, which are the two motorways in the south. We have to ensure that we have sufficient stocks to keep those two motorways open, but we have tried to release salt where we feel that we might have some surplus. We will continue to examine the situation to see whether we can help those parts of Wales in which salt stocks are running low.

Mater i'r awdurdodau lleol yw cyflenwadau halen, fel yr wyf wedi dweud. Fodd bynnag, gallaf ddweud dau beth. Yn gyntaf, yr ydym yn disgwyl gweld cyflenwad o halen yr wythnos hon, a chaiff hwnnw ei ddsbarthu ar sail blaenoriaeth i awdurdodau lleol. Yn ail, mae gan Lywodraeth y Cynulliad gyflenwadau, gan ein bod yn graeanu'r ddwy draffordd yn y de, sef yr M4 a'r M48, yn uniongyrchol. Rhaid inni sicrhau bod gennym ddigon o gyflenwadau i gadw'r ddwy draffordd hynny'n agored, ond yr ydym wedi ceisio rhyddhau halen lle y tybiwn y gallai fod gennym rywfaint dros ben. Byddwn yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa i weld a allwn helpu'r rhannau hynny o Gymru lle y mae cyflenwadau halen yn brin.

**Gareth Jones:** Hoffwn innau hefyd eich llongyfarch chi, Brif Weinidog.

**Gareth Jones:** I would also like to congratulate you, First Minister.

Mae'r tywydd eithafol hwn yn ein hatgoffa o bwysigrwydd cyfundrefn drafndiaeth effeithiol i gynnal ein cymunedau a'u gweithgarwch economaidd. Oni ddylem ddatgan ein diolch felly i awdurdodau megis Conwy, a ddilynodd gyngor Llywodraeth Cymru drwy ychwanegu tua 26 y cant at ei gyflenwad graean? Yn wir, benthycodd Conwy 500 tonnelli i sir Ddinbych. A fydddech yn cytuno nad mater hawdd i unrhyw awdurdod lleol na llywodraeth yw rhagweld

The extreme weather serves as a reminder of the importance of an effective transport infrastructure to sustain our communities and their economic activity. Should we not, therefore, express our thanks to authorities such as Conwy, which followed the advice of the Welsh Government by supplementing its grit supplies by some 26 per cent? Indeed, Conwy lent 500 tonnes to Denbighshire. Would you agree that it is no mean feat for any local authority or government to predict



faint yn union o arian prin y dylid ei wario ymlaen llaw ar rywbeth sydd yn amlwg y tu hwnt i reolaeth? Serch hynny, onid oes lle i ystyried clustnodi arian wrth gefn yn ganolog fel y gellid rhoi cymorth uniongyrchol yn ôl y galw i'r awdurdodau hynny sy'n dioddef, rhai'n waeth na'i gilydd? Gan nad yw tywydd garw yn parchu ffiniau gweinyddol, onid oes lle i fynnu cydweithio a chynllunio gwell rhwng awdurdodau ar seiliau rhanbarthol yng Nghymru?

**Y Prif Weinidog:** Ar ôl tywydd garw mis Chwefror y llynedd, mae'n werth dweud y gwnaeth awdurdodau lleol ailystyried lefel yr halen yr oeddent i'w gadw at y gaeaf a oedd i ddod. Wrth gwrs, bu'r gaeaf hwn yn waeth o lawer nag y gallai neb fod wedi'i erfyn. Mae'n anodd ceisio meddwl am faint o stoc y dylid ei chadw. Nid problem ariannol sydd y tu ôl i hyn, ond problem gyda'r cyflenwad halen. Oherwydd hynny, ni fyddai arian wedi helpu; mwy o halen fyddai'n helpu. Yr ydym ni yn y Llywodraeth wedi sicrhau dosbarthiad arall o halen yr wythnos hon, yn ôl ein dyletswydd, a bydd hynny o help i awdurdodau dros Gymru gyfan.

### Communities First

**Q5 Janet Ryder:** Will the First Minister provide an update on the Communities First programme? OAQ(3)2496(FM)

**The First Minister:** The Communities First programme continues to provide funding for Wales's most deprived communities to enable them to contribute to the changes identified by their own communities. The Communities First outcomes fund will provide £25 million over the next three years to enable Communities First partnerships to work with partners on delivering change for the better in their communities.

**Janet Ryder:** Thank you for that answer, First Minister. Undoubtedly, in some places, a lot of good work has been achieved through Communities First, but unfortunately that has not been the case across all Communities First projects. I am sure that the First Minister is aware of the investigations currently under way in Plas Madoc in

precisely how many of its scarce resources should be spent in anticipation of something that is clearly beyond its control? However, is there room to consider allocating funding in reserve centrally so that direct support can be given according to demand to those authorities that are suffering? Given that bad weather does not respect administrative boundaries, should we not insist on better collaboration and planning between authorities on a regional basis in Wales?

**The First Minister:** Following the inclement weather last February, it is worth pointing out that local authorities reconsidered the level of grit that they were keeping for the winter that was to come. Of course, this winter has been far worse than anyone had anticipated. It is difficult to try to predict how much stock should be retained. It is not a financial problem that is behind this, but a problem with the salt supply. Given that, money would not have helped; more salt is what will help. We in the Government have secured another delivery of salt this week, as is our duty, and that will be of great help to authorities throughout Wales.

### Cymunedau yn Gyntaf

**C5 Janet Ryder:** A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(3)2496(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn parhau i ddarparu cyllid i'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru i'w galluogi i gyfrannu at y newidiadau a nodwyd gan eu cymunedau eu hunain. Bydd cronfa canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf yn darparu £25 miliwn dros y tair blynedd nesaf i alluogi partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf i weithio gyda phartneriaid i sicrhau newid er gwell yn eu cymunedau.

**Janet Ryder:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Heb os nac oni bai, mewn rhai lleoedd, mae Cymunedau yn Gyntaf wedi gwneud llawer o waith da, ond yn anffodus nid yw hynny'n wir ar draws yr holl brosiectau Cymunedau yn Gyntaf. Yr wyf yn siŵr bod y Prif Weinidog yn ymwybodol o'r ymchwiliadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd

Wrexham. Many of the complaints relating to it concern the lack of accountability to the local community and an inability to see complaints through. Whenever complaints were made, they were bounced back to the Communities First project in that area to be dealt with. It was difficult for people to get their views heard and thoroughly investigated.

Given the background to the Communities First projects, and the auditor general's two reports on Communities First, including the interest that he has shown in the Plas Madoc problems, when you receive the report that is being drawn up on that, will you implement a thorough governmental review into the governance and accountability of Communities First projects throughout Wales, to ensure that they are all functioning as they should be and are fully accountable to all residents of Communities First areas?

2.10 p.m.

**The First Minister:** In relation to Plas Madoc, the auditors have completed their investigations and the final report is expected at some point next month. However, I can say more generally that a governance review has already been commissioned by the Department for Social Justice and Local Government, and the first phase has been completed. Several recommendations have been made to strengthen the audit and monitoring arrangements, and an action plan will be drawn up to implement those recommendations and to strengthen the problems with governance that you identified with Plas Madoc.

**William Graham:** First Minister, do you agree that £238,000 being spent on training staff in Newport to investigate communities' needs must lead to a demonstrable outcome to avoid any ill feeling during a recessionary period?

**The First Minister:** Communities First partnerships are responsible for spending money in the most effective way for their local communities. If any wider issues arise with the way in which they are governed or

ym Mhlas Madoc yn Wrecsam. Mae llawer o'r cwynion yn ymwneud â'r diffyg atebolrwydd i'r gymuned leol ac anallu i ddelio â chwynion i'r pen. Pan wneid cwynion, caent eu cyfeirio'n ôl at y prosiect Cymunedau yn Gyntaf yn yr ardal honno i ddelio â nhw. Yr oedd yn anodd i bobl leisio'u barn a chael rhywun i ymchwilio i'w safbwyntiau'n drylwyr.

O gofio cefndir prosiectau Cymunedau yn Gyntaf, a dau adroddiad yr archwilydd cyffredinol ar Gymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys y diddordeb y mae wedi'i ddangos ym mhroblemau Plas Madoc, pan fyddwch yn cael yr adroddiad sy'n cael ei lunio am hynny, a wnewch gynnal adolygiad llywodraethol trylwyr o drefn lywodraethu ac atebolrwydd prosiectau Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt yn gweithredu fel y dylent a'u bod yn gwbl atebol i holl drigolion ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf?

**Y Prif Weinidog:** O ran Plas Madoc, mae'r archwilydwr wedi cwblhau eu hymchwiliadau a disgwylir yr adroddiad terfynol rywbryd fis nesaf. Fodd bynnag, gallaf ddweud yn fwy cyffredinol bod yr Adran dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol eisoes wedi comisiynu adolygiad llywodraethu, ac mae'r cam cyntaf wedi'i gwblhau. Mae nifer o argymhellion wedi'u gwneud i gryfhau'r trefniadau archwilio a monitro, a chaiff cynllun gweithredu ei lunio i roi'r argymhellion hynny ar waith ac i atgyfnerthu'r problemau mewn cysylltiad â'r drefn lywodraethu y soniasoch amdanynt ym Mhlas Madoc.

**William Graham:** Brif Weinidog, a ydych yn cytuno y dylai'r £238,000 sy'n cael ei wario ar hyfforddi staff yng Nghasnewydd i ymchwilio i anghenion cymunedau arwain at ganlyniad gwirioneddol er mwyn osgoi unrhyw ddrwgdeimlad mewn cyfnod o ddirwasgiad?

**Y Prif Weinidog:** Mae partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn gyfrifol am wario arian yn y ffordd fwyaf effeithiol er budd eu cymunedau lleol. Os oes unrhyw faterion ehangach yn codi o ran y modd y cânt eu

the decisions that they take, they will be drawn into the review process that I mentioned.

### ‘One Wales’

**Q6 Leanne Wood:** Will the First Minister make a statement on the progress of the ‘One Wales’ agreement commitments? OAQ(3)2494(FM)

**The First Minister:** We are making good progress in delivering our ‘One Wales’ commitments. Our achievements to date include introducing the foundation phase, the ProAct initiative, establishing the Climate Commission for Wales, and passing substantive Measures, such as those on learner travel and on children and families.

**Leanne Wood:** A key component of ‘One Wales’ is for the coalition Government and the people of Wales to play the fullest part possible in reducing our carbon emissions. The agreement commits to providing an energy strategy with actions to promote energy efficiency. To contribute to those commitments, will you consider introducing the boiler scrappage scheme that was recently announced for England, as it does not apply in Wales?

**The First Minister:** We have heard of the boiler scrappage scheme in England and we are waiting to see what Barnett consequential there might be for the Assembly Government. Once that is known, a decision will be taken as to how that Barnett consequential is to be spent.

**Alun Cairns:** First Minister, one ‘One Wales’ commitment relates to offering free laptops to schoolchildren. Education was a priority that you outlined in your bid to become Labour leader and First Minister, and the Prime Minister has also pursued a separate scheme of home access in England. What is the latest on the progress made on that promise, and is that not taking money from the essential elements in schools, such as books, paper, in some respects, and school buildings, which are falling down or are well

llywodraethu neu’r penderfyniadau a gymerant, byddant yn cael eu cynnwys yn y broses adolygu y soniais amdani.

### ‘Cymru’n Un’

**C6 Leanne Wood:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd ymrwymadau cytundeb ‘Cymru’n Un’? OAQ(3)2494(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni ein hymrwymadau yn ‘Cymru’n Un’. Mae ein llwyddiannau hyd yn hyn yn cynnwys cyflwyno’r cyfnod sylfaen, y fenter ProAct, sefydlu Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, a phasio Mesurau sylweddol, megis y rhai ar deithio gan ddysgwyr ac ar blant a theuluoedd.

**Leanne Wood:** Elfen allweddol o ‘Cymru’n Un’ yw bod y Llywodraeth glymblaid a phobl Cymru’n chwarae cymaint o ran ag sy’n bosibl er mwyn lleihau ein hallyriadau carbon. Mae’r cytundeb yn ymrwmo i ddarparu strategaeth ynni gyda chamau gweithredu i hybu defnyddio ynni’n effeithlon. Er mwyn cyfrannu at yr ymrwymadau hynny, a wnewch ystyried cyflwyno’r cynllun sgrapio boeleri a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn Lloegr, oherwydd nid yw’r cynllun yn berthnasol i Gymru?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi clywed am y cynllun sgrapio boeleri yn Lloegr ac yr ydym yn disgwyl i weld pa swm canlyniadol yn sgîl Barnett y gallai Llywodraeth y Cynulliad ei gael. Pan fydd hynny’n hysbys, gwneir penderfyniad ynghylch sut i wario’r swm canlyniadol hwnnw.

**Alun Cairns:** Brif Weinidog, mae un ymrwymiad yn ‘Cymru’n Un’ yn cyfeirio at gynnig gliniaduron am ddim i blant ysgol. Yr oedd addysg yn flaenoriaeth a amlinellwyd gennych yn eich ymgyrch i fod yn arweinydd y blaid Lafur ac yn Brif Weinidog, ac mae Prif Weinidog y DU hefyd wedi mynd ar drywydd cynllun ar wahân yn Lloegr i ddarparu mynediad at gyfrifiadur gartref. Beth yw’r wybodaeth diweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran yr addewid hwnnw, ac onid yw hynny’n dwyn arian oddi ar yr

behind on repair and maintenance work?

elfennau allweddol mewn ysgolion, megis llyfrau, papur, mewn rhai achosion, ac adeiladau ysgolion, sy'n mynd â'u pen iddynt neu sydd ymhell ar ei hôl hi o ran gwaith cynnal a chadw?

**The First Minister:** The school buildings improvement grant and the twenty-first century schools programme have gone a long way towards repairing the damage that was caused when your party was in government. I was in school in the 1980s, and I remember what it was like to be sat in a classroom where the floor had fallen away from the wall and ivy was growing up the inside wall. That was the reality of Tory education policy in the 1980s. It did not matter to the Conservative Party, of course, because its Ministers sent their children to private schools, so they did not notice. It is a very old-fashioned approach to take to education to say that books and writing are important. They are, but that is somehow to say that information technology is not. We need to make sure that our people have all the skills that they need in the future, and IT skills will be as important as the basic skills that we know have been so important in years gone by. We have come a substantial way towards ensuring that school buildings are fit for purpose and repairing the damage caused during so many years of Tory government.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r grant gwella adeiladau ysgolion a'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain wedi cyfrannu llawer at gywiro'r difrod a achoswyd pan oedd eich plaid mewn llywodraeth. Yr oeddwn yn yr ysgol yn yr 1980au, a chofiaf sut beth oedd eistedd mewn ystafell ddosbarth lle yr oedd y llawr wedi dod yn rhydd oddi wrth y wal ac iorwg yn tyfu ar y wal. Dyna oedd realiti'r sefyllfa dan bolisi addysg y Torïaid yn yr 1980au. Nid oedd y Blaid Geidwadol yn poeni, wrth gwrs, oherwydd yr oedd Gweinidogion y blaid yn anfon eu plant i ysgolion preifat, felly ni wnaethant sylwi. Mae dweud bod llyfrau ac ysgrifennu'n bwysig yn dangos agwedd hen ffasiwn iawn at addysg. Ydynt, maent yn bwysig, ond mae hynny i raddau fel petai'n awgrymu nad yw technoleg gwybodaeth yn bwysig. Mae angen inni sicrhau bod gan ein pobl yr holl sgiliau y mae eu hangen arnynt yn y dyfodol, a bydd sgiliau TG yr un mor bwysig â'r sgiliau sylfaenol sydd, fel y gwyddom, wedi bod mor bwysig yn y blynyddoedd a fu. Yr ydym wedi gwneud llawer o waith er mwyn sicrhau bod adeiladau ysgolion yn addas i'w diben gan gywiro'r difrod a achoswyd gan lywodraeth Doriaidd dros gynifer o flynyddoedd.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Carwyn, I welcome you to your debut at First Minister's questions. As has already been mentioned, in your leadership campaign, you highlighted the importance of education and said that it was an area that needed improvement, with which I agree wholeheartedly. You made a specific commitment to look at spending on education and to raise it by 1 per cent over what was in the block grant. When can Welsh schools and educational institutions expect you to make good on that promise?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Carwyn, croeso i'ch sesiwn gyntaf o gwestiynau i'r Prif Weinidog. Fel y soniwyd eisoes, yn eich ymgyrch ar gyfer yr arweinyddiaeth, tynasoch sylw at bwysigrwydd addysg a dweud ei fod yn faes y mae angen ei wella, a chytunaf â hynny i'r carn. Gwnaethoch ymrwymiad penodol i edrych ar wariant ar addysg a'i gynyddu 1 y cant yn fwy na'r swm yn y grant bloc. Pryd y gall sefydliadau addysgol ac ysgolion Cymru ddisgwyl y byddwch yn gwireddu'r addewid hwnnw?

**The First Minister:** I have said it many times and, although I am now speaking in my capacity as First Minister, I will tell you again what I said at the time: I will look to do that from 2011 onwards—in other words, in

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi dweud droeon ac, er fy mod yn siarad yn rhinwedd fy swydd fel Prif Weinidog yn awr, ailadroddaf ichi'r hyn a ddywedais ar y pryd: byddaf yn ceisio gwneud hynny o 2011

the next budget year.

**Kirsty Williams:** That is disappointing, First Minister. Although the promises that were made grabbed the headlines during the leadership contest, it is action today that will truly change the life chances of children in Wales. While we wait for you to fulfil the promise that you made during the leadership campaign, Welsh children will continue to leave school with fewer qualifications than their English counterparts. Currently, 9,000 Welsh children are in classes of over 30 in key stage 2 and half the unemployed people in Wales are under the age of 25. Will you not look again at your budget priorities and act to help those Welsh children now, not just in 2011?

**The First Minister:** The Government has increased its spending on education by a substantial amount, as you know. It is one of our largest budgets and there have been tremendous improvements in education over the past few years. Our results have improved. Capital spend on schools has improved tremendously and you can see the results of that now. We are improving our education system and we will continue to do so. However, I said during the leadership context that my promise was for 2011 onwards. I said that many times in public. We already have a budget in place for this financial year and it is a budget that the Assembly voted on. The commitment that I made was to examine it from the next financial year onwards and to take it forward.

**Kirsty Williams:** Those children who are currently in classes of over 30 and those parents who looked to you and the headlines of your leadership campaign and hoped for change will be sorely disappointed this afternoon. While you claim that things are getting better, if you look at activity in further education, sixth forms, community education, higher education and work-based learning, you will see that it contracted in the last 12 months rather than expanded. Despite what you said during your leadership

ymlaen—mewn geiriau eraill, yn y flwyddyn gyllidebol nesaf.

**Kirsty Williams:** Mae hynny'n siomedig, Brif Weinidog. Er bod yr addewidion a wnaethpwyd wedi cipio'r penawdau yn ystod yr ymgyrch ar gyfer yr arweinyddiaeth, y camau a gymerir heddiw fydd yn gwir newid cyfleoedd bywyd plant yng Nghymru. Wrth inni ddisgwyl i chi gyflawni'r addewid a wnaethoch yn ystod eich ymgyrch i fod yn arweinydd, bydd plant Cymru'n parhau i ymadael â'r ysgol gyda llai o gymwysterau na'u cyfoedion yn Lloegr. Ar hyn o bryd, mae 9,000 o blant Cymru yng nghyfnod allweddol 2 mewn dosbarthiadau gyda dros 30 o ddisgyblion ac mae hanner y bobl ddi-waith yng Nghymru o dan 25 oed. A wnewch ailedrych ar flaenoriaethau eich cyllideb a gweithredu i helpu'r plant hynny yng Nghymru yn awr, yn hytrach nag yn 2011?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Llywodraeth wedi cynyddu ei gwariant ar addysg yn sylweddol, fel y gwyddoch. Mae'n un o'n cyllidebau mwyaf ac mae gwelliannau aruthrol wedi'u cyflawni ym maes addysg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae ein canlyniadau wedi gwella. Mae'r gwariant cyfalaf ar ysgolion wedi gwella'n aruthrol a gallwch weld canlyniadau hynny'n awr. Yr ydym yn gwella ein system addysg a byddwn yn parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, dywedais yn ystod yr ymgyrch ar gyfer yr arweinyddiaeth fod fy addewid ar gyfer 2011 ymlaen. Dywedais hynny ar goedd droeon. Mae gennym eisoes gyllideb ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol hon ac mae'n gyllideb y pleidleisiwyd arni gan y Cynulliad. Yr ymrwymiad a wneuthum oedd ymchwilio i'r mater o'r flwyddyn ariannol nesaf ymlaen a bwrw ymlaen ag ef.

**Kirsty Williams:** Bydd y plant hynny sydd ar hyn o bryd mewn dosbarthiadau gyda dros 30 o ddisgyblion, a'r rhieni a oedd yn sgîl penawdau eich ymgyrch ar gyfer yr arweinyddiaeth yn gobeithio y byddai newid yn siomedig iawn y prynhawn yma. Er eich bod yn honni bod pethau'n gwella, os edrychwch ar weithgaredd mewn addysg bellach, dosbarthiadau chwech, addysg gymunedol, addysg uwch, a dysgu seiliedig ar waith, gwelwch fod y maes wedi crebachu yn ystod y 12 mis diwethaf yn hytrach nag

campaign, you are not prepared to act. First Minister, will you reconsider and bring forward a supplementary budget to address the concerns of the teachers, lecturers and parents of Wales at the current time, or will you be the kind of First Minister who talks the talk, but does not walk the walk?

**The First Minister:** I had hoped for a question without clichés, but I was disappointed. I intend to keep the promise that I made, which was to look at increasing spending, along the lines that you mentioned, from 2011 onwards. We already have a substantial education budget and I would certainly never want to make promises that are unaffordable, unlike the wild promises that are often made by your party.

#### Legislative Priorities

**Q7 Jonathan Morgan:** Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's legislative priorities for 2010? OAQ(3)2516(FM)

**The First Minister:** We will continue to introduce new items of legislation into the Assembly. You will recall the legislative statement that was made on 14 July, and a number of those items are currently going through the legislative process with the aim of securing their delivery at the earliest opportunity.

**Jonathan Morgan:** As the First Minister is aware, since that statement was made, the Minister for Health and Social Services has announced that she is seeking a legislative competence Order to devolve powers to Wales to alter the system of organ donation. The system of presumed consent operates in many parts of western Europe and there are some strong arguments in favour of and against such change. Spain is held up as a model of the presumed consent system, but one of the defining features of the Spanish model is that it applies across the country. If we were to go down this particular road, we would be the only member state in the European Union in which a different legal system applied in one part of the member

ehangu. Er gwaethaf yr hyn a ddywedasoch yn ystod eich ymgyrch ar gyfer yr arweinyddiaeth, nid ydych yn barod i weithredu. Brif Weinidog, a wneuch ailystyried a chyflwyno cyllideb atodol er mwyn rhoi sylw i bryderon athrawon, darlithwyr a rhieni yng Nghymru ar hyn o bryd, ynteu a fyddwch yn Brif Weinidog sy'n siarad llawer ond yn gwneud dim?

**Y Prif Weinidog:** Yr oeddwn wedi gobeithio clywed cwestiwn heb ystrydebau, ond cefais fy siomi. Bwriadaf gyflawni'r addewid a wneuthum, sef ystyried cynyddu'r gwariant, yn debyg i'r hyn a grybwyllasoch, o 2011 ymlaen. Mae gennym eisoes gyllideb addysg sylweddol ac yn sicr, ni fyddwn byth bythoedd am wneud addewidion na ellir eu fforddio, yn wahanol iawn i'r addewidion ffôl a wneir yn aml gan eich plaid.

#### Blaenoriaethau Deddfwriaethol

**C7 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau deddfwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2010? OAQ(3)2516(FM)

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn parhau i gyflwyno eitemau newydd o ddeddfwriaeth i'r Cynulliad. Byddwch yn cofio'r datganiad deddfwriaethol a wnaethpwyd ar 14 Gorffennaf, ac mae nifer o'r eitemau hynny'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd drwy'r broses ddeddfwriaethol gyda'r nod o sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno pan ddaw'r cyfle cyntaf i wneud hynny.

**Jonathan Morgan:** Fel y gŵyr y Prif Weinidog, ers gwneud y datganiad hwnnw, mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyhoeddi ei bod yn gwneud cais am Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol i ddatganoli pwerau i Gymru er mwyn newid y system rhoi organau. Mae'r system caniatâd tybiedig ar waith mewn sawl rhan o orllewin Ewrop ac mae dadleuon cryf o blaid ac yn erbyn newid o'r fath. Defnyddir Sbaen fel enghraifft o'r system caniatâd tybiedig, ond un o briod nodweddion y model yn Sbaen yw bod y system ar waith ledled y wlad. Petaem yn penderfynu dilyn y llwybr penodol hwn, ni fyddai'r unig aelod-wladwriaeth yn yr Undeb Ewropeaidd gyda system gyfreithiol

state to the rest of it. What study has the Welsh Assembly Government undertaken of other systems of presumed consent to see whether it is sensible for Wales to have a separate legal system to the rest of the UK?

**The First Minister:** We must remember that as far as most western European countries that are part of the European Union are concerned, there are no boundaries. They are all within the Schengen agreement area. However, there are differences in the consent regimes, despite the fact that there are few differences in the physical or political boundaries. As far as Wales is concerned, it is in the nature of devolution that we have different legislative frameworks. We had such a situation with the smoking ban. Some of us would have preferred to have seen it even earlier in Wales, but we did have the smoking ban before England and Northern Ireland and that worked. Devolution means that there will be occasions when we, in Wales, will introduce what we feel is the most appropriate and the best legislation. It is important that we are able to do that without always thinking that we cannot do anything differently to the way that it is done in England. I know that you do not hold that view, but it is unfortunately a view that many of your MPs in Westminster hold.

2.20 p.m.

**Nerys Evans:** Er mwyn cyflawni amserlen ddeddfu Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid cael y pwerau perthnasol yn y Cynulliad. Dechreuodd y Llywodraeth y broses o gael y pwerau hynny ym maes tai fforddiadwy yn 2007, dair blynedd yn ôl. Yr ydym oll yn ymwybodol o'r problemau rhwng Llywodraeth y Cynulliad a San Steffan ynglŷn â hyn. A ydych yn ffyddiog y bydd yr LCO drafft yn cael ei gymeradwyo cyn yr etholiad cyffredinol, ac a allwch chi sicrhau y bydd y pwerau yma erbyn mis Mai? A wnewch chi hefyd flaenoriaethu i sicrhau bod Mesur yn dilyn o'r LCO hwn, a bod Cymru felly'n medru gwireddu ei dyheadau polisi ym maes tai fforddiadwy, oherwydd, wedi'r

wahanol mewn grym mewn un rhan o'r aelod-wladwriaeth o'i gymharu â'r gweddill. Pa astudiaeth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gwneud o systemau caniatâd tybiedig eraill i weld a yw'n synhwyrol i Gymru gael system gyfreithiol wahanol i weddill y DU?

**Y Prif Weinidog:** Rhaid inni gofio nad oes ffiniau rhwng y rhan fwyaf o wledydd yng ngorllewin Ewrop sy'n rhan o'r Undeb Ewropeaidd. Mae pob un ohonynt o fewn ardal cytundeb Schengen. Fodd bynnag, er nad oes llawer o wahaniaeth o ran ffiniau ffisegol na gwleidyddol, ceir gwahaniaethau yn y trefniadau caniatâd. O safbwynt Cymru, mae'n rhan o natur datganoli fod gennym fframweithiau deddfwriaethol gwahanol. Yr oedd gennym sefyllfa o'r fath gyda'r gwaharddiad ar ysmegu. Byddai'n well gan rai ohonom petai hynny wedi cael ei gyflwyno hyd yn oed yn gynharach yng Nghymru, ond yr oedd y gwaharddiad ar ysmegu ar waith yma cyn Lloegr a Gogledd Iwerddon, a gweithiodd hynny. Mae datganoli'n golygu y bydd adegau pan fyddwn ni, yng Nghymru, yn cyflwyno'r hyn yr ydym ni'n barnu mai dyna yw'r ddeddfwriaeth orau a mwyaf priodol. Mae'n bwysig inni allu gwneud hynny heb feddwl drwy'r amser na allwn wneud pethau'n wahanol i'r ffordd y gwneir pethau yn Lloegr. Gwn nad ydych yn arddel y safbwynt hwnnw, ond yn anffodus mae'n farn y mae llawer o'ch ASau yn San Steffan yn ei harddel.

**Nerys Evans:** In order to achieve the Welsh Government's legislative timetable, the Assembly needs the relevant powers. The Government has started the process of drawing down those powers for affordable housing in 2007, three years ago. We are all aware of the problems between the Assembly Government and Westminster on this issue. Are you confident that this draft LCO will be approved before the general election, and can you ensure that the powers will be here with us by May? Will you also prioritise matters to ensure that a Measure follows this LCO, and that Wales can therefore realise its policy aspirations in the area of affordable housing, because, after all, that is what a Government

cyfan, dyna'r hyn y mae Llywodraeth i fod i'w wneud?

**Y Prif Weinidog:** Mae Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 yn mynd i sicrhau y bydd ei adroddiad ar gael erbyn 29 Ionawr, fel y deallaf. Bydd Pwyllgor Materion Cymreig San Steffan hefyd yn paratoi adroddiad. Y cam nesaf fydd sicrhau Gorchymyn drafft, ac yr ydym yn anelu at symud hynny ymlaen cyn gynted â phosibl.

### Ariannu Ysgolion

**C8 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ariannu ysgolion yng Ngogledd Cymru? OAQ(3)2497(FM)

Llongyfarchiadau i'r Prif Weinidog newydd. Mae'n bleser eich gweld yn ceisio ateb ein cwestiynau.

**Y Prif Weinidog:** Diolch, Eleanor, am eich geiriau.

Schools in north Wales are funded by local authorities using locally determined funding formulae that are set within a national regulatory framework and in consultation with local budget fora of stakeholders. Funding is mainly based on the numbers of pupils in schools.

**Eleanor Burnham:** I will try my best not to be cliché-ridden, particularly given that you tried to mock our leader earlier. We must face facts. As my leader suggested, your Government will look to increase education spending by at least 1 per cent above the block grant allocation. My constant contention is that perhaps you should have done a bit more to get a better block grant. Notwithstanding that, First Minister, when you look at the issues that are seriously affecting local authorities across north Wales, you will see that it is quite a pathetic situation. They are in what the American may call a no-win situation. When will you start to put some of these words into proper action? Do you agree that our help is long overdue to alleviate the huge constraints on some of these hard-pressed local authorities that are trying their best to do the right thing by the parents, governors and the pupils? Without

is supposed to do?

**The First Minister:** Legislation Committee No. 2 will ensure that its report is available by 29 January, as I understand it. The Welsh Affairs Committee at Westminster will also prepare a report. The next step will be to secure a draft Order, and we are aiming to take that forward as soon as is possible.

### School Funding

**Q8 Eleanor Burnham:** Will the First Minister make a statement on school funding in North Wales? OAQ(3)2497(FM)

Congratulations to the new First Minister. It is a pleasure to see you trying to answer our questions.

**The First Minister:** Thank you, Eleanor, for your words.

Ariennir ysgolion yn y gogledd gan awdurdodau lleol gan ddefnyddio fformiwlâu ariannu y penderfynir arnynt yn lleol ac a bennir o fewn fframwaith rheoleiddio cenedlaethol ac mewn ymgynghoriad â fforymau cyllidebau lleol o randdeiliaid. Mae'r arian yn cael ei seilio'n bennaf ar nifer y disgyblion mewn ysgolion.

**Eleanor Burnham:** Gwnaf fy ngorau i geisio osgoi ystrydebau, yn enwedig ar ôl ichi geisio gwawdio ein harweinydd yn gynharach. Rhaid inni wynebu ffeithiau. Fel yr awgrymodd fy arweinydd, bydd eich Llywodraeth yn ceisio cynyddu gwariant ar addysg o leiaf 1 y cant yn uwch na'r dyraniad grant bloc. Fy nadl i'n barhaus yw efallai y dylech fod wedi gwneud ychydig mwy o ymdrech i gael gwell grant bloc. Fodd bynnag, Brif Weinidog, pan edrychwch ar y materion sy'n effeithio'n ddifrifol ar awdurdodau lleol ledled y gogledd, gwelwch fod y sefyllfa'n eithaf truenus. Maent mewn sefyllfa lle nad oes neb ar eu hennill. Pryd y dechreuwch weithredu rhai o'r geiriau hyn? A ydych yn cytuno ei bod yn hen bryd inni helpu i liniaru'r rhwystrau anferth ar rai o'r awdurdodau lleol hyn sydd dan bwysau ac sy'n gwneud eu gorau glas i wneud y peth iawn o safbwynt y rhieni, y llywodraethwyr



that, how on earth will our economic revival take place?

**The First Minister:** It is a matter for local authorities to allocate sufficient levels of funding to schools in their areas. I am unsure what you mean when you say that they are in a no-win situation and that they are facing difficulties because you give no examples of that. Local authorities across Wales will look to allocate education budgets that are appropriate to their areas, remembering the difficult financial situation that we find ourselves in, not just in Wales or the rest of the UK, but also in many other countries.

**Gareth Jones:** Brif Weinidog, fe'n cyhuddir yn aml gan y gwrthbleidiau oherwydd bod gwariant y pen ar addysg yng Nghymru yn llawer is nag yn Lloegr ond, sawl tro yn y gorffennol, datganodd y Gweinidog a'r Prif Weinidog nad oes sail ddibynadwy i'r fath feirniadaeth gan fod y cyfundrefnau ar gyfer ariannu ysgolion yng Nghymru a Lloegr yn dra gwahanol. Un peth sy'n amlwg yw'r gwahaniaeth ym maint y gwariant ar addysg, ac felly yn ôl y disgybl, rhwng y 22 awdurdod yng Nghymru. I ba raddau yr ydych yn pryderu am hyn? A ydych yn debygol o adolygu'r sefyllfa er mwyn sicrhau tegwch ariannol, ac felly addysgiadol, i bob disgybl drwy Gymru?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn ceisio gwario arian ar blant ac ar sicrhau bod gan y plant hynny adeiladau ysgol da a gweddol newydd. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn cyfatebu'r nifer o blant sydd ganddynt gyda'r nifer o ysgolion sydd ganddynt. Mae'n bwysig hefyd sicrhau bod awdurdodau lleol yn dysgu oddi wrth ei gilydd er mwyn sicrhau hynny. Nid wyf yn erfyn i bob awdurdod wario'r un faint o arian drwy'r amser, ond bod pob awdurdod yng Nghymru yn gwario'r swm o arian y dylent ar addysg a hefyd yn sicrhau bod yr arian yn mynd i'r lleoedd iawn mewn addysg.

**Mark Isherwood:** Is it not the case that the budget formulae and allocations by the Welsh Government have generated a situation in which per-pupil funding in Wales

a'r plant? Heb hynny, sut yn y byd y llwyddwn i gyflawni ein hadferiad economaidd?

**Y Prif Weinidog:** Mater i'r awdurdodau lleol yw dyrannu lefelau digonol o gyllid i ysgolion yn eu hardaloedd. Nid wyf yn sicr beth a olygwch wrth ddweud eu bod mewn sefyllfa lle nad oes neb ar eu hennill a'u bod yn wynebu anawsterau oherwydd ni roddwch enghreifftiau o hynny. Bydd awdurdodau lleol ledled Cymru'n ceisio dyrannu cyllidebau addysg sy'n briodol i'w hardaloedd, gan gofio'r sefyllfa ariannol anodd yr ydym ynddi, nid yn unig yng Nghymru neu yng ngweddill y DU, ond mewn llawer o wledydd eraill hefyd.

**Gareth Jones:** First Minister, we are often accused by the opposition parties because per capita expenditure on education in Wales is far lower than it is in England but, many times in the past, the Minister and the First Minister have stated that there is no reliable basis to such a criticism because the school funding mechanisms in England and Wales are so different. One thing that is evident is the difference in the level of spending on education, and therefore per pupil, between the 22 authorities in Wales. To what extent are you concerned about that? Are you likely to review the position in order to secure financial, and therefore educational, equity for every pupil throughout Wales?

**The First Minister:** It is important that local authorities look to spend money on pupils and on ensuring that those pupils have good and relatively new school buildings. It is important that local authorities ensure that there is a correlation between the number of pupils they have and the number of schools. It is also important to ensure that local authorities learn from each other in order to deliver that. I do not expect every authority to spend the same amount of money at all times, just that every authority in Wales spends an appropriate amount on education and also ensures that the funding is targeted at the right places in education.

**Mark Isherwood:** Onid yw'n wir bod fformiwlâu a dyraniadau'r gyllideb gan Lywodraeth Cymru wedi creu sefyllfa lle y mae cyllid y pen i ddisgyblion yng Nghymru

is some £500 less than in England, and over £300 less even when London is excluded? In Wrexham, per-pupil funding is roughly £600 less than England, excluding London, and in Flintshire it is over £700 less than England, excluding London. How do you respond to the concerns expressed to me by headteachers and governors during the recess that the modernising schools agenda being implemented in accordance with the Welsh Government's modernising education agenda is driven more by resource implications than improvements in educational delivery, thereby risking sixth-forms, whole-school communities, school infrastructures and community resources?

**The First Minister:** It is important, above all else, that local authorities provide an educational infrastructure that is appropriate for the twenty-first century rather than times gone by. That means examining the numbers of pupils in their areas to see whether better provision could be made. That is ultimately a matter for local authorities. However, I do not accept that schools and local authorities in north Wales are somehow innately discriminated against by the formula. There has to be a formula in place and that means that some local authorities may get a higher level of funding from us than others, but the figures show that spending on schools has increased rapidly over the last 10 years. The fact that the amount of money going in to education has increased by that much demonstrates the commitment that this Government has made to education.

#### Gross Value Added

**Q9 Mark Isherwood:** Will the First Minister make a statement on the latest gross value added figures affecting Wales? OAQ(3)2508(FM)

**The First Minister:** The latest figures for Wales show that GVA was £45.6 billion in 2008, which is £15,237 per head and 74.3 per cent of the UK average.

**Mark Isherwood:** You referred to the figure of 74.3 per cent of the UK average, which was published last month. The figure for

tua £500 yn llai nag yn Lloegr, a thros £300 yn llai hyd yn oed ar ôl diystyru Llundain? Yn Wrecsam, mae cyllid y pen i ddisgyblion tua £600 yn llai nag yn Lloegr, ac eithrio Llundain, ac yn sir y Fflint mae dros £700 yn llai nag yn Lloegr, ac eithrio Llundain. Sut yr ydych yn ymateb i'r pryderon a fynegwyd imi gan benaethiaid a llywodraethwyr yn ystod y toriad fod yr agenda moderneiddio ysgolion sy'n cael ei rhoi ar waith, yn unol ag adenda moderneiddio addysg Llywodraeth Cymru, yn cael ei hysgogi'n fwy gan oblygiadau adnoddau yn hytrach na gwelliannau mewn addysg, a thrwy hynny, mae'n peryglu dosbarthiadau chwech, cymunedau ysgol gyfan, seilwaith ysgolion ac adnoddau cymunedol?

**Y Prif Weinidog:** Y peth pwysicaf yn anad dim yw bod awdurdodau lleol yn darparu seilwaith addysgol sy'n briodol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn hytrach na'r gorffennol. Mae hynny'n golygu ymchwilio i niferoedd y disgyblion yn eu hardaloedd i weld a ellid cyflwyno gwell darpariaeth. Yn y pen draw, mater i'r awdurdodau lleol yw hynny. Fodd bynnag, ni dderbyniaf fod y fformiwla rywsut yn gwahaniaethu yn erbyn ysgolion ac awdurdodau lleol yn y gogledd. Rhaid cael fformiwla ac mae hynny'n golygu bod rhai awdurdodau lleol efallai'n cael lefel uwch o gyllid gennym nag eraill, ond mae'r ffigurau'n dangos bod gwariant ar ysgolion wedi cynyddu'n gyflym yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae'r ffaith bod yr arian a ddarperir ar gyfer addysg wedi cynyddu cymaint yn dangos yr ymrwymiad y mae'r Llywodraeth hon wedi'i roi i addysg.

#### Gwerth Ychwanegol Crynswth

**C9 Mark Isherwood:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ffigurau gwerth ychwanegol crynswth diweddaraf sy'n effeithio ar Gymru? OAQ(3)2508(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer Cymru'n dangos bod gwerth ychwanegol crynswth yn £45.6 biliwn yn 2008, sef £15,237 y pen a 74.3 y cant o gyfartaledd y DU.

**Mark Isherwood:** Cyfeiriasoch at y ffigur 74.3 y cant o gyfartaledd y DU, a gyhoeddwyd fis diwethaf. Y ffigur ar gyfer

2008 is the latest figure available. The year 2008 was the tenth year of devolution and the tenth successive year that Wales has slipped even further behind. Not only is Wales the lowest nation of the UK in this league table, but the gap is widening among the 12 UK nations and regions. Worryingly, this preferred measure of economic prosperity shows that three of the five worst-affected areas of the UK, according to this preferred measure of regional economic prosperity, are in north Wales. Even in the industrial powerhouse of north Wales—Flintshire and Wrexham—GVA has fallen from 99.3 per cent of the UK average in 1999, at the time of devolution, to 85.6 per cent in the latest figures. Why, despite devolution, the doubling of the Welsh Government's budget since 1999, and billions of pounds in European Objective 1 and convergence fund money, is Wales still at the bottom of the league, and slipping, even before the recession took hold?

**The First Minister:** First of all, you have to look at the full range of statistics. Wales is maintaining an employment level above its historical average, with employment up 91,000 since the start of the Assembly, since devolution. That is a clear improvement. Employment in Wales has increased by 7.5 per cent since devolution, compared to 6.7 per cent for the UK as a whole over the same period. The claimant count in Wales is lower now—despite all the difficulties that we have seen—than at any time between mid 1980 and mid 1997. In November 2009, the number of people claiming jobseekers allowance fell both in Wales and in the UK for the first time since early 2008. We are on the right track, and you can see the devolution dividend in the way that our economy is growing. It shows that this Government is doing everything possible, despite the difficulties that we have seen at international level, to improve the Welsh economy.

**Jeff Cuthbert:** I am sure that you will agree that, again, these are crocodile tears from the Conservatives, who offer no solution.

2008 yw'r ffigur diweddaraf sydd ar gael. Y flwyddyn 2008 oedd degfed flwyddyn datganoli a'r ddegfed flwyddyn yn olynol y mae Cymru wedi llithro hyd yn oed ymhellach ar ei hôl hi. Cymru yw'r genedl isaf yn y DU yn y tabl cynghrair hwn, ond yn ogystal â hynny mae'r bwlch yn lledaenu rhwng 12 cenedl a rhanbarth y DU. Yr hyn sy'n peri pryder yw bod y dull hwn sy'n cael ei ffafrio ar gyfer mesur ffyniant economaidd yn dangos mai yng ngogledd Cymru y mae tair o'r pum ardal yr effeithiwyd arnynt waethaf yn y DU, o ran y dull hwn o fesur ffyniant economaidd rhanbarthol. Hyd yn oed ym mhwerdy economaidd y gogledd—sef sir y Flint a Wrecsam—mae gwerth ychwanegol crynswth wedi disgyn o 99.3 y cant o gyfartaledd y DU yn 1999, pan ddigwyddodd datganoli, i 85.6 y cant yn y ffigurau diweddaraf. Er gwaethaf datganoli, er gwaethaf dyblu cyllideb Llywodraeth Cymru ers 1999, ac er gwaethaf y biliynau o bunnau o arian Ewropeaidd Amcan 1 a chydgyfeirio, pam mae Cymru'n dal ar waelod y tabl ac yn llithro, hyd yn oed cyn i'r dirwasgiad ddechrau cydio?

**Y Prif Weinidog:** Yn gyntaf, rhaid ichi edrych ar yr ystod lawn o ystadegau. Mae Cymru'n cynnal lefel cyflogaeth sy'n uwch na'i chyfartaledd hanesyddol, gyda chyflogaeth wedi codi 91,000 ers sefydlu'r Cynulliad, ers dechrau datganoli. Mae hynny'n welliant amlwg. Mae cyflogaeth yng Nghymru wedi cynyddu 7.5 y cant ers datganoli, o'i gymharu â 6.7 y cant ar gyfer y DU yn gyfan dros yr un cyfnod. Mae'r niferoedd sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghymru'n is yn awr—er gwaethaf yr holl anawsterau yr ydym wedi'u profi—nag ar unrhyw adeg rhwng canol 1980 a chanol 1997. Ym mis Tachwedd 2009, disgynnodd nifer y bobl a oedd yn hawlio lwfans ceisio gwaith yng Nghymru ac yn y DU am y tro cyntaf ers dechrau 2008. Yr ydym ar y llwybr cywir, a gallwch weld datganoli'n dwyn ffrwyth yn y ffordd y mae ein heconomi'n tyfu. Mae'n dangos bod y Llywodraeth hon yn gwneud popeth posibl, er gwaethaf yr anawsterau yr ydym wedi'u gweld ar lefel ryngwladol, i wella economi Cymru.

**Jeff Cuthbert:** Yr wyf yn siŵr y cytunwch mai dagrau ffug, unwaith eto, yw'r rhain gan y Ceidwadwyr, nad ydynt yn cynnig dim un

[*Laughter.*]

They can laugh if they want, but they did not offer a solution. Is it not important to welcome the partnership approach taken by the Welsh Assembly Government and the Labour Government at Westminster in their efforts to tackle youth unemployment, particularly in relation to the Future Jobs fund? In my constituency, the borough council will be employing young people in order to develop their skills for future work—those are jobs that would not have existed otherwise. Does not our attitude contrast dramatically with the do-nothing attitude of the Conservative party?

2.30 p.m.

**The First Minister:** I think that you were being a little unfair on the Tories when you said that they were crying crocodile tears. I do not see any tears at all; I think that they are unrepentant. You only have to look at the response that David Cameron made to the difficulties that the world was experiencing at an economic level. He said that the best way forward—George Osborne said the same—was to do nothing: *laissez-faire*, and do nothing at all. If that had been the approach, we would have seen substantially more unemployment in Wales, substantial numbers of people losing the roof over their heads, and substantial numbers of factories closing. It shows that the Tories have not learned the lessons from the 1980s. Theirs is still the same old party; it is still the party with no answers.

**Chris Franks:** What fiscal and economic powers are you seeking for the Welsh Government to allow us the opportunity to tailor policies to benefit the people of Wales?

**The First Minister:** As you know, Chris, the Holtham commission is currently looking at the fiscal situation of the Assembly as an institution and how it is funded. You will be aware, of course, that the first tranche of its report has been produced. The next tranche of its report will be produced over the course of the summer, and we will examine the recommendations carefully to see what recommendations will be of benefit, not just

ateb. [*Chwerthin.*]

Gallant chwerthin os dymunant, ond ni chynigiasant ateb. Onid yw'n bwysig croesawu'r dull o weithio mewn partneriaeth a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Llywodraeth Lafur yn San Steffan yn eu hymdrechion i fynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc, yn enwedig mewn cysylltiad â chronfa Swyddi'r Dyfodol? Yn fy etholaeth, bydd y cyngor bwrdeistref yn cyflogi pobl ifanc er mwyn meithrin eu sgiliau ar gyfer gwaith yn y dyfodol—swyddi na fyddent wedi bodoli fel arall. Onid oes gwrthgyferbyniad dramatig rhwng ein hagwedd ni ac agwedd y blaid Geidwadol, nad yw am wneud dim?

**Y Prif Weinidog:** Credaf eich bod yn gwneud cam braidd â'r Torïaid pan ddywedasoch mai dagrau ffug a oedd ganddynt. Ni welais ddagrau o gwbl; credaf eu bod yn ddiedifar. Edrychwch ar yr ymateb a roddodd David Cameron i'r anawsterau yr oedd y byd yn eu hwynebu ar lefel economaidd. Dywedodd mai'r ffordd orau ymlaen—a dywedodd George Osborne yr un peth—oedd peidio â gwneud dim byd: *laissez-faire*, a pheidio â gwneud dim byd o gwbl. Pe baid wedi gweithredu yn y modd hwnnw, byddem wedi gweld llawer mwy o ddiweithdra yng Nghymru, niferoedd sylweddol o bobl yn colli'r to uwch eu pen, a niferoedd sylweddol o ffatrioedd yn cau. Mae'n dangos nad yw'r Torïaid wedi dysgu'r gwersi wedi'r 1980au. Yr un hen blaid ydyw o hyd; y blaid heb atebion.

**Chris Franks:** Pa bwerau ariannol ac economaidd yr ydych yn eu ceisio ar gyfer Llywodraeth Cymru i ganiatáu inni gael cyfle i sicrhau bod polisiau er budd pobl Cymru?

**Y Prif Weinidog:** Fel y gwyddoch, Chris, ar hyn o bryd mae comisiwn Holtham yn edrych ar sefyllfa ariannol y Cynulliad fel sefydliad a sut y caiff ei gyllido. Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, fod rhan gyntaf ei adroddiad wedi cael ei llunio. Bydd rhan nesaf ei adroddiad yn cael ei llunio yn ystod yr haf, a byddwn yn archwilio'r argymhellion yn ofalus i weld pa argymhellion a fydd er budd nid yn unig y sefydliad hwn ond er

to this institution but to the people of Wales as a whole.

budd pobl Cymru gyfan.

### Keeping Warm

**Q10 Lorraine Barrett:** Will the First Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to ensure that people in Wales can afford to keep warm during the winter? OAQ(3)2513(FM)

**The First Minister:** As you know, the Welsh Assembly Government offers heating and insulation grants through the home energy efficiency scheme. We have increased the funds available this financial year to nearly £23 million to provide assistance to householders in Wales.

**Lorraine Barrett:** Thank you for your response, First Minister. I know that the home energy efficiency scheme is much appreciated by many of my constituents who have improved insulation and heating in their homes. However, how careful people are and how aware they are of what they can do themselves to lower their energy bills is also key. Will you join me in welcoming the booklet, 'The little book of energy', which has been so helpful to all of us during this particular cold snap? It was produced by the Energy Retail Association. It has many practical tips on how to lower energy costs. Could you give some consideration to how we could perhaps expand on what is included in the booklet, and ensure that more people have access to the advice contained in it, and also the help that can be given through the home energy efficiency scheme?

**The First Minister:** It is surprising how much difference little actions can make, such as, for example, turning the heat in the house down by half a degree, and how much of a saving that can make. We all know that the home energy efficiency scheme has been a tremendous scheme in modernising the heating equipment that people have, but also in taking measures to reduce their energy use and to reduce heat loss from their houses. That obviously has an effect on the money in people's pockets. I welcome any publication

### Cadw'n Gynnes

**C10 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod pobl yng Nghymru'n gallu fforddio cadw'n gynnes yn ystod y gaeaf? OAQ(3)2513(FM)

**Y Prif Weinidog:** Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnig grantiau gwresogi ac inswleiddio drwy'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref. Yr ydym wedi darparu mwy o gyllid yn y flwyddyn ariannol hon, bellach mae bron yn £23 miliwn, er mwyn cynorthwyo deiliaid cartrefi yng Nghymru.

**Lorraine Barrett:** Diolch am eich ateb, Brif Weinidog. Gwn fod llawer o'm hetholwyr sydd wedi gwella inswleiddio a systemau gwresogi yn eu cartrefi yn gwerthfawrogi'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yn fawr. Fodd bynnag, mae pa mor ofalus yw pobl a pha mor ymwybodol ydynt o'r hyn y gallant ei wneud eu hunain i leihau eu biliau ynni hefyd yn allweddol. A wnewch ymuno â mi i groesawu'r llyfryn 'The little book of energy', sydd wedi bod mor ddefnyddiol i bob un ohonom yn ystod y cyfnod oer iawn hwn? Lluniwyd y llyfryn gan y Gymdeithas Manwerthu Ynni. Ynddo, ceir llawer o awgrymiadau ymarferol ynghylch sut i leihau costau ynni. A allech roi rhywfaint o ystyriaeth i sut y gallem efallai ychwanegu at yr hyn sydd yn y llyfryn, gan sicrhau bod mwy o bobl yn gallu cael gafael ar y cyngor sydd ynddo, a hefyd yr help y gellir ei roi drwy'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n rhyfeddol faint o wahaniaeth y gall camau bach ei wneud, megis, er enghraifft, troi'r gwres yn y cartref i lawr hanner gradd, a faint o arbedion sy'n deillio o hynny. Gwyddom i gyd fod y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref wedi bod yn gynllun eithriadol o ran moderneiddio offer gwresogi pobl, ond hefyd, o ran cymryd camau i ddefnyddio llai o ynni a cholli llai o wres o'u cartrefi. Yn amlwg, mae hynny'n cael effaith ar yr arian ym mhocedi pobl. Croesawaf unrhyw gyhoeddiad sy'n cyfrannu

that adds to our very strong drive to ensure that energy efficiency is taken forward, not just for the good of the environment and our carbon footprint, but to ensure that people spend less on energy in the future.

**Alun Cairns:** Earlier you said that you were still analysing the Barnett consequential resulting from the boiler scrappage scheme to see what sort of scheme could be taken forward in Wales. I put it to you that that is quite a weak answer, bearing in mind that the policy was made clear and the financial commitment behind it was in the pre-budget statement, which was made relatively early in December, well before Christmas. Is it not the case that if Labour is working in tandem at Westminster and in Cardiff, that money would have been known about immediately? I put it to you that it was known about immediately, but the reason why the boiler scrappage scheme has not been put forward in Wales, which would have capitalised on UK Government advertising, as well as the private sector advertising that is pushing the scheme now in England, is because of inaction by the Welsh Assembly Government. You are seeking to develop your own scheme for the sake of it, which will lead to more money being spent on advertising, less money being made available for boilers and for the people who need a much more efficient heating system.

**The First Minister:** What is it about those on the Conservative benches today that they all want to talk like barristers? How many times have I been told that something is being put to me? Let me give you a tip, Alun: make your questions shorter, and you might then get the answers that you want. I will tell you straight up that what you are suggesting is absolutely and utterly wrong. I reiterate the answer that I gave, which is that we are waiting to see what the consequential is. We do not know what that figure is yet, but once we have that consequential, it will be a matter for the Cabinet to decide what happens with it. That is the way in which things have always been done in such circumstances. It is certainly not the case that we are developing our own boiler scrappage scheme and are ignoring the scheme that is being put in place

at ein hymgyrch gref iawn i sicrhau bod defnyddio ynni'n effeithlon yn cael ei ddatblygu, nid er lles yr amgylchedd yn unig, o ran ein hól troed carbon, ond hefyd er mwyn sicrhau bod pobl yn gwario llai ar ynni yn y dyfodol.

**Alun Cairns:** Yn gynharach, wrth sôn am y cynllun sgrapio boeleri, dywedasoch eich bod yn dal i ddadansoddi symiau canlyniadol Barnett er mwyn gweld pa fath o gynllun y gellid ei gyflwyno yng Nghymru. Awgrymaf wrthyf mai ateb eithaf gwan yw hwnnw, a chofio bod y polisi wedi'i egluro a bod yr ymrwymiad sy'n sail iddo yn y datganiad rhag-gyllidebol, a gyhoeddwyd yn weddol gynnar ym mis Rhagfyr, ymhell cyn y Nadolig. Onid yw'n wir dweud petai'r blaid Lafur yn San Steffan ac yng Nghaerdydd yn cydweithio, yna byddent yn gwybod am yr arian hwnnw'n syth? Awgrymaf wrthyf fod hynny'n hysbys yn syth, ond y rheswm pam na chyflwynwyd y cynllun sgrapio boeleri yng Nghymru, a fyddai wedi gallu manteisio ar ymgyrch hysbysebu Llywodraeth y DU yn ogystal â'r holl hysbysebion gan y sector preifat sy'n gwthio'r cynllun ar hyn o bryd yn Lloegr, oedd oherwydd diffyg gweithredu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yr ydych yn ceisio llunio eich cynllun eich hun dim ond er mwyn bod gennych gynllun, a bydd hynny'n golygu y caiff mwy o arian ei wario ar hysbysebu, a bydd llai ar gael ar gyfer boeleri ac ar gyfer y bobl y mae arnynt angen system wresogi lawer mwy effeithlon.

**Y Prif Weinidog:** Beth sy'n bod ar y rhai ar feinciau'r Ceidwadwyr heddiw yn ceisio swnio fel bargyfreithwyr? Sawl gwaith yr wyf wedi clywed rhywun yn awgrymu rhywbeth wrthyf? Maddeuwch imi am roi gair o gyngor, Alun: gwnewch eich cwestiynau'n fyrrach, ac efallai y cewch yr atebion yr ydych am eu clywed. Dywedaf wrthyf yn ddiflwyn ar dafod fod yr hyn a awgrymwch yn hollol anghywir. Ailadroddaf yr ateb a roddais, sef ein bod yn aros i weld beth fydd y swm canlyniadol. Ni wyddom beth yw'r ffigur hwnnw eto, ond pan gawn y swm canlyniadol hwnnw, bydd yn fater i'r Cabinet benderfynu beth a wneir ag ef. Dyna sut y mae pethau wedi cael eu gwneud bob amser dan amgylchiadau o'r fath. Yn sicr, nid yw'n wir dweud ein bod yn datblygu ein cynllun sgrapio boeleri ein hunain ac yn

in England. Clearly, that is not the case; we take note of what is happening in England, we will look to see what consequential moneys are available, and then a decision will be taken in Wales.

**Alun Cairns:** I am grateful, Llywydd, for the opportunity to respond to the First Minister. The Barnett consequential is simply a mathematical formula that could be applied instantly. That answer is the weakest that you have given in your first questions session. Tell us what that figure is and how you are going to use the money, so that people out there will have some sort of certainty rather than having to wait and wait, to the extent that we will be well into the spring before this scheme can be used.

**The First Minister:** I thought that you understood finance, Alun. The simple fact is that the way in which departments in Westminster operate is this: if they produce a scheme, it is sometimes financed wholly or partly from within their own budgets, in which case there is no Barnett consequential. Sometimes, the scheme is financed with extra money from the Treasury, in which case there is a Barnett consequential. We are currently waiting to see what the amount of the Barnett consequential will be in the light of the announcement that was made last Wednesday.

**David Lloyd:** Yr wyf yn cymryd bod materion ynglŷn â lefelau biliau ynni y tu allan i'n dylanwad fel Cynulliad a Llywodraeth, ond yn ddiweddar mae pobl wedi bod yn dod ataf i ddweud bod pobl sy'n dioddef o ganser yn talu biliau ynni uwch na'r cyffredin gan eu bod, yn naturiol, yn treulio mwy o amser yn eu cartrefi o achos eu salwch, yn enwedig o ystyried tywydd garw y gaeaf hwn. Pa drafodaethau yr ydych wedi eu cael, neu yr ydych yn rhagweld y byddwch yn eu cael, i helpu pobl â chanser i gael rhyw fath o gymorth o ran eu biliau ynni?

**Y Prif Weinidog:** Mae rhai pobl sy'n dioddef o ganser yn cael cymorth drwy lwfansau fel y lwfans byw i'r anabl ac yn y blaen, a allai olygu eu bod yn cael y taliad ychwanegol a wneir os yw'r tymheredd yn

anwybyddu'r cynllun sy'n cael ei roi ar waith yn Lloegr. Yn amlwg, nid dyna'r sefyllfa; yr ydym yn cadw golwg ar yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr, byddwn yn aros i weld pa arian canlyniadol a fydd ar gael, ac yna gwneir penderfyniad yng Nghymru.

**Alun Cairns:** Yr wyf yn ddiolchgar, Lywydd, am y cyfle i ymateb i'r Prif Weinidog. Fformiwla fathemategol yw swm canlyniadol Barnett y gellid ei roi ai waith yn syth. Yr ateb hwnnw yw'r ateb gwannaf yr ydych wedi'i roi yn eich sesiwn gwestiynau gyntaf. Dywedwch wrthym beth yw'r ffigur hwnnw a sut yr ydych yn mynd i wario'r arian, er mwyn i'r cyhoedd gael rhywfaint o sicrwydd yn hytrach na gorfod aros ac aros, i'r graddau y bydd y gwanwyn wedi hen gyrraedd cyn y gellir defnyddio'r cynllun hwn.

**Y Prif Weinidog:** Yr oeddwn yn meddwl eich bod yn deall cyllid, Alun. Y gwir syml amdani yw mai dyma sut y mae adrannau yn San Steffan yn gweithredu: os ydynt yn creu cynllun, weithiau caiff ei gyllido'n gyfan gwbl neu'n rhannol o'u cyllidebau eu hunain, ac os mai felly y mae, nid oes swm canlyniadol Barnett. Weithiau, caiff y cynllun ei gyllido ag arian ychwanegol gan y Trysorlys, ac os mai felly y mae, ceir swm canlyniadol Barnett. Ar hyn o bryd, yr ydym yn disgwyl i weld faint o swm canlyniadol Barnett fydd yng ngoleuni'r cyhoeddiad a wnaethpwyd ddydd Mercher diwethaf.

**David Lloyd:** I assume that matters relating to energy bill levels are outside our influence as an Assembly and Government, but recently people have approached me to say that people who suffer from cancer are paying higher energy bills than average as they, naturally, have to spend more time in their homes because of their illness, and especially given the inclement weather this winter. What discussions have you had or do you anticipate having to help people with cancer to receive some kind of assistance with their energy bills?

**The First Minister:** Some people who suffer from cancer receive assistance through allowances such as the disability living allowance and so on, which could mean that they get the additional payment should the

gostwng yn is na 0 gradd Celsius am saith niwrnod yn olynol. Nid yw hynny'n wir am bawb sy'n dioddef o ganser, ond gobeithiaf y byddai nifer fawr o bobl sydd â chanser yn cael cymorth drwy'r grant hwnnw, yn enwedig yn ystod cyfnod anodd ac oer y diwrnodau diwethaf. Pe bai angen cymorth ar rywun, mae'n bosibl cysylltu ag ysbytai neu elusennau, ond gobeithiaf y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cael cymorth drwy daliadau ychwanegol.

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr i'r Prif Weinidog am ei atebion.

temperature drop below 0 degrees Celsius for seven consecutive days. That is not true of everyone who suffers from cancer, but I would hope that a great number of people with cancer would receive assistance through that grant, especially during the difficult and cold period over the last few days. If anyone should need assistance, it is possible to contact hospitals or charities, but I hope that the majority of people would receive assistance through additional payment.

**The Presiding Officer:** Thank you to the First Minister for his responses.

### **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement**

**The Minister for Business and Budget (Jane Hutt):** In addition to the earlier motion to agree the First Minister's recommendation to Her Majesty to appoint John Griffiths AM as Counsel General, the other change to today's planned Government business is a statement by the First Minister on the recent adverse weather conditions, which he will be making after the business statement. Business for the next three weeks is as set out in the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

**Nick Bourne:** I welcome the Minister for Business and Budget—or, technically, 're-welcome'—to her old job, and thank her for the statement. Minister, you will be aware that, during the recess, although I had been told otherwise, there was a written statement on business rate relief. We visited that issue many times in the Christmas term; there were assurances that a statement would be made before Christmas, and the Presiding Officer urged that it should be made in oral form. There are concerns throughout Wales, and, certainly in the area that I represent, there are many businesses that will suffer a massive increase in their rates bill. In Carmarthenshire, Powys, Ceredigion and Pembrokeshire—throughout that patch—many businesses will be hit very hard. Could you facilitate a debate in Government time on this, given that it is Government business, so that this whole matter can be aired? I am sure that Members across the Chamber have

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt):** Yn ychwanegol at y cynnig yn gynharach i gytuno ag argymhelliad y Prif Weinidog i Ei Mawrhydi benodi John Griffiths AC yn Gwnsler Cyffredinol, y newid arall ym musnes arfaethedig y Llywodraeth heddiw yw datganiad gan y Prif Weinidog am y tywydd garw'n ddiweddar, a gwnaiff hynny ar ôl y datganiad busnes. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, a welir ym mhapurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

**Nick Bourne:** Croesawaf y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb—neu'n dechnegol gywir, ei chroesawu'n ôl—i'w hen swydd, a diolch iddi am ei datganiad. Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod datganiad ysgrifenedig wedi'i wneud yn ystod y toriad ynghylch rhyddhad ardrethi busnes, er fy mod wedi cael gwybod nad felly y byddai. Trafodasom y mater hwnnw droeon yn ystod tymor y Nadolig; cawsom ein sicrhau y câi datganiad ei gyflwyno cyn y Nadolig, ac awgrymodd y Llywydd yn gryf y dylid ei gyflwyno'n llafar. Ceir pryderon ledled Cymru, ac, yn sicr yn yr ardal yr wyf yn ei chynrychioli, bydd cynnydd anferth ym mil ardrethi llawer o fusnesau. Yn sir Gaerfyrddin, Powys, Ceredigion a sir Benfro—ledled yr ardal honno—bydd llawer o fusnesau'n cael ergyd galed. A allech hwyluso dadl yn amser y Llywodraeth am hyn, o ystyried bod hwn yn fusnes y Llywodraeth, er mwyn gallu gwyntyllu'r holl fater? Yr wyf yn siŵr bod



concerns about the new regime for business rates.

2.40 p.m.

**Jane Hutt:** I am sure that you would have welcomed the announcement made by the Minister for Social Justice and Local Government, Carl Sargeant. Janet Jones, the chair of the Federation of Small Businesses in Wales, said that the fact that we have an above-inflation increase in the threshold for small business rates relief was an early Christmas present for many businesses in Wales. That was a demonstration by this Government that we want to support small businesses, and is a result of consultation and of the many discussions that have taken place prior to the announcement being made.

**Janet Ryder:** Minister, I am sure that, like me, you would like to congratulate the people of Bodelwyddan, who recently braved sub-zero temperatures to vote in their hundreds against a plan to treble the size of their village. Ninety-four per cent of those who voted voted against the housing scheme that Denbighshire County Council has decided to impose on the village without regard to local housing need or a sustainability assessment. It has decided to impose an additional 1,700 homes on a village of just 800 homes, effectively creating a dormitory town on the A55, which no doubt will be ideal for commuters to Chester or to Liverpool. Will you bring forward a debate in the Chamber on the north-east Wales/west Cheshire and Wirral spatial plan, which is driving these housing developments in the counties that make up the former Clwyd area? That is driving these developments way beyond the local need for some new growth in these communities. It is creating many dormitory towns and villages in that area. That spatial plan is having a worrying impact on many communities. Will you please make time for a debate on that in the Chamber?

**Jane Hutt:** I am aware of this situation, which is a local planning matter and is a matter for local planning decisions. The partnership that underpins our spatial planning arrangement across Wales is

gan Aelodau ar draws y Siambr bryderon am y drefn newydd ar gyfer ardrethi busnes.

**Jane Hutt:** Yr wyf yn siŵr y byddech wedi croesawu'r datganiad a wnaethpwyd gan Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Dywedodd Janet Jones, cadeirydd Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru, fod y ffaith bod gennym gynnydd uwch na chwyddiant yn y trothwy ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yn anrheg Nadolig gynnar i lawer o fusnesau yng Nghymru. Yr oedd hynny'n arwydd gan y Llywodraeth hon ein bod am gefnogi busnesau bach, ac mae'n deillio o ymgynghori ac o'r trafodaethau lu sydd wedi'u cynnal cyn gwneud y cyhoeddiad.

**Janet Ryder:** Weinidog, yr wyf yn siŵr y byddech, fel finnau, yn dymuno llongyfarch pobl Bodelwyddan, a oedd yn ddigon dewr i fynd allan mewn tymheredd is na'r rhewbwynt yn ddiweddar i bleidleisio yn eu cannoedd yn erbyn cynllun i dreblu maint eu pentref. Pleidleisiodd 94 y cant o'r rhai a bleidleisiodd yn erbyn cynllun tai y mae Cyngor Sir Dinbych wedi penderfynu ei wthio ar y pentref heb ystyried yr angen lleol am dai na gwneud asesiad cynaliadwyedd. Mae wedi penderfynu gwthio 1,700 o dai ar bentref o 800 o dai yn unig, gan greu tref noswyllo, i bob pwrpas, ar yr A55, a fydd heb os nac oni bai yn ddelfrydol ar gyfer cymudwyr i Gaer neu i Lerpwl. A wnewch gyflwyno dadl yn y Siambr ar gynllun gofodol gogledd-ddwyrain Cymru/gorllewin Caer a Chilgwri, sy'n ysgogi'r datblygiadau tai hyn yn y siroedd sy'n ffurfio hen ardal Clwyd? Mae'n ysgogi'r datblygiadau hyn sy'n llawer mwy na'r angen lleol am rywfaint o dwf newydd yn y cymunedau hyn. Mae'n creu llawer o drefi a phentrefi noswyllo yn yr ardal honno. Mae'r cynllun gofodol hwnnw'n cael effaith sy'n peri pryder ar lawer o gymunedau. A wnewch neilltuo amser ar gyfer dadl am hynny yn y Siambr?

**Jane Hutt:** Yr wyf yn ymwybodol o'r sefyllfa hon, sy'n fater cynllunio lleol ac sy'n fater ar gyfer penderfyniadau cynllunio lleol. Mae'r bartneriaeth sy'n sail i'n trefniant ar gyfer cynllunio gofodol ledled Cymru yn un

robust—it is a partnership of local authorities working with business, with the support of the Welsh Assembly Government. The opportunities that the spatial plan partnership in north-east Wales have taken forward are important given the planning requirements to ensure—and I know that you would agree with this point—that we have a sufficient supply of affordable housing in the region. I feel that there is sufficient partnership on spatial planning at the local and regional level to take this forward.

**Kirsty Williams:** I welcome the Minister back to her previous position. I will begin by asking whether she will ask the Minister for Health and Social Services for a statement on ambulance cover. I have been disturbed to learn that for much of the time over the Christmas period south Powys—an area that the Minister knows very well—was left without adequate ambulance cover. The ambulances in Crickhowell were constantly called to the Gwent valleys and the Brecon ambulance spent the majority of its time answering calls in Merthyr Tydfil. The Ystradgynlais ambulance spent most of its time in Rhondda Cynon Taf or in Swansea, thereby leaving the entire part of south Powys without adequate ambulance cover.

Secondly, would she ask the Minister responsible for the mountain rescue service to make a statement on what the National Assembly for Wales can do to assist it? As you will be aware, in recent days, we have seen the mountain rescue service, particularly in north Wales, respond repeatedly to life-threatening situations, taking walkers who became stuck on mountains to safety. Even yesterday, we saw mountain rescue teams assist the ambulance service to get patients to hospital, where ambulances did not have the resources or vehicles necessary to access rural areas.

You will be aware that the Government does not fund the mountain rescue service. To add insult to injury, the UK Treasury requires the mountain rescue service to pay vehicle excise duty on its vehicles and to pay VAT on its kit and equipment. Perhaps the Minister with

cadarn—mae'n bartneriaeth lle y mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda busnesau, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r cyfleoedd sydd wedi'u datblygu gan bartneriaeth y cynllun gofodol yn y gogledd-ddwyrain yn bwysig o safbwynt y gofynion o ran cynllunio i sicrhau bod gennym ddigon o dai fforddiadwy yn y rhanbarth—a gwn y byddech yn cytuno â'r pwynt hwn. Teimlaf fod partneriaeth ddigonol ar y lefel leol a rhanbarthol o ran cynllunio gofodol i fwrw ymlaen â hyn.

**Kirsty Williams:** Yr wyf yn croesawu'r Gweinidog yn ôl i'w hen swydd. Dechreuaf drwy ofyn a wnaiff ofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ddatganiad ynghylch gwasanaeth gan ambiwlansys. Yr wyf wedi dychryn o glywed nad oedd gwasanaeth ambiwlans digonol ar gael am gryn amser yn ystod cyfnod y Nadolig yn ne Powys—ardal y mae'r Gweinidog yn gyfarwydd iawn â hi. Cafodd yr ambiwlansys yng Nghrucywel eu galw'n gyson i gymoedd Gwent a threuliodd ambiwlans Aberhonddu y rhan fwyaf o'i amser yn ateb galwadau ym Merthyr Tudful. Treuliodd ambiwlans Ystradgynlais y rhan fwyaf o'i amser yn Rhondda Cynon Taf neu yn Abertawe, gan adael holl ardal de Powys heb wasanaeth ambiwlans digonol.

Yn ail, a wnaiff ofyn i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y gwasanaeth achub mynydd wneud datganiad am yr hyn y gall Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei wneud i'w gynorthwyo? Fel y gwyddoch, yn ystod y diwrnodau diwethaf, yr ydym wedi gweld y gwasanaeth achub mynydd, yn enwedig yn y gogledd, yn ymateb dro ar ôl tro i sefyllfaoedd lle y mae bywyd yn y fantol, gan gludo cerddwyr i ddiogelwch ar ôl mynd i drybini ar y mynyddoedd. Hyd yn oed ddoe, gwelsom dimau achub mynydd yn cynorthwyo'r gwasanaeth ambiwlans i gludo cleifion i'r ysbyty, lle nad oedd gan yr ambiwlansys yr adnoddau na'r cerbydau angenrheidiol i fynd i ardaloedd gwledig.

Byddwch yn ymwybodol nad yw'r Llywodraeth yn cyllido'r gwasanaeth achub mynydd. I roi halen ar y briw, mae Trysorlys y DU yn mynnu bod y gwasanaeth achub mynydd yn talu treth car ar ei gerbydau a TAW ar ei offer a'i gyfarpar. Efallai y

responsibility for this area could make representations to the London Government on exempting mountain rescue vehicles from VHD and VAT so that we can play our part in supporting that valuable service.

**Jane Hutt:** The performance of the Welsh Ambulance Services NHS Trust has improved considerably with increased ability of the last few months, but the pressures on the ambulance service in the past few weeks have been considerable—not just in Powys, but across Wales. This gives me an opportunity—as other Members have done—to thank our emergency services for the way in which they have responded to these adverse weather conditions. Looking specifically at Powys Teaching Local Health Board, performance levels have been sustained this month. Indeed, I understand that the local health board there is working to ensure that all vacancies are filled to reach a full complement and to ensure that it reaches its equity target.

You raised important points about the pressures resulting from this cold snap. The issues that you raised about the mountain rescue service are important. Some of the points relate to areas that are not devolved and will need to be raised with UK Government Ministers. However, I take on board the fact that it has played an important role over the last few months.

**Mark Isherwood:** Although I considered not standing up today to ask you for a statement on the boiler scrappage scheme in recognition of the First Minister's answers to questions on this, I have decided that I will still ask you for that statement for two reasons. The first is that I have been inundated—as, I am sure, have other Members—with e-mails from concerned constituents regarding this matter. The statement need not be, and should not be, an opportunity for Members in this Chamber to debate along party political or any other lines, but to ensure clarity and understanding.

I will give you two references. The first is from someone in Gwynedd, who said that

gallai'r Gweinidog sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros y maes hwn gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Llundain o blaid eithrio cerbydau achub mynydd rhag gorfod talu treth car a TAW er mwyn inni allu chwarae ein rhan o ran cefnogi'r gwasanaeth gwerthfawr hwnnw.

**Jane Hutt:** Mae perfformiad Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru wedi gwella'n sylweddol gyda mwy o allu yn y misoedd diwethaf, ond mae'r pwysau ar y gwasanaeth ambiwlans yn ystod yr wythnosau diwethaf wedi bod yn sylweddol—nid ym Mhowys yn unig, ond ledled Cymru. Mae hyn yn rhoi cyfle imi—fel y mae Aelodau eraill wedi gwneud—ddiolch i'n gwasanaethau brys am y modd y maent wedi ymateb i'r tywydd garw hwn. Gan edrych yn benodol ar Fwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys, mae lefelau'r perfformiad wedi cael eu cynnal y mis hwn. Yn wir, deallaf fod y bwrdd iechyd lleol yno'n gweithio i sicrhau bod yr holl swyddi gwag yn cael eu llenwi fel y bydd ganddo'r nifer llawn o weithwyr ac i sicrhau ei fod yn cyflawni ei darged o ran tegwch.

Codasoch bwyntiau pwysig am y pwysau sy'n deillio o'r cyfnod oer iawn hwn. Mae'r materion a godasoch am y gwasanaeth achub mynydd yn bwysig. Mae rhai o'r pwyntiau'n cyfeirio at feysydd nad ydynt wedi'u atganoli a bydd angen eu codi gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, derbyniaf y ffaith ei fod wedi chwarae rhan bwysig yn ystod y misoedd diwethaf.

**Mark Isherwood:** Er imi ystyried peidio â sefyll heddiw i ofyn cwestiwn ichi am y cynllun sgrappio boiler gan gydnabod atebion y Prif Weinidog ar y pwnc, yr wyf wedi penderfynu y gofynnaf ichi am y datganiad hwnnw am ddau reswm. Yn gyntaf, yr wyf wedi cael llw o negeseuon e-bost gan etholwyr—fel llawer o Aelodau eraill, yr wyf yn siŵr—sy'n pryderu am y mater hwn. Nid oes angen i'r datganiad—ac ni ddylai fod—yn gyfle i Aelodau yn y Siambr hon ddadlau o safbwynt pleidiol nac o unrhyw safbwynt arall, ond yn hytrach i sicrhau eglurder a dealltwriaeth.

Cyfeiriaf at ddau reswm dros hyn. Mae'r un gyntaf gan rywun o Wunedd, a ddywedodd,

although they met the requirements to secure this grant in full, they had failed in one important regard: they live in Wales. Another in the north east said that information is being released about the boiler scheme, but, yet again, the Government announces something that does not apply in Wales—or at least, I do not think that it will apply in Wales as there does not appear to have been an announcement regarding whether the Welsh Government will pick this up. That is the issue.

The second reason for my asking for this statement is that I am also advised that energy companies are bringing forward equivalent schemes that will not require Government funding, but for which steerage from the Welsh Government would be helpful to enable them to address their current heating needs.

**Jane Hutt:** It is simple, and I will not add to the points that have been made by the First Minister. I know that my colleague, Jane Davidson, is considering the issues and the scheme itself. As well as looking at the financial consequences, it is important to look at the scheme itself. As you indicated, this is something on which we can work in partnership with the energy sector. However, the home energy efficiency scheme is our main vehicle for addressing fuel poverty, and I am sure that there will be much more discussion on this in tomorrow's debate. This scheme has assisted some 105,000 households in Wales with heating and insulation measures at a cost of over £100 million. Let us recognise what we are doing in Wales.

**Eleanor Burnham:** Despite your warm words, some aspects of the home energy efficiency scheme defy logic. My experience of trying to help people has been frustrating. Could we ask for a proper Government statement or debate on the whole package of worries that have arisen over the last few weeks in relation to fuel poverty, insulation, boiler efficiencies, and all kinds of issues relating to poverty and the fact that people are trying and struggling to maintain their homes so that they can live in them

er eu bod yn bodloni'r gofynion i sicrhau'r grant hwn yn llawn, eu bod wedi methu ei gael am un rheswm pwysig: maent yn byw yng Nghymru. Dywedodd rhywun arall yn y gogledd-ddwyrain fod gwybodaeth yn cael ei rhyddhau am y cynllun boeleri, ond, unwaith eto, mae'r Llywodraeth yn cyhoeddi rhywbeth nad yw'n berthnasol i Gymru—neu o leiaf, nid wyf yn meddwl y bydd yn berthnasol i Gymru oherwydd nid yw'n ymddangos bod cyhoeddiad wedi'i wneud ynghylch a fydd Llywodraeth Cymru'n ei gyflwyno ai peidio. Dyna'r broblem.

Yr ail reswm dros ofyn am y datganiad hwn yw fy mod wedi clywed hefyd fod cwmnïau ynni'n cyflwyno cynlluniau tebyg na fydd arnynt angen cyllid gan y Llywodraeth, ond byddai awgrym i ba gyfeiriad y mae Llywodraeth Cymru'n mynd yn ddefnyddiol i'w galluogi i roi sylw i'w hanghenion gwresogi presennol.

**Jane Hutt:** Mae'n syml, ac nid ychwanegaf at y pwyntiau sydd wedi'u gwneud gan y Prif Weinidog. Gwn fod fy nghyd-Weinidog, Jane Davidson, yn pwysu a mesur y materion a'r cynllun ei hun. Yn ogystal ag edrych ar y canlyniadau ariannol, mae'n bwysig edrych ar y cynllun ei hun. Fel y dywedasoch, mae hwn yn fater y gallwn weithio arno mewn partneriaeth â'r sector ynni. Fodd bynnag, ein prif gyfrwng ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd yw'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, ac yr wyf yn siŵr y bydd llawer mwy o drafodaeth am hyn yn y ddatl yfory. Mae'r cynllun hwn, sydd wedi costio dros £100 miliwn, wedi cynorthwyo tua 105,000 o gartrefi yng Nghymru gyda mesurau inswleiddio a gwresogi. Gadewch inni gydnabod yr hyn yr ydym yn ei wneud yng Nghymru.

**Eleanor Burnham:** Er gwaethaf eich geiriau hynaws, mae rhai agweddau ar y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yn afresymegol. Mae fy mhrofiad o geisio helpu pobl wedi bod yn rhwystredig. A allem ofyn am ddatl neu ddatganiad priodol gan y Llywodraeth am yr holl bryderon sydd wedi codi dros yr wythnosau diwethaf ynglŷn â thlodi tanwydd, inswleiddio, effeithlonrwydd boeleri, a phob math o faterion yn ymwneud â thlodi yn ogystal â'r ffaith bod pobl yn ymdrechu ac yn brwydro i gynnal a chadw eu cartrefi er

comfortably?

Dr Dai Lloyd has previously mentioned cancer patients. I have in front of me a letter from Macmillan Cancer Support, which is extremely concerned about this. Last week, I noticed that the New Policy Institute discussed concerns regarding inefficiency and homes leaking energy because they are not properly insulated. We desperately need a holistic view of the issue.

I also urge you to have a Government debate on the spatial plan, possibly to dispel some of the myths and misconceptions that are abroad and the scaremongering that is being perpetuated by various people—I shall leave the question of who to your imagination.

2.50 p.m.

It is important that we dispel these myths and that we discuss the spatial plan using the good offices of Ministers here because there are some good aspects to the spatial plan, and people are misconstruing what it is all about. It is about time that we discussed what it is there for.

**Jane Hutt:** You raise many points in your questions to me as Minister for Budget and Business. Our revised fuel poverty strategy completed its consultation only last week. We are reviewing the responses. I am sure that there will be further discussion about this tomorrow and in the coming weeks. It is important to work together and to co-ordinate action to alleviate fuel poverty so that support and funding are focused on those most in need. Also, the First Minister's statement following questions to me this afternoon demonstrates the Government's co-ordinated response to the adverse weather conditions. That response has a particular impact in helping people to keep warm, as Lorraine Barrett raised in her questions to the First Minister.

I welcome your point about the spatial plan and the partnership in north-east Wales. We

mwyn iddynt allu byw ynddynt yn gyfforddus?

Mae Dr Dai Lloyd wedi sôn o'r blaen am gleifion canser. Mae gennyf lythyr o'm blaen gan Gymorth Canser Macmillan, sy'n poeni'n arw am hyn. Yr wythnos diwethaf, sylwais fod y Sefydliad Polisiâu Newydd wedi trafod pryderon yn ymwneud ag aneffeithlonrwydd a chartrefi'n gollwng ynni am nad ydynt wedi'u hinswleiddio'n briodol. Mae gwir angen agwedd gyfannol arnom ar y mater hwn.

Fe'ch anogaf hefyd i gael dadl gan y Llywodraeth am y cynllun gofodol, o bosibl er mwyn chwalu rhai o'r mythau a'r camsyniadau sydd ar led a'r bwganod sy'n cael eu codi gan amrywiol bobl—gadawaf y cwestiwn ynghylch pwy sy'n gwneud hyn i'ch dychymyg.

Mae'n bwysig inni chwalu'r mythau ac inni drafod y cynllun gofodol drwy garedigrwydd y Gweinidogion yma oherwydd ceir rhai agweddau da ar y cynllun gofodol, ac mae pobl yn camddeall beth yw ei ddiben. Mae'n hen bryd inni drafod beth yw'r rheswm dros ei gael.

**Jane Hutt:** Yr ydych yn codi llawer o bwyntiau yn eich cwestiynau imi fel Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb. Daeth yr ymgynghoriad ar ein strategaeth ddiwygiedig ar dlodi tanwydd i ben yr wythnos diwethaf. Yr ydym wrthi'n adolygu'r ymatebion. Yr wyf yn siŵr y bydd rhagor o drafodaethau am hyn yfory ac yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae'n bwysig gweithio gyda'n gilydd a chydlynu camau gweithredu er mwyn lliniaru tlodi tanwydd er mwyn i'r cymorth a'r cyllid ganolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf anghenus. Hefyd, mae datganiad y Prif Weinidog wedi'r cwestiynau i mi y prynhawn yma yn dangos ymateb cydgysylltiedig y Llywodraeth i'r tywydd garw. Mae'r ymateb hwnnw'n cael effaith benodol o ran helpu pobl i gadw'n gynnes, fel y crybwyllodd Lorraine Barrett yn ei chwestiynau i'r Prif Weinidog.

Yr wyf yn croesawu eich pwynt am y cynllun gofodol a'r bartneriaeth yn y gogledd-

need to shed more light rather than heat on this and recognise that local authorities are at the forefront of taking regional development forward.

**Andrew R.T. Davies:** Leader of the House, I seek two statements from you, both of which I hope are close to your own heart. The first relates to Cardiff airport and the bankruptcy—by default, almost—of the airline, Flyglobespan. It was going to start transatlantic routes from Cardiff airport in June of this year. It now leaves the airport with no transatlantic route because of the failure of XL Airways and of Zoom Airlines before that. The resources that the Welsh Assembly Government have put into the air service between north and south Wales means that it has little or no resources to help route activation. I therefore seek a statement from the Deputy First Minister and the Minister for the Economy and Transport as to how he sees the Government playing an active role in seeking out new route opportunities for Cardiff airport, because Cardiff airport is now the only major regional airport that no longer has a transatlantic connection.

Secondly, on the defence training academy, we had the disappointing news by the Westminster Government last week that contracts will not be signed this side of a general election and that there is work still pending. I appreciate that much of the work that is done on this scheme is a Westminster issue, but I would be grateful if the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport could again provide a written statement to ascertain exactly what the problems are in bringing the contract to fruition. Time and again we seem to get so close to the finishing line. I take no comfort from standing here talking about this because I am as big a supporter as you of the defence training academy. However, many people in the locality are somewhat bemused by the delays that are currently piling up with this facility despite the rather good news that was announced yesterday of some preparatory work that will be carried out on the site. It is now critical that we have a timeframe and

ddwyrain. Mae angen inni daflu mwy o oleuni yn hytrach na gwres ar y mater hwn gan gydnabod bod awdurdodau lleol ar flaen y gad o ran datblygu rhanbarthol.

**Andrew R.T. Davies:** Arweinydd y Tŷ, gofynnaf am ddau ddatganiad gennyh, a gobeithio bod y ddau'n agos iawn at eich calon. Mae'r un cyntaf yn ymwneud â maes awyr Caerdydd, a'r ffaith bod y cwmni awyrennau Flyglobespan wedi mynd i'r wal—yn ddamweiniol, bron. Yr oedd am ddechrau teithiau dros yr Iwerydd o faes awyr Caerdydd ym mis Mehefin eleni. Bellach, nid oes gan y maes awyr yr un daith dros yr Iwerydd oherwydd methiant XL Airways a Zoom Airlines cyn hynny. Mae'r adnoddau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u rhoi i'r gwasanaeth awyr rhwng y gogledd a'r de wedi golygu mai ychydig iawn o adnoddau sydd ganddi er mwyn helpu i ysgogi teithiau. Felly, gofynnaf am ddatganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth am sut y mae'n gweld y Llywodraeth yn chwarae rôl weithredol o ran chwilio am gyfleodd newydd ar gyfer teithiau i faes awyr Caerdydd, oherwydd maes awyr Caerdydd yw'r unig faes awyr rhanbarthol mawr nad oes ganddo gysylltiad dros yr Iwerydd mwyach.

Yn ail, mewn cysylltiad â'r academi hyfforddiant amddiffyn, cawsom newyddion siomedig yr wythnos diwethaf gan Lywodraeth San Steffan na fydd contractau'n cael eu llofnodi cyn yr etholiad cyffredinol a bod gwaith i'w wneud o hyd. Yr wyf yn sylweddoli bod llawer o'r gwaith a wneir ar y cynllun hwn yn fater i San Steffan, ond byddwn yn ddiolchgar petai'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn cyflwyno datganiad ysgrifenedig arall i ganfod beth yn union yw'r problemau wrth geisio gwireddu'r contract. Dro ar ôl tro, mae'n ymddangos ein bod yn dod mor agos at y llinell derfyn. Nid yw sefyll yma yn siarad am hyn yn rhoi boddhad imi o gwbl oherwydd yr wyf yr un mor frwd fy nghefnogaeth i'r academi hyfforddiant amddiffyn â chithau. Fodd bynnag, mae llawer o bobl leol wedi'u drysu rywfaint gan yr oedi cynyddol mewn cysylltiad â'r cyfleuster hwn, er gwaethaf y newyddion da a gyhoeddwyd ddoe am

that we understand the obstacles that people are facing in drawing up these contracts. I would be grateful if the Minister could ask for a written statement from the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport so that we are informed about the obstacles in bringing the project to fruition.

**Jane Hutt:** I share your concerns about the future development of Cardiff airport, as indeed does the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport, who engages actively with the airport and its management and recognises that this is a key part of our economy, not only for south-east Wales but for the whole of Wales. The disappointment resulting from market conditions at Cardiff airport is something that we take seriously, and I will be discussing this with the Deputy First Minister.

On the defence technical college, the statement made by Bill Rammell, the Minister of State for the Armed Forces at the Ministry of Defence last week is to be welcomed because it gave us an update on the key project timescales involved with the investment decision that we are looking for, which is now confirmed.

We should welcome the confirmation that the project is on track. We have developed cross-party support, and support across the Assembly for this major investment, not just on the impact that it will have on south-east Wales—like the airport—but the impact it will have on the whole of Wales and the UK with regard to tactical training for the armed forces. We are working closely with both the MOD and Metrix to progress the scheme, which is going to bring huge opportunities. Like you, I welcome the fact that Metrix has been given the go-ahead on the £29 million early works contract to make sure that the site is ready for full-scale construction. Therefore, it is a positive response given the Minister's backing and the delivery of that contract for Metrix.

rywfaint o waith paratoi a gaiff ei wneud ar y safle. Mae'n hanfodol yn awr inni gael amserlen ac inni ddeall y rhwystrau a wynebir gan bobl wrth lunio'r contractau hyn. Byddwn yn ddiolchgar, Weinidog, petaech yn gofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth am ddatganiad ysgrifenedig er mwyn inni gael gwybod beth sy'n rhwystro'r prosiect hwn rhag cael ei wireddu.

**Jane Hutt:** Yr wyf finnau'n pryderu fel chithau am ddatblygiad maes awyr Caerdydd i'r dyfodol, a'r un modd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, sydd wrthi'n trafod gyda'r maes awyr a'i reolwyr ac sy'n cydnabod bod hyn yn rhan allweddol o'n heconomi, nid yn unig ar gyfer y de-ddwyrain ond ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r siom sy'n deillio o gyflwr y farchnad ym maes awyr Caerdydd yn fater yr ydym yn ei ystyried o ddifrif, a byddaf yn trafod y mater hwnnw gyda'r Dirprwy Brif Weinidog.

O ran y coleg technegol amddiffyn, rhaid croesawu'r datganiad a wnaed yr wythnos diwethaf gan Bill Rammell, y Gweinidog Gwladol dros y Lluoedd Arfog yn y Weinyddiaeth Amddiffyn, oherwydd rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am amserlenni allweddol y prosiect ynglŷn â'r penderfyniad ynghylch buddsoddi yr oeddem yn chwilio amdano ac sydd bellach wedi'i gadarnhau.

Dylem groesawu'r cadarnhad bod y prosiect ar y trywydd cywir. Yr ydym wedi meithrin cefnogaeth drawsbleidiol, a chefnogaeth ar draws y Cynulliad i'r buddsoddiad mawr hwn, nid yn unig o ran yr effaith a gaiff ar y de-ddwyrain—fel y maes awyr—ond yr effaith a gaiff ar Gymru gyfan a'r DU o safbwynt hyfforddiant tactegol ar gyfer y lluoedd arfog. Yr ydym yn cydweithio'n agos â'r Weinyddiaeth Amddiffyn a Metrix i ddatblygu'r cynllun, a ddaw â chyfluoedd anferth yn ei sgîl. Fel chithau, yr wyf yn croesawu'r ffaith bod Metrix wedi cael caniatâd i fwrw ymlaen â'r contract gwerth £29 miliwn ar y gwaith cynnar i sicrhau bod y safle'n barod ar gyfer gwaith adeiladu ar raddfa fawr. Felly, mae'n ymateb cadarnhaol o safbwynt cefnogaeth y Gweinidog a bod Metrix yn cyflawni'r contract hwnnw.

**Jonathan Morgan:** Minister, you will be aware that the owner of Llanishen reservoir, Western Power Distribution, is intent on draining the reservoir in response to its lack of success in securing building consent for houses. This raises a substantial number of issues, and not just those that need to be addressed by the local authority. I think that there are two particular issues that the Counsel General should address here in the Assembly. The first is whether Cadw is able to bring an action against Western Power Distribution for affecting a site that has recently been listed. I will place on record my thanks to the Minister for Heritage for agreeing to the proposal by Cadw to list the reservoir site for historical and architectural reasons. However, this calls into question whether the company can be permitted, in law, to drain a reservoir that has been listed by statutory bodies.

Secondly, I understand that there is a legal requirement for public bodies, including the Welsh Assembly Government, to maintain an adequate water supply in the event of a national emergency. If that is the case, I would like to know from the Counsel General what legal action could be brought against Western Power Distribution for that particular issue, which I understand is set out in statute. This is not just a Cardiff issue. There is a whole range of planning issues that Cardiff Council has to respond to, but there are wider issues beyond the capital city that I believe the Counsel General should respond to, if possible.

**Jane Hutt:** The Counsel General is sitting here today, listening to those points. I am aware that there is a judicial review pending on the situation relating to Llanishen, and I am sure that the Minister for Heritage will take on board the points that you have made today about Cadw.

**Jonathan Morgan:** Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod perchennog cronfa ddŵr Llanisien, sef Western Power Distribution, yn benderfynol o ddraenio'r gronfa ddŵr mewn ymateb i'w ddiffyg llwyddiant o ran sicrhau caniatâd i adeiladu tai. Mae hyn yn codi nifer sylweddol o faterion, ac nid yn unig y rhai y mae angen i'r awdurdod lleol roi sylw iddynt. Credaf fod dau fater penodol y dylai'r Cwnsler Cyffredinol roi sylw iddynt yma yn y Cynulliad. Y mater cyntaf yw a all Cadw ddwyn achos yn erbyn Western Power Distribution am effeithio ar safle sydd wedi'i restru'n ddiweddar. Hoffwn ddatgan ar goedd fy niolch i'r Gweinidog dros Dreftadaeth am gydsynio â'r cynnig gan Cadw i restru safle'r gronfa ddŵr am resymau hanesyddol a phensaernïol. Fodd bynnag, mae hyn yn codi'r cwestiwn a ellir rhoi hawl i'r cwmni, yn gyfreithiol, ddraenio cronfa ddŵr sydd wedi cael ei rhestru gan gyrff statudol.

Yn ail, deallaf fod gofyniad cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru, i gynnal cyflenwad dŵr digonol petai argyfwng cenedlaethol. Os yw hynny'n wir, hoffwn glywed gan y Cwnsler Cyffredinol pa gamau cyfreithiol y gellid eu dwyn yn erbyn Western Power Distribution mewn cysylltiad â'r mater penodol hwnnw, sydd yn ôl a ddeallaf wedi'i nodi mewn statud. Nid mater i Gaerdydd yn unig yw hwn. Ceir pob math o faterion cynllunio y mae'n rhaid i Gyngor Caerdydd ymateb iddynt, ond ceir materion ehangach sy'n mynd y tu hwnt i'r brifddinas a chredaf y dylai'r Cwnsler Cyffredinol ymateb iddynt, os yw'n bosibl.

**Jane Hutt:** Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn eistedd yma heddiw, yn gwranddo ar y pwyntiau hynny. Yr wyf yn ymwybodol bod adolygiad barnwrol yn yr arfaeth mewn cysylltiad â'r sefyllfa yn Llanisien, ac yr wyf yn siŵr y gwnaiff y Gweinidog dros Dreftadaeth ystyried y pwyntiau yr ydych wedi'u gwneud heddiw ynghylch Cadw.

### **Datganiad am y Tywydd Garw Diweddar Statement on Recent Adverse Weather Conditions**

**The First Minister:** We know that Wales, like other parts of the UK, is currently in the

**Y Prif Weinidog:** Gwyddom fod Cymru, fel rhannau eraill o'r DU, ar hyn o bryd yng



grip of the most sustained period of cold weather it has experienced for many years. More snow is expected to fall in south and mid Wales this afternoon, with weather warnings issued by the Met Office for many parts of Wales. Whilst the current forecast for north Wales is not as severe, it is likely that the cold weather could lead to some travel disruption, particularly on rural roads.

This is a particularly difficult time for older people, and there is pressure on social services to ensure that care is provided for those who are vulnerable. The conditions have created transport difficulties for meals on wheels and domiciliary care services, but these services are continuing to be maintained. In supporting these services, it is incumbent on everyone to be neighbourly and check on elderly and vulnerable relatives and neighbours to see how they are coping during this cold spell. It is at times like these that communities need to come together to look after those people who need help.

Our annual Keep Well This Winter campaign aims to remind people, especially the elderly and people with long-term conditions, of some simple ways to reduce the risks of the cold. They need to keep the home warm and avoid going outside if possible. Those who are over 60 are entitled to a winter fuel payment to help with heating bills. Of course, if people go out they should wrap up warm and be careful when out in icy weather, as pavements and paths can be very slippery as we know from tragic events that have happened over the course of the past week or so.

The impact of the cold weather is being felt largely by our transport infrastructure, with the prolonged wintry conditions diminishing salt reserves. These exceptional circumstances are being experienced in spite of the widespread action taken last year by local government to increase salt reserves.

3.00 p.m.

nghanol un o'r cyfnodau hwyaf o dywydd oer y mae wedi'i gweld ers blynyddoedd lawer. Disgwylir rhagor o eira yn y de a'r canolbarth y prynhawn yma, ac mae'r Swyddfa Dywydd wedi cyhoeddi rhybuddion tywydd garw mewn sawl rhan o Gymru. Er nad yw'r rhagolygon ar hyn o bryd ar gyfer y gogledd mor ddifrifol, mae'n debyg y gallai'r tywydd oer achosi rhai anawsterau wrth deithio, yn enwedig ar ffyrdd gwledig.

Mae hwn yn gyfnod arbennig o anodd i bobl hŷn, ac mae pwysau ar wasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu i unigolion sy'n agored i niwed. Mae'r amodau wedi achosi anawsterau teithio i'r rhai sy'n darparu gwasanaeth pryd ar glud a gwasanaethau gofal yn y cartref, ond mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu cynnal o hyd. I gefnogi'r gwasanaethau hyn, mae'n ddyletswydd ar bawb fod yn gymdogion da ac ymweld â pherthnasau a chymdogion hŷn, a'r rhai sy'n agored i niwed, i weld sut y maent yn ymdopi yn y tywydd oer hwn. Ar adegau fel hyn, mae angen i gymunedau ddod at ei gilydd i ofalu am unigolion y mae angen cymorth arnynt.

Nod ein hymgyrch flynyddol Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn yw atgoffa pobl, yn arbennig pobl hŷn a phobl â chyflyrau hirdymor, am ffyrdd syml o leihau'r peryglon y maent yn eu hwynebu yn sgîl yr oerfel. Mae angen iddynt gadw eu cartrefi'n gynnes, ac osgoi mynd allan os yw'n bosibl. Mae'r rhai sydd dros 60 oed yn gymwys i dderbyn taliad tanwydd gaeaf i helpu gyda biliau gwresogi. Wrth gwrs, os bydd pobl yn mynd allan, dylent wisgo'n gynnes, a bod yn hynod o ofalus y tu allan mewn tywydd rhewllyd, gan y gall palmentydd a llwybrau fod yn llithrig iawn, fel y gwyddom yn sgîl damweiniau trasig sydd wedi digwydd yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Mae'r tywydd oer wedi cael effaith fawr ar y seilwaith trafniadaeth, ac mae'r amodau gaeafol sy'n parhau yn golygu bod cronfeydd halen yn lleihau. Yr ydym yn wynebu'r amgylchiadau eithriadol hyn er gwaethaf y camau sylweddol a gymerwyd y llynedd gan lywodraeth leol i gynyddu cronfeydd halen.

We as a Government are continuing to do whatever is necessary to keep Wales moving and are working closely with local authorities and the emergency services to ensure that roads remain open and essential services continue to operate. While we are managing to keep trunk roads clear, it is likely that local authorities will face increasing pressures on existing salt stocks to maintain local roads. It is vitally important, therefore, that the public in Wales appreciates that not all roads will be salted to normal levels and that people take great care when driving.

The Department for Transport is leading at the UK level to ensure that available salt supplies are prioritised and deliveries effectively co-ordinated. It has been agreed that an equitable system is introduced for distributing available salt supplies across England, Scotland and Wales, with each country being responsible for distributing supplies to their local authorities as appropriate. Officials, in conjunction with the Welsh Local Government Association, are working with the UK Government and the salt suppliers to secure deliveries of salt to the authorities most in need in Wales ahead of the heavy snow forecast for this afternoon. Mutual aid between local authorities is being maximised to ensure that stocks are shared across areas and the WLGA has urged authorities to share as much as they can. Additionally, we are assisting local authorities, as far as we can, from our own supplies of salt.

Headteachers and governors of schools are being urged to keep schools open as far as possible, but they will make prudent decisions based on local circumstances. Local authorities are putting in place arrangements to ensure that examinations scheduled for this week take place as timetabled. Some authorities are centralising their examinations in one location and making arrangements to transport candidates to the centre if required. All examination centres in Wales were open yesterday. The Minister for Children, Education and Lifelong Learning has issued a

Yr ydym fel Llywodraeth yn parhau i wneud yr hyn sy'n angenrheidiol i sicrhau bod Cymru yn gallu parhau i symud, ac yr ydym yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol a'r gwasanaethau brys i sicrhau bod y ffyrdd yn dal ar agor, a bod gwasanaethau hanfodol yn parhau i weithredu. Er ein bod yn llwyddo i gadw'r cefnffyrdd yn glir, mae'n debyg y bydd mwy o bwysau ar gyflenwadau halen presennol yr awdurdodau lleol i gynnal ffyrdd lleol. Mae'n hynod bwysig, felly, i'r cyhoedd yng Nghymru sylweddoli na fydd pob ffordd yn cael ei graeanu hyd at y lefel arferol, a rhaid i bobl fod yn ofalus iawn wrth yrru.

Mae'r Adran Drafnidiaeth yn arwain ar lefel y Deyrnas Unedig i sicrhau bod y cyflenwadau halen sydd ar gael yn cael eu blaenoriaethu, a bod y broses o ddsbarthu'r halen yn cael ei chydlynu'n effeithiol. Cytunwyd bod system deg yn cael ei chyflwyno ar gyfer dosbarthu'r halen sydd ar gael ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban, a bydd pob gwlad yn gyfrifol am ddsbarthu cyflenwadau i'w hawdurdodau lleol fel sy'n briodol. Mae swyddogion, ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn cydweithio â Llywodraeth y DU, yn ogystal â chyflenwyr halen, i sicrhau bod yr awdurdodau lle y mae'r angen mwyaf yng Nghymru yn cael halen cyn yr eira trwm yr ydym yn ei ddisgwyl y prynhawn yma. Mae'r cymorth sy'n cael ei gynnig ar y cyd rhwng awdurdodau lleol yn cael ei gynyddu i'r eithaf i sicrhau bod cyflenwadau halen yn cael eu rhannu rhwng ardaloedd, ac mae CLILC wedi annog awdurdodau i rannu hynny a allant. Yn ogystal â hynny, yr ydym yn helpu awdurdodau lleol, hyd y gallwn, gyda'n cyflenwadau halen ein hunain.

Mae penaethiaid a llywodraethwyr ysgolion yn cael eu hannog i gadw ysgolion ar agor cyhyd ag sy'n bosibl, ond bydd yn rhaid iddynt wneud penderfyniadau synhwyrol, yn seiliedig ar amgylchiadau lleol. Mae awdurdodau lleol yn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod arholiadau sydd wedi cael eu trefnu ar gyfer yr wythnos hon yn cael eu cynnal yn unol â'r amserlen. Mae rhai awdurdodau'n canoli eu harholiadau mewn un lleoliad, ac yn gwneud trefniadau i gludo ymgeiswyr i'r ganolfan os oes angen. Yr oedd pob canolfan arholiadau yng Nghymru

separate statement on the examinations.

ar agor ddoe. Mae'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi cyhoeddi datganiad ar wahân am yr arholiadau hynny.

NHS Wales is maintaining essential services. There is significant pressure on both accident and emergency departments, and on medical bed capacity as the impact of a prolonged phase of very cold weather has increased admissions of people with trauma, heart and respiratory conditions and strokes. There has also been a significant increase in diarrhoea and vomiting cases across Wales. Elective surgery is being affected to accommodate additional trauma cases and to provide flexible capacity for medical patients.

Mae GIG Cymru'n cynnal gwasanaethau hanfodol. Mae cryn bwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys, ac ar nifer y gwelyau meddygol sydd ar gael wrth i effaith cyfnod hirfaith o dywydd oer iawn beri bod mwy o bobl yn mynd i ysbytai gyda thrawma, cyflyrau ar y galon a chyflyrau anadlol, a strôcs. Mae cynnydd sylweddol wedi bod hefyd mewn achosion o ddolur rhydd a chwydu ledled Cymru. Effeithir ar lawdriniaethau dewisol i wneud lle i achosion trawma ychwanegol ac i ddarparu capasiti hyblyg ar gyfer cleifion meddygol.

Health services are also dependent on main routes being kept clear for access to services and to maintain crucial supplies, such as pharmaceuticals and blood. Roads to hospitals, doctors' surgeries and residential care settings are considered a priority for gritting purposes.

Mae gwasanaethau iechyd hefyd yn ddibynnol ar gadw'r prif lwybrau'n glir er mwyn cael mynediad at wasanaethau a chynnal cyflenwadau hanfodol, megis cynhyrchion fferyllol a gwaed. Ystyrir bod ffyrdd i ysbytai, meddygfydd a lleoliadau gofal preswyl yn flaenoriaeth ar gyfer graeanu.

The police and fire and rescue services are supporting other agencies as required. Ambulance movement has been restricted in places, but the emergency and voluntary services have been assisting with the use of four-by-four vehicles. There have been discussions regarding possible joint patrols between the police and ambulance services in order to maximise the use of four-by-four vehicles.

Mae'r heddlu a'r gwasanaethau tân ac achub yn cefnogi asiantaethau eraill yn ôl y gofyn. Mae wedi bod yn anodd i ambiwlansys symud mewn rhai mannau, ond mae'r gwasanaethau brys a'r gwasanaethau gwirfoddol wedi bod yn cynorthwyo drwy ddefnyddio cerbydau gyriant pedair olwyn. Mae trafodaethau wedi'u cynnal ynghylch trefnu patrolau ar y cyd o bosibl, rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau ambiwlans, er mwyn defnyddio'r cerbydau gyriant pedair olwyn yn y ffordd orau posibl.

The weather is causing problems for water companies, making access difficult to sites for normal operations and deliveries of chemicals to treatment works, and for attending frozen equipment and burst water mains. Currently, there is reasonable confidence in accessing sites but assistance may be required if the weather deteriorates significantly.

Mae'r tywydd yn achosi problemau i'r cwmnïau dŵr, gan greu anawsterau o ran cyrraedd safleoedd ar gyfer gwneud gwaith arferol a danfon cemegau i weithfeydd trin, yn ogystal â rhoi sylw i gyfarpar sydd wedi rhewi a phibellau dŵr sydd wedi byrstio. Ar hyn o bryd, maent yn weddol hyderus o ran cyrraedd safleoedd, ond mae'n bosibl y bydd angen cymorth arnynt os yw'r tywydd yn gwaethygu'n sylweddol.

There are some anecdotal reports of food stockpiling, but the supermarkets are not reporting any particular problems in the

Ceir rhai straeon am bobl yn prynu llawer o fwyd wrth gefn, ond nid yw'r archfarchnadoedd yn sôn am broblemau

supply chain. Businesses in general have been affected by the weather. Given the forecast of further disruption, the single biggest factor affecting confidence is the availability of salt to keep open the transport network. We, as a Government, have provided guidance and information to businesses with regard to severe weather, which will be reviewed on an ongoing basis. From today, the Welsh Assembly Government website provides information on the severe weather picture in Wales, with updates on the weather forecasts, how the severe weather may affect travel and schools across Wales, as well as guidance on keeping well and warm throughout the winter months.

I chaired a special meeting of the Cabinet yesterday to discuss the position. The Assembly Government's civil contingencies group is meeting daily to assess the wider consequences of the extreme weather and to consider the actions to be taken. Regional multi-agency strategic co-ordinating groups are also meeting to consider their local response.

Llywydd, I will, of course, keep Assembly Members updated regularly should the need arise.

**Brynle Williams:** Thank you, First Minister, for your comprehensive statement on what is happening. To work backwards through the statement, you said that the police are helping the other emergency services. A very bad case on the A55 came to my attention last week, to which I believe all police cars in the region had been called. I was told that the council phoned the police asking for a blue-light car simply to clear the way for the gritter and the snow plough to get out. The answer was, 'We don't have anything; sorry, can do nothing'. Can you please look into this matter, because it is serious? I am aware that we cannot keep a fleet of four-wheel-drive vehicles through the year, but they are essential. This has come from the head of highways in Flintshire. He is inundated. People will not move over for emergency vehicles.

penodol yn y gadwyn gyflenwi. Yn gyffredinol, mae'r tywydd wedi effeithio ar fusnesau. O ystyried bod mwy o drafferthion yn cael eu darogan, y pryder mwyaf yw faint o halen sydd ar gael i gadw'r rhwydwaith ffyrdd ar agor. Yr ydym ni, fel Llywodraeth, wedi darparu canllawiau a gwybodaeth i fusnesau am y tywydd garw, a bydd y rheini'n cael eu hadolygu'n barhaus. O heddiw ymlaen, mae gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu gwybodaeth am y sefyllfa o ran y tywydd garw yng Nghymru, gyda'r newyddion diweddaraf am ragolygon y tywydd, sut y gall y tywydd garw effeithio ar drefniadau teithio ac ysgolion ledled Cymru, yn ogystal â chanllawiau ar sut i gadw'n ddiogel ac yn gynnes drwy gydol misoedd y gaeaf.

Bûm yn cadeirio cyfarfod arbennig o'r Cabinet ddoe i drafod y sefyllfa. Mae grŵp argyfyngau sifil Llywodraeth y Cynulliad yn cyfarfod yn ddyddiol i asesu goblygiadau ehangach y tywydd eithafol, ac i ystyried y camau y dylid eu cymryd. Mae grwpiau cydlynau strategol aml-asiantaethol rhanbarthol hefyd yn cyfarfod i drafod sut i ymateb yn lleol.

Lywydd, byddaf wrth gwrs yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i Aelodau yn ôl yr angen.

**Brynle Williams:** Diolch ichi, Brif Weinidog, am eich datganiad cynhwysfawr am yr hyn sy'n digwydd. Gan ddechrau ar ddiwedd y datganiad, dywedasoed fod yr heddlu'n cynorthwyo'r gwasanaethau brys eraill. Tynnwyd fy sylw at achos gwael iawn ar yr A55 yr wythnos diwethaf, a chredaf fod pob car heddlu yn y rhanbarth wedi cael ei alw. Dywedwyd wrthyf fod y cyngor wedi ffonio'r heddlu yn gofyn am gar gyda golau glas arno er mwyn clirio'r ffordd i'r lori raeanu a'r aradr eira gael dod allan. Yr ateb oedd, 'Nid oes gennym ddim; mae'n flin gennym, ni allwn wneud dim'. A allwch ymchwilio i'r mater hwn os gwelwch yn dda, oherwydd y mae'n ddiffrifol? Yr wyf yn sylweddoli na allwn gadw fflyd o gerbydau gyriant pedair olwyn drwy gydol y flwyddyn, ond maent yn hanfodol. Daw'r cais hwn gan y pennaeth priffyrdd yn sir y Fflint. Mae'n gwegian dan y pwysau. Nid yw pobl yn fodlon symud o'r neilltu ar gyfer cerbydau

argyfwng.

I would also ask you to urge people to play a more neighbourly part, as you put it, in helping everyone out, and that also means in parking their vehicles on side streets in rural areas, as I mentioned in the earlier piece.

You made light of the issue of legal advice, but pavements are not being cleared, and that is tempting people to walk on the public highway. We are sure to see fatalities, if we have not seen any already. Someone has to take responsibility for this.

Can something be done about the illegal abandonment of cars, those who park inconsiderately over the weekend and people who leave their cars to go skiing, sledging and so on? It is making the emergency services' job extremely hard. It is bad enough as it is, but it is being exacerbated time after time, and I do not believe that this problem is unique to north Wales. It is the same for you, as you say, down here in south Wales and in other parts. This has to be addressed, and I am sorry, but you are the Government of the day and you somehow have to take the lead on this. Not only is this behaviour clogging up the roads, thereby causing health and safety problems, it is damaging business as well.

Also, how have the councils prepared for the coming weeks? We are only two weeks into the new year and it is quite possible that we could have this weather for another two months.

**The First Minister:** There is no doubt that a spell of warmer or milder weather would be of help, as it would enable local authorities in particular to build up their stocks further. However, we can never predict this. One of the questions that I have been asking is that, if the air temperature improves—the forecast for the end of the week is that the temperature will maybe rise to 7 degrees C—does that mean that gritting will no longer be required? Apparently, however, the road temperature can be significantly lower than the air temperature. There are sensors in

Hoffwn hefyd ofyn ichi erfyn ar bobl fod yn gymdogion gwell, fel y dywedasoeh, er mwyn rhoi help llaw i bawb, ac mae hynny hefyd yn golygu parcio'u cerbydau ar strydoedd ochr mewn ardaloedd gwledig, fel y soniais yn gynharach.

Yr ydych wedi sôn am fater cyngor cyfreithiol, ond nid yw palmentydd yn cael eu clirio ac mae hynny'n temtio pobl i gerdded ar y ffordd fawr. Mae rhywun yn siŵr o gael ei ladd, os nad yw hynny eisoes wedi digwydd. Mae'n rhaid i rywun ysgwyddo cyfrifoldeb dros hyn.

A ellir gwneud rhywbeth am bobl yn gadael eu ceir yn anghyfreithlon, y rhai sy'n parcio'n anystyriol ar benwythnosau a'r bobl hynny sy'n gadael eu ceir i fynd i sgïo, sledio ac yn y blaen? Mae'n gwneud gwaith y gwasanaethau brys yn anodd eithriadol. Mae'n ddigon dyrys fel y mae, ond mae'r sefyllfa'n gwaethygu dro ar ôl tro, ac ni chredaf fod y broblem hon yn unigryw i'r gogledd. Mae'r un peth yn wir i chithau, fel y dywedwch, yma yn y de ac mewn rhannau eraill. Rhaid rhoi sylw i hyn, ac mae'n flin gennyf, ond chi yw'r Llywodraeth sydd mewn grym a rhaid ichi gymryd yr awenau rywsut yn hyn o beth. Mae'r ymddygiad hwn nid yn unig yn tagu'r ffyrdd gan achosi problemau iechyd a diogelwch, ond mae hefyd yn niweidio busnes.

Hefyd, sut y mae'r cynghorau wedi paratoi ar gyfer yr wythnosau nesaf? Dim ond pythefnos sydd wedi bod yn y flwyddyn newydd ac mae'n ddigon posibl y gallai'r tywydd hwn bara am ddau fis arall.

**Y Prif Weinidog:** Nid oes amheuaeth na fyddai cyfnod o dywydd cynhesach neu fwynach yn helpu, oherwydd byddai'n galluogi awdurdodau lleol yn benodol i gronni mwy o gyflenwadau. Fodd bynnag, ni allwn ddarogan hyn. Un o'r cwestiynau yr wyf wedi bod yn eu gofyn yw, os yw tymheredd yr aer yn cynyddu—mae'r rhagolygon ar gyfer diwedd yr wythnos yn awgrymu y gallai'r tymheredd godi o bosibl i 7 gradd C—a yw hynny'n golygu na fydd angen graeanu mwyach? Fodd bynnag, yn ôl pob golwg, gall tymheredd y ffordd fod yn

trunk roads that determine whether a road should be gritted or not, or so I understand. It will therefore continue to be difficult for the foreseeable future.

I must emphasise that local authorities have taken action after last year to increase their supplies of salt, but this is, by some estimates, the most severe winter possibly for 47 years, and that, clearly, has meant that salt stocks have gone down further than would normally be the case.

On cars being illegally abandoned, if cars are left wilfully to obstruct the highway, it is quite simple: their owners can be prosecuted. If such instances occur, I urge people to call the police to enforce the clear passage of the highway.

I am saddened to hear of your experience of cars not giving way to emergency vehicles. That is a courtesy that we have become used to over many years. I urge people to give way to emergency vehicles, not just when the weather is bad, but at all times. It is clearly important that people allow emergency vehicles through at times when the weather is bad.

With regard to what you say about neighbourliness, so many people can receive comfort, have their lives improved, or have their spirits raised by a simple knock on the door and a word from somebody who might not be well known to them, but who they know as a neighbour. That can make a real difference to people's ability to get through the present cold weather. I have seen it many times with elderly people, and I will reiterate that I urge people to draw together and to show proper community spirit at all times, and particularly at this time when the weather is so bad.

3.10 p.m.

**Ann Jones:** Thank you for the statement. After this event is over, will you sit down and undertake a debriefing session about what has happened, particularly about the quick closure of schools without any real assessment of the situation? Many parents

llawer is na thymheredd yr aer. Yn ôl a ddeallaf, ceir synwryddion mewn cefnffyrdd sy'n pennu a oes angen graeanu ffordd ai peidio. Felly, bydd yn parhau'n anodd yn y dyfodol agos.

Rhaid imi bwysleisio bod awdurdodau lleol wedi cymryd camau ar ôl y llynedd i gynyddu eu cyflenwadau halen, ond hwn, yn ôl rhai amcangyfrifon, yw'r gaeaf mwyaf garw ers 47 mlynedd o bosibl, ac yn amlwg mae hynny wedi golygu bod cyflenwadau halen wedi lleihau mwy na'r arfer.

O ran gadael ceir yn anghyfreithlon, os caiff ceir eu gadael yn fwriadol gan greu rhwystr ar y briffordd, mae'n syml iawn: gellir erlyn eu perchnogion. Mewn achosion o'r fath, yr wyf yn annog pobl i ffonio'r heddlu er mwyn darparu llwybr clir ar y briffordd.

Mae'n siomedig iawn eich clywed yn sôn am geir yn gwrthod symud o'r neilltu ar gyfer cerbydau argyfwng. Mae hynny'n gwrteisi yr ydym wedi ymgyfarwyddo ag ef ers blyneddol lawer. Yr wyf yn erfyn ar bobl roi lle i gerbydau argyfwng, nid yn unig pan fydd y tywydd yn wael, ond bob amser. Mae'n amlwg ei bod yn bwysig i bobl roi lle i gerbydau argyfwng ar adegau pan fydd y tywydd yn wael.

O ran yr hyn a ddywedaso ch ynghylch bod yn gymydog da, mae clywed cnoc fach ar y drws a sgwrs gyda chymydog nad ydynt yn ei adnabod yn dda cyn hynny yn gallu rhoi cysur, gwella bywyd neu godi ysbryd llawer o bobl. Gall hynny wneud gwahaniaeth gwirioneddol i allu pobl i oroesi'r tywydd oer presennol. Yr wyf wedi gweld hynny droeon gyda phobl oedrannus, ac ailadroddaf fy mod yn annog pobl i ddod ynghyd a dangos ysbryd cymunedol ar ei orau drwy'r amser, ond yn enwedig yn y cyfnod hwn gyda thywydd mor arw.

**Ann Jones:** Diolch ichi am y datganiad. Pan fydd y digwyddiad hwn wedi dod i ben, a wnewch eistedd i lawr a chynnal sesiwn i drafod yr hyn sydd wedi digwydd, yn enwedig y ffaith bod ysgolion wedi cau'n sydyn heb asesiad gwirioneddol o'r sefyllfa?

were forced to make alternative childcare arrangements or to take time off work, which affects the economy, as we know.

On the issue of gritting, who is responsible for the gritting of the A55? I was under the impression that it is the Welsh Assembly Government's responsibility because it is a trunk road, but I am now led to believe that it is the local authority's responsibility to grit the road. There needs to be clarity as to who is responsible, so that people such as Brynle and I, who people turn to when such events happen, can get hold of the right person in order to learn whether or not the roads will be gritted. Will you agree to undertake a debriefing session after this event, which would go a long way, and to take evidence from people who have been working on the front line?

**The First Minister:** Yes, of course, Ann. On the school closures, it is difficult to second-guess the decision that has been taken locally. Times have changed. It was the case 20 or 30 years ago that children would go to school when the yards were slippery and dangerous, and they would be told not to go onto the yards. However, the culture has changed since that time. It is difficult to point the finger of blame at headteachers when they are trying to ensure that the safety of children comes first. However, that said, there will be a need over the course of the next few months, once the weather has improved, to see whether or not guidance to headteachers and school governing bodies can be improved.

The A55 is a trunk road. The legal responsibility for gritting trunk roads in the first instance lies with the Welsh Assembly Government, but, in reality, we contract out the work to the consortia of local authorities to do the gritting for us. The trunk road agency would normally do that; so, for example, on many roads, the gritting function is performed by one or two local authorities on behalf of the Government. On the gritting of non-trunk roads, the responsibility lies squarely with the appropriate local authorities. The only two roads that are directly gritted by the Assembly Government are the M4 and the M48; everything else is

Gorfodwyd llawer o rieni i wneud trefniadau eraill ar gyfer gofal plant neu gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith, sydd fel y gwyddom yn effeithio ar yr economi.

O ran graeanu, pwy sy'n gyfrifol am raeau'r A55? Yr oeddwn yn tybio mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru ydoedd gan ei bod yn gefnffordd, ond erbyn hyn caf ar ddeall mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw graeanu'r ffordd. Mae angen eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol, er mwyn i bobl fel Brynle a fi, y mae pobl yn troi atom ar adegau o'r fath, allu cysylltu â'r unigolyn cywir er mwyn cael gwybod a fydd y ffyrdd yn cael eu graeanu ai peidio. A wnewch gytuno i gynnal sesiwn i drafod y sefyllfa ar ôl y digwyddiad, a fyddai'n cyfrannu llawer, a gwrando ar dystiolaeth gan bobl sydd wedi bod yn gweithio ar y rheng flaen?

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf, wrth gwrs, Ann. O ran cau ysgolion, mae'n anodd ceisio rhagweld y penderfyniad sydd wedi'i gymryd yn lleol. Mae pethau wedi newid. Tua 20 neu 30 mlynedd yn ôl byddai plant wedi mynd i'r ysgol pan oedd iard yr ysgol yn llithrig ac yn beryglus, a byddent yn cael eu siarsio i beidio â mynd ar gyfyl yr iard. Fodd bynnag, mae'r diwylliant wedi newid ers hynny. Mae'n anodd rhoi'r bai ar benaethiaid pan fyddant yn ceisio sicrhau mai diogelwch y plant sydd bwysicaf. Fodd bynnag, ar ôl dweud hynny, bydd angen ystyried dros y misoedd nesaf, ar ôl i'r tywydd wella, a ellir gwella'r canllawiau i benaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion.

Cefnffordd yw'r A55. Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn y lle cyntaf, sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros raeau cefnffyrdd, ond mewn gwirionedd, yr ydym yn rhoi'r gwaith drwy contract i gonsortia o awdurdodau lleol i wneud y graeanu ar ein rhan. Yr asiantaeth cefnffyrdd fyddai fel arfer yn gwneud hynny; felly, er enghraifft, ar lawer o ffyrdd, cyflawnir y graeanu gan un neu ddau o awdurdodau lleol ar ran y Llywodraeth. O ran graeanu ffyrdd nad ydynt yn gefnffyrdd, yr awdurdodau lleol priodol sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros hynny. Yr unig ddwy ffordd sy'n cael eu graeanu'n uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad yw'r M4 a'r M48;

contracted out. However, there will be a need to ensure that this is made clearer in the future, so that when someone comes to you as a Member, Ann, with concerns about the state of a patch of the A55, you and other Members will know with whom the concern should be raised.

**Kirsty Williams:** Thank you for the statement, First Minister. On behalf of the Welsh Liberal Democrat group, I thank all of those who have played a huge part to date in trying to keep Wales moving during this unprecedented and prolonged cold snap. I refer to council workers, and not just those on the gritting machines, but those who are out on the footpaths as well, and to medical and care staff who are doing extraordinary things, such as staying in hospitals and care homes overnight to ensure that there is continuity of care for patients and for people in care homes. I also thank volunteers such as farmers in rural areas who are using their own equipment to try to clear roads, and other people who have taken the time and trouble, as you suggested, to keep an eye on vulnerable neighbours in their communities.

Turning to the issue of salt supplies, are you satisfied that the Salt Cell was established soon enough? There seems to be some evidence that the creation of this mechanism is easing some of the concerns of local authorities, but are you convinced that it was set up within an appropriate timescale? Initially, especially at the end of last week, there were concerns about the way in which the Department for Transport was operating the Salt Cell. Are you convinced that there is a rigorous, consistent and transparent way in which salt reserves are allocated to Scotland, Wales and England? Are you and your officials convinced that Wales is getting its fair share? If there are calls by the Department for Transport for a significant cut in spreading—I understand that it suggested at one stage that Wales needed to cut back its spreading by some 25 per cent—will such demands be made equitably across the UK so that Wales is not put at more of a disadvantage than Scotland or England? Will you confirm that in allocating salt reserves in

caiff popeth arall ei wneud drwy gcontract. Fodd bynnag, bydd angen sicrhau bod y sefyllfa hon yn gliriach yn y dyfodol, felly pan fydd rhywun yn sôn wrthyech, Ann, yn rhinwedd eich swydd fel Aelod, am bryderon ynghylch cyflwr rhan o'r A55, byddwch chi a'r Aelodau eraill yn gwybod gyda phwy y dylech godi'r mater.

**Kirsty Williams:** Diolch ichi am y datganiad, Brif Weinidog. Ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, hoffwn ddiolch i bob un sydd wedi chwarae rhan anferth hyd yn hyn wrth geisio cadw Cymru i symud yn ystod y cyfnod oer hirfaith hwn na welwyd ei debyg. Cyfeirio yr wyf at weithwyr cyngor, ac nid y rhai ar y peiriannau graeanu'n unig, ond y rhai sydd allan ar y llwybrau traed hefyd, yn ogystal â staff meddygol a staff gofal sy'n gwneud gwaith eithriadol, megis aros mewn ysbytai a chartrefi gofal dros nos er mwyn sicrhau bod cleifion a thrigolion cartrefi gofal yn cael gofal di-dor. Diolch hefyd i'r gwirfoddolwyr, megis ffermwyr mewn ardaloedd gwledig sy'n defnyddio'u cyfarpar eu hunain i geisio clirio ffyrdd, a'r bobl eraill sydd wedi gwneud ymdrech, fel yr awgrymasoch, i gadw golwg ar gymdogion sy'n agored i niwed yn eu cymunedau.

Gan droi at fater cyflenwadau halen, a ydych yn sicr bod Salt Cell wedi'i sefydlu'n ddigon cynnar? Mae'n ymddangos bod rhywfaint o dystiolaeth bod sefydlu'r mecanwaith hwn yn lleddfu rhywfaint ar bryderon awdurdodau lleol, ond a ydych yn argyhoeddedig ei fod wedi'i sefydlu o fewn amserlen briodol? Yn wreiddiol, yn enwedig tua ddiwedd yr wythnos diwethaf, yr oedd pryderon am y ffordd yr oedd yr Adran Drafnidiaeth yn gweithredu'r Salt Cell. A ydych yn argyhoeddedig bod trefn drwyadl, gyson a thryloyw'n bodoli ar gyfer dyrannu cronfeydd halen i Gymru, yr Alban a Lloegr? A ydych chi a'ch swyddogion yn argyhoeddedig bod Cymru'n cael ei haeddiant? Os yw'r Adran Drafnidiaeth yn galw am leihad sylweddol mewn graeanu—deallaf fod awgrym ar un adeg y byddai angen i Gymru leihau tua 25 y cant ar ei gwaith graeanu—a fyddai galwadau o'r fath yn cael eu gwneud yn gyfartal ledled y DU fel nad yw Cymru ar ei cholled yn fwy na'r Alban neu Loegr? A wnewch gadarnhau,



Wales, a fair balance will be struck between centres of population such as Swansea, Cardiff and Newport, which are important to the economy, and those authorities that will be using their salt reserves to keep trunk roads open, which may have an effect on their ability to treat the county roads? If they are using their reserves to keep trunk roads open and cannot keep county roads open, that will have a significant impact on local politicians, who are trying to bid nationally but also need to satisfy local demands.

In responding to the increased pressures on hospital services, ranging from diarrhoea and vomiting through to slips, falls and even increased numbers of chest and heart complaints, can you give us an approximation of the impact on elective care, and how quickly we can anticipate getting hospital rotas back to normal so that those who are waiting for elective surgery are not kept waiting for longer than is absolutely necessary?

First Minister, I am sure that you will be aware that, for many elderly people and individuals who are on a low income, keeping their home warm during this spell can be a cause of considerable anxiety. Turning up the heating now could result in a hefty bill landing on their doorstep in the weeks and months to come, which has not been budgeted for. That can put people off heating their homes to an adequate level, which puts them in grave danger. You will be aware of the qualifying criteria for triggering cold weather payments, but are you aware that, in some areas of Wales, the temperature is measured a considerable distance from the locality? For example, the temperature measurements for Coelbren, with which I am sure you are familiar—it is at the top end of the Swansea valley in an exposed, hilly position—are taken in Swansea bay. Anyone who knows anything about the weather knows that the temperatures on the coast can be significantly different from inland temperatures, and yet cold weather payments to people in Coelbren are triggered only if Swansea and the Gower see consistently cold temperatures. It is the same for many parts of Neath Port Talbot and areas that are further

wrth ddyrannu cronfeydd halen yng Nghymru, y cedwir y ddysgl yn wastad rhwng canolfannau poblogaeth megis Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd, sy'n bwysig i'r economi, a'r awdurdodau hynny a fydd yn defnyddio'u cronfeydd halen i gadw cefnffyrdd ar agor, rhywbeth a all gael effaith ar eu gallu i drin ffyrdd gwledig? Os ydynt yn defnyddio'u cronfeydd i gadw cefnffyrdd ar agor ac nad ydynt yn gallu cadw ffyrdd gwledig ar agor, byddai hynny'n cael effaith sylweddol ar wleidyddion lleol, sy'n ceisio gweithredu'n genedlaethol ond y mae angen iddynt hefyd fodloni galwadau lleol.

Wrth ymateb i'r pwysau cynyddol ar wasanaethau ysbytai, o ddolur rhydd a chwydu i bobl yn llithro, disgyn a hyd yn oed cynnydd yn niferoedd y cwynion gyda'r frest a'r galon, a allwch roi rhyw syniad o'r effaith ar ofal dewisol, a pha mor gyflym y gallwn ragweld y bydd rotas ysbytai yn ôl i'r arfer fel nad yw'r rhai sy'n disgwyl am lawdriniaeth ddewisol yn gorfod disgwyl yn hwy na'r hyn sy'n hollol angenrheidiol?

Brif Weinidog, yr wyf yn siŵr y byddwch yn ymwybodol, i lawer o bobl oedrannus ac unigolion ar incwm isel, fod cadw eu cartref yn gynnes yn ystod y cyfnod hwn yn gallu peri cryn bryder iddynt. Gallai defnyddio mwy o wres yn awr arwain at gael bil sylweddol yn yr wythnosau neu'r misoedd nesaf, a hynny'n rhywbeth nad ydynt wedi cyllidebu ar ei gyfer. Gall hynny atal pobl rhag cynhesu eu cartref yn ddigonol, ac mae hynny'n berygl bywyd iddynt. Byddwch yn ymwybodol o'r meini prawf ar gyfer sbarduno taliadau tywydd oer, ond a ydych yn ymwybodol bod y tymheredd, mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, yn cael ei fesur gryn bellter o'r ardal leol? Er enghraifft, ym mae Abertawe y caiff y tymheredd ei fesur ar gyfer Coelbren, yr wyf yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â'r lle—mae ym mhen uchaf Cwm Tawe mewn safle agored, bryniog. Mae unrhyw un sy'n gwybod unrhyw beth am y tywydd yn gwybod bod y tymheredd ar yr arfordir yn gallu bod yn wahanol iawn i'r tymheredd ymhell o'r môr, ac eto rhaid i Abertawe a Gŵyr gael tymheredd isel cyson cyn y caiff taliadau tywydd oer eu rhoi i bobl yng Nghoelbren. Mae'r un peth yn wir am lawer o rannau eraill o Gastell-nedd Port

up in the valley. Will you consider holding discussions with whoever is responsible for designating the meteorological stations for localities, to ask them to look again at whether current provision is adequate? Will you make representations to Westminster, if that is where that decision lies? I am sure that you will agree that, as things currently stand, that is not an equitable way of triggering cold weather payments. Coelbren is much closer to Sennybridge, which has seen record low temperatures overnight in recent weeks, than it is to Swansea, and yet it is on the basis of the temperatures in Swansea bay that those payments are made.

I now want to return to an issue that I raised with the Minister for Business and Budget during the business statement, namely the position of the mountain rescue. First Minister, you will be aware that it has been incredibly busy during recent weeks, saving lives and assisting the statutory services to carry out their duties by using its vehicles instead of ambulances to get people out of their homes and to hospital. You will also be aware that it does not receive any Government funding and, perhaps in the current climate, we cannot afford to fund it directly. However, we could lobby the UK Government to look at what could be done to assist it by providing value-added tax reductions on its kit and equipment and exempting its vehicles from vehicle excise duty, which is currently not the case. That would go some way towards acknowledging the huge contribution that those teams of volunteers make in our communities and the work that they do to save people's lives during times like these.

**The First Minister:** Thank you, Kirsty. You made a number of points there. Salt Cell was set up at the right time but, before then, we were looking to assist local authorities, particularly with their trunk roads, using any surplus supplies that we had. You were right to point out that we need to ensure that salt is available for the trunk roads, given that they are our primary responsibility. When the salt delivery that we expect comes this week, we will look at which primary routes to prioritise. I am more than satisfied that we

Talbot ac ardaloedd ymhellach i fyny'r cwm. A wnewch ystyried cynnal trafodaethau gyda phwy bynnag sy'n gyfrifol am ddynodi'r gorsafoedd meteorolegol ar gyfer ardaloedd lleol, a gofyn iddynt ailystyried i weld a yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigonol? A wnewch gyflwyno sylwadau i San Steffan, os mai yno y gwneir y penderfyniad? Yr wyf yn siŵr y cytunwch, fel y mae pethau ar hyn o bryd, nad yw'n ffordd deg o fesur y trothwy ar gyfer dechrau talu taliadau tywydd oer. Mae Coelbren yn llawer nes at Bontsenni—lle y mae'r tymheredd wedi bod yn is nag erioed dros nos yn yr wythnosau diwethaf—nag Abertawe, ac eto ar sail y tymheredd yn Abertawe y gwneir y taliadau hynny.

Yn awr, hoffwn ddychwelyd at fater a godais gyda'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn ystod y datganiad busnes, sef sefyllfa'r gwasanaeth achub mynydd. Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod yr wythnosau diwethaf wedi bod yn gyfnod eithriadol o brysur iddo, yn achub bywydau ac yn cynorthwyo'r gwasanaethau statudol i gyflawni eu dyletswyddau drwy ddefnyddio'i gerbydau yn hytrach nag ambiwlansys i gludo pobl o'u cartrefi i'r ysbyty. Byddwch hefyd yn ymwybodol nad yw'n cael ceiniog o gyllid gan y Llywodraeth ac efallai, yn yr hinsawdd sydd ohoni, na allwn fforddio ei gyllido'n uniongyrchol. Fodd bynnag, galledd lobio Llywodraeth y DU i weld beth y gellid ei wneud i'w gynorthwyo drwy ddarparu gostyngiad mewn treth ar werth wrth brynu cyfarpar ac offer ac eithrio ei gerbydau rhag talu treth cerbyd, oherwydd y mae'n rhaid iddynt ei dalu ar hyn o bryd. Byddai hynny'n rhyw fath o gydnabyddiaeth o'r cyfraniad anferth a wna'r timau hynny o wirfoddolwyr yn ein cymunedau a'r gwaith a wnânt yn achub bywydau pobl ar adegau fel hyn.

**Y Prif Weinidog:** Diolch ichi, Kirsty. Yr ydych wedi gwneud sawl pwynt. Sefydlwyd Salt Cell ar yr adeg gywir ond yr oeddem yn ystyried cynorthwyo awdurdodau lleol cyn hynny, yn enwedig o safbwynt eu cefnffyrdd, drwy ddefnyddio unrhyw gyflenwadau dros ben a oedd gennym. Yr oeddech yn llygad eich lle wrth bwysleisio bod angen inni sicrhau bod halen ar gael ar gyfer y cefnffyrdd, o gofio taw'r rheini yw ein prif gyfrifoldeb. Pan ddaw'r cyflenwad halen yr ydym yn ei ddisgwyl yr wythnos hon,

have had an equitable allocation of salt. There has been a lot of discussion about how the salt should be distributed across the UK, and we have had at least our fair share of the salt. I am happy with the amount that we have had.

byddwn yn ystyried pa brif lwybrau i'w blaenoriaethu. Yr wyf yn hollol sicr ein bod wedi cael dyraniad teg o galen. Mae llawer o drafodaeth wedi bod am sut y dylid dosbarthu'r halen ledled y DU, ac yr ydym wedi cael o leiaf ein cyfran deg o'r halen. Yr wyf yn fodlon â faint o halen yr ydym wedi'i gael.

3.20 p.m.

It is difficult to predict the overall result on elective care, because it depends on the weather. If the weather continues to be cold, and if people continue to have accidents in the ice and snow, that could have an impact on elective surgery. Therefore, it is difficult to know how long that impact will last without knowing what the weather will be like.

Mae'n anodd darogan yr effaith gyffredinol ar ofal dewisol, oherwydd y mae'n dibynnu ar y tywydd. Os bydd y tywydd yn parhau'n oer, ac os bydd pobl yn parhau i gael damweiniau yn y rhew a'r eira, gallai hynny gael effaith ar lawdriniaethau dewisol. Felly, mae'n anodd gwybod am ba hyd y bydd yr effeithiau'n parhau heb wybod sut y bydd y tywydd.

If I remember rightly, cold weather payments are triggered when seven consecutive days of temperatures below 0 degrees Celsius are recorded or forecast in an area. I take your point about Swansea bay and Coelbren, Kirsty, as Coelbren is way further north and at a much higher altitude. However, if difficulties are being experienced, I would be willing to look at that, and to raise them as appropriate. I can understand the difficulties that people face there.

Os cofiaf yn iawn, bydd taliadau tywydd oer yn dechrau cael eu talu ar ôl saith niwrnod yn olynol lle y caiff tymheredd o dan 0 gradd Celsius ei gofnodi neu ei ddarogan mewn ardal. Derbyniaf eich pwynt am fae Abertawe a Choelbren, Kirsty, gan fod Coelbren yn llawer ymhellach i'r gogledd ac yn uwch o lawer. Fodd bynnag, os oes anawsterau, byddwn yn fodlon edrych ar hynny, a'u codi fel y bo'n briodol. Gallaf ddeall yr anawsterau y mae pobl yn eu hwynebu yno.

I join you in applauding the work not only of the mountain rescue team but also of so many others over the past few weeks. Some of you will have seen the news last night, which included a feature on the Snowdonia mountain rescue team saving people who appeared to be down the side of Crib Goch. That is a scary climb in summer, let alone winter, so it was remarkable to see the work being done there, and to hear that mountain rescue have been called out 100 times since the new year. Walkers and climbers also have a responsibility to ensure that they do not venture into areas where they are at risk of falling, or even of an avalanche in some parts of Wales. However, mountain rescue has done sterling work, and I will be visiting the team at Llanberis on Thursday afternoon to discuss their work and to see what might be done to help them.

Ymunaf â chi i gymeradwyo gwaith nid yn unig y tîm achub mynydd ond hefyd yr holl bobl eraill dros yr wythnosau diwethaf. Bydd rhai ohonoch wedi gweld y newyddion neithiwr, a oedd yn cynnwys eitem ar dîm achub mynydd Eryri yn achub pobl a oedd yn ôl pob golwg ar ochr y Grib Goch. Mae honno'n grib ddigon dychrynlyd i'w dringo yn yr haf, heb sôn am y gaeaf, felly yr oedd yn rhyfeddol gweld y gwaith a wnaed yno, yn ogystal â chlywed bod y gwasanaeth achub mynydd wedi cael ei alw allan 100 gwaith ers dechrau'r flwyddyn newydd. Mae cyfrifoldeb hefyd ar gerddwyr a dringwyr i sicrhau nad ydynt yn mentro i ardaloedd lle y mae perygl iddynt ddisgyn, neu lle y mae perygl i eirlithradau hyd yn oed ddigwydd mewn rhai rhannau o Gymru. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth achub mynydd wedi gwneud gwaith clodwiw, a byddaf yn ymweld â'r tîm yn Llanberis brynhawn dydd Iau i drafod eu gwaith a gweld beth y gellir ei wneud i'w

cynorthwyo.

**Leanne Wood:** Thank you for your statement, First Minister. I particularly welcome your assurance regarding services affecting vulnerable people, such as social care, health and meals on wheels services. I also welcome your statement about schools, in that headteachers have been urged to keep schools open as far as is possible. However, I have received a number of representations from parents in Rhondda Cynon Taf who could not understand why so many schools were closed last Thursday and Friday, particularly given that most of the roads were clear. Some schools were closed yesterday, too. I understand that many teaching staff do not live within walking distance of their workplace, as in previous times, and that schools have to be closed if there is not a sufficient quota of staff or if there are health and safety concerns. However, it also has to be recognised that school closures cause great difficulties to parents who have to take time off work, often without pay, and that the impact of losing three, four or five days' pay at the end of the month that comes after Christmas can cause grave difficulties. Are you aware of any local authorities that had contingency plans in place for their schools in bad weather? After all, many schools were closed last year—some for up to a week in February—with many parents losing pay at that time, too. You just mentioned that you would be prepared to consider issuing guidance to local authorities, and I ask that they do all that they can to ensure that schools are open and are staffed by suitably qualified and child-protection-screened staff who live within walking distance. For example, is there any reason why teachers and other staff could not be asked to walk to their nearest school and undertake duties there if they are unable to get to their normal place of work?

There is a chance that we will get more bad weather before the winter is out, so there is a risk that schools will be closed again, and that people will lose pay once more—and the same situation could arise next year. Would it

**Leanne Wood:** Diolch ichi am eich datganiad, Brif Weinidog. Yr wyf yn croesawu'n benodol y sicrwydd gennych ynghylch gwasanaethau sy'n effeithio ar bobl agored i niwed, megis gwasanaethau gofal cymdeithasol, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau pryd ar glud. Yr wyf yn croesawu hefyd eich datganiad am ysgolion, sef bod penaethiaid wedi cael eu hannog i gadw ysgolion ar agor cyhyd ag sy'n bosibl. Fodd bynnag, yr wyf wedi cael llawer o sylwadau gan rieni yn Rhondda Cynon Taf a oedd methu deall pam yr oedd cynifer o ysgolion wedi cau ddydd Iau a dydd Gwener diwethaf, yn enwedig gan fod y rhan fwyaf o'r ffyrdd yn glir. Yr oedd rhai ysgolion ar gau ddoe hefyd. Deallaf nad yw llawer o'r staff dysgu'n byw o fewn pellter cerdded i'w man gwaith, fel yn y gorffennol, a bod yn rhaid i ysgolion gau os nad oes cwota digonol o staff neu os oes pryderon yn ymwneud ag iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, rhaid cydnabod hefyd fod cau ysgolion yn achosi llawer o anawsterau i rieni sy'n gorfod cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith, heb dâl yn aml, a bod effaith colli tri, pedwar neu bum niwrnod o gyflog ar ddiwedd y mis ar ôl y Nadolig yn gallu achosi problemau difrifol. A ydych yn ymwybodol bod gan unrhyw awdurdod lleol gynlluniau wrth gefn ar gyfer eu hysgolion mewn tywydd garw? Wedi'r cyfan, yr oedd llawer o ysgolion ar gau y llynedd—rai ohonynt am hyd at wythnos ym mis Chwefror—a chollodd llawer o rieni gyflog bryd hynny hefyd. Yr ydych newydd ddweud y byddech yn barod i ystyried rhoi canllawiau i awdurdodau lleol, a gofynnaf iddynt wneud eu gorau glas i sicrhau bod ysgolion ar agor ac yn cael eu staffio gan unigolion sy'n byw o fewn pellter cerdded, sy'n meddu ar y cymwysterau priodol ac sydd wedi cael archwiliadau amddiffyn plant. Er enghraifft, a oes unrhyw reswm dros beidio â gofyn i athrawon a staff eraill gerdded i'w hysgol agosaf a chyflawni dyletswyddau yno oni allant gyrraedd eu man gwaith arferol?

Mae'n bosibl y cawn ragor o dywydd garw cyn diwedd y gaeaf, felly ceir perygl y bydd ysgolion ar gau eto, ac y bydd pobl yn colli cyflog unwaith eto—a gallai'r un sefyllfa godi y flwyddyn nesaf. Oni fyddai'n gwneud

not make sense to ensure that all local authorities put contingency plans in place now to ensure that schools do not close next year?

**The First Minister:** I share your frustration at schools closing in the morning and leaving parents in the position of childcare being an issue for them. My own children woke on Wednesday morning, we listened to the local radio station and, sure enough, the announcement came that their school was closed and they were delighted. By Friday, they wanted to go back to school, which tells you something about the boredom of spending two days in the house. I remember the snowfall back in 1982, when whole cars disappeared under the snow. I was off school for a week and the local authority generously took away our half term as a result.

Schools shut in the past on occasion, before our health and safety culture, when people were more used to going out and walking on the ice and did not worry about it. There are several reasons why a school may shut, such as a staff shortage or the condition of the school yard. I remember one instance of icicles hanging from the roof, which were particularly dangerous, and of structural problems with burst pipework inside a school. It is difficult to predict why a school might close and then remain closed. It is important that we examine the situation once the weather becomes milder to see whether it is possible to give further guidance, or it may remain the case that it is up to headteachers to give advice according to the situation that they find on the ground. You are right to say that it can be disruptive, but that is the nature of snow. We do not get much snow in this country, and so perhaps we tend to deal with it less well than other countries do, where snow is a regular occurrence. However, the guidance that may need to be made available can be considered in future.

**The Presiding Officer:** Before I call the leader of the opposition, I will continue this statement because it is of public importance, to allow all Members who have indicated to come in.

synnwyr sicrhau bod pob awdurdod lleol yn llunio cynlluniau wrth gefn yn awr i sicrhau nad yw ysgolion yn cau y flwyddyn nesaf?

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf finnau, yr un fath â chi, yn teimlo rhwystredigaeth bod ysgolion yn cau yn y bore gan adael rhieni mewn sefyllfa lle y mae gofal plant yn broblem iddynt. Dihunodd fy mhiant fore Mercher, buom yn gwranddo ar yr orsaf radio leol ac, yn wir i chi, daeth y cyhoeddiad bod eu hysgol ar gau ac yr oeddent wrth eu bodd. Erbyn dydd Gwener, yr oeddent am ddychwelyd i'r ysgol, sy'n dweud rhywbeth wrthyhych ynghylch mor ddiflas yw treulio dau ddiwrnod yn y tŷ. Cofiaf y storm eira yn 1982, pan ddiffannodd ceir cyfan o dan yr eira. Yr oeddwn gartref o'r ysgol am wythnos, ond penderfynodd yr awdurdod lleol hael na fyddem wedyn yn cael ein hanner tymor o ganlyniad.

Yr oedd ysgolion weithiau'n cau yn y gorffennol, cyn ein diwylliant iechyd a diogelwch, pan oedd pobl yn fwy cyfarwydd â mynd allan a cherdded ar y rhew ac nid oeddent yn poeni amdano. Ceir llawer o resymau dros gau ysgol, megis prinder staff neu gyflwr iard yr ysgol. Cofiaf am un achos lle yr oedd pibonwy yn hongian o'r to, rhywbeth a oedd yn beryglus iawn, ac am broblemau strwythurol ar ôl i biben fyrstio mewn ysgol. Mae'n anodd darogan pam y gallai ysgol gau ac yna aros ar gau. Mae'n bwysig inni ymchwilio i'r sefyllfa pan fydd y tywydd yn troi'n fwynach i weld a yw'n bosibl rhoi mwy o ganllawiau, neu efallai y bydd y drefn bresennol yn parhau lle y mae penaeithiaid yn rhoi cyngor yn seiliedig ar y sefyllfa a wynebant ar lawr gwlad. Yr ydych yn llygad eich lle y gall fod yn anghyfleus, ond dyna natur eira. Nid ydym yn cael llawer o eira yn y wlad hon, felly efallai nad ydym yn dueddol o ddelio ag ef cystal â gwledydd eraill, lle y mae eira'n fwy cyffredin. Fodd bynnag, gellir ystyried maes o law y canllawiau y mae'n bosibl y bydd angen eu cyflwyno.

**Y Llywydd:** Cyn imi alw arweinydd yr wrthblaid, parhaf â'r datganiad hwn gan ei fod o bwys cyhoeddus, er mwyn galluogi pob Aelod sydd wedi dweud yr hoffent gyfrannu gael gwneud hynny.

**Nick Bourne:** I thank the First Minister for this important statement. I also pay tribute to the magnificent performance of the public services throughout this very cold snap, the people in the voluntary sector in communities throughout Wales who have responded absolutely magnificently, and also people in the private sector who have made efforts to get to work when it has not necessarily been easy.

I welcome the summit that was held. The only thought that occurs to me is that it might have been better to hold it somewhat earlier given that we are now, hopefully, within sight of the end of this cold snap. I appreciate that this is said with hindsight, but given that the meteorological services trailed the fact that we were in for this rough period of weather, I wonder why it could not have been held some two weeks earlier.

I have a few specific questions, the first of which is in relation to salt reserves. I appreciate that this is a UK-level question, and that, as the First Minister said, this is probably the worst winter since 1963. That said, given how we prepare for floods, for example, which may happen every 1,000 years, I wonder whether this issue should be considered at a UK level, to see whether we should be mining more salt and preparing for what happens, even if it happens only every 50 years—and let us hope that it is no more frequent than that. Given the seriousness of what has happened, I think that we should be doing that.

I have some sympathy with the point that was just made by Leanne Wood in relation to examinations and school closures. Representations have also been made to me that it would be worth doing if schools could give some advance notice to working parents, so that they could put childcare arrangements in place. That, again, is a lesson to be learned from this period. I accept that, occasionally, schools will have to close, and we are not in a position to guarantee that they will not. However, the more advance notice that can

**Nick Bourne:** Diolch i'r Prif Weinidog am y datganiad pwysig hwn. Yr wyf finnau am roi teyrnged i berfformiad gwych y gwasanaethau cyhoeddus drwy gydol y cyfnod oer iawn hwn, y bobl yn y sector gwirfoddol mewn cymunedau ledled Cymru sydd wedi ymateb yn arbennig o dda, a hefyd y bobl yn y sector preifat sydd wedi gwneud ymdrech i fynd i'r gwaith pan nad yw wedi bod yn hawdd o reidrwydd.

Yr wyf yn croesawu'r uwchgynhadledd a gynhaliwyd. Yr unig beth a ddaeth i'm meddwl oedd y byddai wedi bod yn well efallai petai wedi'i chynnal yn gynt gan ein bod erbyn hyn yn gweld diwedd y cyfnod oer hwn, gobeithio. Yr wyf yn sylweddoli ei bod yn hawdd dweud hyn wrth edrych yn ôl, ond o ystyried bod y gwasanaethau meteorolegol wedi ein rhybuddio am y cyfnod caled hwn o ran tywydd, nid wyf yn deall pam nad oedd modd ei chynnal bythefnos ynghynt.

Mae gennyf rywffaint o gwestiynau penodol, ac y mae'r cyntaf yn ymwneud â chronfeydd halen wrth gefn. Yr wyf yn sylweddoli mai cwestiwn ar lefel y DU yw hwn, ac fel y dywedodd y Prif Weinidog, mai dyma'r gaeaf gwaethaf ers 1963 mae'n debyg, Er hynny, o ystyried sut yr ydym yn paratoi ar gyfer llifogydd, er enghraifft, a all ddigwydd bob 1,000 o flynyddoedd, yr wyf yn meddwl tybed a ddylid ystyried y mater hwn ar lefel y DU, er mwyn gweld a ddylem fod yn mwyngloddio am fwy o halen a pharatoi at yr hyn sy'n digwydd, hyd yn oed os mai dim ond bob 50 o flynyddoedd y mae'n digwydd—a gadewch inni obeithio na fydd yn amlach na hynny. O ystyried mor ddifrifol oedd yr hyn a ddigwyddodd, credaf y dylem fod yn gwneud hynny.

Mae gennyf rywffaint o gydymdeimlad â'r pwynt y mae Leanne Wood newydd ei wneud yng nghyswllt arholiadau a chau ysgolion. Yr wyf finnau wedi cael sylwadau i'r perwyl y byddai'n werth chweil petai ysgolion yn ystyried rhoi rhybudd ymlaen llaw i rieni sy'n gweithio, er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau ar gyfer gofal plant. Mae hynny eto'n wers y dylid ei dysgu yn sgîl y cyfnod hwn. Yr wyf yn derbyn y bydd yn rhaid cau ysgolion, o bryd i'w gilydd, ac nid ydym mewn sefyllfa lle y gallwn warantu na fydd

be given, the less the impact will be on families and the broader Welsh economy.

I agree very much with what the First Minister said about the importance of the friendly neighbour and relations scheme. We should thank people throughout Wales who are doing just that and encourage others to give a friendly knock on the door of older and more vulnerable people, particularly, to offer assistance. That is important.

In relation to hospital care, which the First Minister also mentioned, we should pay tribute to hospital staff for what has been happening throughout Wales and recognise that the help that they provide, by staff staying overnight in hospital and so on, may involve financial pressures on trusts and the health service later on. Therefore, I hope that the Minister for Health and Social Services takes into account the efforts that are being made to ensure that the national health service continues to perform throughout this period.

One issue that was not raised in the statement but was raised with me by Paul Davies—and no doubt Angela Burns will be cognisant of it as well—is the oil refineries and the fact that they have not been identified as a priority. They should be because difficulties are being experienced getting oil in and out of the refineries in south-west Wales and elsewhere. Is the First Minister or the Government making any assessment of the impact of that on the Welsh economy?

3.30 p.m.

Clearly, there is an impact and it will have an effect on the Welsh performance. I do not know whether that is being looked at and whether the First Minister will be able to come forward with some figures on the adverse impact that this is likely to have had on the Welsh economy. I thank the First Minister for what he said about updating us on the position. Perhaps I could merely encourage him to provide that update, either in written or oral form, as we go through this cold-sector period. Once again, I emphasise

hynny'n digwydd. Fodd bynnag, byddai rhoi rhybudd ymlaen llaw yn cael llai o effaith ar deuluoedd ac ar economi ehangach Cymru.

Yr wyf yn cytuno'n llwyr â'r hyn a ddywedodd y Prif Weinidog am bwysigrwydd y cynllun bod yn gymydog da ac yn berthynas gyfeillgar. Dylem ddiolch i bobl ledled Cymru sy'n gwneud yr union beth hwnnw ac annog pobl eraill i alw heibio pobl hŷn a phobl sy'n fwy agored i niwed, yn arbennig, i gynnig cymorth iddynt. Mae hynny'n bwysig.

Yng nghyswllt gofal mewn ysbyty, a grybwyllwyd hefyd gan y Prif Weinidog, dylem roi teyrnged i staff ysbytai am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd ledled Cymru a chydabod y gall y cymorth y maent yn ei roi, gan staff sy'n aros dros nos mewn ysbytai ac yn y blaen, roi pwysau ariannol ar ymddiriedolaethau ac ar y gwasanaeth iechyd yn nes ymlaen. Felly, gobeithio y bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth iechyd yn parhau i berfformio drwy gydol y cyfnod hwn.

Un pwynt nas codwyd yn y datganiad ond a godwyd gyda mi gan Paul Davies—a bydd Angela Burns yn sicr o fod yn ymwybodol ohono hefyd—yw'r purfeydd olew a'r ffaith nad ydynt wedi'u pennu'n flaenoriaeth. Dylent fod wedi'u pennu o ganlyniad i'r anawsterau wrth geisio cael olew yn ôl ac ymlaen o'r purfeydd yn ne-orllewin Cymru a'r tu hwnt. A yw'r Prif Weinidog neu'r Llywodraeth yn cynnal asesiad o effaith hynny ar economi Cymru?

Yn amlwg, ceir effaith a bydd yn effeithio ar berfformiad Cymru. Ni wn a yw hynny'n cael ei ystyried ac a fydd modd i'r Prif Weinidog gyflwyno rhywfaint o ffigurau ger ein bron ar yr effaith andwyol y mae'n debyg y bydd hyn wedi'i chael ar economi Cymru. Diolch i'r Prif Weinidog am yr hyn a ddywedodd ynghylch rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y sefyllfa. Efallai y caf ei annog i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf honno inni, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, wrth inni fynd drwy'r cyfnod oer hwn. Unwaith

what the First Minister said about the importance of friendly neighbour schemes, which are very much the bedrock of what is happening in communities across Wales, which is vital during this period.

**The First Minister:** After last February's weather, an assessment was made with local authorities as to how much reserves of salt they should hold. I have no doubt that the same exercise will take place this time around when the weather begins to get milder, to see whether there is a need to hold more stock and possibly to mine more salt in the future. That exercise was certainly done the last time around and I am sure that it will be looked at this time as well.

As for notifying parents, I know some schools will send out letters to parents in advance, following a severe weather warning, to warn them that the school might be shut. Of course, the snow may not arrive—we know about the unpredictability of weather forecasting—or the snow may come in such large quantities that it is difficult to issue any warning and the school will have to close. When we see such weather, it is difficult, as I know from being a parent to two young children, when you have to make alternative arrangements in the event of snow forcing the school to close.

On the oil refineries, it is important that oil is moved from the refineries. I am not aware of any difficulties at present with regard to the refineries, but that is something that will certainly be borne in mind.

As for the effect on the Welsh economy, I am told that in 1963 the economy did suffer a dip for a short time, and then it began to pick up again. During a period of heavy snow, people do not go shopping in the same way as they normally do. I saw figures yesterday that suggested that, last week, the number of shoppers was down by 21 per cent in shopping centres across the whole of the UK. This is obviously a short-term issue rather than something that will last for many weeks. I would expect any effect on the economy to be short lived, as was the experience in 1963.

eto, yr wyf yn pwysleisio'r hyn a ddywedodd y Prif Weinidog am bwysigrwydd cynlluniau cymdogion cyfeillgar, sydd wrth wraidd yr hyn sy'n digwydd mewn cymunedau ledled Cymru, ac sy'n hollbwysig yn ystod y cyfnod hwn.

**Y Prif Weinidog:** Ar ôl tywydd mis Chwefror y llynedd, cynhaliwyd asesiad gydag awdurdodau lleol o ran faint o gronfeydd halen wrth gefn y dylent eu cadw. Nid oes gennyf amheuaeth na wneir yr un peth y tro hwn wrth i'r tywydd droi'n fwynach, er mwyn gweld a oes angen cadw mwy o stoc a mwynloddio mwy o halen yn y dyfodol o bosibl. Yn sicr, cynhaliwyd yr ymarferiad hwnnw y tro diwethaf, ac yr wyf yn siŵr yr ystyrir gwneud hynny y tro hwn hefyd.

O ran rhoi gwybod i rieni, gwn y bydd rhai ysgolion yn anfon llythyrau at rieni ymlaen llaw, ar ôl iddynt gael rhybudd am dywydd garw, er mwyn eu rhybuddio y gallai'r ysgol gael ei cau. Wrth gwrs, efallai na fydd yr eira'n cyrraedd—gwyddom mor annibynadwy yw ceisio rhagweld y tywydd—neu gall llawer iawn o eira gyrraedd fel ei bod yn anodd rhoi unrhyw rybudd a bydd yn rhaid i'r ysgol gau. Pan welwn dywydd o'r fath, mae'n anodd, fel y gwn a minnau'n dad i ddau o blant ifanc, pan fydd yn rhaid ichi wneud trefniadau eraill os bydd eira'n gorfodi ysgol i gau.

O ran y purfeydd olew, mae'n bwysig i'r olew gael ei symud o'r purfeydd. Ni wn am anawsterau ar hyn o bryd yng nghyswllt y purfeydd, ond mae hynny'n sicr yn rhywbeth i'w gadw mewn cof.

O ran yr effaith ar economi Cymru, caf ar ddeall i'r economi ddiweddef rhywfaint am gyfnod byr yn 1963, cyn codi unwaith eto. Yn ystod cyfnod o eira trwm, nid yw pobl yn mynd i siopa yn yr un ffordd ag arfer. Gwelais ffigurau ddoe a oedd yn awgrymu bod nifer y bobl a oedd yn siopa yr wythnos diwethaf wedi gostwng 21 y cant mewn canolfannau siopa ledled y DU. Mae hyn yn amlwg yn broblem tymor byr yn hytrach nag yn rhywbeth a fydd yn para am nifer o wythnosau. Byddwn yn disgwyl mai rhywbeth byrhoedlog fydd unrhyw effaith ar yr economi, yn yr un modd â'r sefyllfa yn



1963.

**Andrew R.T. Davies:** One thing that I was watching the other day—and perhaps I should get out a bit more—was a broadcast of the Scottish Parliament. I was watching to see how the Scottish Government had reacted to the situation that was developing and learnt that it had a Minister on watch throughout the Christmas period and into the new year. I note from your statement to Plenary this afternoon that the civil contingencies unit within the Welsh Assembly Government is meeting on a daily basis. When did that daily meeting structure come into existence, because we have now been in this position for three or four weeks? I am one of those people who take the view that, sadly, some things do get thrown at us, but we should just get on with it. However, there are issues that we can address. Organisations and people at the top, who are in a position to make those decisions, are of critical importance. While watching representatives of the Scottish Government answering questions in the Scottish Parliament, I identified that it had a robust structure in place and although all of the questions may not have been answered, they were certainly able to provide answers to many of the questions that Members were putting to Ministers. What are the exact structures that the Government has in place to deal with this situation, because it will not be the last time that such a situation will hit us? It is important to understand that WAG is on top of the situation.

Secondly, there is the issue of ancillary organisations. We take it for granted that local authorities have a lot of hardware—shall we say?—at their disposal, such as gritters, snowploughs and so on. We should also consider the NHS and perhaps I could use Llandough hospital as a prime example. There is a large area of tarmac at Llandough hospital where visitors and staff park their cars. Sadly, little or no gritting at all has taken place in that hospital. I have been led to believe by the representations made to me that staff have tried to turn up for work, but due to the chaos they have turned around and gone home because they cannot get into the

**Andrew R.T. Davies:** Ymysg rhai o'r rhaglenni yr oeddwn yn eu gwyllo y diwrnod o'r blaen—ac efallai y dylwn fynd allan yn amlach—yr oedd darllediad o Senedd yr Alban. Yr oeddwn yn gwyllo er mwyn gweld sut yr oedd Llywodraeth yr Alban wedi ymateb i'r sefyllfa a oedd yn datblygu a gwelais fod ganddi Weinidog a oedd yn cadw golwg ar y sefyllfa dros gyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Gwelaf yn ôl eich datganiad gerbron y Cyfarfod Llawn y prynhawn yma fod uned argyfyngau sifil Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfarfod bob dydd. Pryd y daeth y drefn honno, sef cynnal cyfarfod bob dydd, i fodolaeth, oherwydd yr ydym bellach wedi bod yn y sefyllfa hon ers tair neu bedair wythnos? Yr wyf yn un o'r bobl hynny sydd o'r farn bod rhai pethau, yn anffodus, yn cael eu taflu atom, ond y dylem fwrw iddi. Fodd bynnag, ceir problemau y gallwn fynd i'r afael â nhw. Mae mudiadau a phobl sydd ar y brig, sydd mewn sefyllfa i wneud y penderfyniadau hynny, yn hollbwysig. Wrth wyllo cynrychiolwyr o Lywodraeth yr Alban yn ateb cwestiynau yn Senedd yr Alban, sylwais fod ganddynt strwythur cadarn ar waith ac er na chafodd yr holl gwestiynau eu hateb efallai, yr oeddent yn sicr yn gallu ateb llawer o'r cwestiynau a gyflwynwyd i'r Gweinidogion gan Aelodau. Beth yn union yw'r strwythurau sydd gan y Llywodraeth ar waith i ddelio â'r sefyllfa hon, gan nad dyma'r tro olaf y bydd sefyllfa o'r fath yn effeithio arnom? Mae'n bwysig deall bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw golwg ar y sefyllfa.

Yn ail, ceir materion yn ymwneud â sefydliadau ategol. Yr ydym yn cymryd yn ganiataol fod gan awdurdodau lleol lawer o galedwedd—fel petai—ar gael iddynt, megis peiriannau graeanu ac erydr eira ac yn y blaen. Dylem hefyd ystyried y GIG ac efallai y caf ddefnyddio ysbyty Llandochau fel enghraifft amlwg. Ceir ardal fawr wedi'i tharmacio yn ysbyty Llandochau lle y mae ymwelwyr a staff yn parcio'u ceir. Yn anffodus, nid yw'r peiriannau graeanu wedi bod wrthi ryw lawer yn yr ysbyty hwnnw. Caf ar ddeall yn ôl y sylwadau a gyflwynwyd imi fod aelodau o'r staff wedi ceisio dod i'w gwaith, ond oherwydd yr anrhefn, eu bod

hospital. Has any consideration been given to the other bodies that make up the public sector, with the NHS being a large part of that, having contracts in place to make sure that they are able to clear public areas so that members of the public and staff can enter the premises in a safe and convenient manner so that minimal disruption is brought to bear? Perhaps the First Minister could liaise with the Minister for Health and Social Services on that and perhaps she could provide Members with information on the situation across Wales and how the NHS has dealt with the emergency outside. I am not asking for information on the cancelled operations, of which we are all aware, or the flow of patients, but the outside facilities that are an important part of the NHS estate, which need to work so that the rest of the system will work.

I endorse what Ann Jones said about needing a wash-up of all the events of the last three to four weeks; it is important that we have a debriefing on this. We faced the same situation last February and, in your response to other Members, you touched on the fact there have been debriefs on certain matters, but many of the observations that I have heard this afternoon were made in February last year, and I daresay will be made in future. It would be nice to think that some of the observations that Members have put to the Assembly Government have been taken on board and have been included in some form of plan, so that minimal disruption is caused, because we will never be able to cancel disruption completely.

**The First Minister:** On the daily meetings, officials have been attending them, the Deputy First Minister attended yesterday, and I attended today. Our attendance this week was important in order to secure a sufficient supply of salt for local authorities this week. We have an emergency room in Cathays park, which is well equipped. It originally sprang from the foot-and-mouth-disease outbreak in 2001 and has been used several times since, and it is in use now. It brings

wedi troi'n ôl a mynd adref gan nad oedd modd iddynt fynd i'r ysbyty. A yw'r cyrrff eraill sy'n perthyn i'r sector cyhoeddus wedi cael eu hystyried, gan fod y GIG yn rhan fawr o'r sector hwnnw, fel bod ganddynt gcontractau ar waith sy'n sicrhau bod modd iddynt glirio ardaloedd cyhoeddus fel y gall aelodau'r cyhoedd a'r staff ddod i mewn i'r safle'n ddiogel ac yn hwylus, gan sicrhau bod cyn lleied o amharu ag sy'n bosibl yn digwydd ar y gwasanaeth? Efallai y gallai'r Prif Weinidog gysylltu â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch hynny ac efallai y gallai hi ddarparu gwybodaeth i Aelodau am y sefyllfa ledled Cymru a sut y mae'r GIG wedi delio â'r argyfwng y tu allan. Nid wyf yn gofyn am wybodaeth am y triniaethau a gafodd eu canslo, gwyddom oll am y rheini, nac am lif cleifion, ond am y cyfleusterau y tu allan sy'n rhan bwysig o ystâd y GIG, y mae angen gweithio arnynt fel bod gweddill y system yn gweithio.

Yr wyf yn cefnogi'r hyn a ddywedodd Ann Jones am yr angen i gau pen y mwdwl ar holl ddigwyddiadau'r tair neu bedair wythnos diwethaf; mae'n bwysig inni gael sesiwn gloriannu ar hyn. Yr oeddem yn wynebu'r un sefyllfa fis Chwefror y llynedd ac, yn eich ateb i Aelodau eraill, cyfeiriasoch at y ffaith bod sesiynau cloriannu wedi bod ar rai materion, ond cafodd llawer o'r sylwadau yr wyf wedi'u clywed y prynhawn yma eu gwneud fis Chwefror y llynedd, a chânt eu gwneud yn y dyfodol yr wyf yn mentro dweud. Byddai'n braf cael gwybod bod rhai o'r sylwadau y mae Aelodau wedi'u cyflwyno gerbron Llywodraeth y Cynulliad wedi cael eu hystyried a'u cynnwys mewn rhyw fath o gynllun, fel y bydd cyn lleied ag sy'n bosibl o amharu'n digwydd, oherwydd ni wnawn fyth gael gwared â hynny'n llwyr.

**Y Prif Weinidog:** O ran y cyfarfodydd dyddiol, mae swyddogion wedi bod yn bresennol ynddynt, bu'r Dirprwy Brif Weinidog yn bresennol yn y cyfarfod ddoe, a bûm innau'n bresennol yn y cyfarfod heddiw. Yr oedd ein presenoldeb yr wythnos hon yn bwysig er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o halen ar gyfer awdurdodau lleol yr wythnos hon. Mae gennym ystafell argyfwng ym mharc Cathays, sydd â digon o offer. Cafodd ei defnyddio'n wreiddiol o ganlyniad i glwy'r

together the emergency services, where appropriate, and officials are appointed, full time, to deal with emergencies as they arise.

On hospitals, I suspect that local authorities do not see hospital car parks as their responsibility as they are not part of the highway. It would probably be useful for hospitals to look at maintaining their own supply of salt, where appropriate, so that they might be able to keep a route from the main road to the accident and emergency department in particular clear of ice. That can perhaps be looked at if individual hospitals are not in a position to do that. I will discuss that with my colleague, the Minister for Health and Social Services.

**Darren Millar:** I do not want to reiterate what a number of my colleagues have said, but there are other areas that have not been considered. One such area is the inability of Royal Mail to deliver business post. During the current recession in particular, cash flow is incredibly important and many businesses in my constituency have not had cheques delivered, for example, and that is putting their businesses at risk. What discussions has the Assembly Government had, or have you had, with Royal Mail, to ensure that those businesses that need their post—that is, every business in Wales—are getting it?

I take on board what my colleague, Andrew R.T. Davies, has said about the need for hospitals to ensure that their car parks and other public areas are clear. I wonder whether it would be appropriate to issue Assembly Government guidance to the NHS to ensure that not only hospitals, but GP surgeries and other primary healthcare facilities have arrangements in place to procure their own grit.

On schools, my children were as disappointed as any others in Wales when they were told earlier on this week that their

traed a'r genau yn 2001 ac mae wedi'i defnyddio droeon ers hynny, ac mae'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd. Mae'n dod â'r gwasanaethau brys ynghyd, pan fydd yn briodol, a chaiff swyddogion eu penodi'n llawnamser, i ddelio ag argyfyngau pan fyddant yn codi.

O ran ysbytai, tybiaf nad yw awdurdodau lleol yn ystyried mai eu cyfrifoldeb hwy yw meysydd parcio ysbytai gan nad ydynt yn rhan o'r priffyrdd. Byddai'n ddefnyddiol, mae'n debyg, petai ysbytai'n ystyried cadw eu cyflenwad eu hunain o halen, lle y bydd hynny'n briodol, fel y gallant gadw llwybr o'r briffordd i'r adran damweiniau ac achosion brys yn arbennig yn glir rhag rhew. Efallai fod modd ystyried hynny os nad yw ysbytai unigol yn gallu gwneud hynny. Trafodaf hynny â'm cyd-Weinidog, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Darren Millar:** Nid wyf am ailadrodd yr hyn y mae llawer o'm cyd-Aelodau wedi'i ddweud, ond ceir meysydd eraill nad ydynt wedi'u hystyried. Un o'r meysydd hynny yw anallu'r Post Brenhinol i ddsbarthu post busnesau. Yn ystod y dirwasgiad presennol yn arbennig, mae llif arian yn hollbwysig ac nid yw llawer o sieciau busnesau yn fy etholaeth wedi'u dosbarthu, er enghraifft, ac mae hynny'n peryglu eu busnesau. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cael, neu yr ydych chi wedi'u cael, gyda'r Post Brenhinol, er mwyn sicrhau bod y busnesau hynny y mae angen eu post arnynt—sef pob busnes yng Nghymru—yn ei gael?

Yr wyf yn derbyn yr hyn y mae fy nghyd-Weinidog, Andrew R.T. Davies, wedi'i ddweud am yr angen i ysbytai sicrhau bod eu meysydd parcio a'u hardaloedd cyhoeddus eraill yn glir. Tybed a fyddai'n briodol rhoi canllawiau gan Lywodraeth y Cynulliad i'r GIG er mwyn sicrhau bod gan nid yn unig ysbytai, ond meddygfeydd meddygon teulu a chyfleusterau gofal iechyd sylfaenol eraill, eu trefniadau eu hunain i gaffael eu graean eu hunain?

O ran ysgolion, yr oedd fy mhlant yr un mor siomedig ag unrhyw blant eraill yng Nghymru pan gawsant wybod yn gynharach

school would reopen. Most schools do not have arrangements in place to ensure that they have grit on the premises so that their play areas can be de-iced. It would be helpful if formal guidance were issued to local authorities on that. I know that no formal guidance whatsoever is issued to local authorities on stock levels; they are simply encouraged to review them. With hindsight, we can see that that is a bad thing and it shows that we have not learned the lessons from February last year by making formal guidance available to local authorities, not just in relation to their highways and footpaths, but their other services, such as education, and the public buildings that they may operate.

I want to make a plea. Nick Bourne has suggested that routes to oil refineries should be prioritised so that oil deliveries can be made, to ensure that people's lights remain switched on in their homes. Smaller oil distributors in rural areas also face significant challenges in delivering oil to those people who need it in their homes. Has there been any discussion with that network of distributors, and particularly with the larger oil-supplying companies, to ensure that they can get out so that heating is available in our rural communities, which can be very remote?

3.40 p.m.

**The First Minister:** On the Royal Mail, it is the old excuse—‘the cheque is in the post’—is it not? I am sure that some have used that as an excuse for non-delivery. The Royal Mail, like any business, is dependent on the road network being kept sufficiently clear, for it to carry out its physical deliveries. It is not possible to grit every road, as we know, but the aim is to ensure that our major roads are kept clear to enable businesses like the Royal Mail to deliver the letters that it needs to.

On gritting, it is right to say that priority is given to gritting routes to hospitals and to doctors' surgeries. You mentioned the

yr wythnos hon y byddai eu hysgol yn ailagor. Nid oes gan y rhan fwyaf o ysgolion drefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod ganddynt raeau ar y safle fel y gellir dadrewi'r ardaloedd chwarae. Byddai'n ddefnyddiol petai canllawiau'n cael eu rhoi i awdurdodau lleol ynghylch hynny. Gwn na chaiff canllawiau ffurfiol o fath yn y byd eu rhoi i awdurdodau lleol ar lefelau'r stoc; y cwbl a wneir yw eu hannog i'w hadolygu. Ac edrych yn ôl, gallwn weld nad yw hynny'n beth da ac mae'n dangos nad ydym wedi dysgu'r gwersi ar ôl mis Chwefror y llynedd yng nghyswllt sicrhau bod canllawiau ffurfiol ar gael i awdurdodau lleol, nid dim ond o ran eu priffyrdd a'u llwybrau troed, ond o ran eu gwasanaethau eraill, megis addysg, a'r adeiladau cyhoeddus y gallant fod yn eu rhedeg.

Hoffwn wneud cais. Mae Nick Bourne wedi awgrymu y dylid blaenoriaethu llwybrau at burfeydd olew fel y gellir sicrhau bod modd dosbarthu olew, er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl yn dal i allu cael golau yn eu cartrefi. Mae dosbarthwyr olew llai mewn ardaloedd gwledig hefyd yn wynebu heriau sylweddol o ran dosbarthu olew i'r bobl hynny y mae ei angen arnynt yn eu cartrefi. A oes unrhyw drafodaethau wedi'u cynnal â'r rhwydwaith hwnnw o ddosbarthwyr, ac yn enwedig â'r cwmnïau mwy sy'n cyflenwi olew, er mwyn sicrhau y gallant fynd allan fel bod modd cael gwres yn ein cymunedau gwledig, a all fod yn anghysbell iawn?

**Y Prif Weinidog:** O ran y Post Brenhinol, onid yr hen esgus—‘mae'r siec yn y post’—yw hyn? Yr wyf yn siŵr bod rhai pobl wedi defnyddio hynny'n esgus am beidio â dosbarthu. Mae'r Post Brenhinol, fel unrhyw fusnes, yn dibynnu, o ran mynd â'r hyn y mae'n ei ddosbarthu i ben ei daith, ar gadw'r rhwydwaith ffyrdd yn ddigon clir. Nid yw'n bosibl graeanu pob ffordd, fel y gwyddom, ond y nod yw sicrhau bod ein priffyrdd yn cael eu cadw'n glir er mwyn galluogi busnesau fel y Post Brenhinol i ddosbarthu'r llythyrau y mae angen eu dosbarthu.

O ran graeanu, mae'n iawn dweud bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i raeau ffyrdd at ysbytai a meddygfeydd. Soniasoch am yr

suggestion of gritting school yards. I am aware that some schools are able to grit a path through the ice, but play areas are so large that to grit an entire play area you would have to use so much grit that you would denude the stock available for the highways. It would be difficult to de-ice an entire school yard, for example, using the grit available. It is up to the headteacher to make the decision as to whether a school should open or not.

I am not aware of any problems with distribution from major oil refineries to the smaller distributors. However, some people may have found that their domestic heating oil has run low because a lorry has not been able to deliver it. Of course, if the oil runs out, the boiler has to be restarted—it cannot simply be turned back on again; it has to be bled. I speak from experience, as someone who used to have an oil burner many years ago. Given the recent weather, I would encourage people, when the opportunity arises, to secure a delivery of oil so that they have a sufficient supply in their tank to last for five or six months.

**Nick Ramsay:** I am grateful to you, Presiding Officer, for extending this important session on the weather to allow us to ask questions of the First Minister. I have a couple of questions on the current difficulties being experienced in my constituency and throughout Wales. You mentioned mutual aid, and related to that is a location in south Powys that I discussed with Kirsty Williams during the recess, namely Capel-y-ffin and the surrounding area. That location is in Powys County Council's area, but is only accessible from Monmouthshire County Council's area. There was an issue relating to those living in that area as the gritters were not able to reach them. Have you had any discussions with or given any guidance to local authorities on how those areas can be reached so that they are not left out of the gritting procedure? It is clearly not in the jurisdiction of one authority to grit another authority's area, but if that does not happen and if there is not a management agreement in place for that to happen, those people will be left out. As we have discussed today, and as Nick Bourne said earlier, these issues may

awgrym ynglŷn â graeanu iardiau ysgolion. Gwn y gall rhai ysgolion raeanu llwybr drwy'r rhew, ond mae ardaloedd chwarae mor fawr fel y byddai'n rhaid ichi, er mwyn graeanu ardal chwarae gyfan, ddefnyddio cymaint o raean nes byddech yn amharu ar y stoc a fyddai ar gael ar gyfer y priffyrdd. Byddai'n anodd dadrewi iard ysgol gyfan, er enghraifft, gan ddefnyddio'r graean sydd ar gael. Penderfyniad y pennaeth yw a ddylai ysgol agor ai peidio.

Ni wn am broblemau yng nghyswllt purfeydd olew o ran dosbarthu o burfeydd mawr i'r dosbarthwyr llai. Fodd bynnag, efallai fod rhai pobl wedi sylwi bod eu holew gwresogi domestig wedi mynd yn isel gan nad oedd modd i lori ei ddsbarthu. Wrth gwrs, os bydd yr olew yn dod i ben, bydd yn rhaid ailgychwyn y boeler—nid yw mor syml â'i droi yn ôl ymlaen eto; bydd yn rhaid ei waedu. Yr wyf yn siarad o brofiad, gan fod gennyf losgydd olew lawer blwyddyn yn ôl. O ystyried y tywydd yn ddiweddar, byddwn yn annog pobl, pan fydd y cyfle'n codi, i sicrhau eu bod yn trefnu i gael olew fel bod ganddynt ddigon o gyflenwad yn eu tanc i bara am bump neu chwe mis o leiaf.

**Nick Ramsay:** Yr wyf yn ddiolchgar ichi, Lywydd, am ymestyn y sesiwn bwysig hon ar y tywydd er mwyn caniatáu inni ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog. Mae gennyf rai cwestiynau am yr anawsterau presennol a wynebir yn fy etholaeth a ledled Cymru. Soniasoch am helpu ein gilydd, ac yng nghyswllt hynny yr wyf am sôn am leoliad yn ne Powys a drafodais â Kirsty Williams yn ystod y toriad, sef Capel-y-ffin a'r ardal gyfagos. Mae'r lleoliad hwnnw yn ardal Cyngor Sir Powys, ond dim ond drwy ardal Cyngor Sir Fynwy y gellir ei gyrraedd. Cododd problem yng nghyswllt y bobl a oedd yn byw yn yr ardal honno gan nad oedd modd i'r peiriannau graeanu eu cyrraedd. A ydych wedi cynnal unrhyw drafodaethau â'r awdurdodau lleol, ynteu a ydych wedi rhoi unrhyw ganllawiau i awdurdodau lleol ar sut y gellir cyrraedd yr ardaloedd hynny fel na fyddant yn cael eu gadael allan o'r drefn raeanu? Mae'n amlwg nad oes disgwyl i un awdurdod raeanu ardal awdurdod arall, ond oni fydd hynny'n digwydd ac os nad oes cytundeb rheoli ar waith er mwyn i hynny ddigwydd, caiff y bobl hynny eu gadael allan.

only arise once in a hundred or thousand years, but when they do arise it is important that such procedures are in place so that councils know exactly what guidance they have been issued with and how they should respond to the conditions.

Andrew R.T. Davies touched on the second point that I wanted to raise, on mountain rescue and organisations like the Cardiff and Vale Rescue Association. I think that the latter carried out over 20 rescues during the last week. These ancillary organisations are in an important position, but they pay road tax and have to maintain expensive four-by-four vehicles, which may not be needed for the rest of the year, but are essential when these situations arise. Therefore, what advice is your Government giving to local authorities and what are you doing to assist organisations like Cardiff and Vale Rescue Association and other mountain rescue organisations, to ensure that when these difficult circumstances arise, local authorities and such organisations are capable of responding?

Finally, I realise that time is short, but you mentioned earlier that Monmouthshire County Council is responsible for gritting roads. I know that council staff have worked all out over the last few weeks to do their best to ensure that the understandably limited supplies of salt have been getting out to the local authority areas that need it.

**The First Minister:** You are right to say that Monmouthshire County Council has responsibility for the Heads of the Valleys road between Abergavenny and Dowlais. It is the designated authority for that area. Clearly, all local authorities have been working hard to ensure that their primary routes are kept clear.

On mountain rescue, I mentioned that I will meet the Llanberis team on Thursday.

Fel yr ydym wedi trafod heddiw, ac fel y dywedodd Nick Bourne yn gynharach, efallai mai dim ond unwaith mewn can mlynedd neu fil o flynyddoedd y bydd y problemau hyn yn codi, ond pan fyddant yn codi mae'n bwysig bod trefniadau o'r fath ar waith fel bod cynghorau'n gwybod yn union pa ganllawiau y maent wedi'u cael a sut y dylent ymateb i'r amgylchiadau.

Cyfeiriodd Andrew R.T. Davies at yr ail bwynt yr oeddwn am ei godi, ynghylch achub ar y mynyddoedd a mudiadau fel Cymdeithas Achub Caerdydd a'r Fro. Credaf fod y Gymdeithas hon wedi achub dros 20 o bobl yn ystod yr wythnos diwethaf. Mae'r sefydliadau ategol hyn yn bwysig, ond maent yn talu treth ffordd ac mae'n rhaid iddynt gynnal a chadw cerbydau gyriant pedair olwyn drud, na fydd angen eu defnyddio am weddill y flwyddyn o bosibl, ond maent yn hanfodol pan fydd y sefyllfaoedd hyn yn codi. Felly, pa gyngor y mae eich Llywodraeth yn ei roi i awdurdodau lleol a beth yr ydych yn ei wneud i helpu mudiadau fel Cymdeithas Achub Caerdydd a'r Fro a mudiadau eraill sy'n achub ar y mynyddoedd, er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol a mudiadau o'r fath yn gallu ymateb pan fydd yr amgylchiadau anodd hyn yn codi?

Yn olaf, yr wyf yn sylweddoli bod amser yn mynd yn brin, ond soniasoch yn gynharach fod Cyngor Sir Fynwy yn gyfrifol am raeau ffyrdd. Gwn fod staff y cyngor wedi gweithio'n ddiflino dros yr wythnosau diwethaf er mwyn gwneud eu gorau glas i sicrhau bod y cyflenwadau prin o halen—ac mae hynny'n ddigon dealladwy—wedi bod yn cael ei ddsbarthu i ardaloedd y mae ei angen arnynt yn yr awdurdod lleol.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydych yn gywir wrth ddweud mai Cyngor Sir Fynwy sy'n gyfrifol am ffordd Blaenau'r Cymoedd rhwng y Fenni a Dowlais. Y cyngor hwnnw yw'r awdurdod dynodedig ar gyfer yr ardal honno. Yn amlwg, mae pob awdurdod lleol wedi bod yn gweithio'n galed er mwyn sicrhau bod eu prif ffyrdd yn cael eu cadw'n glir.

O ran mudiadau achub ar y mynyddoedd, soniais y byddaf yn cyfarfod â thîm Llanberis dydd Iau.

With regard to salting roads, in my experience, local authorities will have routes that they salt. Some communities will not have routes salted as a matter of course and, as a result, will find themselves in some difficulty from time to time. However, I hope that a situation would not arise—you mentioned Capel-y-ffin, and I know the area—where a local authority felt that a particular route to a settlement was not a priority because the settlement is in someone else's local authority area. I am sure that all local authorities look to identify their primary routes and then look to keep those routes open.

Yng nghyswllt rhoi halen ar ffyrdd, yn ôl fy mhrofiad i, bydd gan awdurdodau lleol lwybrau penodol y maent yn rhoi halen arnynt. Ni fydd rhai cymunedau'n rhoi halen ar lwybrau fel mater o drefn ac, o ganlyniad, byddant yn cael anawsterau o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, gobeithio na fydd sefyllfa'n codi—soniasoch am Gapel-y-ffin, ac yr wyf yn gyfarwydd â'r ardal—lle yr oedd awdurdod lleol yn teimlo nad oedd llwybr penodol at anheddiad yn flaenoriaeth gan fod yr anheddiad yn ardal awdurdod lleol rhywun arall. Yr wyf yn siŵr bod pob awdurdod lleol yn ceisio barnu pa rai yw eu prif lwybrau ac yna'n ceisio cadw'r llwybrau hynny ar agor.

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr i'r Prif Weinidog am ateb yr holl gwestiynau ar y datganiad.

**The Presiding Officer:** I thank the First Minister for responding to all the questions on the statement.

**Datganiad: y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd ac Uwchgynhadledd Copenhagen**  
**Statement: Update on the Climate Change Commission and Copenhagen Conference**

**The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson):** The United Nations Framework Convention on Climate Change Fifteenth Conference of Parties took place in Copenhagen from 7 to 18 December 2009. Although the final declaration did not produce the fair, ambitious and legally binding deal that the world needs, we must regard it as a starting point and focus positively on the next steps towards securing a strong deal and continue to take ambitious action to tackle climate change.

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Cynhaliwyd Pymthegfed Cynhadledd Partion Confensiwn Fframwaith y Cenedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd yn Copenhagen rhwng 7 ac 18 Rhagfyr 2009. Er na chafwyd y cytundeb teg, uchelgeisiol ac sydd â grym cyfreithiol iddo y mae ei angen ar y byd yn y datganiad terfynol, rhaid inni ei ystyried yn fan cychwyn a chanolbwyntio'n gadarnhaol ar y camau nesaf tuag at sicrhau cytundeb cryf, gan barhau i gymryd camau uchelgeisiol i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Our commitment to action on climate change here in Wales is based on a scientific imperative to act and to act urgently to reduce emissions. That scientific imperative remains and the absence of a full international agreement should not deflect us from being as ambitious as possible. Indeed, the importance of demonstrating continued leadership on climate change is perhaps greater than ever. With this in mind, I was very pleased that the National Assembly for Wales voted in support of greenhouse emission reductions of at least 40 per cent by 2020 on a 1990 baseline in Wales. This is in line with the Assembly Government's existing commitments, but the continued cross-party support for our level of ambition is vital and very welcome.

Reflecting the discussion in the Climate Change Commission for Wales on 5 January, I have written to the Secretary of State for Energy and Climate Change to express our support for the UK adopting the Committee on Climate Change's intended budgets now. Doing so ahead of a binding international agreement would send a very strong signal ahead of negotiations in Mexico this December. I hope that, by now, all Assembly Members will have received a copy of that letter.

The Assembly Government's engagement at the Copenhagen conference was intended to promote three objectives. The first was to promote the role that sub-national and regional Governments have to play in tackling the causes and consequences of climate change. As co-chair of the Network of Regional Governments for Sustainable Development, NRG4SD, and with observer status at the negotiations, the Assembly Government delegation worked with partners, both in NRG4SD and other networks, to influence the development of the negotiation text or statement that was to emerge.

Mae ein hymrwymiad i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd yma yng Nghymru wedi'i seilio ar reidrwydd gwyddonol i weithredu ac i weithredu ar frys i leihau allyriadau. Erys y rheidrwydd gwyddonol hwnnw ac ni ddylai diffyg cytundeb rhyngwladol llawn ein rhwystro rhag bod mor uchelgeisiol ag sy'n bosibl. Yn wir, efallai ei bod yn bwysicach nag erioed inni barhau i arwain y ffordd o ran y newid yn yr hinsawdd. Gyda hyn mewn golwg, yr oeddwn yn falch iawn bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi pleidleisio o blaid lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 40 y cant fan leiaf erbyn 2020 ar sail llinell sylfaen 1990 yng Nghymru. Mae hyn yn unol ag ymrwymadau presennol Llywodraeth y Cynulliad, ond mae parhau i gael cefnogaeth drawsbleidiol i lefel ein huchelgais yn hollbwysig ac yn rhywbeth sydd i'w groesawu'n fawr.

Gan adlewyrchu'r drafodaeth yng Nghomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd ar 5 Ionawr, yr wyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd i ddweud ein bod o blaid gweld y Deyrnas Unedig yn mabwysiadu yn awr y cyllidebau a fwriedir gan y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd. Byddai gwneud hynny cyn cael cytundeb rhyngwladol gorfodol yn anfon neges gref iawn cyn y trafodaethau ym Mecsico fis Rhagfyr. Yr wyf yn gobeithio y bydd pob Aelod o'r Cynulliad wedi cael copi o'r llythyr hwnnw erbyn hyn.

Bwriad Llywodraeth y Cynulliad wrth gymryd rhan yng nghynhadledd Copenhagen oedd hybu tri amcan. Y cyntaf oedd hyrwyddo rôl Llywodraethau is-genedlaethol a rhanbarthol o ran mynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd. A minnau'n gyd-gadeirydd Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy, NRG4SD, a chan fod gan ddirprwyaeth Llywodraeth y Cynulliad statws sylwedydd yn y trafodaethau, buom yn gweithio gyda phartneriaid, yn NRG4SD ac mewn rhwydweithiau eraill, i ddylanwadu ar ddatblygu'r testun neu'r datganiad a ddeilliai o'r trafodaethau hynny.



The second objective was to promote Wales's strategic approach and action plan to tackle climate change, to share good practice with other regional Governments and learn from others, to report on progress with the negotiations, and communicate to people in Wales the importance of taking action on climate change.

The third was to enhance Assembly Government links with key networks, regional Governments and UN agencies to strengthen our impact on climate change. Through the wide range of events that both I and the First Minister participated in, we were able to further these objectives.

I chaired the NRG4SD steering group meeting and open session, and met a number of senior leaders, including Governor Schwarzenegger and the US Secretary of Energy, Stephen Chu, Premier Mike Rann from South Australia, Premier Charest from Quebec, Francesc Balthasar, the environment Minister of Catalunya, the Minister and deputy from the Basque Country, and Tanja Gönner, the environment Minister for Baden-Württemberg. I also met a number of African regional Government partners from Zambia, north Burkina Faso, Uganda and Senegal, and their experience demonstrates that climate change is as much a social justice issue as it is an environmental challenge.

Yr ail amcan oedd hybu dull strategol a chynllun gweithredu Cymru ar gyfer mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, rhannu arferion da gyda Llywodraethau rhanbarthol eraill a dysgu gan eraill, cyflwyno adroddiadau ynglŷn â'r cynnydd yn y trafodaethau, a chyfleu i bobl yng Nghymru mor bwysig yw gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

Y trydydd amcan oedd gwella cysylltiadau Llywodraeth y Cynulliad â rhwydweithiau allweddol, â Llywodraethau rhanbarthol ac ag asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig er mwyn cryfhau ein dylanwad ar y newid yn yr hinsawdd. Drwy'r ystod eang o ddigwyddiadau y bûm i a'r Prif Weinidog yn cymryd rhan ynddynt, llwyddasom i hyrwyddo'r amcanion hyn.

Bûm yn cadeirio cyfarfod grŵp llywio a chyfarfod agored NRG4SD, a chyfarfûm â nifer o brif arweinwyr, gan gynnwys y Llywodraethwr Schwarzenegger ac Ysgrifennydd Ynni'r Unol Daleithiau, Stephen Chu, Y Prif Weinidog Mike Rann o Dde Awstralia, y Prif Weinidog Charest o Quebec, Francesc Balthasar, y Gweinidog dros yr amgylchedd yng Nghatalunya, y Gweinidog a'r dirprwy o Wlad y Basg, a Tanja Gönner, y Gweinidog dros yr amgylchedd yn Baden-Württemberg. Cyfarfûm hefyd â nifer o'n partneriaid o Lywodraethau rhanbarthol Affrica, o Zambia, o ogledd Burkina Faso, o Uganda ac o Senegal, ac mae eu profiad hwy'n dangos bod y newid yn yr hinsawdd yn llawn cymaint o fater sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol ag o her amgylcheddol.

I met the Secretary of State, Ed Miliband, Joan Ruddock, the Minister of State in the Department of Energy and Climate Change, Stewart Stevenson, the Scottish Government Minister for Transport, Infrastructure and Climate Change and Edwin Poots, the Northern Ireland Assembly Minister of the Environment, to discuss a common UK position, and hosted a dinner attended by Nick Archer, the British ambassador to Denmark, with partners from NRG4SD, the UN Development Programme and the climate group to discuss regional Government influence in the negotiating process.

At the climate group's climate leaders' summit, the First Minister announced to our 60 regional premiers and Ministers a new climate change partnership with the Mbale region of Uganda in association with the United Nations Development Programme and the UK Government, as part of the Wales for Africa programme; the partnership will help Mbale adapt to climate change and provide new opportunities for Welsh businesses.

3.50 p.m.

In discussion with Jacqueline McGlade, chief executive of the European Environment Agency, I reached agreement in principle to explore a pilot scheme in Wales to test new techniques for developing indicators of sustainable development.

The Welsh Assembly Government climate change champion, Cerith Jones, also attended the summit, providing a Welsh youth perspective to other delegates, and, through his blog, press and media events, he provided an update on the proceedings to people in Wales.

With our regional and sub-national partners, we continued to raise the profile of the need for recognition of the role of sub-national Governments in delivery in the agreed text. The final political declaration was limited but did agree to extend the mandate of the ad hoc

Cyfarfûm â'r Ysgrifennydd Gwladol, Ed Miliband, â Joan Ruddock, y Gweinidog Gwladol yn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, Stewart Stevenson, Gweinidog Llywodraeth yr Alban dros Drafndiaeth, Seilwaith a Newid Hinsawdd ac Edwin Poots, Gweinidog Cynulliad Gogledd Iwerddon dros yr Amgylchedd, i drafod safbwynt ar y cyd yn y Deyrnas Unedig, a threfnais ginio lle yr oedd Nick Archer, llysgennad Prydain yn Nenmarc, yn bresennol, ynghyd â phartneriaid o NRG4SD, Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig a'r grŵp hinsawdd i drafod dylanwad Llywodraethau rhanbarthol ar y broses negodi.

Yn uwchgynhadledd arweinyddion hinsawdd y grŵp hinsawdd, cyhoeddodd y Prif Weinidog wrth ein 60 o brif weinidogion a Gweinidogion rhanbarthol bartneriaeth newydd ar gyfer y newid yn yr hinsawdd. Partneriaeth â rhanbarth Mbale yn Uganda yw honno, ar y cyd â Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, fel rhan o raglen Cymru o blaid Affrica. Bydd y bartneriaeth yn gymorth i Mbale ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a bydd yn cynnig cyfleoedd newydd i fusnesau Cymru.

Wrth drafod gyda Jacqueline McGlade, prif weithredwr Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop, cytunais mewn egwyddor y byddwn yn ystyried cynllun peilot yng Nghymru i brofi technegau newydd ar gyfer datblygu dangosyddion datblygu cynaliadwy.

Daeth un o hyrwyddwyr newid hinsawdd Llywodraeth y Cynulliad i'r uwchgynhadledd hefyd, sef Cerith Jones. Cyflwynodd safbwynt pobl ifanc Cymru i'r cynadleddwyr eraill, a thrwy ei flog, a digwyddiadau i'r wasg a'r cyfryngau, rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r digwyddiadau i bobl yng Nghymru.

Gyda'n partneriaid rhanbarthol ac is-genedlaethol, parhawyd i dynnu sylw at y ffaith bod angen cydnabod rôl Llywodraethau is-genedlaethol o ran gweithredu yn y testun y cytunid arno. Er bod y datganiad gwleidyddol terfynol yn gyfyngedig, yr oedd

working group on long-term cooperative action, with a view to accepting its deliberations in COP 16 in Mexico. The agreed text of the working group deliberations recognises that a broad range of stakeholders needs to be engaged on global, regional, national and local levels, including sub-national and local government. In light of this, we will continue to work with UK partners and internationally to achieve a binding agreement, not least through demonstrating what is possible through our achievements in Wales.

The Climate Change Commission for Wales met on 5 January. The focus of the commission members' updates was on the work undertaken by them or their organisations up to and during the Copenhagen summit, and included an update from Cerith on his experience of attending the summit. Commissioners unanimously supported the view that we should continue to be ambitious in setting political targets to match the science. The meeting also provided commissioners with an opportunity to contribute to the climate change strategy and delivery plan, and there will be further discussion by the commission on the strategy and delivery plan at its next meeting in February.

**Angela Burns:** Minister, thank you for your statement. This is a difficult one. My grandmother was fond of little homilies and one that she drilled into my head was, 'If you can't say something nice, don't say anything at all', and I am finding it hard to say something positive about your statement. I would like to start with a couple of positive things. I and my party recognise that you, as a Minister, have an unswerving commitment to trying to tackle climate change and to moving Wales forward on the issue. I know that you and the Government went to Copenhagen with the best interests of this nation, and of the world, at heart. I salute you and respect you for that.

yn cytuno i ymestyn mandad y gweithgor *ad hoc* ar weithredu cydweithredol hirdymor, gyda golwg ar dderbyn ei drafodaethau yn COP 16 ym Meicsico. Mae testun trafodaethau'r gweithgor, testun y cytunwyd arno, yn cydnabod bod angen meithrin cysylltiad ag ystod eang o randdeiliaid ar lefel fyd-eang, ranbarthol, genedlaethol a lleol, gan gynnwys llywodraethau is-genedlaethol a llywodraeth leol. Yng ngoleuni hyn, byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol i sicrhau cytundeb gorfodol, yn anad dim drwy ddangos beth sy'n bosibl drwy'r hyn a gyflawnir yng Nghymru.

Cyfarfu Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd ar 5 Ionawr. Wrth gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf, yr oedd aelodau'r comisiwn yn canolbwyntio ar y gwaith yr oeddent hwy neu eu sefydliad wedi'i wneud hyd at uwchgynhadledd Copenhagen ac yn ystod yr uwchgynhadledd honno. Yr oedd hynny'n cynnwys diweddariad gan Cerith am ei brofiadau yn yr uwchgynhadledd. Yr oedd y comisiynwyr yn unfryd o blaid y farn y dylem barhau i fod yn uchelgeisiol wrth bennu targedau gwleidyddol sy'n cyd-fynd â'r wyddoniaeth. Yn y cyfarfod hefyd, cafodd y comisiynwyr gyfle i gyfrannu at y strategaeth ar y newid yn yr hinsawdd a'r cynllun cyflawni, a bydd y comisiwn yn trafod y strategaeth a'r cynllun cyflawni eto yn ei gyfarfod nesaf ym mis Chwefror.

**Angela Burns:** Weinidog, diolch am eich datganiad. Mae hyn yn anodd. Yr oedd fy nain yn hoff o ddywediadau bach ac un o'r rhai y byddai'n ei bregethu wrthyf o hyd oedd, 'Os na allwch ddweud rhywbeth caredig, peidiwch â dweud dim byd o gwbl', ac yr wyf yn ei chael yn anodd dweud rhywbeth cadarnhaol am eich datganiad. Hoffwn ddechrau gydag ambell beth cadarnhaol. Yr wyf fi a'm plaid yn sylweddoli bod gennych chi, fel Gweinidog, ymrwymiad di-ildio i geisio mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac i roi hwb ymlaen i Gymru yn y cyswllt hwn. Gwn i chi a'r Llywodraeth fynd i Copenhagen gyda lles y genedl hon, a lles y byd, mewn golwg. Yr wyf yn eich canmol ac yn eich parchu am hynny.

However, it was a deeply disappointing event for all concerned. I would like to dwell on one issue. I note with interest the letter to your colleague Ed Miliband, saying that you felt that there was little benefit in focusing on what Copenhagen did not achieve and that we should focus instead on how we can go forward. I also re-read the statement that you issued just before you went, which stated what you were hoping to achieve in Copenhagen, namely, a legally-binding agreement and for everyone to agree to the 2 degrees target. We did not get a legally-binding agreement and we have no deadline. The accord has not been approved, it was merely recognised. There is no formal agreement on the 2 degrees target, and there are no penalties for those who choose not to push this forward.

The world has decided to have another crack at this in Mexico in December this year. I agree that there is no point in beating our breasts and going through the rigmarole of who said what to whom, or who did not do what they should have done. However, it is of fundamental importance that we understand, on a UK level and on a Wales level, what went wrong, so that we ensure that we can iron out whatever went wrong completely before we get to Mexico. The world will not sustain another abortive attempt at reaching an accord to which we can all sign up.

I would never stand here and belittle or speak detrimentally about our position in the world. Wales is a proud nation. However, we are part of the United Kingdom, which is a smaller nation within Europe and the rest of the world. The problems that we have seem to come from a few very large countries that do not want to play ball at the moment, for all sorts of reasons to do with their internal perspectives. We also have a group of countries, mainly in sub-Saharan Africa, that feel—as you mentioned earlier—that the social benefits to the lifestyles of their citizens are being negated. My request is that you let us understand very clearly, as a country, what the pitfalls were and why it did not happen. Then we can look at how we, together, as an Assembly, can promote, through our own country and through the

Fodd bynnag, yr oedd yn ddigwyddiad siomedig iawn i bawb. Hoffwn ganolbwyntio ar un peth. Sylwaf, gyda diddordeb, ar y llythyr at eich cyd-Weinidog Ed Miliband, yn dweud eich bod yn teimlo nad oedd fawr o fudd canolbwyntio ar yr hyn na lwyddwyd i'w gyflawni yn Copenhagen ac y dylem ganolbwyntio yn hytrach ar sut y gallwn gamu ymlaen. Ailddarllenais hefyd y datganiad a gyhoeddwyd gennych ychydig cyn ichi adael, a oedd yn sôn am yr hyn yr oeddech yn gobeithio'i gyflawni yn Copenhagen, sef cytundeb ac iddo rym cyfreithiol a bod pawb yn cytuno ar y targed 2 radd. Ni chawsom gytundeb ac iddo rym cyfreithiol ac nid oes gennym derfyn amser. Nid yw'r cytundeb wedi'i gymeradwyo, dim ond ei gydnabod a gafodd. Nid oes cytundeb ffurfiol ynglŷn â'r targed 2 radd, ac nid oes cosb i'r rhai sy'n dewis peidio â rhoi hwb ymlaen i hyn.

Mae'r byd wedi penderfynu rhoi cynnig arall arni ym Mecsico fis Rhagfyr eleni. Cytunaf nad oes diben dolefain a rhincian dannedd a rhyw lol pwy a ddywedodd beth wrth bwy, neu pwy na wnaeth yr hyn y dylasai ei wneud. Serch hynny, mae'n hollbwysig inni ddeall, ar lefel y Deyrnas Unedig, ac ar lefel Cymru, beth a aeth o'i le, er mwyn inni sicrhau ein bod yn gallu cywiro beth bynnag a aeth o'i le'n llwyr cyn inni gyrraedd Mecsico. Ni wnaiff y byd oddef ymgais aflwyddiannus arall i sicrhau cytundeb y gallwn i gyd ei gefnogi.

Ni fyddwn byth yn sefyll yma'n bychanu neu'n sôn yn ddifriol am ein safle yn y byd. Mae Cymru'n genedl falch. Serch hynny, yr ydym yn rhan o'r Deyrnas Unedig, sy'n genedl lai o fewn Ewrop a gweddill y byd. Mae'r problemau sydd gennym, i bob golwg, i'w priodoli i'r ffaith nad yw ychydig o wledydd mawr iawn am chwarae'r gêm ar hyn o bryd, am bob math o resymau y mae a wnelont â'u safbwyntiau mewnol. Mae gennym grŵp o wledydd hefyd, a'r rheini'n bennaf yn Affrica is-Sahara, sy'n teimlo—fel y dywedasoeh yn gynharach—fod manteision cymdeithasol o ran ffordd o fyw eu dinasyddion yn cael eu chwalu. Fy nghais i yw ichi egluro inni'n iawn, fel gwlad, beth oedd y rhwystrau a pham na ddigwyddodd y peth. Yna, gallwn edrych ar sut y gallwn ni, gyda'n gilydd, fel Cynulliad, gynorthwyo,

United Kingdom, the filling in of those pitfalls so that they do not exist in Mexico. We can only resolve this as part of a bigger team, and we have to resolve this. The Welsh Conservatives will stand by you on this, and we will do anything that we can to ensure that Mexico is not the disaster that Copenhagen was.

I am sure that we will keep on coming back to this, because it is a classic case of managing to snatch defeat from the jaws of victory. People have talked to me about this again and again since this happened in December. They do not understand how, having got everybody there—all the leaders, their flunkies, their officials and everybody else—it unfolded as it did. What happened last year? Where was all of the preliminary work that should have resulted in the signing up of a deal in Copenhagen, a lot of good photo opportunities, a lot of handshakes and a lot of goodwill, instead of the dreadful bun fight that it became? I can quote Ed Miliband, Gordon Brown, David Cameron and even you on what a disaster everybody felt that it was. Therefore, while I do not wish to be negative, before we go forward we have to look at what went wrong so that we can learn from it.

**Jane Davidson:** Thank you very much, Angela. Your points are extremely valid. Being there in Copenhagen without the agreement that we were looking for was a dispiriting experience. The only thing that raised my spirits was being in the Eurostar train ahead of the ones that got stuck in the tunnel, so I got home without having to spend 14 hours in the tunnel. There are a number of issues relating to this that we must not forget. Although we did not get what we wanted, it is true to say that the accord was agreed by a group representing 49 developed and developing countries that together account for more than 80 per cent of global emissions. That accord is very important. It is also very important that all of those countries have agreed to make specific commitments to tackling emissions, to be lodged by 31 January, so we will see those countries' ambitions. Also, for the first time, all of the countries have signed up to the comprehensive measurement, reporting and

drwy ein gwlad ein hunain, a thrwy'r Deyrnas Unedig, i chwalu'r rhwystrau hynny fel na fyddant yn bodoli ym Mecsico. Dim ond fel rhan o dîm mwy y gallwn ddatrys hyn, ac mae'n rhaid inni ddatrys hyn. Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn sefyll gyda chi yn hyn, a gwnawn bopeth a allwn i sicrhau na fydd Mecsico yn gymaint o drychineb ag a oedd Copenhagen.

Yr wyf yn siŵr y byddwn yn dal i ddod yn ôl at hyn, oherwydd y mae'n enghraifft glasurrol o foddwr wrth ymyl y lan. Mae pobl wedi sôn am hyn wrthyf droeon ers iddo ddigwydd ym mis Rhagfyr. Nid ydynt yn deall sut y datgymalodd y cyfan fel y gwnaeth, ar ôl cael pawb yno—yr arweinwyr i gyd, eu gweision, eu swyddogion a phawb arall. Beth a ddigwyddodd y llynedd? Ymhle yr oedd yr holl waith paratoi a ddylasai arwain at lofnodi cytundeb yn Copenhagen, lluo o gyfleoedd da i dynnu llun, pawb yn ysgwyd llaw a môr o ewyllys da, yn hytrach na'r ffræ ofnadwy a gafwyd? Gallaf ddyfynnu Ed Miliband, Gordon Brown, David Cameron a chithau hyd yn oed yn sôn am faint o drychineb oedd hyn ym marn pawb. Felly, er nad wyf yn dymuno bod yn negyddol, cyn inni fwrw ymlaen, rhaid inni edrych ar yr hyn a aeth o'i le er mwyn inni allu dysgu yn sgîl hynny.

**Jane Davidson;** Diolch yn fawr iawn, Angela. Mae eich pwyntiau'n hynod o ddilys. Yr oedd bod yno yn Copenhagen, heb gael y cytundeb yr oeddem yn ei geisio, yn brofiad torcalonnus. Yr unig beth a gododd fy ysbryd oedd fy mod yn y trê Eurostar o flaen y rhai a gafodd eu dal yn y twnnel. Felly, cyrhaeddais adref heb orfod treulio 14 awr yn y twnnel. Mae nifer o faterion sy'n berthnasol i hyn y mae'n rhaid inni beidio â'u hanghofio. Er na chawsom yr hyn yr oeddem yn dymuno'i gael, mae'n wir dweud bod grŵp a oedd yn cynrychioli 49 o wledydd datblygedig a gwledydd sy'n datblygu wedi llofnodi'r cytundeb ac mae hynny, gyda'i gilydd, yn fwy nag 80 y cant o'r allyriadau byd-eang. Mae'r cytundeb hwnnw'n bwysig iawn. Mae'n bwysig iawn hefyd fod pob un o'r gwledydd hynny wedi cytuno i ymrwymo'n benodol i fynd i'r afael ag allyriadau, ac i gofnodi hynny erbyn 31 Ionawr. Felly byddwn yn gweld beth yw uchelgais y gwledydd hynny. Hefyd, am y tro

verification of progress. On finance, significant commitments have been made: fire-start finance worth £10 billion a year by 2012, with £2.4 billion from the UK, and specific support to tackle deforestation, and, in the long term, the achieving of £100 billion a year of finance for developing countries by 2020, which is what developing countries were calling for.

It is also absolutely true that there must be reform of the process of decision making. The conference was held up over disagreements over procedure, such as which text negotiators should look at, and whether—as in Kyoto—a representative group of countries could be formed to avoid having to discuss everything in a plenary meeting of 192 nations. To quote from the statement that Ed Miliband made to the House on 5 January:

‘Those disputes about process meant that it was not until 3 a.m. on Friday, the last day of the two-week conference, that substantive negotiations began on what became the Copenhagen accord.’

I arrived in Copenhagen ahead of the other environment Ministers. We wanted desperately to ensure the mention of sub-national Governments in the text, which we were successful in doing, had there been a legal agreement around that negotiation. There was a huge appetite to ensure that that was delivered. In Kyoto, the negotiation took place with a representative block of countries to reach an agreement. We have 192 countries and all at different levels of the agenda. Between now and the meeting in Bonn, which Angela Merkel has offered as a mid-year look at these issues, and Mexico in November, for COP 16, we must ensure that these issues are fully resolved.

4.00 p.m.

cyntaf, mae pob un o'r gwledydd wedi cytuno i fesur y cynnydd mewn ffordd gynhwysfawr, i baratoi adroddiadau ynghylch y cynnydd hwnnw a'i wirio. O ran cyllid, cafwyd ymrwymadau sylweddol; cyllid tanio gwerth £10 biliwn y flwyddyn erbyn 2012, gyda £2.4 biliwn gan y Deyrnas Unedig, a chymorth penodol i fynd i'r afael â datgoedwigo, ac yn y tymor hir, sicrhau gwerth £100 biliwn y flwyddyn ar gyfer gwledydd sy'n datblygu erbyn 2020, sef yr hyn yr oedd y gwledydd hynny'n galw amdano.

Mae'n gwbl wir hefyd fod yn rhaid diwygio'r broses o wneud penderfyniadau. Arafwyd trafodaethau'r gynhadledd oherwydd anghytundebau ynglŷn â'r weithdrefn, megis pa destun y dylai'r trafodwyr ei ystyried, ac a ellid ffurfio grŵp cynrychioladol o wledydd—fel yn Kyoto—er mwyn osgoi gorfod trafod popeth mewn cyfarfod llawn gyda 192 o genhedloedd. A dyfynnu o ddatganiad Ed Miliband i'r Tŷ ar 5 Ionawr:

Yr oedd y dadleuon hynny ynglŷn â'r broses yn golygu na ddechreuodd sylwedd y trafodaethau ynglŷn â'r hyn a ddaeth yn gytundeb Copenhagen tan 3 a.m. ar y dydd Gwener, sef diwrnod olaf y gynhadledd a barodd bythefnos.

Cyrhaeddais Copenhagen cyn y Gweinidogion eraill dros yr amgylchedd. Yr oeddem ar dân eisiau sicrhau bod cyfeiriad at Lywodraethau is-genedlaethol yn y testun, a llwyddasom i wneud hynny, petai'r drafodaeth honno wedi arwain at gytundeb cyfreithiol. Yr oedd awydd enfawr i sicrhau bod hynny'n cael ei gyflawni. Yn Kyoto, cynhaliwyd y trafodaethau gyda bloc cynrychioladol o wledydd er mwyn sicrhau cytundeb. Mae gennym 192 o wledydd a'r rheini i gyd ar wahanol lefelau o'r agenda. Rhwng hyn a'r cyfarfod yn Bonn, y mae Angela Merkel wedi'i gynnig er mwyn edrych ar y materion hyn yng nghanol y flwyddyn, a'r cyfarfod ym Mecsico ym mis Tachwedd, ar gyfer COP 16, rhaid inni sicrhau bod y materion hyn yn cael eu datrys yn llwyr.

**Christine Chapman:** Thank you for your statement Minister. During the Copenhagen summit I know that you called for greater recognition of the role that regional Governments can play in tackling climate change, and I welcome that. You will know that, as the Assembly's representative at the Committee of the Regions, my opinion on the Lisbon strategy 2010 is now being backed by the members of the Committee of the Regions, and I know that the President of the Committee of the Regions was present in some of the meetings in Copenhagen.

I would like to thank you, first of all, for your input into my report which, amongst other things, called for the new strategy to incorporate the European Union's climate change targets and commitments to create a low-emissions economy across Europe. It also called on EU leaders to establish and develop Europe's competitiveness in the green economy as a core priority. It also stressed the importance of the role of regional and local governments in any future strategy. This also reflects the thinking of the European Committee and the WLGA.

The European Commission's own consultation on the future strategy, EU 2020, was published in December and concludes at the end of this week. Bearing in mind the commitments that you made in Copenhagen, what representations, if any, have you made to this consultation on the importance of sustainability, and also on the critical role of regional and local governments?

**Jane Davidson:** I would like to take the opportunity today to formally congratulate you, Chris, on the work that you have done on the opinion on the Lisbon strategy. It is superb work and I know that you have put your heart and soul into it. I am delighted that it has been adopted by the Committee of the Regions.

It is terribly important in this debate that networks of regional Governments work

**Christine Chapman:** Diolch ichi am eich datganiad Weinidog. Yn ystod uwchgynhadledd Copenhagen, gwn ichi alw am fwy o gydnabyddiaeth i'r rôl y gall Llywodraethau rhanbarthol ei chwarae wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ac yr wyf yn croesawu hynny. Gwyddoch fy mod yn cynrychioli'r Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau a bod hwnnw bellach yn cefnogi fy safbwynt ynglŷn â strategaeth Lisbon 2010. Gwn hefyd fod Llywydd Pwyllgor y Rhanbarthau'n bresennol yn rhai o'r cyfarfodydd yn Copenhagen.

Hoffwn ddiolch ichi, yn gyntaf, am eich cyfraniad i'm hadroddiad, a oedd, ymhlith pethau eraill, yn galw ar i'r strategaeth newydd gynnwys targedau ac ymrwymadau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer y newid yn yr hinsawdd er mwyn creu economi allyriadau isel ledled Ewrop. Yr oedd hefyd yn galw ar i arweinyddion yr Undeb Ewropeaidd sefydlu a datblygu gallu Ewrop i gystadlu yn yr economi werdd fel blaenoriaeth graidd. Yr oedd yn pwysleisio hefyd mor bwysig oedd rôl llywodraethau rhanbarthol a lleol mewn unrhyw strategaeth yn y dyfodol. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r hyn y mae'r Pwyllgor Ewropeaidd a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n ei feddwl.

Cyhoeddwyd ymgynghoriad y Comisiwn Ewropeaidd ei hun ar y strategaeth ar gyfer y dyfodol, sef EU 2020, ym mis Rhagfyr, a bydd hwnnw'n dod i ben ddiwedd yr wythnos hon. A chofio'r ymrwymadau a gafwyd gennych yn Copenhagen, pa sylwadau, os o gwbl, yr ydych wedi'u cyflwyno i'r ymgynghoriad ynglŷn â phwysigrwydd cynaliadwyedd, a hefyd ynglŷn â rôl hollbwysig llywodraethau rhanbarthol a lleol?

**Jane Davidson:** Hoffwn achub y cyfle heddiw i'ch llongyfarch yn ffurfiol, Chris, ar y gwaith yr ydych wedi'i wneud ynglŷn â'r safbwynt ar strategaeth Lisbon. Mae'n waith ardderchog a gwn eich bod wedi ymroi'n llwyr iddo. Yr wyf wrth fy modd bod Pwyllgor y Rhanbarthau wedi'i fabwysiadu.

Mae'n ofnadwy o bwysig yn y ddadl hon i rwydweithiau o Lywodraethau rhanbarthol

together on these issues. That is why it was important to engage with the climate group, 60 Premiers and First Ministers in Copenhagen, and to have the support of the Conference of Peripheral Maritime Regions, which also serves as a treasurer to the Network of Regional Governments for Sustainable Development, and the Committee of Regions itself. There was a whole area in the conference rooms which showcased a number of European initiatives. This was extremely important in showing the united voice of Europe in the context of this negotiation because Europe had come with the view that if the binding agreement was there, then they would lift, as a group of nations, the commitment to reduce carbon from 20 per cent to 30 per cent by 2020. In my letter to Ed Miliband, who has previously acknowledged the importance of regional Governments in this context, we are asking that, in the UK, we do that anyway in order to urge others in Europe to get alongside us, and maintain the ambitious target that they have already agreed to in principle.

**Leanne Wood:** Thank you for your statement Minister, and I welcome, in particular, your remarks that, regardless of the fact that no binding agreement was reached, the scientific imperative remains and that the lack of agreement should not deflect us from being as ambitious as possible.

I can see your argument for not focusing on what has not been agreed, but I am sure that you share my bitter disappointment at the eventual outcome of the Copenhagen summit. Many world leaders reacted angrily to the private agreement, which they saw as a stitch-up between the heads of countries that are among the greatest emitters of greenhouse gases in the world.

The problem with the failure to reach agreement at Copenhagen is that we do not have time to lose. The climate science tells us—I know that you are well aware of this—that we must act quickly if we are to avoid catastrophic and irreversible climate change. Some islands are already disappearing underwater, and parts of sub-Saharan Africa

gydweithio ar y materion hyn. Dyna pam yr oedd yn bwysig meithrin cysylltiad â'r grŵp hinsawdd, â'r 60 Prif Weinidog yn Copenhagen a chael cefnogaeth Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol, sydd hefyd yn drysorydd i Rwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, a Phwyllgor y Rhanbarthau ei hun. Yr oedd ardal gyfan yn yr ystafelloedd cynadledda lle yr arddangoswyd nifer o gynlluniau Ewropeaidd. Yr oedd hyn yn arbennig o bwysig o ran dangos bod Ewrop yn siarad ag un llais yng nghyd-destun y trafodaethau hyn oherwydd yr oedd Ewrop, fel grŵp o genhedloedd, pe ceid y cytundeb gorfodol, wedi dod yno'n bwriadu cryfhau'r ymrwymiad i leihau allyriadau carbon 20 y cant i 30 y cant erbyn 2020. Yn fy llythyr at Ed Miliband, sydd wedi cydnabod pwysigrwydd Llywodraethau rhanbarthol o'r blaen yn y cyd-destun hwn, yr ydym yn gofyn ar inni wneud hynny beth bynnag yn y Deyrnas Unedig, er mwyn annog eraill yn Ewrop i sefyll ochr yn ochr â ni, a chynnal y targed uchelgeisiol y maent eisoes wedi cydsynio ag ef mewn egwyddor.

**Leanne Wood:** Diolch ichi am eich datganiad Weinidog, ac yr wyf yn croesawu'n benodol eich sylwadau ynglŷn â bod y rheidrwydd gwyddonol yn parhau o hyd, er na chafwyd cytundeb gorfodol, ac na ddylai'r diffyg cytundeb ein rhwystro rhag bod mor uchelgeisiol ag sy'n bosibl.

Deallaf eich dadl ynglŷn â pheidio â chanolbwyntio ar yr hyn na lwyddwyd i gytuno yn ei gylch, ond yr wyf yn siŵr eich bod, fel minnau, yn ofnadwy o siomedig ynglŷn â chanlyniad terfynol uwchgynhadledd Copenhagen. Yr oedd llawer o arweinwyr y byd yn ddig ynglŷn â'r cytundeb preifat, gan ei weld yn drefniant hwylus rhwng penaethiaid gwledydd sydd ymhlith allyrwyr nwyon tŷ gwydr mwyaf y byd.

Wrth fethu cael cytundeb yn Copenhagen, y broblem yw nad oes gennym amser i'w golli. Mae gwyddoniaeth yr hinsawdd yn dweud wrthym—gwn eich bod yn gwybod hyn yn iawn—fod yn rhaid inni weithredu'n gyflym er mwyn osgoi newid catastroffig yn yr hinsawdd nad oes modd ei wrthdroi. Mae rhai ynnysoedd eisoes yn diflannu o dan y dŵr, ac



are undergoing rapid desertification, forcing people to move, which risks creating conflict over access to resources.

Some world leaders are trying hard to manage these drastic changes, while others preside over a private stitch-up. I am sure that you will agree that the anger over the failure of Copenhagen is understandable and justified. One of the world leaders angered by the failure of Copenhagen is Evo Morales, the President of Bolivia. He denounced industrialised countries for pledging only £10 billion a year to help countries to meet the challenges of climate change while spending trillions to fight unnecessary wars. As a result, Evo Morales is organising an alternative climate conference in April. Would you be prepared to look at what Evo Morales has proposed for this alternative conference, and would you be open to the idea of ensuring that Wales is represented at such an event?

Finally, I have a question about the funding that has been announced to support the coffee planters in the Mbale region of Uganda. I would like assurances from you that none of the money that is to go to what sounds like a worthwhile project will be of any benefit to the Ugandan Government, which is currently in the process of trying to legislate to introduce the death penalty for people who are caught for just being gay. I am sure that that is abhorrent to all of us in the Assembly, so I would be grateful for your assurances on that matter.

**Jane Davidson:** It is important to say that, even if every country in the world were to reduce its emissions by 3 per cent per year from 2011 onwards, the global average temperature rises would exceed 2 degrees centigrade. This is the beginning of catastrophic climate change, if we do not take the appropriate actions. Restricting the global average temperature rise to 2 degrees is widely recognised as necessary to avoid dangerous climate change. Also, according to current scientific understanding, globally, we will have to exceed that 3 per cent target if we wish to succeed in this aim.

mae rhannau o Affrica is-Sahara'n prysur droi'n anialwch, gan orfodi pobl i symud. Mae perygl i hyn greu gwrthdaro wrth i bobl geisio cael gafael ar adnoddau.

Mae rhai o arweinwyr y byd yn ymdrechu'n ddygn i reoli'r newidiadau llym hyn, tra bo eraill yn llywyddu dros drefniant hwylus preifat. Yr wyf yn siŵr y cytunwch fod y dicter ynglŷn â methiant Copenhagen yn ddieter y gellir ei ddeall a'i gyfiawnhau. Un o arweinwyr y byd sy'n ddig ynglŷn â methiant Copenhagen yw Evo Morales, Arlywydd Bolivia. Condemiodd wledydd diwydiannol am beidio ag addo mwy na £10 biliwn y flwyddyn i gynorthwyo gwledydd i ymateb i her y newid yn yr hinsawdd er eu bod yn gwario triliynau i ymladd rhyfeloedd diangen. O ganlyniad, mae Evo Morales yn trefnu cynhadledd amgen ar y newid yn yr hinsawdd ym mis Ebrill. A fydddech yn barod i ystyried yr hyn y mae Evo Morales wedi'i gynnig ar gyfer y gynhadledd amgen hon, ac a fydddech yn barod i ystyried sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli mewn digwyddiad o'r fath?

Yn olaf, mae gennyf gwestiwn ynglŷn â'r cyllid sydd wedi'i gyhoeddi i gefnogi planwyr coffi yn rhanbarth Mbale yn Uganda. Hoffwn gael sicrwydd gennych na fydd dim o'r arian ar gyfer prosiect sydd i'w weld yn un gwerth chweil, o fudd o gwbl i Lywodraeth Uganda. Mae honno ar hyn o bryd yn ceisio deddfu i gyflwyno'r gosb eithaf i bobl a gaiff eu dal am y rheswm syml eu bod yn hoyw. Yr wyf yn siŵr bod pawb ohonom yn y Cynulliad yn ffieiddio wrth hynny, felly, byddwn yn ddiolchgar o gael sicrwydd gennych ynglŷn â'r mater hwnnw.

**Jane Davidson:** Mae'n bwysig dweud, hyd yn oed petai pob gwlad yn y byd yn gostwng ei hallyriadau 3 y cant y flwyddyn o 2011 ymlaen, y byddai'r tymheredd byd-eang ar gyfartaledd yn cynyddu mwy na 2 radd canran. Dyma ddechrau newid catastroffig yn yr hinsawdd, oni chymerwn y camau priodol. Cydnabyddir yn gyffredinol fod angen sicrhau nad yw'r tymheredd byd-eang yn cynyddu mwy na 2 radd er mwyn osgoi newid peryglus yn yr hinsawdd. Hefyd, yn ôl yr hyn a ddeallir gan wyddonwyr ar hyn o bryd, bydd yn rhaid inni fynd y tu hwnt i'r targed hwnnw o 3 y cant yn fyd-eang er

mwyn cyrraedd y nod hwn.

On that basis, we should not have alternative conferences on climate change because we have to have agreement through the UN. We are happy to look at any conference proposal to see if there is any benefit to Wales if we were to attend, or any benefit to the conference if the experience of Wales in drawing up a climate change strategy is useful, but this really is not the year to have any kind of division with regard to how we move forward on this agenda. The danger is, as I saw in Copenhagen, that people do want to argue on the basis of whether or not they are happy to have amicable relationships with other countries and they do want to argue over process instead of getting everybody round the proverbial global table to deliver a deal. From our perspective, we would only be prepared to take part in events this year that further the prospect of achieving a deal in Mexico at the end of the year.

Ar sail hynny, ni ddylem gynnal cynadleddau amgen ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd oherwydd rhaid inni sicrhau cytundeb drwy'r Cenhedloedd Unedig. Yr ydym yn fodlon edrych ar unrhyw gynnig ar gyfer cynhadledd i weld a oes unrhyw fudd i Gymru fynd yno, neu a oes unrhyw fudd i'r gynhadledd glywed am brofiad Cymru wrth iddi lunio strategaeth ar y newid yn yr hinsawdd, ond a dweud y gwir, nid eleni yw'r flwyddyn inni gael unrhyw fath o raniad ynglŷn â sut y mae bwrw ymlaen â'r agenda hon. Y perygl yw, fel y gwelais yn Copenhagen, fod pobl am ddadlau ynghylch a ydynt yn fodlon cael perthynas gyfeillgar â gwledydd eraill a'u bod am ddadlau ynglŷn â'r broses yn hytrach na chael pawb o gwmpas y bwrdd yn fyd-eang i sicrhau cytundeb. O'n safbwynt ni, ni fyddem ond yn barod i gymryd rhan mewn digwyddiadau eleni sy'n hyrwyddo'r rhagolygon o sicrhau cytundeb ym Mecsico ddiwedd y flwyddyn.

With regard to your concerns about the actions of a backbencher in Uganda to have a piece of legislation introduced in relation to homosexuality, the Assembly Government would absolutely abhor such an approach. We do not yet know that the Government of Uganda will support such an approach, but I point out that our link in Wales is not with the Ugandan Government, but with the communities that make up the Mbale region in one small part of Uganda. The aid is very much about social justice aspects of delivery on climate change. We know that a number of nations have already indicated that should the proposed legislation go through, they will withdraw aid from Uganda. If aid was withdrawn from Uganda by Britain, among others, there would be a penalty in the Mbale region, so I hope that sense will prevail.

O ran eich pryderon ynglŷn â'r camau a gymerwyd gan feinciwr cefn yn Uganda i gyflwyno darn o ddeddfwriaeth ynglŷn â chyfunrywioldeb, byddai hynny'n gwbl wrthun i Lywodraeth y Cynulliad. Ni wyddom eto a wnaiff Llywodraeth Uganda gefnogi cam o'r fath, ond pwysleisiasf mai â chymunedau rhanbarth Mbale y mae ein cysylltiad ni yng Nghymru, nid â Llywodraeth Uganda. Mae a wnelo'r cymorth, i raddau helaeth, ag agweddau'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol ar gyflawni ym maes y newid yn yr hinsawdd. Gwyddom fod nifer o genhedloedd eisoes wedi awgrymu, os digwydd i'r ddeddfwriaeth a gynigir gael ei phasio, y byddant yn rhoi'r gorau i gynorthwyo Uganda. Petai Prydain, ymhlith eraill, yn rhoi'r gorau i gynorthwyo Uganda, byddai rhanbarth Mbale yn talu'r pris, felly yr wyf yn gobeithio y bydd y penderfyniad yn un call.

4.10 p.m.

**Mick Bates:** Thank you for the statement. Two clear issues arise from it, but first, I share the immense disappointment of other speakers that there was no legally binding agreement at Copenhagen. My fear is that the emphasis will now be on developed nations

**Mick Bates:** Diolch ichi am y datganiad. Mae dau fater clir yn codi ohono, ond yn gyntaf, yr wyf finnau, fel siaradwyr eraill, yn siomedig ofnadwy na chafwyd cytundeb ac iddo rym cyfreithiol yn Copenhagen. Mae arnaf ofn y bydd y pwyslais yn awr ar y

because the slower the progress that we make in cutting carbon emissions in places such as the UK and other developed nations, the less credibility we will have to move forward and persuade developing nations to cut their emissions at a sensible rate. My first question relates to the £10 billion fund that was announced as a result of the accord. Can you give an insight into how the fund will be managed? Although it sounds like a large amount, in the context of developing nations and the support that will be needed, the fund must be managed effectively so that we do not see headlines about the misuse of this fund in nations where there is insufficient infrastructure to enable the funding to be put to its required use.

The second issue is the one that Angela so eloquently put forward about the whole process of the United Nations climate change conference. I was very disappointed by the outcome of that conference, and Ed Miliband summed it up well when he said that it was 'a chaotic process dogged by procedural games'. We have debated these issues and have arrived at a consensus in the Assembly, and a similar process has occurred in the Westminster political sphere where there is a degree of cohesion and consensus. Therefore, our efforts to maintain that consensus seem to have been belittled by this international conference, which seems to have cost a lot, gained a lot of coverage but ultimately has let us all down. I share your disappointment at that, and I wish to hear more about what will happen as a result of comments such as those of Ed Miliband. What lessons have been learnt to assist with this, whether in the intermediate Merkel arrangements or the Mexico conference in December? If we do not overcome those procedural blockages and games to which Ed Miliband referred, we will be in a mess.

The third issue is your role in this process. I share other Members' view and put on record our recognition of your leadership and work with the NRG4SD. It is something of which you can be justifiably proud, and we would

cenhedloedd sydd wedi datblygu oherwydd po arafaf fydd ein cynnydd wrth dorri allyriadau carbon mewn manau megis y Deyrnas Unedig a gwledydd datblygedig eraill, po leiaf o hygredded a fydd gennym i symud ymlaen a pherswadio'r cenhedloedd sy'n datblygu i dorri eu hallyriadau hwythau ar gyfradd synhwyrol. Mae a wnelo fy nghwestiwn cyntaf â'r gronfa £10 biliwn a gyhoeddwyd yn sgîl y cytundeb. A allwch roi syniad inni sut y caiff y gronfa ei rheoli? Er ei fod yn swm mawr i bob golwg, yng nghydestun y cenhedloedd sy'n datblygu, a'r cymorth y bydd ei angen, rhaid rheoli'r gronfa'n effeithiol, fel na welwn benawdau ynglŷn â chamddefnyddio'r gronfa hon mewn cenhedloedd lle nad oes seilwaith digonol i alluogi'r arian i gael ei ddefnyddio yn ôl y gofyn.

Yr ail fater yw'r un a fynegwyd mor huawdl gan Angela ynglŷn â holl broses cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar y newid yn yr hinsawdd. Yr oeddwn yn siomedig iawn ynglŷn â chanlyniad y gynhadledd honno, a chrynhwyd y peth yn dda gan Ed Miliband pan ddywedodd ei bod yn broses ddi-drefn a lesteiriwyd gan gemau gweithdrefnol. Yr ydym wedi trafod y materion hyn ac wedi llwyddo i gael consensws yn y Cynulliad. Mae proses debyg bod wedi bod ar waith yng nghylch gwleidyddol San Steffan lle y ceir rhywfaint o undod a chonsensws. Felly, mae ein hymdrechion i gynnal y consensws hwnnw i bob golwg wedi'u bychanu gan y gynhadledd ryngwladol hon, sydd, mae'n ymddangos, wedi costio llawer, wedi cael llawer o sylw ond yn y pen draw wedi'n siomi i gyd. Yr wyf fi fel chithau'n siomedig ynglŷn â hynny, a hoffwn glywed rhagor am yr hyn a fydd yn digwydd yn sgîl sylwadau megis rhai Ed Miliband. Pa wersi sydd wedi'u dysgu i'n cynorthwyo gyda hyn, boed yn nhrefniadau Merkel ar gyfer gynhadledd rhwng cynadleddau neu yng nghynhadledd Mecsico ym mis Rhagfyr? Oni lwyddwn i ddatrys y rhwystrau a'r gemau gweithdrefnol hynny y cyfeiriodd Ed Miliband atynt, byddwn mewn twll.

Y trydydd peth yw eich rôl chi yn y broses hon. Yr wyf finnau'n cytuno ag Aelodau eraill ac am gofnodi'n cydnabyddiaeth i'ch arweiniad a'ch gwaith gyda'r NRG4SD. Mae'n rhywbeth y gallwch fod yn

all support you in the moves that you have made in that regard. How will the network use some of the funding to which I referred earlier? How will we see your efforts rewarded by a robust funding structure which will assist these projects, because many good things can be done at a regional level? The commitment from the chief executive of the European Environment Agency—I have forgotten her name—to look at indicators for sustainable development is something which I have long promoted. As part of that, have you also lobbied for a cost benefit appraisal of carbon reduction, because that helps us to direct the funding to the most effective usage in every nation?

haeddiannol falch ohono, a byddem i gyd yn eich cefnogi yn y camau yr ydych wedi'u cymryd yn y cyswllt hwnnw. Sut y bydd y rhwydwaith yn defnyddio rhywfaint o'r arian y cyfeiriais ato'n gynharach? Sut y gwelwn eich ymdrechion yn cael eu gwobrwyo drwy strwythur ariannu cadarn a fydd yn cynorthwyo'r prosiectau hyn, oherwydd gellir gwneud llawer o bethau da ar lefel ranbarthol? Mae'r ymrwymiad gan brif weithredwr Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop—yr wyf wedi anghofio'i henw—i ystyried dangosyddion ar gyfer datblygu cynaliadwy'n rhywbeth yr wyf wedi'i argymhell ers tro. Fel rhan o hynny, a ydych hefyd wedi lobio o blaid cael arfarniad cost budd o leihau carbon, oherwydd y mae hynny'n gymorth inni gyfeirio'r arian i'w ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ym mhob cenedl?

In reference to your comments at the end of the statement about the Climate Change Commission, when will it publish its work to assist you to meet the 'One Wales' commitment to reduce carbon emissions by 3 per cent?

Gan gyfeirio at eich sylwadau ar ddiwedd y datganiad am y Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd, pryd y bydd yn cyhoeddi ei waith i'ch cynorthwyo i gyflawni ymrwymiad 'Cymru'n Un' i leihau allyriadau carbon 3 y cant?

**Jane Davidson:** I will read directly from the Copenhagen accord. In relation to annex I parties, which are the developed countries, it says

**Jane Davidson:** Darllenaf yn uniongyrchol o gytundeb Copenhagen. O ran partiön atodiad I, sef y gwledydd datblygedig, mae'n dweud

'Delivery of reductions and financing by developed countries will be measured, reported and verified in accordance with existing and any further guidelines adopted by the Conference of the Parties, and will ensure that accounting of such targets and finance is rigorous, robust and transparent.'

Mesurir lleihau allyriadau ac ariannu gan wledydd datblygedig, adroddir yn eu cylch a'u gwirio yn unol â chanllawiau sy'n bodoli eisoes ac unrhyw ganllawiau eraill a fabwysiedir gan Gynhadledd y Partiön, a sicrhair bod y ffordd y cyfrifir targedau a chyllid o'r fath yn drwyadl, yn gadarn ac yn dryloyw.

Non-annex I countries, the developing countries, have agreed that they

Mae'r gwledydd nad ydynt yn wledydd atodiad I, sef y gwledydd sy'n datblygu, wedi cytuno

'will be subject to their domestic measurement, reporting and verification the result of which will be reported through their national communications every two years.'

y byddant yn cael eu mesur, yr adroddir yn eu cylch a'u gwirio yn ôl trefniadau eu gwlad hwy eu hunain, a chyflwynir adroddiad ynglŷn â chanlyniad hynny drwy gyfrwng eu cyfathrebu cenedlaethol bob dwy flynedd.

Therefore, in the accord, there is a mechanism for both developed and developing countries to report their delivery

Felly, yn y cytundeb, ceir mecanwaith ar gyfer y gwledydd datblygedig a'r gwledydd sy'n datblygu er mwyn iddynt gyflwyno

of reductions and the financing in a rigorous, robust and transparent way. Part of the final legally binding agreement will need to enshrine that. You will remember that, right up to the close of play, one of the big issues on which there was a difference between the United States of America and China was how the monitoring and recording would take place.

Secondly, I have already responded to Angela on the chaotic nature of the process. It was an ambition that faltered at the end of the day because the UN, and Yvo de Boer in particular, was explicit about wanting to engage civil society in this debate far more widely than had been done before. In doing that, so many members of civil society were involved that I wonder whether the conference of parties was as effective as it could have been. It is certainly true to say—as you would know if you watched any reports from Copenhagen or had listened to our young climate change champion, who queued for many hours on the first day but was refused entry, and only got in because he was literally there at dawn the following day, which was a day on which any other NGO representatives were refused entry on an arbitrary basis—that there were huge issues in relation to the number of people who came to Copenhagen with legitimate accreditation but were not members of parties. There were too many for the conference centre. There were all sorts of issues around this particular chaotic process that I am absolutely confident that the UN will not want to see repeated. That is why I very much welcome the commitment from Ban Ki-moon, as the secretary general of the UN, that there will be a review of the arrangements for negotiations so that everyone can achieve an outcome this year.

I hope that the final draft of our climate change strategy will go before the Climate Change Commission in late February, or maybe in early March, and, subject to its agreement, we will look to publish that as soon as possible. However, that may be delayed by a general election. We may be in general election territory when it comes to

adroddiadau trwyadl, cadarn a thryloyw ynglŷn â chyflawni'r gostyngiadau a'r ariannu. Bydd angen i ran o'r cytundeb ac iddo rym cyfreithiol ar ei ffurf derfynol gynnwys hynny. Fe gofiwch, hyd at ddiwedd y trafodaethau, mai un o'r pynciau mawr a oedd yn destun anghytundeb rhwng Unol Daleithiau America a Tsieina oedd sut y byddai'r monitro a'r cofnodi'n digwydd.

Yn ail, yr wyf eisoes wedi ymateb i Angela ynglŷn â natur ddi-drefn y broses. Uchelgais a simsanodd maes o law oedd hwn am fod y Cenhedloedd Unedig, ac Yvo de Boer yn benodol, yn benderfynol ei fod am gynnwys cymdeithas sifil ar raddfa fwy eang o lawer yn y ddadl hon nag erioed o'r blaen. Wrth wneud hynny, yr oedd cynifer o aelodau'r gymdeithas sifil yn rhan o'r peth nes imi amau a oedd cynhadledd y partiön mor effeithiol ag y gallasai fod. Mae'n sicr yn wir dweud—fel y byddech yn gwybod o wyllo unrhyw adroddiadau o Copenhagen neu petaech wedi gwranddo ar ein hyrwyddwr newid hinsawdd ifanc, a fu'n ciwio am oriau lawer ar y diwrnod cyntaf ond y gwrthodwyd mynediad iddo, a'r unig reswm y cafodd fynd i mewn y diwrnod wedyn oedd am iddo fynd yno'n llythrennol ar doriad y wawr, a hynny ar ddiwrnod pan wrthodwyd mynediad yn fympwyol i unrhyw gynrychiolwyr sefydliadau anllywodraethol eraill—fod problemau enfawr yn gysylltiedig â nifer y bobl a ddaeth i Copenhagen nad oeddent yn aelodau o bartiön er bod ganddynt achrediad dilys. Yr oedd y ganolfan gynadleda'n rhy fach i'r nifer a oedd yno. Yr oedd pob math o broblemau ynghlwm wrth y broses anhrefnus arbennig hon yr wyf yn gwbl hyderus na fydd y Cenhedloedd Unedig am eu gweld yn digwydd eto. Dyma pam yr wyf yn croesawu'n fawr yr ymrwymiad gan Ban Ki-moon, sef ysgrifennydd cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, yr adolygir y trefniadau ar gyfer trafodaethau er mwyn i bawb allu sicrhau canlyniad eleni.

Gobeithio yr aiff drafft terfynol ein strategaeth ar y newid yn yr hinsawdd gerbron y Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd ddiwedd Chwefror, neu efallai ddechrau mis Mawrth, ac, a bwrw y cytunir arni, ein nod fydd ei chyhoeddi cyn gynted ag sy'n bosibl. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd etholiad cyffredinol yn peri oedi yn y

publication, but we hope to get it out as soon as possible, following all-party and all-sector agreement within the commission.

**Brian Gibbons:** Thank you for your statement, Minister. Like others, I share your disappointment at what happened at Copenhagen. Do you agree that it is important that we recognise that these issues are not substantially ones of process, which a number of speakers have mentioned in their contributions, but ones of principle and substance and that the real issue of principle and substance that seems to have been the stumbling block at Copenhagen was the inability to reconcile the science with the social justice requirements of responding to the climate change challenge? Unless we recognise that there are issues of real substance and real choices to be made, we are not likely to achieve any success in Mexico or anywhere else.

Mick Bates spoke about requiring developing countries to cut their emissions—I do not know whether he said ‘drastically’, but he certainly spoke about cutting their emissions. One of the issues at the heart of the failure to reach an agreement in Copenhagen was that the developing countries, because of their levels of poverty, deprivation, ill-health and inequalities, are not in a position to deliver that type of agenda.

4.20 p.m.

We have to come to a global agreement under which some countries are in a position to increase their emissions, and others pay for that. We are the people who will pay for that—many of the advanced western countries. The challenge is for those Governments to deliver that extra commitment alongside the needs of their own population. We need some clarity as to what the issues are.

Secondly, if we are to ask developing countries to forsake some of their economic growth to get them out of poverty and

cyswllt hwnnw. Efallai y byddwn yng nghanol etholiad cyffredinol pan ddaw'n adeg cyhoeddi, ond gobeithiwn ei chyhoeddi cyn gynted ag sy'n bosibl, ar ôl cael cytundeb pob plaid a phob sector yn y comisiwn.

**Brian Gibbons:** Diolch ichi am eich datganiad, Weinidog. Fel eraill ac fel chithau, yr wyf finnau hefyd yn siomedig ynglŷn â'r hyn a ddigwyddodd yn Copenhagen. A ydych yn cytuno ei bod yn bwysig inni gydnabod nad materion sy'n ymwneud â'r broses yn ei hanfod yw'r problemau hyn, rhywbeth y mae nifer o siaradwyr wedi'i grybwyll yn eu cyfraniadau, ond materion o egwyddor ac o sylwedd ac mai'r gwir fater o egwyddor a sylwedd a oedd yn faen tramgwydd yn ôl pob golwg yn Copenhagen oedd yr anallu i gysoni'r wyddoniaeth â'r gofynion o ran cyfiawnder cymdeithasol ynglŷn ag ymateb i her y newid yn yr hinsawdd? Oni chydabyddwn fod materion o wir sylwedd a bod dewisiadau gwirioneddol i'w gwneud, nid ydym yn debyg o sicrhau dim llwyddiant nac ym Mecsico nac yn unman arall.

Soniodd Mick Bates am fynnu bod gwledydd sy'n datblygu'n torri eu hallyriadau—ni wn a ddywedodd ‘yn llym’, ond yn sicr, soniodd am dorri eu hallyriadau. Un o'r materion a oedd wrth wraidd methu sicrhau cytundeb yn Copenhagen oedd nad yw'r gwledydd sy'n datblygu, oherwydd lefelau eu tlodi, eu hamddifadedd, eu hafiechyd a'u hanghydraddoldeb, mewn sefyllfa lle y gallant wireddu'r math hwnnw o agenda.

Rhaid inni gael cytundeb byd-eang, ac o dan y cytundeb hwnnw bydd rhai gwledydd mewn sefyllfa lle y gallant gynyddu eu hallyriadau, a bydd eraill yn talu am hynny. Ni yw'r bobl a fydd yn talu am hynny—llawer o wledydd datblygedig y gorllewin. Yr her yw i'r Llywodraethau hynny gyflawni'r ymrwymiad ychwanegol hwnnw ochr yn ochr ag anghenion eu poblogaeth hwy eu hunain. Mae angen rhywfaint o eglurder arnom ynglŷn â beth yw'r materion dan sylw.

Yn ail, os ydym am ofyn i wledydd sy'n datblygu gefnu ar rywffaint o'u twf economaidd i'w tynnu o dlodi ac

deprivation, then even the \$100 billion by 2020 will probably be inadequate. Will we be making commitments at the next general election for western countries to invest to provide the \$100 billion and more by 2020? Will we make these choices? There is often a sense of unreality about this debate. We face hard choices, and the green option is not the cuddly, easy option.

**Jane Davidson:** The Copenhagen accord recognises that the timeframe for peaking of global and national emissions in developed countries should be as soon as possible, but will be longer in developing countries because social and economic development and poverty eradication are their overriding priorities, and recognises that a low-emission development strategy is indispensable to sustainable development. The accord says:

‘We agree that developed countries shall provide adequate, predictable and sustainable financial resources, technology and capacity-building to support the implementation of adaptation action in developing countries’.

You are absolutely right to say that these are major matters of substance, as well as there being issues about the process. However, the major matter of substance largely seems to be how much money could be placed on the table, and there was broad agreement at Copenhagen that, at this point, developing countries would have been satisfied with a deal that committed to \$100 billion per annum by 2020 in order to get a binding legal agreement. Of course, when Africa was prepared to offer that, it is a shame that the rest of the world could not say ‘yes’. Nick Stern has said on many occasions that each year of delayed action will not just cost a lot more money, but increasingly will start to cost lives, as he said in Copenhagen. He also pointed out that it is often the cities and towns of the world, and local authorities and regional Governments, that are taking action, and the action that we are all taking must be fully replicated at UN member state level.

amddifadedd, yna, mae’n debyg na fydd hyd yn oed y \$100 biliwn erbyn 2020 yn ddigon. A fyddwn yn ymrwymo yn yr etholiad cyffredinol nesaf y bydd gwledydd y gorllewin yn buddsoddi er mwyn darparu’r \$100 biliwn a rhagor erbyn 2020? A fyddwn yn dewis gwneud y pethau hyn? Mae ymdeimlad afreal yn aml ynghlwm wrth y ddadl hon. Yr ydym yn wynebu dewisiadau anodd, ac nid y dewis cyfforddus, rhwydd yw’r opsiwn gwyrdd.

**Jane Davidson:** Mae cytundeb Copenhagen yn cydnabod y dylai’r amserlen ar gyfer gweld allyriadau byd-eang a chenedlaethol y gwledydd datblygedig yn cyrraedd eu hanterth fod cyn fyrred ag sy’n bosibl, ond y bydd angen mwy o amser ar y gwledydd sy’n datblygu oherwydd mai datblygu cymdeithasol ac economaidd a dileu tloedi yw eu prif flaenoriaethau. Mae’n cydnabod hefyd fod strategaeth datblygu allyriadau isel yn hollbwysig er mwyn cael datblygu cynaliadwy. Dywed y cytundeb:

Yr ydym yn cytuno y bydd gwledydd datblygedig yn darparu adnoddau digonol, rhagweladwy a chynaliadwy, a’r rheini’n adnoddau ariannol, yn adnoddau technolegol ac yn adnoddau sy’n meithrin gallu, i gynorthwyo gwledydd sy’n datblygu i ymaddasu.

Yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud bod y rhain yn faterion o sylwedd o bwys, yn ogystal â bod problemau ynghlwm wrth y broses. Serch hynny, y prif fater o sylwedd i bob golwg yw faint o arian y gellid ei roi ar y bwrdd, ac yr oedd cytundeb cyffredinol yn Copenhagen, y byddai’r gwledydd sy’n datblygu, ar hyn o bryd, wedi bod yn fodlon ar gytundeb a oedd yn addo \$100 biliwn y flwyddyn erbyn 2020 er mwyn sicrhau cytundeb ac iddo rym cyfreithiol. Wrth gwrs, pan oedd Affrica’n barod i gynnig hynny, mae’n drueni na allai gweddill y bydd ddweud ‘iawn’. Mae Nick Stern wedi dweud droeon y gwnaiff pob blwyddyn o oedi cyn gweithredu nid yn unig gostio llawer mwy o arian, ond y bydd yn dechrau costio bywydau fwyfwy, fel y dywedodd yn Copenhagen. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith mai dinasoedd a threfi’r byd ac awdurdodau lleol a Llywodraethau rhanbarthol sy’n gweithredu a bod yn rhaid ailadrodd y camau yr ydym i

gyd yn eu cymryd yn llawn ar lefel aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for your statement. I share the disappointment of others around the Chamber, but I am led to believe that important agreements on deforestation and the acidification of the oceans were reached at Copenhagen—you touched on them in responding to my colleague, Angela Burns. I would like to see more enthusiasm about those agreements, which may not have represented the ultimate goal of the conference, but they were nevertheless important. Hopefully, they will help to clean up the world in which we live and which we will be handing on to the next generation. For my part, I do not share the doomsday scenario that many subscribe to—you used the word 'catastrophic', but we can have that debate another day—but I do agree with the importance of using our resources carefully and sensibly, and handing over a better world to the next generation. With that in mind, I look forward to your assessment of the conference and, in particular, the progress to come. We have touched on Mexico in 12 months' time, and Bonn in six months' time, and the critical thing is to get the process right, so that an agreement of some sort can be reached, because many of the electorate who have to bear the cost and the consequence of the agreements must be brought along with any agreement.

Mexico will be the sixteenth conference, I believe, in the series of UN conferences that have been brought together to try to address climate change. Is it your understanding, from your observation of the conference, that the real key players are now the group of five—India, China, Brazil, South Africa and America—and that it is the group of five, which brought the bones of the accord together at Copenhagen, that will be the drivers of the success in Mexico, if that is what we are to have? Has the process, from your understanding, changed dramatically from where we were six or eight months ago in doing the preparatory work for Copenhagen? You have talked extensively about the need for the UK, and for the devolved Government here in particular to feed into the UK representations, to prepare in a more meaningful way for Mexico if we

**Andrew R.T. Davies:** Diolch ichi am eich datganiad. Yr wyf finnau fel eraill o gwmpas y Siambr yn siomedig, ond caf ar ddeall bod cytundebau pwysig ynglŷn â datgoedwigo ac asideiddio'r cefnforoedd wedi'u sicrhau yn Copenhagen—fe'u crybwyllwyd gennych wrth ymateb i'm cyd-Aelod, Angela Burns. Hoffwn weld mwy o frwdfrydedd ynglŷn â'r cytundebau hynny. Efallai nad y rhain oedd prif nod y gynhadledd, ond yr oeddent yn bwysig serch hynny. Gobeithio y byddant yn gymorth i lanhau'r byd yr ydym yn byw ynddo ac y byddwn yn ei drosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf. O'm rhan i, nid wyf yn derbyn y senario dydd y farn y mae llawer yn ei arddel—defnyddiwyd y gair 'catastroffig' gennych, ond gallwn gael y ddadl honno rywbryd eto—ond yr wyf yn cytuno ei bod yn bwysig defnyddio'n hadnoddau'n ofalus ac yn gall, a throsglwyddo byd gwell i'r genhedlaeth nesaf. Gan gofio hynny, edrychaf ymlaen at eich asesiad o'r gynhadledd ac, yn benodol, y cynnydd sydd i ddod. Yr ydym wedi crybwyll Mecsico ymhen 12 mis, a Bonn ymhen chwe mis, a'r peth hollbwysig yw sicrhau bod y broses yn iawn, er mwyn gallu cael rhyw fath o gytundeb, oherwydd rhaid cael cefnogaeth llawer o'r etholwyr sy'n gorfod ysgwyddo cost a chanlyniadau'r cytundebau wrth sicrhau unrhyw gytundeb.

Mecsico fydd yr unfed gynhadledd ar bymtheg, fe gredaf, yng nghyffres cynadleddau'r Cenhedloedd Unedig sydd wedi'u trefnu er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Yn ôl yr hyn a welsoch yn y gynhadledd, ai eich barn chi yw mai'r chwaraewyr allweddol go iawn yn awr yw'r grŵp o bump—India, Tsieina, Brasil, De Affrica ac America—ac mai'r grŵp o bump, a ddaeth ag esgyrn y cytundeb at ei gilydd yn Copenhagen, a fydd yn sbarduno'r llwyddiant ym Mecsico, os dyna a gawn? A yw'r broses, yn ôl a ddeallwch, wedi newid yn ddramatig ers y sefyllfa yr oeddem ynddi chwech neu wyth mis yn ôl wrth wneud gwaith paratoi ar gyfer Copenhagen? Yr ydych wedi sôn llawer fod angen i'r Deyrnas Unedig, a'r Llywodraeth ddatganoledig yma yn benodol, gyfrannu at sylwadau'r Deyrnas Unedig, er mwyn i hynny baratoi mewn



are to have success and to dramatically change its aspirations or its engagement process so that we can influence those five countries that will ultimately be the engine for success in Mexico at the end of 2010.

**Jane Davidson:** Paragraph 6 of the Copenhagen accord states:

‘We recognize the crucial role of reducing emission from deforestation and forest degradation and the need to enhance removals of greenhouse gas emission by forests and agree on the need to provide positive incentives to such actions through the immediate establishment of a mechanism including REDD-plus, to enable the mobilization of financial resources from developed countries.’

Therefore, it is about the incentives for forestry, and we strongly support that, from the Welsh and UK perspectives.

It is fair to say that the UK was a significant player in the Copenhagen conference. I know from talking to other Governments that Ed Miliband must have had a clone because he appeared to be in several places at the same time, particularly during the night, in negotiating with many countries. You are right to say that there are some critical players in this context—not just the group of five—to ensure that the accord, which has been signed by 49 at this point, gets as many other signatories as possible in advance of a mini conference of the parties in Bonn to try to pull all of this together. Let us be honest, in a year when we are to go into a general election, we in Wales, I am sure, will all be looking to, and influencing, our party’s commitments on this agenda. I hope that every main party in the UK will be committing to the 30 per cent reductions by 2020 and will therefore be prepared to put that political support behind it. We, as a party, have been strong on that agenda, and you have seen in my letter to Ed Miliband that we are calling for the Government to go with that in influencing further European agreement. We also must look, particularly this year, at our home basis, therefore I am

ffordd fwy ystyrllon ar gyfer Mecsico os ydym i lwyddo a sicrhau newid dramatig o ran ei dyheadau neu o ran ei phroses ymgysylltu. Yna, gallwn ddylanwadu ar y pum gwlad hynny a fydd, yn y pen draw, yn tanio’r llwyddiant ym Mecsico ddiwedd 2010.

**Jane Davidson:** Dywed paragraff 6 yng nghytundeb Copenhagen:

Yr ydym yn cydnabod rôl hollbwysig lleihau allyriadau yn sgîl datgoedwigo ac amharu ar goedwigoedd a bod angen cryfhau’r broses o ddileu allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy gyfrwng coedwigoedd ac yn cytuno bod angen rhoi cymhellion cadarnhaol i bobl gymryd camau o’r fath drwy sefydlu mecanwaith ar unwaith sy’n cynnwys REDD-plus, er mwyn i wledydd datblygedig allu rhoi adnoddau ariannol ar waith.

Felly, mae a wnelo hyn â’r cymhellion ar gyfer coedwigaeth, a chefnogwn hynny’n gryf o safbwynt Cymru ac o safbwynt y Deyrnas Unedig.

Mae’n deg dweud bod y Deyrnas Unedig yn gyfrannwr hollbwysig yng nghynhadledd Copenhagen. Gwn, o siarad â Llywodraethau eraill, fod gan Ed Miliband glôn, mae’n rhaid, oherwydd yr oedd i bob golwg yn llwyddo i fod mewn sawl man ar yr un pryd, yn enwedig yn ystod y nos, yn trafod gyda llawer o wledydd. Yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud bod ambell gyfrannwr hollbwysig yn y cyd-destun hwn—nid dim ond y grŵp o bump—er mwyn sicrhau bod cynifer o wledydd eraill ag sy’n bosibl yn llofnodi’r cytundeb sydd eisoes wedi’i lofnodi gan 49, cyn cynnal cynhadledd fach i’r partïon yn Bonn er mwyn ceisio tynnu hyn oll at ei gilydd. Gadewch inni fod yn onest, a ninnau ar drothwy etholiad cyffredinol eleni, byddwn ni yng Nghymru, yr wyf yn siŵr, i gyd yn edrych ar ymrwymadau ein plaid i’r agenda hon ac am ddylanwadu arnynt. Yr wyf yn gobeithio y bydd pob un o’r prif bleidiau yn y Deyrnas Unedig yn ymrwmo i ostwng allyriadau 30 y cant erbyn 2020 ac felly, y byddwn yn barod i roi’r gefnogaeth wleidyddol honno i hynny. Yr ydym ni, fel plaid, wedi bod yn gryf ar yr agenda honno, ac yr ydych wedi gweld yn fy llythyr at Ed Miliband ein bod yn galw ar i’r Llywodraeth

confident that every Member of the Assembly will be looking to influence their own party's statements on this matter.

ddilyn y trywydd hwnnw o ran dylanwadu ar Ewrop i gael mwy o gytundeb yno. Rhaid inni ystyried hefyd, yn enwedig eleni, ein sefyllfa ni gartref, felly yr wyf yn ffyddiog y bydd pob Aelod o'r Cynulliad yn ceisio dylanwadu ar ddatganiadau ei blaid ei hun ynglŷn â hyn.

**Cynnig i Gymeradwyo Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog Rhif 26.4, mewn perthynas â'r Mesur Seneddol ynghylch Plant, Ysgolion a Theuluoedd**

**Motion to Approve a Legislative Consent Motion under Standing Order No. 26.4, in respect of the Children, Schools and Families Bill**

**Y Llywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Alun Cairns.

**The Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Alun Cairns.

**The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews):** I move that

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews):** Cynigiau fod

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 26.4, agrees that those provisions relating to local safeguarding children boards and the provision of information about schools etc of the Children, Schools and Families Bill, as introduced into the House of Commons on 19 November 2009, so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament. (NDM4348)*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau hynny sy'n ymwneud â byrddau lleol diogelu plant a darparu gwybodaeth am ysgolion etc yn y Mesur Plant, Ysgolion a Theuluoedd, fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Tachwedd 2009, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (NDM4348)*

I would like to explain why we are seeking a legislative consent motion in relation to the Children, Schools and Families Bill. The motion is required because some of the Bill's provisions fall within the Assembly's legislative competence. The consent motion refers to relevant provisions in the Children, Schools and Families Bill in two specific areas. The first is clause 29, which is regarding the supply of information requested by local safeguarding children's boards in Wales, and the second is clause 20, which is regarding the provision of information about schools. The Welsh Assembly Government is of the view that a legislative consent motion is required on these issues, and I will briefly explain why these legislative provisions are being sought.

Hoffwn esbonio pam yr ydym am wneud cynnig cydsyniad deddfwriaethol yng nghyswllt y Mesur Plant, Ysgolion a Theuluoedd. Mae angen y Mesur gan fod rhai o ddarpariaethau'r Mesur o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae'r cynnig cydsyniad yn cyfeirio at ddarpariaethau perthnasol yn y Mesur Plant, Ysgolion a Theuluoedd mewn dau faes penodol. Y cyntaf yw cymal 29, sy'n ymwneud â darparu'r wybodaeth y bydd y byrddau lleol diogelu plant yng Nghymru yn gwneud cais amdani, a'r ail yw cymal 20, sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth am ysgolion. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn credu bod angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y meysydd hyn, ac esboniaf yn fyr pam yr ydym yn ceisio gwneud y darpariaethau deddfwriaethol hyn.

4.30 p.m.

First, in relation to the supply of information requested by local safeguarding children boards in Wales, following Lord Laming's report into the circumstances surrounding the Peter Connelly case, the Welsh Assembly Government is aware that there is concern about the risk of breaching confidentiality or data protection laws by sharing concerns about a child's safety. Therefore, express provision has been included in the Bill to allow LSCBs to require information to be disclosed where it is not provided voluntarily under guidance given by Welsh Ministers, not only in the area of serious case reviews but in connection with any of their functions. This provision is within the legislative competence of the National Assembly for Wales under matters 15.2 and 15.6 of Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006.

Secondly, on the provision of information about schools, the school effectiveness framework in Wales aims to improve overall pupil achievement and reduce variation in achievement within and between different groups of pupils. Robust self-evaluation is a core theme of the school effectiveness framework. The Bill provides the opportunity to extend the scope of the Welsh Ministers' regulation-making powers to enable the collection of information on views of learners and their parents. It will also extend information-collection provisions to include alternative provision. This provision is within the legislative competence of the National Assembly for Wales under matters 5.6 and 5.7 of Schedule 5.

I considered it appropriate to deal with these provisions within this UK Bill as it represents an opportunity to enable these provisions to apply in Wales at the earliest possible juncture. It would also allow the Welsh Ministers to introduce appropriate legislation in accordance with Welsh priorities and concerns. This legislative consent motion is therefore placed before you for approval on the terms that I have outlined. We will not be supporting the amendment.

Mae'r pwynt cyntaf yn ymwneud â darparu'r wybodaeth y bydd y byrddau lleol diogelu plant yng Nghymru yn gofyn amdani. Ers cyhoeddi adroddiad yr Arglwydd Laming ar amgylchiadau achos Peter Connelly, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwybodol bod pobl yn poeni y gallant dorri cyfreithiau cyfrinachedd neu gyfreithiau diogelu data drwy rannu pryderon ynghylch diogelwch plentyn. Felly, mae darpariaeth benodol wedi'i chynnwys yn y Mesur er mwyn galluogi'r byrddau lleol i'w gwneud yn ofynnol fod gwybodaeth yn cael ei datgelu pan na chaiff honno ei darparu'n wirfoddol o dan ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru, nid yn unig wrth adolygu achosion difrifol, ond o ran unrhyw un o'u swyddogaethau. Mae'r ddarpariaeth hon o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan faterion 15.2 ac 15.6 yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn ail, o ran darparu gwybodaeth am ysgolion, mae'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion yng Nghymru yn ceisio gwella cyflawniad disgyblion yn gyffredinol a lleihau'r amrywiaeth yng nghyflawniad gwahanol grwpiau o ddisgyblion a'r cyflawniad o fewn y grwpiau eu hunain. Mae hunanwerthuso cadarn yn thema greiddiol yn y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion. Mae'r Mesur yn rhoi'r cyfle i ehangu hyd a lled pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn casglu gwybodaeth am farn dysgwyr a'u rhieni. Bydd y Mesur hefyd yn ehangu'r darpariaethau ar gyfer casglu gwybodaeth fel eu bod yn cynnwys darpariaeth amgen. Mae'r ddarpariaeth hon o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan faterion 5.6 a 5.7 yn Atodlen 5.

Credir ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn o fewn y Mesur hwn gan ei fod yn gyfle i sicrhau bod y darpariaethau hyn yn berthnasol i Gymru, a hynny cyn gynted ag sy'n bosibl. Byddai hyn hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno'r ddeddfwriaeth berthnasol yn unol â blaenoriaethau a phryderon Cymru. Felly, mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn cael roi ger eich bron i'w gymeradwyo ar y sail a amlinellais. Ni fyddwn yn cefnogi'r

gwelliant.

**Paul Davies:** Cynigiau welliant 1 yn enw Alun Cairns. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn gresynu nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cael y cyfle i ystyried a dylanwadu ar y darpariaethau perthnasol yn y Mesur.*

Diolch am y cyfle i siarad am y gwelliant yn enw Alun Cairns ar ran y Ceidwadwyr Cymreig.

I congratulate the Minister on his appointment and welcome him to his new role. We have tabled this amendment not because we are necessarily against the details in this legislation but because we feel that the National Assembly for Wales has not been given the opportunity to consider the relevant provisions in full. We are not objecting to the UK Parliament's dealing with this, but surely the National Assembly should be given the opportunity to scrutinise fully the provisions conferred upon the Welsh Ministers in this Bill. Not giving us, as Members, the opportunity to scrutinise these particular proposals is, effectively, the Assembly Government bypassing this institution. It is imperative that we be allowed to debate these new powers conferred on the Welsh Ministers. We have done so with other legislation, and surely we should also have the opportunity to do so with this. We should have the chance to look at this legislation in much more detail rather than the Government simply tabling a motion of this nature. We need to be able to debate the specifics and to discuss whether powers conferred upon Welsh Ministers are broad enough—or not, as the case may be.

The Assembly Government argues that the provisions in this Bill are the most appropriate legislative vehicle to enable these provisions to apply in Wales, and I do not dispute that. It may well be the case. I am not making a party political point; all that I am saying is that, as a democratic institution, we should be given more time by the Assembly Government to look at these proposals, for them to be properly scrutinised by the

**Paul Davies:** I move amendment 1 in the name of Alun Cairns. Add a new point at the end of the motion:

*regrets that the National Assembly has not been given the opportunity to consider and influence the relevant provisions contained in the Bill.*

Thank you for the opportunity to speak to the amendment tabled in the name of Alun Cairns on behalf of the Welsh Conservatives.

Yr wyf yn llongyfarch y Gweinidog ar ei benodiad ac yn ei groesawu i'w swydd newydd. Wrth gyflwyno'r gwelliant hwn, nid ydym o anghenraid yn erbyn y manylion yn y ddeddfwriaeth, ond credwn nad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cael cyfle i drafod y darpariaethau perthnasol yn llawn. Nid ydym yn gwrthwynebu'r ffaith bod Senedd y Deyrnas Unedig yn ymdrin â hyn, ond oni ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol gael y cyfle i graffu'n llawn ar y darpariaethau a roddir i Weinidogion Cymru yn y Mesur hwn? Drwy beidio â rhoi cyfle i ni'r Aelodau graffu ar y cynigion penodol hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad i bob pwrpas yn osgoi'r sefydliad hwn. Mae'n hanfodol inni gael cyfle i drafod y pwerau newydd hyn a roddir i Weinidogion Cymru. Yr ydym wedi gwneud hynny gyda darnau eraill o ddeddfwriaeth, ac oni ddylem gael y cyfle i wneud hynny hefyd gyda'r ddeddfwriaeth hon? Dylem gael cyfle i edrych yn fanylach o lawer ar y ddeddfwriaeth, yn hytrach na bod y Llywodraeth yn cyflwyno cynnig fel hwn yn unig. Mae angen inni allu trafod y manylion a thrafod a yw'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn ddigon eang—neu heb fod yn ddigon eang, sut bynnag y bo.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dadlau mai'r darpariaethau yn y Mesur hwn yw'r dull deddfwriaethol mwyaf addas o sicrhau bod y darpariaethau hyn yn berthnasol i Gymru, ac nid wyf yn dadlau yn erbyn hynny. Efallai fod hynny'n wir. Nid wyf yn gwneud pwynt gwleidyddol fel aelod o blaid; y cyfan yr wyf yn ei ddweud yw y dylem, fel sefydliad democrataidd, gael mwy o amser gan Lywodraeth y Cynulliad i edrych ar y

Assembly. If we want to be seen as a proper and mature legislature, surely legislation of this nature needs to be considered carefully and properly. Therefore, I hope that the Assembly Government will give careful consideration to my request and ensure that it allows a legislation committee to scrutinise these proposals in full. I urge Members to support our amendment. Diolch yn fawr.

**Jenny Randerson:** I join my colleague, Paul Davies, in congratulating you on your appointment, Minister. I look forward to giving you a hard time, I hope, from time to time in committee, when you come to see us for scrutiny.

The Welsh Liberal Democrats will not be opposing the proposed approach to this legislation. However, I will take the opportunity to ask some questions. There is one advantage to allowing Westminster to legislate on our behalf, which perhaps we all acknowledge, namely speed, but there are obvious disadvantages to that system, too. In this case, the proposals do seem to give the Welsh Ministers sufficient outline powers to formulate regulations as we would wish to do in Wales. However, it is often the case when Westminster passes legislation on our behalf that we forever have to follow UK Government policy and terms, and its general approach to a subject.

My query about this piece of legislation relates to the Proposed Children and Families (Wales) Measure. It is already a large omnibus piece of legislation, with several very disparate parts, so why did the Welsh Assembly Government not take the route of adding these clauses to that proposed Measure to ensure that the legislation came through in one comprehensive package? When this legislation was in the House of Commons, the Liberal Democrats voted against it, but that was as a result of the clauses that relate to privately or home-educated children. I have made inquiries and I gather that the clauses relating to home-educated children will not apply in Wales, and that the clauses that we are dealing with here have no relevance to that issue.

cynigion hyn, er mwyn i'r Cynulliad allu craffu arnynt yn iawn. Os ydym am gael ein hystyried yn ddeddfwrfa aeddfed o'r iawn ryw, oni ddylid trafod deddfwriaeth o'r natur hon yn ofalus ac yn iawn? Felly, gobeithio y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried fy nghais yn ofalus ac yn sicrhau ei bod yn rhoi cyfle i bwyllgor deddfwriaeth graffu ar y cynigion hyn yn llawn. Yr wyf yn annog yr Aelodau i gefnogi'n gwelliant. Diolch yn fawr.

**Jenny Randerson:** Ymunaf â'm cyd-Aelod, Paul Davies, i'ch llongyfarch ar eich penodiad, Weinidog. Edrychaf ymlaen at fod yn llawdrwm arnoch, gobeithio, o dro i dro yn y pwyllgor, pan fyddwch yn dod ger ein bron er mwyn inni graffu ar eich gwaith.

Ni fydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gwrthwynebu'r dull arfaethedig o fwrw ati gyda'r ddeddfwriaeth hon. Fodd bynnag, achubaf y cyfle i ofyn ambell gwestiwn. Mae un fantais o ganiatáu i San Steffan ddeddfu ar ein rhan, ac efallai ein bod i gyd yn cydnabod hynny, sef cyflymder, ond mae anfanteision amlwg i'r system honno hefyd. Yn yr achos hwn, ymddengys fod y cynigion yn rhoi digon o bwerau amlinellol i Weinidogion Cymru er mwyn inni ffurfio rheoliadau fel y dymunem yng Nghymru. Fodd bynnag, pan fydd San Steffan yn pasio deddfwriaeth ar ein rhan, mae'n rhaid inni'n aml ddilyn polisiau a thelerau Llywodraeth y Deyrnas Unedig o hyd, a dilyn ei dull cyffredinol hi o ymdrin â'r pwnc.

Mae fy nghwestiwn am y darn hwn o ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru). Mae hwnnw eisoes yn ddarn amlweddog a mawr o ddeddfwriaeth, ac mae'n cynnwys amryw o rannau gwahanol iawn i'w gilydd. Pam, felly, na wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru benderfynu ychwanegu'r cymalau hyn at y Mesur arfaethedig er mwyn sicrhau y byddai'r ddeddfwriaeth i gyd ar gael mewn un pecyn cynhwysfawr? Pan drafodwyd y ddeddfwriaeth hon yn Nhŷ'r Cyffredin, pleidleisiodd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ei herbyn, ond yr oedd hynny oherwydd y cymalau sy'n ymwneud â phlant sy'n cael eu haddysg yn breifat neu gartref. Yr wyf wedi gwneud ymholiadau a chasglaf na fydd y

Therefore, the Welsh Liberal Democrats in the Assembly will not be forced to vote against this motion on this occasion.

**The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews):** I thank Paul Davies and Jenny Randerson for their kind remarks. I look forward to jousting with them both on future occasions, although Jenny did manage to give the word ‘scrutiny’ a particularly frightening turn of phrase. *[Laughter.]*

On the points of process, our motion has been tabled in full accordance with the Standing Orders of the Assembly. Any proposal to change Standing Orders in respect of the way in which issues of legislative consent are dealt with would be a matter for the National Assembly for Wales and not the Welsh Assembly Government. I note that the Subordinate Legislation Committee has recommended that the Business Committee give consideration to how legislative consent memoranda under Standing Order No. 26 could be subjected to scrutiny prior to debate in Plenary, and I look forward to the forthcoming debate on that committee’s report.

Jenny raised the issue of home education, and I wish to make it clear that, in addition to the provisions that we outlined earlier, we will be seeking a Measure-making power in relation to home education. That would enable us to make an Assembly Measure concerning the provision of education for home-educated children and the services provided by local authorities for those persons involved in the provision of that education. We will take our own approach in this area, and we will consult on it, as you would expect us to do.

There will be different methods through which we in the Assembly take powers or introduce policies, as legislative opportunities arise. It will not always be the case that we expand our range of compendious Measures; we will sometimes use UK Government Bills

cymalau sy’n ymwneud â phlant sy’n cael eu haddysg gartref yn berthnasol i Gymru, ac nad yw’r cymalau yr ydym yn ymdrin â hwy yma yn berthnasol o gwbl i’r mater hwnnw. Felly, ni fydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru’n cael eu gorfodi i bleidleisio yn erbyn y cynnig hwn y tro yma.

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews):** Diolch i Paul Davies ac i Jenny Randerson am eu sylwadau caredig. Edrychaf ymlaen at ymryson â hwy yn y dyfodol, er bod Jenny wedi llwyddo i ddefnyddio’r gair ‘craffu’ mewn modd brawychus dros ben. *[Chwerthin.]*

O ran y pwyntiau am y broses, mae ein cynnig wedi’i gyflwyno gan gydymffurfio’n llawn â Rheolau Sefydlog y Cynulliad. Byddai unrhyw gynnig i newid y Rheolau Sefydlog o ran sut yr ymdrinnir â materion sy’n ymwneud â chydsyniad deddfwriaethol yn rhywbeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru roi sylw iddo, yn hytrach na Llywodraeth Cynulliad Cymru. Sylwaf fod y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth wedi argymhell y dylai’r Pwyllgor Busnes ystyried sut y gellid craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog Rhif 26, a hynny cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn. Edrychaf ymlaen at y ddadl a gynhelir am adroddiad y pwyllgor hwnnw.

Cyfeiriodd Jenny at addysg gartref. Yn ogystal â’r darpariaethau a amlinellwyd gennym yn gynharach, hoffwn ei gwneud yn glir y byddwn yn gwneud cais am bŵer i gyflwyno Mesur sy’n ymwneud ag addysg gartref. Byddai hynny’n ein galluogi i gyflwyno Mesur Cynulliad ynghylch darparu addysg i blant sy’n cael eu haddysg gartref a’r gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol i’r bobl hynny sy’n gysylltiedig â darparu’r addysg honno. Bydd gennym ein ffordd ein hunain o ymdrin â’r maes hwn, a byddwn yn ymgynghori yn ei gylch, fel y byddech yn disgwyl inni wneud.

Yma yn y Cynulliad, ein bwriad yw cael pwerau neu gyflwyno polisiau drwy dulliau gwahanol wrth i gyfleoedd i ddeddfu godi. Nid yw hynny’n golygu y byddwn o anghenraid yn ehangu nifer y Mesurau cynhwysfawr sydd gennym; weithiau,

as they come along. That is well understood. We operate within a UK framework currently, under the Government of Wales Act 2006. As we have heard today, there will be debates on how the Assembly operates in future.

byddwn yn defnyddio Mesurau Llywodraeth y Deyrnas Unedig wrth iddynt gael eu cyflwyno. Mae pawb yn deall hynny. Ar hyn o bryd, yr ydym yn gweithredu o fewn fframwaith y Deyrnas Unedig, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fel yr ydym wedi cael ar ddeall heddiw, bydd dadleuon yn cael eu cynnal maes o law ynghylch sut y bydd y Cynulliad yn gweithredu yn y dyfodol.

4.40 p.m.

I am committed to ensuring that we get the powers that we need in Wales to take forward our education policies for young people in Wales. That is why we are of the view that a legislative consent motion is necessary on this occasion.

Yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cael y pwerau y mae eu hangen arnom yng Nghymru i fwrw ymlaen â'n polisiau ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru. Dyna pam yr ydym yn credu bod cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn angenrheidiol y tro hwn.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw cytuno ar y gwelliant. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, byddaf yn gohirio'r pleidleisio ar yr eitem hon tan yr amser pleidleisio.

**The Presiding Officer:** The question is to agree the amendment. Is there any objection? I see that there is. Therefore, I will defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.  
Voting deferred until voting time.*

**Cynnig i Gymeradwyo Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog Rhif 26.4, mewn perthynas â'r Mesur Seneddol ynghylch Gofal Personol yn y Cartref**

**Motion to Approve a Legislative Consent Motion under Standing Order No. 26.4, in respect of the Personal Care at Home Bill**

**Y Llywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Alun Cairns.

**The Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Alun Cairns.

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Cynigiaf fod

**The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas):** I move that

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 26.4, yn cytuno y dylai darpariaethau Mesur Seneddol Gofal Personol yn y Cartref, i'r graddau y mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gael eu hystyried a'u cyflwyno gan Senedd y DU. (NDM4353)*

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 26.4, agrees that the provisions of the Personal Care at Home Bill, in so far as these provisions fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered and introduced by the UK Parliament. (NDM4353)*

Cafodd y Mesur Gofal Personol yn y Cartref ei gyflwyno gerbron y Senedd ar 25 Tachwedd 2009. Ei nod yw diwygio adrannau 15 ac 16 Deddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc.) 2003. Bydd hyn

The Personal Care at Home Bill was introduced before Parliament on 25 November 2009. Its aim is to amend sections 15 and 16 of the Community Care (Delayed Discharges etc.) Act 2003. That will do away

yn cael gwared ar y cyfyngiad o chwe wythnos ar y cyfnod amser a ganiateir i reoliadau nodi y caiff gofal personol ei ddarparu'n rhad ac am ddim. Mae'r Mesur hefyd yn gwneud nifer o ddiwygiadau sy'n deillio o hynny.

The Bill seeks to implement the UK Government's proposal to introduce, from October 2010, free personal care in the home for adults in England who have high-level care needs. By supporting these individuals with the greatest needs to remain in their own homes, the UK Government aims to support them to live independently for longer.

The powers of the Welsh Ministers are set out in section 16 of the 2003 Act. It provides that the Welsh Ministers may make regulations which, in relation to Wales, may include any provision that may be made by the Secretary of State in relation to England under section 15 of the Act. The Bill seeks to amend the regulation-making powers in section 15 and thereby also changes the powers of the Welsh Ministers. These provisions fall within the Assembly's legislative competence under matter 15.1 of Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006. As Standing Orders require, I therefore tabled a legislative consent motion and a memorandum in relation to the Bill on 10 December 2009. Those are required where a UK parliamentary Bill makes provision in relation to Wales that falls within the Assembly's legislative competence, as we have already heard from Leighton.

The 2003 Act covers a wide range of services provided in a range of settings. While there is some overlap between the Bill and the Assembly's competence, the 2003 Act is wider than the Assembly's competence. It is therefore appropriate that the Bill should extend to Wales in order to ensure that the Assembly Government has the relevant powers available to develop the policy for charging for social care services in Wales. In taking forward that policy, we wish to hear the views of the people of Wales on the proposals for England. Therefore, as part of

with the limitation of six weeks on the period of time permitted for regulations to note that personal care may be provided free of charge. The Bill also makes several amendments arising from that.

Nod y Mesur yw rhoi ar waith gynnig Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno o fis Hydref 2010 ymlaen, ofal personol yn y cartref am ddim i oedolion yn Lloegr a chanddynt anghenion gofal dwys. Drwy gynorthwyo'r unigolion hyn sydd â'r anghenion mwyaf i aros yn eu cartrefi hwy eu hunain, nod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw eu cynorthwyo i fyw'n annibynnol am gyfnod hwy.

Rhestrir pwerau Gweinidogion Cymru yn adran 16 Deddf 2003. Mae'n dweud y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau a gaiff, yng nghyswllt Cymru, gynnwys unrhyw ddarpariaeth y gellir ei gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol yng nghyswllt Lloegr o dan adran 15 o'r Ddeddf. Nod y Mesur yw diwygio'r pwerau gwneud rheoliadau yn adran 15 a thrwy hynny, mae hefyd yn newid pwerau Gweinidogion Cymru. Mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o dan fater 15.1 Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fel sy'n ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog, cyflwynais gynnig cydsyniad deddfwriaethol a memorandwm yng nghyswllt y Mesur ar 10 Rhagfyr 2009. Mae gofyn cael y rheini pan fydd un o Fesurau seneddol y Deyrnas Unedig yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, fel y mae Leighton eisoes wedi dweud wrthym.

Mae Deddf 2003 yn ymwneud ag ystod eang o wasanaethau a ddarperir mewn ystod o leoliadau. Er bod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y Mesur a chymhwysedd y Cynulliad, mae Deddf 2003 yn ehangach na chymhwysedd y Cynulliad. Felly, mae'n briodol i'r Mesur gynnwys Cymru er mwyn sicrhau bod y pwerau perthnasol ar gael i Lywodraeth y Cynulliad ddatblygu polisi ar gyfer codi tâl am wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Wrth fwrw ymlaen â'r polisi hwnnw, yr ydym am glywed barn pobl Cymru ynglŷn â'r cynigion



our consultation, 'Paying for Care in Wales', we have consulted on our approach of securing fairer and more consistent charging across the board for all those receiving care, as opposed to that of providing free personal care for those with the highest needs. That consultation commenced last year and is due to conclude on 28 February.

The amendment tabled by Alun Cairns is inappropriate. This is a Bill before Parliament and it is for Parliament to scrutinise its provisions. The Subordinate Legislation Committee has—and we have already heard this point this afternoon—recommended that the Business Committee consider how legislative consent memoranda could be subjected to scrutiny prior to debate in Plenary. Assembly committees have examined and will, presumably, continue to examine the Welsh Ministers on the Welsh provisions in UK Bills. We welcome these opportunities to discuss Welsh provisions.

**Andrew R.T. Davies:** I move amendment 1 in the name of Alun Cairns. Add a new point at the end of the motion:

*regrets that the National Assembly has not been given the opportunity to consider and influence the relevant provisions contained in the Bill.*

Thank you, Deputy Minister, for your opening remarks on this motion. We tabled the amendment in the spirit of the comments made by Paul Davies. It is a little like groundhog day, as the Deputy Minister talked about what Leighton said earlier. I disagree entirely with your comment that it is inappropriate. That is the wrong choice of words. Surely, it is appropriate that Members have the opportunity to scrutinise pieces of legislation that impact on matters in Wales and to decide whether Welsh Ministers should acquire those powers. That is what this is all about. Should we therefore put the 'closed' sign on the door and cease to exist? I am not sure whether you were advocating that, Deputy Minister. Our amendment seeks to allow Members an opportunity to scrutinise.

ar gyfer Lloegr. Felly, fel rhan o'n hymgyngoriad, 'Talu am Ofal yng Nghymru', yr ydym wedi ymgynghori ynglŷn â'n ffordd o fynd ati i sicrhau taliadau tecach a mwy cyson i bawb sy'n cael gofal, yn hytrach na darparu gofal personol am ddim ar gyfer y rhai â'r anghenion mwyaf. Dechreuodd yr ymgynghori hwnnw y llynedd a daw i ben ar 28 Chwefror.

Mae'r gwelliant a gyflwynwyd gan Alun Cairns yn amhriodol. Mesur sydd gerbron y Senedd yw hwn a mater i'r Senedd yw craffu ar ei ddarpariaethau. Argymhelliad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth—ac yr ydym eisoes wedi clywed y pwynt hwn y prynhawn yma—oedd y dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried sut y gellid craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol cyn eu trafod mewn Cyfarfod Llawn. Mae pwyllgorau'r Cynulliad wedi holi, ac mae'n debyg y byddant yn dal i holi Gweinidogion Cymru ynglŷn â'r darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mesurau'r Deyrnas Unedig. Yr ydym yn croesawu'r cyfleoedd hyn i drafod darpariaethau ar gyfer Cymru.

**Andrew R.T. Davies:** Cynigiau welliant 1 yn enw Alun Cairns. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn gresynu nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cael y cyfle i ystyried a dylanwadu ar y darpariaethau perthnasol yn y Mesur.*

Diolch ichi, Ddirprwy Weinidog, am eich sylwadau agoriadol ynglŷn â'r cynnig hwn. Cyflwynwyd y gwelliant gennym yn ysbryd y sylwadau a gafwyd gan Paul Davies. Mae fel petaem yn ail-fyw'r un profiad eto, wrth i'r Dirprwy Weinidog sôn am yr hyn a ddywedodd Leighton yn gynharach. Yr wyf yn anghytuno'n llwyr â'ch sylw ei fod yn amhriodol. Yr ydych wedi dewis y geiriau anghywir. Siawns nad yw'n briodol i'r Aelodau gael y cyfle i graffu ar ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar faterion yng Nghymru a phenderfynu a ddylai Gweinidogion Cymru gael y pwerau hynny. Dyna hanfod hyn oll. A ddylem felly roi'r arwydd 'ar gau' ar y drws a pheidio â bodoli rhagor? Nid wyf yn siŵr a oeddech yn argymhell hynny, Ddirprwy Weinidog. Nod ein gwelliant yw rhoi cyfle i'r Aelodau

graffu.

You mentioned the way in which subordinate legislation has touched on this very issue. I hope that there will be improvements in the future so that scrutiny can be undertaken on UK legislation that has an impact on Wales and, above all, that the powers of Ministers in Wales will be enhanced with regard to enacting regulations that affect the lives of people in Wales.

I hope, Deputy Minister, that you will reflect on your comments before you address mine and those of other Members in relation to this motion, and that you will decide to subject this motion to greater scrutiny and direct it to one of the legislation committees. Surely, that is the logical way to take this forward.

I have grave reservations regarding this Bill, which is progressing through the House of Commons, as I believe that it impinges on certain aspects of patients' rights. It also has cost implications, of which there is no analysis. There is also a loophole with regard to the extra care provisions within the Bill. Indeed, one of your own Labour peers called it a gimmick and said that it is a bad way of developing policy, but a good way of getting a nice highlight for a conference speech. That was said by one of your own peers during scrutiny of this Bill in Westminster. Why, then, is the Welsh Assembly Government denying Members of the National Assembly for Wales the opportunity to scrutinise the provisions in Wales? I support our amendment and I hope that the Deputy Minister will reflect on this, support our amendment, and allow greater scrutiny of this Bill, which will affect us in Wales.

**Helen Mary Jones:** I would like to comment briefly on the process. The fact that the Conservatives have tabled these amendments shows that they clearly do not understand the process. If our own Members do not understand the process, how very confusing indeed our complex legislative process must be for the public in Wales.

I fully support what the Deputy Minister has said. I firmly believe that there is a case for

Soniasoch am y ffordd y mae is-ddeddfwriaeth wedi ymwneud â'r union fater hwn. Yr wyf yn gobeithio y bydd gwelliannau yn y dyfodol er mwyn inni allu craffu ar ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig sy'n effeithio ar Gymru ac, yn anad dim, y caiff pwerau Gweinidogion Cymru eu cryfhau o ran rhoi rheoliadau ar waith sy'n effeithio ar fywydau pobl yng Nghymru.

Yr wyf yn gobeithio, Ddirprwy Weinidog, yr ystyriwch eich sylwadau cyn sôn am fy sylwadau i a sylwadau Aelodau eraill yng nghyswllt y cynnig hwn, ac y penderfynwch ganiatáu rhagor o graffu ar y cynnig hwn a'i gyfeirio at un o'r pwyllgorau craffu. Siawns nad dyna'r ffordd gall o fwrw ymlaen â hyn.

Mae gennyf amheumon difrifol ynglŷn â'r Mesur hwn, sy'n mynd drwy Dŷ'r Cyffredin, oherwydd fy mod yn credu ei fod yn amharu ar hawliau cleifion mewn rhai agweddau. Mae iddo oblygiadau hefyd o ran costau, ac nid oes dadansoddiad wedi'i wneud o hynny. Ceir bwlch hefyd o ran y darpariaethau ar gyfer gofal ychwanegol yn y Mesur. Yn wir, yn ôl un o'ch arglwyddi Llafur chi'ch hun, gimic ydyw a dywedodd fod hyn yn ffordd wael o ddatblygu polisi, ond yn ffordd dda o gael uchafbwynt bachog i araith mewn cynhadledd. Dywedwyd hynny gan un o'ch arglwyddi chi'ch hun pan graffwyd ar y Mesur hwn yn San Steffan. Felly, pam mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwarafun y cyfle i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru graffu ar y darpariaethau yng Nghymru? Yr wyf yn cefnogi ein gwelliant ac yn gobeithio y gwnaiff y Dirprwy Weinidog ystyried hyn, ac y bydd yn cefnogi ein gwelliant, gan ganiatáu mwy o graffu ar y Mesur hwn, a fydd yn effeithio arnom yng Nghymru.

**Helen Mary Jones:** Hoffwn sôn yn gryno am y broses. Mae'r ffaith bod y Ceidwadwyr wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn yn dangos yn glir nad ydynt yn deall y broses. Os nad yw ein Haelodau ni'n hunain yn deall y broses, rhaid bod ein proses deddfu'n ddryslyd dros ben i'r cyhoedd yng Nghymru.

Yr wyf yn llwyr gefnogi'r hyn a ddywedwyd gan y Dirprwy Weinidog. Credaf yn bendant

this process to be subjected to better scrutiny. However, as Leighton Andrews has already said, that is not a matter for the Assembly Government, but for the whole Assembly through the Business Committee. I am sure that Conservative colleagues will want to take that forward through the Business Committee. I am not speaking for my group, but, personally, I believe that more scrutiny of these particular processes would be welcomed—certainly by me and, I am sure, by Ministers. However, you cannot ask the Government to establish the Assembly's Standing Orders. If we do not understand fully how it all works, how on earth can we expect the public, the interest groups, and all of those who have to make representations to our Ministers and to our committees to fully understand it? The sooner we can have a referendum and a successful vote to sort all of this out, so that we all know who passes the laws and who scrutinises them, the better.

**Peter Black:** Roll on 9 February.

I do not accept that the amendment tabled by the Conservatives shows that the process is not understood, because it does not say that some part of the process has been ignored or not carried out properly, it says that they regret the fact that we have not had the opportunity to consider the provisions in the Bill. There is a debate tomorrow on the Subordinate Legislation Committee's report on the way in which the process can be changed to make it more accountable and more transparent. The Welsh Liberal Democrats are taking these amendments in the spirit in which they are intended, which is pointing towards that report and consideration of how the provisions within that report should be adopted so that we have a proper constitution committee in the Assembly that can look at all aspects of legislation, including those aspects of legislation where we are asking the UK Government to legislate on our behalf so that we can get proper scrutiny and proper input from Members into that process, as well as scrutinising the role of Welsh Ministers, which is desperately needed as we move forward, unless we get the yes vote in a referendum, which I think we are all hoping

fod dadl o blaid sicrhau gwell craffu ar y broses hon. Serch hynny, fel y mae Leighton Andrews wedi dweud eisoes, nid mater i Lywodraeth y Cynulliad yw hynny, ond i'r Cynulliad drwyddo draw drwy'r Pwyllgor Busnes. Yr wyf yn siŵr y bydd ein cyd-Aelodau Ceidwadol am fwrw ymlaen â hynny drwy'r Pwyllgor Busnes. Nid wyf yn siarad ar ran fy ngrŵp, ond, yn bersonol, credaf y byddai rhagor o graffu ar y prosesau penodol hyn yn beth i'w groesawu—yn sic gennyf fi, ac yr wyf yn siŵr, gan Weinidogion. Fodd bynnag, ni allwch ofyn i'r Llywodraeth lunio Rheolau Sefydlog y Cynulliad. Os nad ydym yn deall yn llwyr sut mae'r cyfan yn gweithio, sut ar y ddaear y gallwn ddisgwyl i'r cyhoedd, y grwpiau buddiant, a'r holl bobl hynny sy'n gorfod cyflwyno sylwadau i'n Gweinidogion ac i'n pwyllgorau ei ddeall yn iawn? Gorau po gyntaf y gallwn gael refferendwm a phleidlais lwyddiannus i ddatrys hyn oll, er mwyn inni i gyd wybod pwy sy'n pasio'r deddfau a phwy sy'n craffu arnynt.

**Peter Black:** Brysied 9 Chwefror.

Nid wyf yn derbyn bod y gwelliant a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr yn dangos nad ydym yn deall y broses, oherwydd nid yw'n dweud bod rhyw ran o'r broses wedi'i hanwybyddu neu nad yw wedi'i chyflawni'n iawn, mae'n dweud eu bod yn gresynu nad ydym wedi cael y cyfle i ystyried darpariaethau'r Mesur. Bydd dadl yfory ynglŷn ag adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth am sut y gellir newid y broses i'w gwneud yn fwy atebol ac yn fwy tryloyw. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n cymryd y gwelliannau hyn yn yr ysbryd y'u bwriedir, gan gyfeirio at yr adroddiad hwnnw ac ystyried sut y dylid mabwysiadu'r darpariaethau sydd ynddo er mwyn inni gael pwyllgor cyfansoddiad iawn yn y Cynulliad. Gallai hwnnw edrych ar bob agwedd ar ddeddfwriaeth, gan gynnwys yr agweddau hynny lle y byddwn yn gofyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ddeddfu ar ein rhan er mwyn i'r Aelodau allu craffu'n iawn ar y broses honno a chyfrannu'n iawn ati, yn ogystal â chraffu ar rôl Gweinidogion Cymru. Mae gwir angen hynny wrth inni gamu ymlaen, oni chawn bleidlais ie mewn refferendwm. Credaf ein bod i gyd yn gobeithio y cynhelir hwnnw yn yr hydref eleni. Fodd bynnag, nes

will be happening in the autumn of this year. However, until we get to that point, we are in a situation where some Measures are being passed by us, LCOs are being made, Bills are being passed that are passing powers down to us and there are issues such as these, where we are passing powers back to Westminster so that it can pass legislation on our behalf. It is a huge muddle, and it is difficult to keep track of it. There is a need for greater transparency and accountability.

4.50 p.m.

On the substance of the Bill, and the motion before us, I support anything that gives Ministers wider powers. The Liberal Democrats will be supporting the motion. It is important that the powers that are going to be available to English Ministers are also available to Welsh Ministers. Although I was critical of the consultation paper being a copy of the English consultation paper, I am hopeful that, as a result of that process, we will be getting distinctly Welsh proposals about how we can take forward personal care and access to it in Wales. I am interested in how the Deputy Minister is proposing to pay for it, given the current financial climate and the financial climate that we are moving into. However, I could also say that of the UK Government as well. That is something that we have to see in future.

In summary, I am happy to support the motion. I will also be supporting the amendment on the basis that I have just explained.

**The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas):** I will deal with the amendment first. I repeat that I think that the amendment is inappropriate because this is a Bill that is before Parliament, and it is for Parliament to scrutinise its provisions. That is not to say that I, as Helen Mary Jones said very well, would not welcome scrutiny in this Chamber, and I am sure that the Subordinate Legislation Committee will be taking this matter forward.

inni gyrraedd y pwynt hwnnw, y sefyllfa yw bod rhai Mesurau'n cael eu pasio gennym ni, Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol yn cael eu llunio, Mesurau'n cael eu pasio, sy'n trosglwyddo pwerau i ni a materion megis y rhain, lle'r ydym ni'n trosglwyddo pwerau yn ôl i San Steffan er mwyn iddo basio deddfwriaeth ar ein rhan. Mae'n ddryswch enfawr, ac mae'n anodd cadw trefn ar y peth. Mae angen mwy o dryloywder ac atebolrwydd.

O ran sylwedd y Mesur, a'r cynnig sydd ger ein bron, yr wyf yn cefnogi unrhyw beth sy'n rhoi pwerau ehangach i Weinidogion. Bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi'r cynnig. Mae'n bwysig bod y pwerau a fydd ar gael i Weinidogion Lloegr ar gael i Weinidogion Cymru hefyd. Er fy mod yn feirniadol bod y papur ymgynghori'n gopi o'r papur ymgynghori yn Lloegr, yr wyf yn gobeithio, yn sgîl y broses honno, y cawn gynigion unigryw i Gymru ynglŷn â sut y gallwn fwrw ymlaen â gofal personol a sicrhau ei fod ar gael yng Nghymru. Byddai'n dda gennyf wybod sut y mae'r Dirprwy Weinidog yn bwriadu talu amdano, o gofio'r hinsawdd ariannol ar hyn o bryd a'r hinsawdd ariannol yr ydym yn symud iddi. Fodd bynnag, gallwn ddweud hynny am Lywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd. Mae hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid inni ei weld yn y dyfodol.

I grynhoi, yr wyf yn falch o gefnogi'r cynnig. Byddaf hefyd yn cefnogi'r gwelliant am y rheswm yr wyf newydd ei esbonio.

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Ymdriniaf â'r gwelliant yn gyntaf. Dywedaf eto fy mod yn meddwl bod y gwelliant yn amhriodol oherwydd Mesur sydd gerbron y Senedd yw hwn, a gwaith y Senedd yw craffu ar ei ddarpariaethau. Nid yw hynny'n golygu, fel y dywedodd Helen Mary Jones yn dda iawn, na fyddwn yn croesawu craffu yn y Siambr hon, ac yr wyf yn siŵr y bydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn bwrw ymlaen â'r mater hwn.

The points that Andrew made about the content of the Bill are for Westminster to discuss. If I were to start to answer you on those points, I think that the Presiding Officer would be cutting it very short indeed, because I believe I have got about a minute, and therefore I would not have time to cover it.

I welcome Peter Black's comments on wider powers. It is appropriate that we go for as wide powers as we possibly can. This Bill is wider than the competency of the National Assembly at the moment. I take your points about consultation and about the costs of paying for care. We are also consulting on our own Green Paper. This will include consultation on aspects of this Bill with the public in Wales and will form part of the work of the commission that I have established to look at the future of social services in Wales. Therefore, I am putting forward this motion as I consider the Bill to be the most appropriate route to obtain wider powers for Wales in this area. Introduction of the Personal Care at Home Bill will allow for wider regulation-making powers for the Welsh Ministers under section 16 of the Community Care (Delayed Discharges etc.) Act 2003. Therefore, the Welsh Assembly Government feels that it is appropriate that the proposed amendments to the Welsh Ministers' powers are made in this way. Accordingly, this motion should be supported.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw bod cytuno ar y gwelliant. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, byddaf yn gohirio'r pleidleisio ar yr eitem hon tan yr amser pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.  
Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 4.54 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 4.54 p.m.*

Pwyntiau i San Steffan eu trafod yw'r rhai a godwyd gan Andrew ynglŷn â chynnwys y Mesur. Petawn yn dechrau eich ateb ynglŷn â'r pwyntiau hynny, credaf y byddai'r Llywydd yn rhoi taw ar hynny'n fuan, oherwydd credaf mai tua munud sydd gennyf, ac felly, ni fyddai amser gennyf i ymdrin â hynny.

Yr wyf yn croesawu sylwadau Peter Black ynglŷn â phwerau ehangach. Mae'n briodol inni geisio pwerau sydd mor eang ag sy'n bosibl. Mae'r Mesur hwn yn ehangach na chymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd. Derbyniaf eich pwyntiau ynglŷn ag ymgynghori ac ynglŷn â chostau talu am ofal. Yr ydym hefyd yn ymgynghori ynglŷn â'n Papur Gwyrdd ni'n hunain. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori ynglŷn ag agweddau ar y Mesur hwn gyda'r cyhoedd yng Nghymru a bydd yn rhan o waith y comisiwn yr wyf wedi'i sefydlu i edrych ar ddyfodol gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Felly, yr wyf yn cyflwyno'r cynnig hwn gan fy mod yn meddwl mai'r Mesur yw'r llwybr mwyaf priodol i sicrhau pwerau ehangach i Gymru yn y maes hwn. Bydd cyflwyno'r Mesur Gofal Personol yn y Cartref yn caniatáu i Weinidogion Cymru gael pwerau ehanach i wneud rheoliadau o dan adran 16 Deddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc.) 2003. Felly, mae Llywodraeth y Cynulliad yn teimlo ei bod yn briodol diwygio pwerau Gweinidogion Cymru yn y modd y cynigir gwneud hynny yma. Felly, dylid cefnogi'r cynnig hwn.

**The Presiding Officer:** The question is to agree the amendment. Is there any objection? I see that there is. Therefore, I will defer all voting on this item until voting time.

## Y Setliad Llywodraeth Leol The Local Government Settlement

**The Deputy Presiding Officer:** In accordance with Standing Order No. 7.19(iii), the amendments tabled to this motion have not been selected.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yn unol â Rheol Sefydlog 7.19(iii), ni ddetholwyd y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig hwn.

**The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant):** I move that

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant):** Cynigiau fod

*the National Assembly for Wales, in accordance with Section 84H of the Local Government Finance Act 1988, approves the Local Government Finance Report (No. 1) 2010-2011 (Final Settlement - Councils) laid in the Table Office and emailed to Assembly Members on Tuesday, 5 January 2010. (NDM4354)*

*Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn unol ag Adran 84H Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2010-2011 (Setliad Terfynol - Cynghorau) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd mewn e-bost at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 5 Ionawr 2010. (NDM4354)*

I am pleased that one of my first duties as Minister for Social Justice and Local Government is to present to the Assembly for its approval, the local government revenue settlement for 2010-11. This provides me with an opportunity to express my firm commitment to build on the good work achieved by my predecessor and the leadership of the Welsh Local Government Association in forging a constructive relationship, which is essential if we are to meet the huge challenges that will face us in the coming years.

Yr wyf yn falch mai un o'm dyletswyddau cyntaf fel Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yw cyflwyno setliad refeniw llywodraeth leol ar gyfer 2010-11 i'r Cynulliad ei gymeradwyo. Dyma gyfle imi fynegi fy ymrwymiad cadarn i adeiladu ar sail gwaith da fy rhagflaenydd ac arweinwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth iddynt lunio perthynas adeiladol. Mae'r berthynas honno'n hanfodol er mwyn ymateb i'r heriau enfawr a fydd yn ein hwynebu yn y blynyddoedd nesaf.

The new understanding between the Assembly Government and local government, signed in November, provides the foundation for creating a more efficient, innovative and cost effective strategy for delivering key services, with an emphasis on high quality outcomes for citizens at the heart of our partnership. It is a reflection of the maturing relationship between us and the Welsh Local Government Association that it has described this settlement as 'fair but challenging' in all circumstances.

Mae'r ddealltwriaeth newydd rhwng Llywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol, a lofnodwyd ym mis Tachwedd, yn sail ar gyfer creu strategaeth fwy effeithlon, arloesol a chosteffeithiol er mwyn darparu gwasanaethau allweddol, gyda phwyslais ar sicrhau bod canlyniadau o safon i ddinasyddion wrth wraidd ein partneriaeth. Mae'r ffaith bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi disgrifio'r setliad fel un 'teg ond heriol' o ystyried yr holl amgylchiad, yn adlewyrchu'r berthynas sy'n aeddfedu rhyngddi a ni.

For 2010-11, the unhypothecated revenue support for local government will be worth more than £4 billion. This represents a cash increase of 3.2 per cent, but an increase of

Ar gyfer 2010, bydd y cymorth refeniw heb ei neilltuo i lywodraeth leol yn werth mwy na £4 biliwn. Mae hyn yn gynydd o 3.2 y cant mewn arian parod, ond yn gynydd o £81

£81 million or 2.1 per cent on current year funding on a like-for-like basis when specific grant transfers into RSG are taken into account. This is in excess of current inflation, and is far higher than the 1.3 per cent increase that would have resulted had the £216 million or 1.6 per cent efficiency savings that the Assembly Government has had to find as a consequence of the Chancellor's April budget been applied to local government on a pro rata basis.

The settlement makes provision for a funding floor that ensures that all local authorities receive a minimum settlement increase of 1 per cent, as requested by the WLGA. We expect the authorities in receipt of floor funding to use it for service provision and not to subsidise decisions on council tax. I understand the pressures and difficult decisions that all local authorities face. In the current economic climate all of our society, the public sector, businesses and citizens face tough choices. There is no immunity, and the future public expenditure outlook means that the situation is going to get a whole lot tougher.

This is a good settlement under the circumstances, and it will help local authorities to protect front-line services. It is also a challenging settlement, which will mean that local authorities must change their way of working. They must move faster to identify the opportunities for collaboration, they must be more innovative in reviewing their services to make them more efficient, and they must realise that they are in the business of making a difference to people's lives, not of supporting unnecessary bureaucracy.

If we are to meet the challenges that we face, as the public has a right to expect, the public sector needs to work in unison, challenging preconceived ideas on administration practices and modes of service delivery, and being remorseless in pursuing avenues for collaboration and improvement.

miliwn neu 2.1 y cant o'i gymharu â'r cyllid ar gyfer y flwyddyn gyfredol ar sail gyfatebol pan ystyrir trosglwyddiadau grant penodol i'r grant cynnal refeniw. Mae hyn yn fwy na chwyddiant ar hyn o bryd, ac mae'n uwch o lawer na'r cynnydd o 1.3 y cant a fyddai wedi bod petai'r arbedion effeithlonrwydd o £216 miliwn neu 1.6 y cant y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gorfod dod o hyd iddynt yn sgîl cyllideb y Canghellor ym mis Ebrill wedi'u trosglwyddo *pro rata* i lywodraeth leol.

Mae'r setliad yn sicrhau arian gwaelodol sy'n golygu y caiff pob awdurdod lleol gynydd o 1 y cant fan leiaf yn eu setliad, yn unol â chais Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yr ydym yn disgwyl i'r awdurdodau a gaiff arian gwaelodol ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau yn hytrach nag i gynorthwyo gyda'u penderfyniadau ynglŷn â'r dreth gyngor. Yr wyf yn deall y pwysau a'r penderfyniadau anodd y mae pob awdurdod lleol yn eu hwynebu. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae ein cymdeithas i gyd, y sector cyhoeddus, busnesau a dinasyddion yn wynebu dewisiadau anodd. Nid oes neb yn cael ei arbed rhag hyn, ac mae'r rhagolygon ar gyfer gwariant cyhoeddus yn y dyfodol yn golygu bod y sefyllfa'n mynd i waethygu'n ddybryd.

Mae'r setliad hwn yn setliad da o dan yr amgylchiadau, a bydd yn gymorth i awdurdodau lleol amddiffyn gwasanaethau'r rheng flaen. Mae'n setliad heriol hefyd, a fydd yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol newid eu ffordd o weithio. Bydd yn rhaid iddynt symud yn gyflymach i weld y cyfleoedd i gydweithio, rhaid iddynt fod yn fwy arloesol wrth adolygu eu gwasanaethau i'w gwneud yn fwy effeithlon, a rhaid iddynt sylweddoli mai eu gwaith yw gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl, nid cefnogi biwrocratiaeth ddiangen.

Er mwyn ymateb i'r heriau yr ydym yn eu hwynebu, ac mae hynny'n rhywbeth y mae gan y cyhoedd yr hawl i'w ddisgwyl, mae angen i'r sector cyhoeddus gydweithio, gan herio hen syniadau ynglŷn ag arferion gweinyddu a dulliau o ddarparu gwasanaethau, ac mae angen iddo fod yn ddigyfaddawd wrth fynd ar drywydd llwybrau i gydweithio a gwella.

I have already begun visiting local authorities around Wales to discuss their concerns and the strategies that they are putting in place to meet the challenges ahead. I am encouraged by the vision and innovation that is being shown in areas such as collaborative and smarter procurement, and partnership working within and between authorities. One example is the Welsh Purchasing Consortium, involving 16 local authorities in south, mid and west Wales, which identified efficiency savings of between £8.5 million and £14.5 million over a three-year period. On partnership working, Conwy and Denbighshire have established a joint head of highways and transport to work across the two regions. We must deliver harder and faster, however, and I will be demonstrating leadership to make that happen, recognising the new powers that are becoming available to me through the Local Government (Wales) Measure 2009.

I applaud the work of SOLACE in exploring many opportunities, with no preconceptions, for efficiencies across the spectrum of local government activity, particularly in areas such as strategic commissioning, partnership and improved productivity. This is consistent with the work that the Assembly Government is undertaking on improvement and efficiency. The Assembly Government proposes to pull all this work together at a public services summit that is to be held early this year. The £60 million that the Assembly Government has made available in the invest-to-save fund is hugely important in promoting transformational projects in the public sector. A number of local authorities have benefited from the first round of projects announced by the Minister for Business and Budget last week.

The development of outcome agreements for individual authorities under 'A New Understanding Between The Welsh Assembly Government and Local Government In Wales' is a collaborative process, and my firm expectation is that outcomes, once agreed and set, will be delivered. The new understanding and the

Yr wyf eisoes wedi dechrau ymweld ag awdurdodau lleol ledled Cymru i drafod eu pryderon a'r strategaethau y maent yn eu llunio i ymateb i'r heriau sydd o'u blaen. Mae'r weledigaeth a'r arloesi sydd i'w gweld mewn meysydd megis caffael cydweithredol a chaffael mwy clyfar, a gwaith partneriaeth o fewn awdurdodau a rhyngddynt yn codi fy nghalon. Un enghraifft yw Consortiwm Prynu Cymru, sy'n cynnwys 16 o awdurdodau lleol yn y de, y canolbarth a'r gorllewin a lwyddodd i ganfod arbedion effeithlonrwydd gwerth rhwng £8.5 miliwn ac £14.5 miliwn dros gyfnod o dair blynedd. O ran gwaith partneriaeth, mae Conwy a sir Ddinbych wedi sefydlu pennaeth priffyrdd a thrafnidiaeth ar y cyd i weithio ar draws y ddau ranbarth. Fodd bynnag, rhaid inni gyflawni'n well ac yn gyflymach, a byddaf yn arwain y ffordd er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd, gan sylweddoli y bydd pwerau newydd ar gael imi drwy Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Yr wyf yn cymeradwyo gwaith SOLACE yn archwilio llawer o gyfleoedd, heb ddim rhagdybiaethau, ar gyfer arbed arian ar draws sbectwm gweithgarwch llywodraeth leol, yn enwedig mewn meysydd megis comisiynu strategol, partneriaeth a gwell cynhyrchiant. Mae hyn yn gyson â'r gwaith y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud ar wella ac effeithlonrwydd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig tynnu'r holl waith hwn at ei gilydd mewn uwchgynhadledd gwasanaethau cyhoeddus sydd i'w chynnal yn gynnar eleni. Mae'r £60 miliwn y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i ddarparu yn y gronfa buddsoddi i arbed yn aruthrol o bwysig o ran hybu prosiectau gweddnewid yn y sector cyhoeddus. Mae nifer o awdurdodau lleol wedi elwa yn sgîl y rownd gyntaf o brosiectau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yr wythnos diwethaf.

Proses gydweithredol yw datblygu cytundebau canlyniadau ar gyfer awdurdodau unigol o dan 'Dealltwriaeth Newydd Rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth Leol yng Nghymru', ac yr wyf yn disgwyl yn bendant y cyflawnir y canlyniadau, ar ôl cytuno arnynt a'u pennu. Bydd y ddealltwriaeth newydd a fframwaith y



outcome agreement framework will recognise the importance of providing local authorities with maximum flexibility on funding. Where an authority delivers, it will benefit from greater financial freedom. This could be through aggregating grants or by removing grant conditions altogether.

The settlement for 2010-11 makes a significant step towards reduced hypothecation. The revenue support grant will include over £45 million of funding that was previously provided as specific grants, in particular, £22 million in deprivation grant, two schools-related grants worth £11 million, and £10 million in the fairer charging grant.

5.00 p.m.

The deprivation grant is, in effect, an unhypothecated grant, so it makes sense to consolidate it into the RSG. The existing distribution of the grant is being maintained within the RSG to ensure that it continues to be a major source of support, helping those local authorities where deprivation is a key driver in service provision, and protecting council tax payers in communities where the impact of the recession and the service challenges are greatest. Looking to the future, we will be reviewing how it is allocated to see how it can be better aligned to meet our commitment to tackle child poverty.

The overall settlement package will still include specific grants totalling over £600 million. Those include an additional £20 million for the foundation phase, building on the £20 million in 2009-10, and also additional support for waste management and concessionary fares.

Local authorities will receive capital funding worth £576 million in 2010-11. This is a reduction of around 12 per cent compared with the planned provision for the current year. That is due, in part, to the bringing forward of substantial sums of capital funding to the current year to commence vital

cytundeb canlyniadau'n cydnabod pwysigrwydd rhoi cymaint o hyblygrwydd ag sy'n bosibl i awdurdodau lleol o ran cyllid. Lle y bydd awdurdod yn cyflawni, bydd yn elwa drwy gael mwy o ryddid ariannol. Gallai hyn ddigwydd drwy gronni grantiau neu drwy ddileu amodau grantiau'n gyfan gwbl.

Mae'r setliad ar gyfer 2010-11 yn gam sylweddol ymlaen at lai o neilltuo. Bydd y grant cynnal refeniw'n cynnwys dros £45 miliwn a ddarparwyd gynt ar ffurf grantiau penodol, yn arbennig, £22 miliwn ar ffurf y grant amddifadedd, dau grant cysylltiedig ag ysgolion sy'n werth £11 miliwn, a'r grant codi tâl tecach sy'n werth £10 miliwn.

Mewn gwirionedd, grant heb ei neilltuo yw'r grant amddifadedd. Felly, mae'n gwneud synnwyr ei gynnwys yn y grant cynnal refeniw. Cedwir at y ffordd y dosberthir y grant ar hyn o bryd pan gaiff ei gynnwys yn y grant cynnal refeniw er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn ffynhonnell o bwys o ran cymorth, gan gynorthwyo'r awdurdodau lleol hynny lle y mae amddifadedd yn un o'r ffactorau allweddol wrth ddarparu gwasanaethau, a chan amddiffyn y rhai sy'n talu'r dreth gyngor mewn cymunedau lle y mae effaith y dirwasgiad ar ei mwyaf a'r anawsterau ar eu mwyaf wrth ddarparu gwasanaethau. Ac edrych tua'r dyfodol, byddwn yn adolygu sut y caiff ei ddyrannu er mwyn gweld sut y gellir ei ddefnyddio'n well i wireddu'n hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant.

Bydd pecyn cyffredinol y setliad yn dal i gynnwys grantiau penodol sy'n werth cyfanswm o dros £600 miliwn. Mae'r rheini'n cynnwys £20 miliwn yn ychwanegol ar gyfer y cyfnod sylfaen, gan adeiladu ar yr £20 miliwn yn 2009-10, a hefyd maent yn cynnwys cymorth ychwanegol ar gyfer rheoli gwastraff a theithio rhatach.

Caiff awdurdodau lleol arian cyfalaf gwerth £576 miliwn yn 2010-11. Mae hyn yn ostyngiad o ryw 12 y cant o'i gymharu â'r ddarpariaeth a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn hon. Y rheswm dros hynny, i raddau, yw bod symiau sylweddol o arian cyfalaf wedi'u dwyn ymlaen i'r flwyddyn

capital projects in affordable housing and schools provision.

While the overall quantum for 2010-11 has reduced, we have continued to maintain the level of unhyphocated general capital funding that local authorities are free to spend in accordance with their priorities. However, it is no secret that the outlook for capital funding is even worse than that for revenue funding. We will not have clarity until the comprehensive spending review reports following the general election. Local authorities, in common with all other public sector organisations, will have to make full use of the options available to them to develop support in future investments, including specific capital funding pots, supported by robust business cases, and European funding.

It is also vital that all public bodies sweat their existing asset base to maximise the benefit to communities through, for example, shared facility arrangements and community asset transfers where appropriate. They must seek opportunities to share their facilities with other public sector and voluntary partners. That makes obvious financial sense, and can often provide a more comprehensive and holistic service to the public.

It is now for local authorities to set their budgets for 2010-11. Band D council tax levels in Wales remain at around 25 per cent below those in England, due to the higher proportion of support that the Assembly Government provides towards local government spending. For example, those in a band D council tax property in Powys will pay 28 per cent less council tax than those in the equivalent property in Herefordshire.

These are difficult times, but I believe this to be a fair and realistic settlement for local government, achieved in difficult circumstances. I commend this settlement to the Assembly.

hon i gychwyn ar brosiectau cyfalaf hollbwysig ym maes tai fforddiadwy ac ysgolion.

Er bod y cwantwm cyffredinol ar gyfer 2010-11 wedi gostwng, yr ydym wedi parhau i gynnal lefel y cyllid cyfalaf cyffredinol heb ei neilltuo y mae awdurdodau lleol yn rhydd i'w wario yn unol â'u blaenoriaethau. Fodd bynnag, nid yw'n gyfrinach bod y rhagolygon ar gyfer arian cyfalaf yn waeth hyd yn oed nag ar gyfer arian refeniw. Ni fydd y sefyllfa'n glir nes inni gael adroddiadau'r adolygiad cynhwysfawr o wariant ar ôl yr etholiad cyffredinol. Bydd awdurdodau lleol, fel pob sefydliad arall yn y sector cyhoeddus, yn gorfod defnyddio'r holl ddewisiadau sydd ar gael iddynt i'r eithaf er mwyn datblygu cymorth i fuddsoddi yn y dyfodol, gan gynnwys potiau cyllid cyfalaf penodol, a chefnogi hynny drwy gyfrwng dadleuon busnes cadarn, ac arian Ewrop.

Mae'n hollbwysig hefyd i bob corff cyhoeddus ddefnyddio'i sylfaen asedau bresennol i'r eithaf er mwyn sicrhau cymaint o fudd i gymunedau ag sy'n bosibl drwy drefniadau rhannu cyfleusterau, er enghraifft, a thrwy drosglwyddo asedau cymunedol lle y bo hynny'n briodol. Rhaid iddynt chwilio am gyfleoedd i rannu eu cyfleusterau gyda phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Mae hynny'n amlwg yn gall o safbwynt ariannol, ac yn aml, gall ddarparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr a chyfannol ar gyfer y cyhoedd.

Gwaith yr awdurdodau lleol yn awr yw pennu eu cyllidebau ar gyfer 2010-11. Bydd lefelau Band D y dreth gyngor yng Nghymru'n dal i fod tua 25 y cant yn is na'r rhai yn Lloegr, oherwydd bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi cyfran uwch o gymorth at wariant llywodraeth leol. Er enghraifft, bydd y rhai mewn eiddo sydd ym mand D o ran y dreth gyngor ym Mhowys yn talu 28 y cant yn llai o dreth gyngor na'r rhai mewn eiddo cyfatebol yn swydd Henffordd.

Mae'n gyfnod anodd, ond credaf fod y setliad hwn i lywodraeth leol yn un teg a realistig, a hynny o dan amgylchiadau anodd. Cymeradwyaf y setliad hwn i'r Cynulliad.

**Darren Millar:** Before I make comments on the settlement, I congratulate Carl Sargeant on his ministerial appointment. I sincerely wish him every success in dealing with the challenges that his job will throw at him; in fact, I want to throw a few challenges before him in my speech. However, I look forward to working with you in your new capacity, Carl.

Turning to the local government settlement, it will come as no surprise that we intend to vote against the final settlement before the Assembly today. We recognise the challenges faced by the Assembly Government as a result of the poor settlement, which, of course, is the result of the economic mess in which the Labour Party and Gordon Brown, as chancellor and Prime Minister, have left the UK economy. However, we do not feel that the way in which the Labour-Plaid coalition has distributed cash to local authorities best reflects the challenges that they face. The reality for many councils this year, as in the past, is more inflation-busting increases in council tax coupled with cuts in local services, perhaps more so this year than previously, and in subsequent years while the country struggles to get out of the mess that the Labour Party has put us in.

It confirms the position of the Labour-Plaid Government as the corner-cutting coalition. You continue to put pressure on local authorities to deliver, but, as usual, it is hard-working people that will have to pick up the tab for the extra responsibilities that you have placed upon local authorities without providing the funding to deliver on them. We all know the facts: under Labour in Wales over the past 10 years or so, council tax has increased by 100 per cent. It has more than doubled and that has hit the pockets of individuals, families and pensioners up and down the country. We believe that a number of things can be done to get extra cash to local authorities without resulting in any significant change to the overall settlement. We think that there is a need for a massive reduction in the number of hypothecated grants and we welcome the fact that the Minister appears to be taking on board some

**Darren Millar:** Cyn imi sôn am y setliad, llongyfarchaf Carl Sargeant ar ei benodi'n Weinidog. Dymunaf yn ddiffuant bob llwyddiant iddo wrth iddo fynd i'r afael â'r heriau y bydd ei swydd yn eu taflu ato; a dweud y gwir, yr wyf fi am daflu ambell her ato yn fy araith. Fodd bynnag, edrychaf ymlaen at weithio gyda chi yn eich swydd newydd, Carl.

A throi at y setliad i lywodraeth leol, ni fydd yn syndod ein bod yn bwriadu pleidleisio yn erbyn y setliad terfynol sydd gerbron y Cynulliad heddiw. Yr ydym yn cydnabod yr anawsterau a wynebier gan Lywodraeth y Cynulliad yn sgîl y setliad gwael, sydd, wrth gwrs, yn ganlyniad i'r llanastr economaidd y mae'r Blaid Lafur a Gordon Brown, fel Canghellor ac fel Prif Weinidog, wedi gadael economi'r Deyrnas Unedig ynddo. Fodd bynnag, nid ydym yn teimlo mai'r ffordd y mae'r glymblaid rhwng Llafur a Phlaid Cymru wedi dosbarthu arian i awdurdodau lleol yw'r ffordd orau o adlewyrchu'r anawsterau a wynebier ganddynt. Y gwirionedd i lawer o gynghorau eleni, fel yn y gorffennol, yw bod y dreth gyngor yn cynyddu eto y tu hwnt i chwyddiant ynghyd â thorri gwasanaethau lleol, a hynny i raddau mwy eleni efallai nag o'r blaen, ac mewn blynyddoedd i ddod, wrth i'r wlad straffaglu i gefnu ar y llanastr y mae'r Blaid Lafur wedi'i greu inni.

Mae'n cadarnhau mai'r glymblaid torri corneli yw Llywodraeth Llafur a Phlaid Cymru. Yr ydych yn dal i roi pwysau ar awdurdodau lleol i gyflawni, ond, fel rheol, pobl sy'n gweithio'n galed a fydd yn gorfod talu am y cyfrifoldebau ychwanegol yr ydych wedi'u rhoi i awdurdodau lleol heb roi'r arian iddynt gyflawni'r cyfrifoldebau hynny. Mae'r ffeithiau'n hysbys inni i gyd: o dan Lafur yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf, mae'r dreth gyngor wedi cynyddu 100 y cant. Mae wedi dyblu a mwy, ac mae hynny wedi taro pcedi unigolion, teuluoedd a phensiynwyr ym mhob cwr o'r wlad. Credwn y gellir gwneud nifer o bethau i gael arian ychwanegol i awdurdodau lleol heb i hynny arwain at newid sylweddol yn y setliad cyffredinol. Credwn fod angen lleihau'n sylweddol nifer y grantiau sydd wedi'u neilltuo ac yr ydym yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog i bob golwg yn gwrandao ar rai

of our comments—at long last—about the need to reduce hypothecation in the settlement. We know that the WLGA estimates that around £60 million to £70 million-worth of taxpayers' money is wasted on administration and bureaucracy, which includes monitoring by both councils and the Assembly Government of hypothecated grants to local authorities. It has even been suggested that some of the smaller grants cost more to administer than the total individual grant, which is crazy by anyone's standards. Therefore, we welcome the small reduction, but we do not believe that the Assembly Government is going far enough to deal with that fundamental problem. We believe that by reducing the number and the size of hypothecated grants, tens of millions of pounds in extra cash could be released to the benefit of front-line services across Wales. We would encourage you to go further and faster in dealing with hypothecation.

That would also unshackle local authorities, allowing them to spend their cash according to local needs and local priorities, and giving them discretion over where they spend their resources. That is real devolution, which we have not seen yet in Wales under Labour or Labour and Plaid. We need to deliver it now and I encourage you to do so.

In addition, many local authorities, such as Conwy and Powys, have faced the best part of a decade of below-average settlements from the Assembly Government. This situation cannot continue, but it is perpetuated by the existing funding formula, which does nothing to recognise, for example, the challenges of providing services in rural Wales. Those of us who represent rural constituencies know all too well the challenges faced by rural towns and villages, whether in relation to public transport or bin collection, small schools or social services for the elderly. Council tax payers in rural communities deserve to receive the same level of service as other council tax payers in those local authority areas. People in rural areas already feel hard done by. Phone boxes have been removed, post offices have been closed, and there is a widespread unavailability of broadband services, to name

o'n sylwadau—o'r diwedd—ynghlŷn â bod angen cael llai o neilltuo yn y setliad. Gwyddom fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n amcangyfrif bod gwerth rhwng tua £60 miliwn a £70 miliwn o arian y trethdalwyr yn cael ei wastraffu ar weinyddu a biwrocraetiaeth. Mae hynny'n cynnwys monitro grantiau wedi'u neilltuo a roddir i awdurdodau lleol, gan gynghorau a chan Lywodraeth y Cynulliad. Awgrymwyd hyd yn oed fod rhai o'r grantiau llai'n costio mwy i'w gweinyddu na chyfanswm y grant unigol. Mae hynny'n orffwyll yn ôl unrhyw safonau. Felly, yr ydym yn croesawu'r gostyngiad bach, ond ni chredwn fod Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud digon i ymdrin â'r broblem sylfaenol honno. Credwn, drwy leihau nifer a maint y grantiau sydd heb eu neilltuo, y gellid rhyddhau degau o filiynau o bunnau o arian parod yn ychwanegol er budd gwasanaethau'r rheng flaen ledled Cymru. Byddem yn eich annog i symud ymhellach ac yn gyflymach wrth ymdrin â neilltuo.

Byddai hynny hefyd yn rhyddhau awdurdodau lleol, gan adael iddynt wario'u harian yn ôl anghenion lleol a blaenoriaethau lleol, ac yn rhoi'r hawl iddynt benderfynu ymhle i wario'u hadnoddau. Dyna ddatganoli go iawn, nad ydym wedi'i weld eto yng Nghymru o dan Lafur nac o dan Lafur a Phlaid Cymru. Mae angen gwneud hyn yn awr ac fe'ch anogaf i wneud hynny.

Yn ogystal â hynny, mae llawer o awdurdodau lleol, megis Conwy a Phowys, wedi cael setliadau is na'r cyfartaledd gan Lywodraeth y Cynulliad yn ystod y rhan fwyaf o'r degawd. Ni all y sefyllfa hon barhau, ond mae'n cael ei gwneud yn waeth gan y fformiwla ariannu bresennol, nad yw'n gwneud dim i gydnabod, er enghraifft, yr anawsterau sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau yn y Gymru wledig. Bydd y rhai ohonom sy'n cynrychioli etholaethau gwledig yn gwybod yn iawn am yr anawsterau y mae trefi a phentrefi gwledig yn eu hwynebu, boed hynny yng nghyswllt trafndiaeth gyhoeddus neu gasglu biniau, ysgolion bach neu wasanaethau cymdeithasol i'r henoed. Mae'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor mewn cymunedau gwledig yn haeddu cael yr un lefel o wasanaeth â phobl eraill sy'n ei thalu yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hyn. Mae pobl ardaloedd gwledig eisoes

but a few issues. However, we believe that this particular settlement will do more damage to the rural parts of our country. That is why we on these benches want to see a radical overhaul of the funding formula, so that it distributes cash to local authorities and reflects the additional costs faced by councils that provide services in sparsely populated rural areas. The simple answer is for you to take the lead on this particular issue, Minister, because the WLGA is not able to do so. I hope that, in your response today, you can give us an assurance that you will do just that.

We also recognise the need for more partnership working. There are some good examples across Wales of partnership working, not least in my own back yard between Conwy and Denbighshire, but it is happening nowhere near fast enough. I would like you to outline to us in your response to this debate what action you are taking to ensure that taxpayers do not have to foot the bill because of the reluctance of some local authorities to work with their neighbours.

**Ann Jones:** Having listened to that contribution from the Tories, I think that we should be reminded that the Tories wasted £1.5 billion in trying to implement the poll tax, which failed. In the last two years when the Tories were in power, they raised the council tax by 18 per cent in the first year and by 12 per cent in the final year. We have had enough of your crocodile tears, which are similar to Cameron's crocodile tears. I listened to Cameron yesterday and his comments showed that he did not understand the basis of poverty and what people are like. He was talking about parents taking pupils to schools in their four-by-fours to take their exams. He has no idea what a parent living on a hillside whose road has not been gritted, or with no opportunity to get a car, has to do to take their child to school; those parents are passionate about their children's education. I will have no more comments from the Tories

yn teimlo eu bod yn cael cam. Mae blychau ffôn wedi diflannu, mae swyddfeydd post wedi'u cau, ac mae diffyg cyffredinol o ran gwasanaethau band eang, a sôn am ychydig o broblemau'n unig. Fodd bynnag, credwn y gwnaiff y setliad penodol hwn fwy o ddifrod i ardaloedd gwledig ein gwlad. Dyna pam yr ydym ni ar y meinciau hyn am weld newid radical yn y fformiwla ariannu, er mwyn iddi ddosbarthu arian i awdurdodau lleol ac adlewyrchu'r costau ychwanegol a wynebwr gan gynghorau sy'n darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig tenau eu poblogaeth. Yr ateb syml yw ichi afael yn yr awenau yn y cyswllt arbennig hwn, Weinidog, oherwydd ni all Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wneud hynny. Yr wyf yn gobeithio, wrth ichi ymateb heddiw, y gallwch roi sicrwydd inni y gwnewch yr union beth hwnnw.

Yr ydym yn sylweddoli hefyd fod angen mwy o waith partneriaeth. Mae rhai enghreifftiau da o waith partneriaeth i'w gweld ledled Cymru, yn anad dim yn fy milltir sgwâr fy hun rhwng Conwy a sir Ddinbych, ond nid yw'n digwydd yn ddigon cyflym o bellffordd. Hoffwn ichi sôn wrthym yn eich ymateb i'r ddatl hon pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau nad oes yn rhaid i drethdalwyr dalu'r bil oherwydd bod rhai awdurdodau lleol yn gyndyn o weithio gyda'u cymdogion.

**Ann Jones:** Ar ôl gwranddo ar y cyfraniad hwnnw gan y Torïaid, credaf y dylem gael ein hatgoffa bod y Torïaid wedi gwastraffu £1.5 biliwn yn ceisio rhoi treth y pen ar waith, gan fethu gwneud hynny. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf pan oedd y Torïaid mewn grym, cynyddwyd y dreth gyngor 18 y cant ganddynt yn y flwyddyn gyntaf a 12 y cant yn y flwyddyn olaf. Yr ydym wedi cael digon ar eich dagrau ffug, sy'n debyg i ddagrau ffug Cameron. Gwrandewais ar Cameron ddoe a dangosai ei sylwadau nad oedd yn deall hanfod tlodi na natur pobl. Yr oedd yn sôn am rieni'n cludo disgyblion i'r ysgol yn eu cerbydau gyriant pedair olwyn i sefyll eu harholiadau. Nid oes ganddo glem beth y mae'n rhaid i riant sy'n byw ar ochr bryn ar ffordd heb ei graeanu ei wneud i fynd â'i blentyn i'r ysgol; mae'r rhieni hynny ar dân dros addysg eu plant. Nid wyf am glywed rhagor o sylwadau gan y Torïaid am

about social inclusion.

gynhwysiant cymdeithasol.

5.10 p.m.

I have some concerns about the revenue support grant, which will come as no surprise, because I raised them in the draft budget debate. However, unlike the Tories, I want to see the increased hypothecation of grants and I am deeply hurt and still feel that the deprivation grant should not have lost its single status. It should never have been rolled into the revenue support grant without the output agreement championed by Brian Gibbons. That agreement should have been signed by every local authority before any specific grant was rolled into the RSG. I say that based on my experience of Denbighshire County Council. For the past 10 years it has spent well below the Assembly Government's suggested spend on education. The suggested figures were 42 and 43 per cent, and Denbighshire spent 36 and 37 per cent, thereby leaving its schools horribly underfunded. That has had a serious effect on some of the schools in my area.

Mae ambell beth yn fy mhoeni ynglŷn â'r grant cynnal refeniw, ac ni fydd hynny'n syndod i neb, oherwydd imi eu codi yn y ddadl am y gyllideb ddrafft. Fodd bynnag, yn wahanol i'r Torïaid, yr wyf am weld mwy o neilltuo grantiau. Mae'n boen mawr imi ac yr wyf yn dal i deimlo na ddylasai'r grant amddifadedd golli ei statws sengl. Ni ddylasai erioed gael ei gynnwys y grant cynnal refeniw heb y cytundeb canlyniadau y bu Brian Gibbons yn dadlau o'i blaidd. Dylai'r cytundeb hwnnw fod wedi'i lofnodi gan bob awdurdod lleol cyn cynnwys unrhyw grant penodol yn y grant cynnal refeniw. Yr wyf yn dweud hynny ar sail fy mhrofiad o Gyngor Sir Ddinbych. Ers 10 mlynedd bellach, mae wedi gwario llai o lawer na'r hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn awgrymu y dylai ei wario ar addysg. Y ffigurau a awgrymwyd oedd 42 a 43 y cant, a gwariodd sir Ddinbych 36 a 37 y cant, gan adael ei hysgolion yn echrydus o brin o arian. Mae hynny wedi cael effaith ddifrifol ar rai o'r ysgolion yn fy ardal.

I do not believe that local authorities should have more money unless they consider the reason why such grants were created in the first place. The arguments about deprivation are clear, and the way to lift communities out of deprivation is clear. We will not be able to do it unless we have commitment from all sides of this Chamber, and from all county councils and their partners.

Ni chredaf y dylai awdurdodau lleol gael rhagor o arian oni fyddant yn ystyried y rheswm dros greu grantiau o'r fath yn y lle cyntaf. Mae'r dadleuon ynglŷn ag amddifadedd yn glir ac mae'n glir sut y mae codi cymunedau o amddifadedd. Ni fyddwn yn gallu gwneud hyn oni chawn ymrwymiad gan bob ochr i'r Siambr hon a chan bob cyngor sir a'u partneriaid.

I had to smile when the Minister referred to the joint head of highways for Conwy and Denbighshire. It made me chuckle, and that is something that I have missed over the last few months. Having a joint head of highways for Conwy and Denbighshire sounds fantastic, but whether he was in Conwy last Tuesday or in Denbighshire—I do not know where he is based, and I do not particularly want to know—he would not have got far on those highways, because the A55 was snarled up within an hour of a small snowfall. Even though we have a joint head of highways for Conwy and Denbighshire, we do not have a joint gritting policy that keeps people

Bu'n rhaid imi wenu pan gyfeiriodd y Gweinidog at bennaeth priffyrdd ar y cyd gan Gonwy a sir Ddinbych. Gwnaeth imi chwerthin ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf wedi gweld ei eisiau yn ystod y misoedd diwethaf. Mae cael pennaeth priffyrdd ar y cyd i Gonwy a sir Ddinbych yn wych i bob golwg, ond ni waeth ai yng Nghonwy yr oedd ddydd Mawrth diwethaf ynteu yn sir Ddinbych—ni wn ymhle y mae ei swyddfa, ac nid wyf am gael gwybod yn arbennig—ni fyddai wedi mynd ymhell ar y priffyrdd hynny, oherwydd yr oedd tagfeydd ar yr A55 o fewn awr ar ôl ychydig bach o eira. Er bod gennym bennaeth priffyrdd ar y cyd i Gonwy

moving. I would not be too quick to say that joint services work.

**Darren Millar:** It is regrettable that you do not know where the joint head of highways for your area is based, but, in any case, do you accept that the snowfall that we had in north Wales last week was unprecedented? You can make some preparation for heavy snow, but it is ridiculous to claim that it was just a slight flurry of snow on the A55. It was the heaviest snowfall that we have had in decades.

**Ann Jones:** Not quite in decades—I remember snowfall that was worse. You make a valid point that the snowfall was heavy, but I also make a valid point in saying that joint services, wherever they are, do not always work. I do not have to know where the joint head of highways is based—I can get hold of him by email, so that is immaterial. I will not spend my time chasing around the county when I have an email facility.

There is an issue about where we are gritting and where we are joining services together. I remember the tragedy that was caused by a lack of grit, because an authority did not know whether it was theirs or not. Perish the thought that that should happen again. Minister, I have reservations about the fact that your predecessor rolled the deprivation grant into the revenue support grant. I want to see an outcome agreement with Denbighshire that prevents the deprivation grant from being lost. I also want to see an improvement in that authority's education spend, and, if it cannot do that, then we should hypothecate.

**The Deputy Presiding Officer:** I ask the remaining speakers to word their contributions in such a way as to make no criticism of individual local authority officers.

**David Lloyd:** Pleser yw cyfrannu at y ddadl bwysig hon ar setliad llywodraeth leol. Nid

a sir Ddinbych, nid oes gennym bolisi graeanu ar y cyd sy'n golygu bod pobl yn gallu parhau i symud. Ni fyddwn yn neidio i ddweud bod gwasanaethau ar y cyd yn gweithio.

**Darren Millar:** Mae'n resyn nad ydych yn gwybod ymhle y mae swyddfa pennaeth priffyrdd ar y cyd eich ardal, ond, beth bynnag, a ydych yn derbyn na welwyd dim byd tebyg i'r eira a gawsom yn y gogledd yr wythnos diwethaf? Gallwch baratoi rhywfaint ar gyfer eira trwm, ond mae'n wirion honni mai cawod fach o eira a gafwyd ar yr A55. Dyna'r eira trymaf yr ydym wedi'i gael ers degawdau.

**Ann Jones:** Nid ers degawdau'n union—yr wyf yn cofio eira gwaeth. Mae eich pwynt bod yr eira'n drwm yn un dilys, ond mae fy mhwynt innau'n ddilys, sef nad yw gwasanaethau ar y cyd, ym mhle bynnag y bôn, bob tro'n gweithio. Nid oes yn rhaid imi wybod ymhle y mae swyddfa'r pennaeth priffyrdd ar y cyd—gallaf gael gafael arno drwy'r e-bost, felly mae hynny'n amherthnasol. Nid wyf am dreulio fy amser yn rhuthro o gwmpas y sir a minnau'n berchen ar gyfleuster e-bost.

Mae pa ffyrdd yr ydym yn eu graeanu ac ymhle yr ydym yn uno gwasanaethau yn broblem. Cofiaf y drasiedi a achoswyd oherwydd diffyg graean, am nad oedd awdurdod yn gwybod ai hwy ynteu rhywun arall oedd piau'r graean. Gobeithio i'r nefoedd na fydd hynny'n digwydd eto. Weinidog, yr wyf yn poeni bod eich rhagflaenydd wedi peri i'r grant amddifadedd gael ei gynnwys yn y grant cynnal refeniw. Yr wyf am weld cytundeb canlyniadau gyda sir Ddinbych sy'n rhwystro'r grant amddifadedd rhag cael ei gollu. Yr wyf hefyd am weld gwariant yr awdurdod hwnnw ar addysg yn gwella, ac, oni all wneud hynny, yna dylem neilltuo'r arian.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gofynnaf i weddill y siaradwyr eirio'u cyfraniadau yn y fath fodd fel na fyddant yn beirniadu swyddogion awdurdodau lleol unigol.

**David Lloyd:** It is a pleasure to contribute to this important debate on the local government

oes dwywaith nad yw'r setliad ariannol i lywodraeth leol yn un tyn unwaith eto, ac yr ydym yn ymwybodol o'r pwysau ychwanegol sydd ar ein siroedd, yn enwedig gyda'r tywydd garw. Mae gofynion ychwanegol o safbwynt gofal yr henoed, y mae'r galw amdano'n cynyddu, ac o safbwynt sicrhau bod gwasanaethau plant yn ein hawdurdodau lleol hefyd yn cael chwarae teg.

Mae nifer o ofynion eraill, felly mae pwysau ar ein cynghorau sir, ond cefndir y sefyllfa yw'r ffordd annigonol y caiff Cymru ei hariannu ar hyn o bryd. Yr ydych wedi fy nghlywed o'r blaen yn traethu'n hir ac yn huawdl am ddiffygion fformiwla Barnett, sydd yn dosrannu arian ar sail poblogaeth yn unig yn hytrach nag ar sail anghenion. Mae gennym anghenion ychwanegol yng Nghymru, ac yr ydym yn ceisio adlewyrchu hynny yn fformiwla ariannu llywodraeth leol ar hyn o bryd, sy'n ceisio talu sylw i anghenion gwahanol ein hardaloedd yng Nghymru. Gallwch gwyno am fanylion fformiwla ariannu llywodraeth leol, fel yr ydym eisoes wedi clywed y prynhawn yma. Fodd bynnag, mae o leiaf yn ceisio ariannu ein cynghorau sir ar sail eu hanghenion ac nid ar sail eu poblogaeth yn unig. Felly, mae'r egwyddor o ariannu ar sail—

**Darren Millar:** If you want to fund local authorities based on their need, extra resources would be needed to be able to deliver services in our more sparsely populated and rural counties across Wales. If that is a need that you recognised, you therefore agree that the funding formula needs to reflect that need. Do you also agree that it does not currently reflect that need?

**David Lloyd:** The funding formula is not perfect; it needs to reflect those needs, and it also needs to reflect a whole variety of other needs. It is the balance or the weighting that you give to a whole variety of factors that brings forth a perfect formula, and we do not have that perfect formula at the moment.

Mae'r egwyddor o ariannu ar sail anghenion wedi'i sefydlu ar gyfer ein siroedd ond nid ar gyfer Cymru gyfan. Mae ceisio ariannu ein

settlement. There is no doubt that the financial settlement for local authorities is tight once again, and we are aware of the additional pressures on our counties, particularly given the adverse weather conditions. There are also additional requirements as regards the care of the elderly, demand for which is increasing, and in ensuring fair play for our children's services.

There are a number of other requirements, therefore there is pressure on our county councils, but the background to this is the inadequate way in which Wales is funded. You will have heard me in the past speaking at length about the deficiencies of the Barnett formula, which allocates funding on the basis of population rather than need. We have additional needs in Wales, and we are endeavouring to reflect that in the current local government funding formula, which attempts to tackle the different needs of our areas in Wales. You can complain about the details of the local government funding formula, as we have already heard this afternoon. However, at least it endeavours to fund our county councils based on their needs rather than merely on their population. Therefore, the principle of funding based on—

**Darren Millar:** Os ydych am ariannu awdurdodau lleol ar sail eu hangen, byddai angen adnoddau ychwanegol i ddarparu gwasanaethau yn ein siroedd gwledig mwy tenau eu poblogaeth ledled Cymru. Os yw hwnnw'n angen yr oeddech yn ei gydnabod, yr ydych felly'n cytuno bod angen i'r fformiwla ariannu adlewyrchu'r angen hwnnw. A ydych hefyd yn cytuno nad yw'n adlewyrchu'r angen hwnnw ar hyn o bryd?

**David Lloyd:** Nid yw'r fformiwla ariannu'n berffaith; mae angen iddi adlewyrchu'r anghenion hynny, ac mae angen iddi adlewyrchu amrywiaeth eang o anghenion eraill hefyd. Mantoli neu bwysoli amrywiaeth eang o ffactorau sy'n creu fformiwla berffaith, ac nid yw'r fformiwla berffaith honno gennym ar hyn o bryd.

The principle of needs-based funding has been established for our counties but not for the whole of Wales. Attempting to fund our



siroedd ar sail ein hanghenion allan o bloc Barnett—bloc cadarn a sefydlog nad yw'n seiliedig ar anghenion—yn dasg anodd tu hwnt. Dyna'r hyn sy'n wynebu'r Gweinidog y prynhawn yma. Gwyddoch fod comisiwn Holtham a chomisiwn Tŷ'r Arglwyddi wedi cyhoeddi y dylid dileu fformiwla Barnett, a sefydlu system ariannu deg yn seiliedig ar anghenion yn ei le. Dywed comisiwn Holtham fod Cymru'n colli allan ar ryw £400 miliwn bob blwyddyn yn awr, ac yn mynd i golli allan ar ryw £8.5 biliwn rhwng yn awr a 2020. Prif argymhelliad yr adroddiadau annibynnol hyn felly yw bod Cymru'n cael ei thanariannu ar hyn o bryd. Mae'n cael ei hamddifadu o arian hollol angenrheidiol yn awr, a bydd yn parhau i gael ei hamddifadu o'r arian y mae'n ei haeddu i redeg ei gwasanaethau am flynyddoedd i ddod os na fydd y system yn newid i system ariannu deg yn seiliedig ar ein hanghenion. Beth yw'r ateb o Lundain? Chwerthin am ein pennau a wneir yno; nid oes ymrwymiad gan Lafur na'r Ceidwadwyr yn Llundain i roi tegwch ariannol i Gymru. Mae hynny'n warth. Dim ond geiriau cynnes o du Llafur a'r Ceidwadwyr a geir yng Nghymru ynghylch yr achos dros newid, tra bod eu meistri yn Llundain yn gwneud dim. Mae angen dileu Barnett ar fyrder a sefydlu system ariannu deg i Gymru.

**Peter Black:** I start by saying that I agree with everything that Dai Lloyd said about the Barnett formula. However, we are discussing a local government settlement, and one of the responsibilities of being in a governing party is that you must take responsibility for the decisions that you take as a Government, and that is what you have in front of you and is what we are currently debating. I have sympathy with Darren Millar's point about the distribution formula, but we must also recognise that there is a limited sum of money. You can change the formula all you like, but, at the end of the day, all you are doing is moving sums of money from one local authority to another, so whereas maybe rural authorities may gain from changing the formula, as Darren wants to do, urban authorities will lose out as a consequence. Therefore, unless you are proposing an increase in the amount of money available for local government, issues about the distribution formula at this stage are possibly

counties based on needs from the Barnett block—a firm and fixed block which is not needs based—is an extremely difficult task. That is what the Minister is facing this afternoon. You will know that the Holtham commission and the House of Lords commission have stated that the Barnett formula should be abolished and replaced with a fair funding system based on needs. The Holtham commission states that Wales is currently losing out by some £400 million per annum, and will lose out by some £8.5 billion between now and 2020. The main recommendation of these independent reports is that Wales is currently being underfunded. It is currently being deprived of essential money, and it will continue to be deprived of the funding that it deserves for years to come unless the system is changed to a fair funding system based on our needs. What is the answer from London? They are laughing at us; there is no commitment from Labour or the Conservatives in London to ensure financial fairness for Wales. That is a disgrace. We hear only warm words from Labour and the Conservatives in Wales regarding the case for change, while their masters in London do nothing. The Barnett formula needs to be abolished urgently and establish a fair funding formula for Wales.

**Peter Black:** Dechreuaf drwy ddweud fy mod yn cytuno â phopeth a ddywedodd Dai Lloyd am fformiwla Barnett. Serch hynny, yr ydym yn trafod setliad i lywodraeth leol, ac un o gyfrifoldebau bod mewn plaid sy'n llywodraethu yw bod yn rhaid ichi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros eich penderfyniadau fel Llywodraeth, a dyna sydd gennych o'ch blaen a'r hyn yr ydym yn dadlau yn ei gylch ar hyn o bryd. Mae gennyf gydymdeimlad â phwynt Darren Millar ynglŷn â'r fformiwla ddsbarthu, ond rhaid inni hefyd sylweddoli mai swm cyfyngedig o arian sydd ar gael. Gallwch newid y fformiwla faint a fynnwch, ond yn y pen draw, y cyfan y byddwch yn ei wneud yw symud symiau o arian o'r naill awdurdod lleol i'r llall. Felly, er y gall awdurdodau gwledig o bosibl fod ar eu hennill yn sgîl newid y fformiwla, fel y mae Darren am wneud, bydd awdurdodau trefol ar eu colled yn sgîl hynny. Felly, onid ydych yn cynnig cynyddu swm yr arian sydd ar gael ar gyfer

irrelevant.

**Darren Millar:** I am sure that you will agree, Peter, that the point that I made about hypothecation would deliver extra cash resources directly to local authorities. There is an answer to your question about putting extra cash into local government; it would not change the overall pot, but it would mean more cash for front-line services. Do you accept that?

**Peter Black:** I thought that you were an accountant, Darren. You are talking about the same amount of money; it is just a question of how you spend the money. Local authorities will still get that amount of money, but it is how you spend it that matters. I do not want to get into that in my response, because I have a number of important points that I want to make about the settlement that we have in front of us.

I wanted to talk particularly about direct grants, as Darren has done. I agree with his point on direct grants. There are too many direct grants here—there are 61 as part of this local government settlement. In some cases, those grants might amount to a council receiving £10,000 or less.

5.20 p.m.

When you have a direct grant as a local authority, you have to administer that grant, put people in place to distribute it, fill in returns, and have to account to the Welsh Assembly Government how that money is spent. It can get to the stage where, when you are talking about sums as little as £10,000, you are spending more than you get to make sure that that grant is being spent correctly. That is one of the reasons why it is imperative to start looking at this direct grant regime. Whereas direct grants have a part to play in introducing policy initiatives, you get to the stage where a large number of them, which often involve small sums of money, are better amalgamated or put into the settlement as a whole. There needs to be much more movement in that respect.

llywodraeth leol, mae'n bosibl bod materion sy'n ymwneud â'r fformiwla ddsbarthu yn amherthnasol ar hyn o bryd.

**Darren Millar:** Yr wyf yn siŵr y cytunwch, Peter, y byddai'r pwynt a wneuthum ynglŷn â neilltuo'n darparu adnoddau ariannol ychwanegol yn uniongyrchol ar gyfer awdurdodau lleol. Ceir ateb i'ch cwestiwn ynglŷn â rhoi arian ychwanegol i lywodraeth leol; ni fyddai'n newid y pot cyffredinol, ond byddai'n golygu mwy o arian ar gyfer gwasanaethau'r rheng flaen. A ydych yn derbyn hynny?

**Peter Black:** Yr oeddwn yn meddwl mai cyfrifydd oeddech, Darren. Yr ydych yn sôn am yr un faint o arian; mater o sut y mae'r arian hwnnw'n cael ei wario ydyw, dyna i gyd. Bydd awdurdodau lleol yn dal i gael y swm hwnnw o arian, ond sut y mae'r arian hwnnw'n cael ei wario sy'n cyfrif. Nid wyf am sôn am hynny yn fy ymateb, oherwydd bod gennyf nifer o bwyntiau pwysig yr wyf am eu gwneud ynglŷn â'r setliad sydd ger ein bron.

Yr oeddwn am sôn yn benodol am grantiau uniongyrchol, fel y mae Darren wedi gwneud. Yr wyf yn cytuno â'i bwynt ynglŷn â grantiau uniongyrchol. Mae gormod o grantiau uniongyrchol yma—mae 61 ohonynt yn rhan o'r setliad hwn i lywodraeth leol. Mewn ambell achos, gallai'r grantiau hynny olygu bod cyngor yn cael £10,000 neu lai.

Pan fydd awdurdod lleol yn cael grant uniongyrchol, rhaid iddo weinyddu'r grant hwnnw, cael pobl i'w ddsbarthu, llenwi datganiadau, a bod yn atebol i Lywodraeth y Cynulliad ynglŷn â sut y caiff yr arian hwnnw ei wario. Gall olygu, pan fyddwch yn sôn am symiau cyn lleied â £10,000, eich bod yn gwario mwy na'r swm a gewch i sicrhau bod y grant yn cael ei wario'n iawn. Dyna un o'r rhesymau pam mae'n rhaid edrych ar y drefn hon o roi grantiau uniongyrchol. Er bod gan grantiau uniongyrchol ran i'w chwarae wrth gyflwyno mentrau polisi, byddwch yn cyrraedd pwynt lle y mae'n well cyfuno nifer fawr ohonynt, a'r rheini'n aml yn cynnwys symiau bach o arian, neu eu cynnwys yn y setliad cyffredinol. Mae angen cael llawer mwy o symud yn y cyswllt hwnnw.

The Minister referred to the deprivation grant as one of those direct grants that have been subsumed into the settlement. He said that it was no longer hypothecated because it has been consolidated, but that is not the case. The deprivation grant is part of the revenue support grant but has a stand-alone formula, which is separate from the formula being used for the revenue support grant. In other words, you have taken the grant, put it into one block of money, but you are still distributing it on the same basis as before. Effectively, you have a hypothecated grant within the revenue support grant as it is distributed. We talk about subsuming it into the grant, but that is not what has happened. More importantly, one of the reasons why that has not happened is because the grant was brought into place to deliver a specific outcome, which was to compensate those authorities with high levels of deprivation for the fact that the formula did not quite account for the problems that that deprivation causes for them. While the deprivation grant remains in the RSG on its present distribution formula, that will continue to happen. At some stage in the future, will you change the way that that deprivation grant is distributed? If you do so, how will that help those local authorities that have high levels of deprivation and need those extra resources? There is a severe danger that, by putting it into the RSG, local authorities in the future will no longer benefit on the same basis as they have done in the past. It is a matter that must be considered.

I raised this issue with Brian Gibbons as he was the relevant Minister at the time. I made the point that some future Minister might take a different view. We now have a different Minister, and it may well be that in a few years' time we will have a different Minister again. Most local authorities will suffer as a result of that. I would like to have some assurances from the Minister on how the deprivation grant will be calculated in future to make sure that those authorities that are benefiting from it will not lose out as a

Cyfeiriodd y Gweinidog at y grant amddifadedd fel un o'r grantiau uniongyrchol hynny sydd wedi'u cwmpasu gan yn y setliad. Dywedodd nad oedd wedi'i neilltuo rhagor oherwydd ei fod wedi cael ei gyfuno, ond nid yw hynny'n wir. Mae'r grant amddifadedd yn rhan o'r grant cynnal refeniw ond mae ganddo fformiwla annibynnol, fformiwla sydd ar wahân i honno a ddefnyddir ar gyfer y grant cynnal refeniw. Mewn geiriau eraill, yr ydych wedi cymryd y grant, wedi'i gynnwys mewn un bloc o arian, ond yr ydych yn dal i'w ddsbarthu ar yr un sail ag o'r blaen. Mewn gwirionedd, mae gennych grant wedi'i neilltuo o fewn y grant cynnal refeniw fel y'i dosberthir. Yr ydym yn sôn am ei lyncu i'r grant, ond nid hynny sydd wedi digwydd. Yn bwysicach na hynny, un o'r rhesymau pam nad yw hynny wedi digwydd yw oherwydd bod y grant wedi'i greu er mwyn sicrhau canlyniad penodol, sef gwneud iawn i'r awdurdodau hynny lle y ceir lefelau uchel o amddifadedd am y ffaith nad oedd y fformiwla'n llwyr ystyried y problemau y maent yn eu hwynebu yn sgîl amddifadedd. Tra bo'r grant amddifadedd yn cael ei gadw o fewn y grant cynnal refeniw ar sail y fformiwla ddsbarthu bresennol, bydd hynny'n dal i ddigwydd. Rywbryd yn y dyfodol, a wnewch newid y ffordd y dosberthir y grant amddifadedd hwnnw? Os gwnewch hynny, sut y bydd hynny'n cynorthwyo'r awdurdodau lleol hynny lle y ceir lefelau uchel o amddifadedd ac y mae angen yr adnoddau ychwanegol hynny arnynt? Mae perygl difrifol, drwy ei gynnwys yn y grant cynnal refeniw, na fydd awdurdodau lleol yn y dyfodol yn elwa rhagor ar yr un sail ag y maent wedi elwa yn y gorffennol. Mae'n fater y mae'n rhaid ei ystyried.

Codais y mater hwn gyda Brian Gibbons gan mai ef oedd y Gweinidog perthnasol ar y pryd. Dywedais wrtho y gallai Gweinidog yn y dyfodol arddel safbwynt gwahanol. Mae gennym Weinidog gwahanol yn awr, ac efallai'n wir ymhen ychydig flynyddoedd y bydd gennym Weinidog gwahanol eto. Bydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn dioddef yn sgîl hynny. Hoffwn gael rhywfaint o sicrwydd gan y Gweinidog ynglŷn â sut y caiff y grant amddifadedd ei gyfrifo yn y dyfodol er mwyn sicrhau na fydd yr

result of it being put into the same block of money as the revenue support grant.

**Nick Ramsay:** I hope that Ann Jones was right when she spoke about the Minister bringing a little bit of a chuckle to the role of the Minister for Social Justice and Local Government. I congratulate you, Minister, on your real new role. You have clearly come into it at a difficult time, inheriting many problems, which are not of your own or the Assembly Government's making. We are well aware of the legacy that has been left to this country by the Labour Government in Westminster.

I put on record that I feel that this is a bad settlement for local government, and one which is incredibly difficult for the Government to justify publicly and privately. The figures that have been discussed will make it impossible, or very difficult at least, for councils to maintain front-line services without making vital cuts. In my own area, Monmouthshire authority is one of the lowest funded authorities in Wales, receiving a real terms settlement of 1.1 per cent. I listened to the comments regarding the WLGA, which knows that the situation is tight. It has to be responsible for the amount that it is expecting for local authorities, but if you look at the figures and apply the GDP deflator to the figures, there is, in real terms, a cut to local government across the board, which is not exposed by the figures with which we are presented. The GDP deflator increased from 1.5 per cent to 2.25 per cent in the pre-budget report.

The Minister mentioned the situation with regard to capital, and accepted that that is worrying. At a time of national economic woes, you would expect capital to take a hit. In our discussions in the Finance Committee, and in debates in this Chamber on the settlement for the Assembly as a whole—and I do not want to get into the discussion on the Barnett formula—we revealed how much of a hit capital stock is taking in Wales. Highways infrastructure, schools, and so on are areas

awdurdodau hynny sy'n elwa ohono ar eu colled wrth iddo gael ei gynnwys yn yr un bloc o arian â'r grant cynnal refeniw.

**Nick Ramsay:** Yr wyf yn gobeithio bod Ann Jones yn iawn pan soniodd am y Gweinidog yn dod ag ychydig o chwerthin i rôl y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Fe'ch llongyfarchaf, Weinidog, ar eich rôl newydd go iawn. Mae'n amlwg eich bod wedi ei hysgwyddo ar adeg anodd, gan etifeddu llawer o broblemau nad ydych chi na Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol am eu creu. Gwyddom yn iawn am y gwaddol sydd wedi'i adael i'r wlad hon gan y Llywodraeth Lafur yn San Steffan.

Dymunaf gofnodi fy mod yn teimlo mai setliad gwael i lywodraeth leol yw'r setliad hwn a'i fod yn un y mae'n anhygoel o anodd i'r Llywodraeth ei gyfiawnhau'n gyhoeddus ac yn breifat. Bydd y ffigurau sydd wedi'u trafod yn ei gwneud yn amhosibl, neu'n anodd iawn o leiaf, i gynghorau gynnal gwasanaethau'r rheng flaen heb dorri ar wasanaethau hollbwysig. Yn fy ardal fy hun, awdurdod sir Fynwy yw un o'r awdurdodau a gyllidir waethaf yng Nghymru. Cafodd setliad o 1.1 y cant mewn termau real. Gwrandewais ar y sylwadau ynglŷn â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sy'n gwybod bod y sefyllfa'n dynn. Rhaid iddi fod yn gyfrifol o ran y swm y mae'n ei ddisgwyl ar gyfer awdurdodau lleol, ond os edrychwch ar y ffigurau a rhoi'r dadchwyddwr cynnyrch mewnwladol crynswth ar waith gyda'r ffigurau hynny, mewn termau real, mae'r cyllid a gaiff llywodraeth leol yn cael ei dorri drwyddo draw, ac nid yw hynny'n amlwg yn y ffigurau a gyflwynir inni. Cynyddodd y dadchwyddwr cynnyrch mewnwladol crynswth o 1.5 y cant i 2.25 y cant yn yr adroddiad rhag-gyllidebol.

Crybwyllodd y Gweinidog y sefyllfa gyda golwg ar gyfalaf, gan dderbyn bod hynny'n ei boeni. Mewn cyfnod o wae economaidd cenedlaethol, byddech yn disgwyl i gyfalaf ddiodef. Yn ein trafodaethau yn y Pwyllgor Cyllid, ac wrth gynnal dadleuon ynglŷn â'r setliad i'r Cynulliad hwn drwyddo draw yn y Siambr hon—ac nid wyf am ddechrau trafod fformiwla Barnett—datgelasom i ba raddau y mae stoc cyfalaf yn diodef yng Nghymru. Mae seilwaith y priffyrdd, yr ysgolion, ac ati,

that rely very much on the revenue support grant and the variety of grants going to local authorities. They are all taking a hit, and we know full well that if you do not invest in capital you are not investing in the future. We listened earlier to the First Minister condemning previous governments for a lack of investment in capital infrastructure. I can take the First Minister and the Minister for Social Justice and Local Government to schools in my area that have taken a real hit because of the poor settlement for local government over the last couple of years. Schools are falling down now. We do not need to look at the past to see how badly they may or may not have been funded; I am interested in the situation now. Clearly, at the moment, things are very bad out there.

**Jeff Cuthbert:** It is interesting that you mentioned schools. I can remember the 1980s and 1990s, when you were in charge of the Government in Wales, when there was almost no investment in school buildings.

Apart from the issue of ending hypothecated funding, which does not mean that there is more money, as it is just in a different place, what are your proposals to inject more cash into local government? I have not heard anything to suggest that you have ideas for more cash.

**Nick Ramsay:** First and foremost, getting rid of the Labour Government would make the biggest difference. I do not want to talk about the past, Jeff. I appreciate your knowledge on this area and your history lesson, but this is about the settlement that faces local authorities today, and the fact, which I hope that the Minister for Social Justice and Local Government will mention in his round-up, that, over the last 10 years, only half as much of an increase has gone to local authorities in Wales as should have been the case, given the increase in the Welsh Assembly Government's budget. Where has that money gone?

**Alun Cairns:** We have just entered 2010, which is an extremely important year. You

yn feysydd sy'n dibynnu i raddau helaeth ar y grant cynnal refeniw a'r amrywiaeth o grantiau a gaiff awdurdodau lleol. Maent i gyd yn dioddef, a gwyddom yn dda, oni fuddsoddwch mewn cyfalaf, nad ydych yn buddsoddi yn y dyfodol. Gwrandawsom yn gynharach ar y Prif Weinidog yn condemnio llywodraethau blaenorol am ddiffyg buddsoddi mewn seilwaith cyfalaf. Gallaf fynd â'r Prif Weinidog a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i ysgolion yn fy ardal sydd yn dioddef o ddifrif yn sgîl y setliad gwael i lywodraeth leol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae ysgolion yn dymchwel yn awr. Nid oes angen inni edrych tua'r gorffennol i weld mor wael oedd yr arian ar eu cyfer neu beidio; y sefyllfa yn awr sydd o ddiddordeb i mi. Mae'n amlwg bod pethau'n wael iawn yn y byd go iawn ar hyn o bryd.

**Jeff Cuthbert:** Mae'n ddiddorol ichi sôn am ysgolion. Gallaf gofio'r 1980au a'r 1990au, pan oeddech yn gyfrifol am y Llywodraeth yng Nghymru, pan nad oedd fawr ddim buddsoddi mewn adeiladau ysgolion.

Ar wahân i ddod â chyllid wedi'i neilltuo i ben, ac nid yw hynny'n golygu bod mwy o arian ar gael, dim ond ei fod mewn lle gwahanol, beth yw eich cynigion i chwistrellu mwy o arian i lywodraeth leol? Nid wyf wedi clywed dim sy'n awgrymu bod gennych syniadau ynglŷn â rhagor o arian.

**Nick Ramsay:** Yn gyntaf ac yn flaenaf, cael gwared â'r Llywodraeth Lafur fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Nid wyf am sôn am y gorffennol, Jeff. Yr wyf yn gwerthfawrogi eich gwybodaeth am y maes hwn a'ch gwers hanes, ond mae a wnelo hyn â'r setliad sy'n wynebu awdurdodau lleol heddiw, a'r ffaith, ac yr wyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn crybwyll hyn wrth grynhoi, mai dim ond hanner y cynnydd a ddylasai fod sydd wedi mynd i awdurdodau lleol yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf, o gofio'r cynnydd yng nghyllideb Llywodraeth y Cynulliad. I ble y mae'r arian hwnnw wedi mynd?

**Alun Cairns:** Yr ydym newydd groesi'r trothwy i 2010, sy'n flwyddyn eithriadol o

said, Nick, that this is about now, and the condition of school buildings now. Jane Davidson made a promise that, by 2010—by now—all school buildings would be fit for purpose. What state are those school buildings in now? It is because of the underfunding over recent years that they are in that state now.

**Nick Ramsay:** The answer is that they are in a very poor state indeed.

I realise that time is short. My final point is on the issue of sparsity, which I would like to address to the new Minister, and which has been mentioned by other Assembly Members. We need to look again at the formula. The Minister has just started the job, and I would not expect him to know the intricacies of the formula. Many people have looked at it over many months and years, and its intricacies defy the normal mind. I hope that we can look at revising it over the months and years to come so that it will provide local authorities, which have to deliver services over a larger, rural area, with the amount of money that they need to do so. That is not currently happening, and the deprivation grant does not fully recognise rural deprivation.

I agree with my colleague, Darren Millar, and with a comment made by Peter Black earlier, on the need for far less bureaucracy in hypothecation. If you are going to have hypothecation—I do not necessarily think that you should—please, Minister, let us do something to address the £70 million or so that goes into bureaucracy.

**The Deputy Presiding Officer:** I call on the Minister to reply to the debate.

**Carl Sargeant:** I am grateful to Members for their contributions to the debate, and I will respond to the issues that they have raised.

In 2010-11, local authorities will receive over £4.05 billion through the local government settlement to fund key services. That

bwysig. Dywedasoeh, Nick, mai yn awr sy'n bwysig, a chyflwr adeiladau ysgolion yn awr. Addawodd Jane Davidson, y byddai pob adeilad ysgol yn addas i'w ddiben erbyn 2010—erbyn hyn. Ym mha gyflwr y mae adeiladau'r ysgolion hynny yn awr? Y tangyllido dros y blynyddoedd diwethaf sy'n gyfrifol am y cyflwr y maent ynddo yn awr.

**Nick Ramsay:** Yr ateb yw eu bod mewn cyflwr gwael iawn iawn.

Yr wyf yn sylweddoli bod amser yn brin. Mae a wnelo fy mhwynt olaf â theuneurwydd poblogaeth, a byddwn yn hoffi codi hyn gyda'r Gweinidog newydd. Mae'n bwynt y mae Aelodau eraill o'r Cynulliad wedi'i grybwyll. Mae angen inni ailedrych ar y fformiwla. Mae'r Gweinidog newydd ddechrau yn y swydd, ac ni fyddwn yn disgwyl iddo ddeall cymhlethdodau'r fformiwla. Mae llawer o bobl wedi edrych arni ers misoedd a blynyddoedd lawer, ac mae ei chymhlethdod yn drech na'r meddwl cyffredin. Yr wyf yn gobeithio y gallwn ystyried ei diwygio dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf er mwyn i awdurdodau lleol sy'n gorfod darparu gwasanaethau ar draws ardal wledig, ehangach gael yr arian y mae ei angen arnynt i wneud hynny. Nid yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd, ac nid yw'r grant amddifadedd yn llwyr gydnabod amddifadedd cefn gwlad.

Yr wyf yn cytuno â'm cyd-Aelod, Darren Millar, ac â sylw gan Peter Black yn gynharach, ynglŷn â bod angen llai o fiwrocratiaeth o lawer wrth neilltuo. Os ydych am neilltuo arian, nid wyf o anghenraid yn meddwl y dylech—da chi, Weinidog, gadewch inni wneud rhywbeth i fynd i'r afael â'r £70 miliwn neu ragor sy'n cael ei wario ar fiwrocratiaeth.

**Y Dirprwy Lywydd:** Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

**Carl Sargeant:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Aelodau am eu cyfraniadau i'r ddadl, ac ymatebaf i'r materion a godwyd ganddynt.

Yn 2010-11, caiff yr awdurdodau lleol dros £4.05 biliwn drwy'r setliad i lywodraeth leol i dalu am wasanaethau allweddol. Mae

represents an increase of 2.1 per cent, or £81 million, on what authorities received last year, taking into account the transfers. On some of the points that Nick raised about there not being an increase, our current measure is based on the consumer price index, which is currently at 1.8 per cent. That covers most of the goods and services that local government procures. Many of these service settlements are over and above that level.

5.30 p.m.

Some of the largest increases were in Wrexham and Newport, in north and south Wales. For example, Wrexham received 3.1 per cent, I think. Some of the smallest increases were in Anglesey and Powys, at one with the floor that the Welsh Local Government Association wanted us to include.

On Darren Millar's point, and I thank him for his congratulations, as I made clear in my opening speech to the debate, over £45 million-worth of specific grants will be incorporated into the revenue settlement grant for 2010-11. That is a positive step towards the rationalisation of hypothecation. As I explained, the development of outcome agreements will provide all local authorities in Wales with the potential to gain greater flexibility in the use of funding that it receives. So, I am keen for these outcome agreements to be negotiated with local authorities in the near future. I have already started to meet with some authorities and I have been clear about my message: I expect delivery in these services. That will be achieved through the outcome agreement.

I thank Darren for his contribution, although when the Conservatives mention budget plans and cash, I recall that, only this week, a £39 million hole in the Conservative budget was identified by our chancellor in London. I am not quite sure that all of your figures add up, Darren, so I am not sure about taking any lessons from you.

Peter and Darren raised hypothecation. Over

hynny'n gynnydd o 2.1 y cant, neu £81 miliwn, o'i gymharu â'r hyn a gafodd yr awdurdodau y llynedd, gan gynnwys y trosglwyddiadau. Ynglŷn â rhai o'r pwyntiau a gododd Nick am y diffyg cynnydd, seilir ein dull presennol o fesur ar y mynegai prisiau defnyddwyr, sydd ar hyn o bryd yn 1.8 y cant. Mae hynny'n cynnwys y rhan fwyaf o'r nwyddau a'r gwasanaethau y bydd llywodraeth leol yn eu prynu. Mae llawer o'r setliadau hyn ar gyfer gwasanaethau yn uwch na'r lefel honno.

Gwelwyd rhai o'r codiadau mwyaf yn Wrecsam ac yng Nghasnewydd, yn y gogledd ac yn y de. Er enghraifft, cafodd Wrecsam 3.1 y cant, yr wyf yn meddwl. Gwelwyd rhai o'r codiadau lleiaf ar Ynys Môn ac ym Mhowys, a hynny'n unol â'r arian gwaelodol yr oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am inni ei gynnwys.

O ran pwynt Darren Millar, a diolch iddo am ei longyfarchiadau, fel y'i gwneuthum yn glir yn fy araith agoriadol i'r ddadl, bydd gwerth dros £45 miliwn o grantiau penodol yn cael eu cynnwys yng ngrant y setliad refeniw ar gyfer 2010-11. Mae hwnnw'n gam cadarnhaol tuag at symleiddio'r drefn neilltuo. Fel yr esboniais, drwy ddatblygu cytundebau canlyniadau, bydd pob awdurdod lleol yng Nghymru'n gallu manteisio ar fwy o hyblygrwydd o ran defnyddio'r arian a gaiff. Felly, yr wyf yn awyddus i negodi'r cytundebau canlyniadau hynny gydag awdurdodau lleol yn y dyfodol agos. Yr wyf eisoes wedi dechrau cyfarfod â rhai awdurdodau ac yr wyf wedi cyfleu neges glir: yr wyf yn disgwyl iddynt ddarparu'r gwasanaethau hyn. Sicrheir hynny drwy'r cytundeb canlyniadau.

Diolch i Darren am ei gyfraniad, er fy mod yn cofio—wrth i'r Ceidwadwyr sôn am gynlluniau cyllidebu ac arian parod—i'n canghellor yn Llundain, yr wythnos hon, ganfod twll gwerth £39 miliwn yng nghyllideb y Ceidwadwyr. Nid wyf yn gwbl sicr bod eich ffigurau chi i gyd yn iawn, Darren, felly, nid wyf yn siŵr a wyf am ddysgu unrhyw wersi gennyh.

Soniodd Peter a Darren am neilltuo. Yn ystod

the last five years, over £185 million-worth of specific grants have been transferred into the RSG. On Dai's point on the funding formula, I know that he is keen to pursue the line that the Barnett formula leads to Wales receiving unacceptable levels of funding. That was identified by Holtham and his first report concluded that Wales is probably underfunded by 2 per cent or around £300 million. In the long term, the Welsh Assembly Government will seek to forward the key recommendations on that relating to funding based on relative need. Therefore, I concur with some of your concerns, but not all of them.

I thank Nick Ramsay for his contribution. He mentioned the bad settlement and that it is only the WLGA looking after its position. I wish to refer you to some statements made by others, not directly by the WLGA. For example, the corporate finance director of Bridgend County Borough Council said that the net cash increase of 2.1 per cent for local government was welcome. Flintshire County Council, which is not Labour-controlled, welcomed its 1.9 per cent. Its chief executive and leader stated that, given the constraints of severe pressures on public finances, the Welsh Assembly Government had recognised the pressure on local government. Rhondda Cynon Taf County Borough Council, which received 2.5 per cent, stated that it had received a fair settlement compared with other service areas of the public sector in Wales. I could go on, but I am sure that you would not want to hear the statements of all 22 local authorities.

On Members' representations on rural areas, you will know that we have a joint ownership of the RSG distribution formula with the WLGA and recommendations on the formula revision are made by the distribution subgroup and are ratified by the consultative forum on finance. There is rural representation on the DSG and the settlement formula includes indicators that reflect the additional cost of providing services in more sparsely populated areas.

y pum mlynedd diwethaf, trosglwyddwyd gwerth dros £185 miliwn o grantiau penodol i'r grant cynnal refeniw. O ran pwynt Dai ynglŷn â'r fformiwla ariannu, gwn ei fod yn awyddus i fynd ar drywydd y ddadl bod fformiwla Barnett yn golygu bod lefel ariannu Cymru'n annerbyniol. Dywedodd Holtham hynny a chasgliad ei adroddiad cyntaf oedd bod Cymru, mae'n debyg, yn cael ei thangyllido 2 y cant neu tua £300 miliwn. Yn y tymor hir, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio bwrw ymlaen â'r argymhellion allweddol ynglŷn â hynny o ran seilio'r ariannu ar angen cymharol. Felly, cytunaf â rhai o'ch pryderon, ond nid â'r cyfan.

Diolch i Nick Ramsay am ei gyfraniad. Soniodd am y setliad gwael ac mai'r cyfan y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei wneud yw ei gwarchod ei hun. Dymunaf eich cyfeirio at ambell ddatganiad gan eraill, nid yn uniongyrchol gan CLILC. Er enghraifft, dywedodd cyfarwyddwr cyllid corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fod y cynnydd net o 2.1 y cant yn yr arian i lywodraeth leol i'w groesawu. Croesawodd Cyngor Sir y Fflint, nad yw'n cael ei reoli gan y blaid Lafur, yr 1.9 a gafodd yntau. Dywedodd ei brif weithredwr a'i arweinydd, o gofio cyfyngiadau'r pwysau difrifol ar gyllid cyhoeddus, fod Llywodraeth y Cynulliad wedi cydnabod y pwysau sydd ar lywodraeth leol. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a gafodd 2.5 y cant, ei fod wedi cael setliad teg o'i gymharu â meysydd gwasanaeth eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Gallwn fynd yn fymlaen, ond yr wyf yn siŵr na fydddech am glywed datganiadau pob un o'r 22 awdurdod lleol.

O ran sylwadau'r Aelodau ynglŷn ag ardaloedd gwledig, gwyddoch ein bod yn berchen ar fformiwla ddosbarthu'r grant cynnal refeniw ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a bod argymhellion ynglŷn â diwygio'r fformiwla'n cael eu gwneud gan yr is-grŵp dosbarthu a'r rheini'n cael eu cadarnhau gan y fforwm ymgynghorol ar gyllid. Mae cynrychiolwyr gwledig ar yr is-grŵp dosbarthu ac mae fformiwla'r setliad yn cynnwys dangosyddion sy'n adlewyrchu cost



ychwanegol darparu gwasanaethau mewn ardaloedd teneuach eu poblogaeth.

**Darren Millar:** Do you accept that the one problem with having a group that looks at the funding formula that is the responsibility of the WLGA is that a sensible policy, under which most local authorities would lose out, will never be implemented? The only way in which you can deal with the funding formula to ensure fairness for sparsely populated rural counties is by taking the lead, as Minister, and ensuring that the formula is fair to local authorities that deliver services in rural areas.

**Darren Millar:** A ydych yn derbyn mai un broblem sydd ynghlwm wrth gael grŵp y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n gyfrifol amdano i ystyried y fformiwla ariannu yw na fyddai polisi synhwyrol, lle y byddai'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol ar eu colled, byth yn cael ei roi ar waith? Yr unig ffordd o ddelio â'r fformiwla ariannu er mwyn sicrhau tegwch i siroedd gwledig tenau eu poblogaeth yw drwy gymryd yr awenau, fel Gweinidog, a sicrhau bod y fformiwla'n deg i awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig.

**Carl Sargeant:** The WLGA has a role in this in that it looks at the distribution formula across the board. A current strand of the distribution sub-group work on this is the analysis of the additional costs of providing social services in rural areas. I will give consideration to the conclusions reached in this work as part of the 2010 DSG round.

**Carl Sargeant:** Mae gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru rôl yn hyn o ran ei bod yn edrych ar y fformiwla ddsbarthu drwyddi draw. Un elfen o waith yr is-grŵp dosbarthu ar hyn o bryd yn y cyswllt hwn yw dadansoddi costau ychwanegol darparu gwasanaethau cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig. Ystyriaf y casgliadau a lunnir yn y gwaith hwn fel rhan o rownd yr is-grŵp dosbarthu yn 2010.

Some local authorities in areas that are essentially rural, such as Ceredigion and Denbighshire, have settled uplifts for 2010-11 of above the average of 2.1 per cent. The current formula distributes 6 per cent of the revenue support grant on sparsity indicators. That is a greater proportion than the English equivalent. However, I accept that there are issues and I have asked the DSG to look into this in particular.

Mae rhai awdurdodau lleol mewn ardaloedd sydd yn eu hanfod yn ardaloedd gwledig, megis Ceredigion a sir Ddinbych, wedi cael cynnydd yn y setliad ar gyfer 2010-11 sy'n uwch na'r cyfartaledd, sef 2.1 y cant. Mae'r fformiwla bresennol yn dosbarthu 6 y cant o'r grant cynnal refeniw ar sail dangosyddion teneurwydd poblogaeth. Mae hynny'n gyfran fwy na'r gyfran gyfatebol yn Lloegr. Serch hynny, yr wyf yn derbyn bod anawsterau ac yr wyf wedi gofyn i'r is-grŵp dosbarthu ystyried hyn yn benodol.

Ann Jones has championed the deprivation grant, and I thank her for raising her point. I have already had a brief discussion with Ann regarding whether or not we agree. Unfortunately, some of what Ann is requesting may take a little longer to agree. The deprivation grant has been in place since 2003-04 and, as I mentioned in my opening speech, has always been unhypothecated for use by recipient authorities, as Peter alluded to. The distribution formula already distributes 27 per cent of the RSG according to deprivation indicators. I believe that it makes sense to reduce unnecessary

Mae Ann Jones wedi bod yn lladmerydd o blaid y grant amddifadedd, a diolch iddi am godi ei phwynt. Yr wyf eisoes wedi cael trafodaeth fer gydag Ann ynghylch a ydym yn cytuno neu beidio. Yn anffodus, efallai y bydd angen ychydig mwy o amser i gytuno ar rywfaint o'r hyn y mae Ann yn gofyn amdano. Mae'r grant amddifadedd wedi bod ar waith ers 2003-04 ac, fel y crybwyllais yn fy araith agoriadol, drwy gydol yr amser, mae wedi bod yn grant sydd heb ei neilltuo o ran y ffordd y caiff ei ddefnyddio gan yr awdurdodau sy'n ei gael, fel y dywedodd Peter. Mae'r fformiwla ddsbarthu eisoes yn

bureaucracy and administration and to absorb that into the RSG. The existing allocations will be ring-fenced within the RSG, Ann, to ensure funding stability. The task ahead is to work with local government to consider consistent and robust distribution options for the future.

I recognise your concerns. If it is the figures that you are concerned about in relation to the allocation that is made to local authorities, then I will help you with that by releasing information regarding the deprivation allocation that local authorities receive. It is not an issue just for your local authority, Ann, but for all local authorities.

**The Deputy Presiding Officer:** Will you wind up, please, Minister?

**Carl Sargeant:** To conclude, this is a good settlement achieved in difficult circumstances. I acknowledge that it brings with it difficult decisions, but, with a flexible and innovative approach to public services, it will enable local authorities to provide high-quality key services to the people, who deserve them.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is objection. Therefore, I will defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.  
Vote deferred until voting time.*

### **Egwyddorion Cyffredinol y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch The General Principles of the Proposed Red Meat Industry Measure**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Alun Cairns.

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Cynigaf fod

dosbarthu 27 y cant o'r grant cynnal refeniw yn unol â dangosyddion amddifadedd. Credaf fod lleihau biwrocratiaeth a gweinyddiaeth ddiangen a chynnwys hynny yn y grant cynnal refeniw yn beth call. Bydd y dyraniadau presennol yn cael eu neilltuo o fewn y grant cynnal refeniw, Ann, er mwyn sicrhau bod yr ariannu'n sefydlog. Y dasg o'n blaenau yw gweithio gyda llywodraeth leol i ystyried dewisiadau dosbarthu cyson a chadarn ar gyfer y dyfodol.

Yr wyf yn deall eich pryderon. Os y ffigurau sy'n eich poeni yng nghyswllt y dyraniad a wneir i awdurdodau lleol, yna, fe'ch cynorthwyaf gyda hynny drwy ryddhau gwybodaeth am y dyraniad a gaiff awdurdodau lleol ar gyfer amddifadedd. Nid problem i'ch awdurdod lleol chi'n unig yw hyn, Ann, ond i bob awdurdod lleol.

**Y Dirprwy Lywydd:** A wnewch ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda, Weinidog?

**Carl Sargeant:** I gloi, mae hwn yn setliad da sydd wedi'i sicrhau o dan amgylchiadau anodd. Yr wyf yn cydnabod ei fod yn dwyn penderfyniadau anodd yn ei sgîl, ond, drwy arddel ymagwedd hyblyg ac arloesol at wasanaethau cyhoeddus, bydd yn galluogi awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau allweddol o safon uchel ar gyfer y bobl, sy'n eu haeddu.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Alun Cairns.

**The Minister for Rural Affairs (Elin Jones):** I move that

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 23.24:*

*yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru). (NDM4355)*

Yr wyf yn siŵr bod pob un o'r Aelodau yn y Siambr yn ymwybodol o bwysigrwydd y diwydiant cig coch yng Nghymru. Mae rhyw 39 y cant o gynnyrch amaethyddol Cymru yn gig coch, a Chymru sy'n gyfrifol am fwy na 25 y cant o'r holl ardoll defaid sy'n cael ei gasglu yng ngwledydd Prydain. Byddai'r Mesur arfaethedig hwn yn ei gwneud yn bosibl creu deddfwriaeth i hyrwyddo a datblygu'r diwydiant cig coch ymhellach yng Nghymru ac yn gwireddu polisi Llywodraeth y Cynulliad drwy roi i Weinidogion Cymru y swyddogaethau y mae Bwrdd Ardollau Cymru ar hyn o bryd yn gyfrifol amdanynt, gan gynnwys codi ardoll ar y sector cig coch. Nid yw hynny'n bosibl o dan y trefniadau presennol.

Rhof ychydig o'r cefndir. Yn 2005, edrychodd adolygiad Radcliffe ar y pum corff ardollau amaethyddol oedd yn bod bryd hynny ar lefel Prydain a'r Deyrnas Gyfunol—yn gyfrifol am datws, ydau, garddwriaeth, cig a da byw a llaeth. Cafodd y byrddau hyn eu diddymu gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ac, yn eu lle, crëwyd y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth. Hefyd, rhoddodd Deddf 2006 yr hawl i Weinidogion Cymru greu cyrff Cymreig ar wahân i ddatblygu, hyrwyddo a diogelu cynladwyedd y diwydiannau yng Nghymru.

Polisi cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad yw mai'r Llywodraeth yn hytrach na chyrrff hyd braich ddylai gael ysgwyddo swyddogaethau'r Llywodraeth. Er bod Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn rhoi'r grym i Weinidogion Cymru greu cyrff penodol Cymreig i ddatblygu, hyrwyddo a diogelu cynladwyedd y sectorau amaeth gwahanol, nid yw'n rhoi'r hawl i'r Cynulliad Cenedlaethol drosglwyddo'r swyddogaethau hyn i Weinidogion Cymru. Dyma'r rheswm dros sicrhau y Gorchymyn cymhwysedd

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 23.24:*

*agrees to the general principles of the Proposed Red Meat Industry (Wales) Measure. (NDM4355)*

Members will know how important this industry is to Wales. Red meat contributes some 39 per cent of Wales's agricultural output, and Wales accounts for over 25 per cent of the total levy on sheep collected in Great Britain. This proposed Measure would enable the National Assembly to legislate in relation to the promotion and development of the red meat industry in Wales. Specifically, this Measure would enable the Welsh Assembly Government to fulfil its policy aim of conferring on Welsh Ministers the functions currently carried out by the Welsh Levy Board, including raising a levy on the Welsh red meat sector. This is not possible under existing arrangements.

I will give some of the background. In 2005, the Radcliffe review looked at the then five GB and UK statutory agricultural and horticultural levy bodies—covering potatoes, horticulture, cereals, meat and livestock and milk. The Natural Environment and Rural Communities Act 2006 abolished these boards and created a new Agriculture and Horticulture Development Board in their place. The 2006 Act also allowed the Welsh Ministers to create separate Wales-only bodies for the development, promotion and sustainability of the industries in Wales.

It is the general policy of the Welsh Assembly Government to ensure that its functions are exercised in-house wherever possible, rather than by arms'-length bodies. While the Natural Environment and Rural Communities Act 2006 allows Welsh Ministers to create separate Wales-only bodies for the development, promotion and sustainability of the respective agricultural industries, it crucially does not allow the National Assembly to confer those functions directly on Welsh Ministers. That was the reason for ensuring the legislative

deddfwriaethol ar gig coch.

competence Order on red meat.

5.40 p.m.

Bwrdd Ardollau Cymru ar hyn o bryd sy'n gyfrifol am bennu a chodi'r ardoll ar ddiwydiant cig coch Cymru i dalu am hyrwyddo a marchnata'r diwydiant.

The Welsh Levy Board currently sets and raises a levy for the Welsh red meat industry to fund the promotion and marketing of the industry.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. We missed quite a lot of the translation there, Minister. Could you go back a few paragraphs?

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Collwyd cryn dipyn o'r cyfieithiad yn y fan honno, Weinidog. A allech fynd yn ôl ychydig o baragraffau?

**Elin Jones:** May I suggest that what I was saying was not all that important? [*Laughter.*]

**Elin Jones:** A gaf awgrymu nad oedd yr hyn yr oeddwn yn ei ddweud mor bwysig â hynny? [*Chwerthin.*]

**The Deputy Presiding Officer:** In that case, Members can read it in the Record tomorrow.

**Y Dirprwy Lywydd:** Os felly, gall yr Aelodau ei ddarllen yn y Cofnod yfory.

**Elin Jones:** I am sure that there is an audio and visual record of what I have just said—and it is important, of course.

**Elin Jones:** Yr wyf yn siŵr bod cofnod sain a llun o'r hyn yr wyf newydd ei ddweud—ac mae'n bwysig, wrth gwrs.

Pwrpas y Mesur arfaethedig hwn yn benodol yw rhoi cyfrifoldebau am ddatblygu a hyrwyddo'r diwydiant cig coch yng Nghymru i Weinidogion Cymru, gan gynnwys codi ardoll ar sector cig coch Cymru. Bydd y trefniadau presennol yn dod i ben a chaiff Bwrdd Ardollau Cymru ei ddiddymu.

The purpose of this proposed Measure is to give responsibility to Welsh Ministers for the development, promotion and marketing of the red meat industry in Wales, and that would include raising a levy on the Welsh red meat sector. The current arrangements will come to an end and the Welsh Levy Board will be abolished.

Cafodd y cynnig am y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch y diwydiant cig coch ei gymeradwyo yn y Cyfarfod Llawn ym mis Hydref 2009. Yn y drafodaeth honno, dywedais yn eithaf clir fod Hybu Cig Cymru i barhau i hyrwyddo a datblygu'r diwydiant cig coch yng Nghymru yn y dyfodol ac nad oes bwriad gwneud Hybu Cig Cymru yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad. Mae Hybu Cig Cymru wedi ennill parch a chefnogaeth y diwydiant am ei waith ac mae bwrdd Hybu Cig Cymru'n adlewyrchiad o'r diwydiant ac o'r rhai sy'n talu'r ardoll.

The proposal for the legislative competence Order for the red meat industry was approved in Plenary on 20 October 2009. In that debate I made it quite clear that Hybu Cig Cymru will continue to promote and develop the red meat industry in Wales in the future and that there are no intentions to absorb HCC into the Welsh Assembly Government. Hybu Cig Cymru has the respect and backing of industry stakeholders for its work and its board reflects the industry and those that pay the levy.

Er hynny, wrth edrych tua'r dyfodol, yr ydym i gyd yn sylweddoli bod amgylchiadau pob diwydiant yn gallu newid, weithiau heb fawr o rybudd, gan gael effaith tymor hir. Mae'r fformiwla bresennol ar gyfer rhannu'r ardoll

However, looking to the future, we are all aware that situations in all industries can change, sometimes with little warning, with long-term implications. The current formula for the distribution of the levy is based

yn dibynnu'n llwyr ar leoliad y lladd-dy ac nid ar o ble mae'r anifeiliaid yn dod. Gallai unrhyw newidiadau neu ad-drefnu o fewn sector lladd-dai Cymru gael effaith sylweddol ar Gymru gan fod lleoliad lladd-dai allan o reolaeth Gweinidogion Cymru a Hybu Cig Cymru. Pe bai lladd-dy yng Nghymru'n cau, byddai hynny'n golygu llai o arian lefi i Gymru gan amharu ar waith Hybu Cig Cymru.

Yr wyf yn sôn am hyn heddiw o fewn cyddestun y newyddion siomedig am y lladd-dy yn y Gaerwen, Ynys Môn. Mae perchnogion y cwmni wedi cyhoeddi'r posibilrwydd o golli dros 200 o swyddi yn y lladd-dy. Mae'r swyddi'n ymwneud â dyletswyddau pacio yn y cwmni ac nid â'r dyletswyddau lladd-dy'n uniongyrchol, ond yr wyf yn sicr ein bod i gyd yn gweld hon fel ergyd a siom arall i'r economi fregus leol. Mae Ynys Môn wedi gweld nifer o swyddi'n cael eu colli dros y misoedd diwethaf.

Felly, bydd y Llywodraeth yn edrych ar ddulliau tecach o ddsbarthu a dosrannu'r ardoll ac ar yr anfantais i Gymru—ac i'r Alban, o ran hynny—o dan y system bresennol. Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn rhoi hyblygrwydd a fydd yn ei gwneud yn bosibl ystyried ffyrdd newydd a gwahanol o benderfynu ar bwy sy'n talu'r ardoll a phryd a ble y dylai'r ardoll gael ei chasglu. O dan y Mesur arfaethedig, gellid edrych ar gasglu'r ardoll oddi wrth y cynhyrchwyr cynradd, sef y ffermwyr. Gellid hefyd edrych ar gyflwyno system fwy cymhleth, ond un sy'n bodoli mewn mannau yng Ngogledd America ar hyn o bryd, lle mae'r ardoll yn cael ei chasglu wrth i'r cynnyrch cig newid dwylo yn y gadwyn gyflenwi. Trafodaethau cychwynnol yn unig sydd wedi eu cynnal hyd yn hyn ac nid oes unrhyw gasgliadau wedi deillio o'r trafodaethau. Heb yr hyblygrwydd hwnnw yn y Mesur arfaethedig hwn, byddem yn colli'r cyfle yn y dyfodol i ddiogelu buddiannau'r diwydiant pwysig hwn.

Yn ystod y broses graffu o dan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 a'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, cefais fy herio ynghylch y defnydd o'r weithdrefn negyddol i gyflwyno ardoll o dan adran 4(4) ar gynhyrchwyr cig coch, sef y ffermwyr, wrth gwrs. Derbynias sylw'r ddau bwyllgor fod anghysondeb yn y

entirely on the geographic location of the abattoir and not on where the animals may have originated. This makes Wales vulnerable to any changes or restructuring within the Welsh abattoir sector, as the location of abattoirs is outwith the control of Welsh Ministers and HCC. If an abattoir were to close in Wales it would result in a reduced levy income in Wales thereby affecting the effectiveness of HCC.

I mention this today in the context of the disappointing news about the abattoir in Gaerwen, Anglesey. The owners of the company have announced the potential loss of 200 jobs at that abattoir. The jobs are related to the company's packaging work rather than work in the abattoir directly, but I am sure that we all see this as another blow to and disappointment for the fragile local economy. Anglesey has seen a number of job losses over past months.

Therefore, the Government will look at fairer methods of distributing and sharing the levy and at the disadvantage to Wales—and to Scotland, for that matter—under the current system. The proposed Measure also provides flexibility which will make it possible to consider new and different ways of deciding on who should pay the levy and when and where the levy should be collected. Under the proposed Measure, we could look to collect the levy from the primary producers, that is, the farmers. We could also look at introducing a system that would be more complex, but which exists in parts of North America, where the levy is collected as the meat produce changes hands in the supply chain. At present, discussions are at the initial stages and no conclusions have been drawn from them. Without that flexibility in this proposed Measure, we would lose the opportunity in the future to safeguard the interests of this important industry.

During the scrutiny process under Legislation Committee No. 3 and the Subordinate Legislation Committee, I was challenged over the use of the negative procedure to introduce a levy under section 4(4) on red meat producers, namely farmers, of course. I accept the comments of both committees that

Mesur arfaethedig yn hynny o beth, ac felly yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion gyflwyno gwelliant i'r Mesur arfaethedig pan ddaw ger ein bron nesaf.

Yn olaf, trof at welliant y Torïaid. Cyflwynaf heddiw y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru) yn ei gyfanrwydd. Gallwch felly gymryd yn ganiataol fy mod yn croesawu pob egwyddor yn y Mesur arfaethedig, gan gynnwys y gallu i gyflawni'r hyn a nodir yng ngwelliant y Torïaid. Nid oes fawr o bwrpas i'r Llywodraeth gefnogi gwelliant sy'n croesawu un agwedd yn unig, a ninnau'n cyflwyno gwelliant am yr holl egwyddorion.

**David Lloyd:** A minnau'n Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3, mae'n bleser gennyf gyfrannu at ddadl Cyfnod 1 heddiw am y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru). Cyn imi fynd ati i amlinellu'r gwaith a wnaed gan ein pwyllgor a chrynhoi rhai o'n casgliadau a'n hargymhellion, hoffwn ddiolch i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith caled a'u dull gweithredu cytûn. Hoffwn fynegi diolch y pwyllgor i bawb sydd wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar iddo. Mae eu cyfraniadau wedi bod o gymorth i lywio casgliadau ac argymhellion ein hadroddiad. Diolchaf hefyd i'r Gweinidog a'i swyddogion am roi tystiolaeth ac am ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol i ni.

O ran yr egwyddorion cyffredinol, cytunwn â barn y Gweinidog a mwyafrif y tystion sydd o blaid yr egwyddor a'r angen am y Mesur arfaethedig. Dangoswyd y gefnogaeth i'r egwyddor a'r angen am y Mesur arfaethedig yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor. Yn benodol, nodwyd gennym gefnogaeth y tystion i hyblygrwydd y Mesur arfaethedig o ran galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i anghenion y sector cig coch ac i reoli'r system casglu ardollau.

Wrth ymdrin ag adrannau 2 a 3 y Mesur arfaethedig, cafodd y pwyllgor dystiolaeth oddi wrth nifer o dystion a oedd o blaid ehangder a hyblygrwydd adrannau 2, 3 a 4. Yr ydym ninnau hefyd yn cefnogi'r ehangder

there is inconsistency in the proposed Measure in that regard, and I have asked my officials to table an amendment to the proposed Measure the next time it comes before us.

Finally, I turn to the Tories' amendment. Today, I present the Proposed Red Meat Industry (Wales) Measure in its entirety. You can therefore take it as given that I welcome every principle contained in the proposed Measure, including the ability to achieve what is noted in the Tories' amendment. There is not much point in the Government supporting an amendment that welcomes one aspect only, given that we have tabled an amendment about all the principles.

**David Lloyd:** As Chair of Legislation Committee No. 3, it is a pleasure for me to contribute to this Stage 1 debate today on the Proposed Red Meat Industry (Wales) Measure. Before I start outlining the work carried out by our committee and summarising some of our conclusions and recommendations, I wish to thank committee members for their hard work and their consensual approach. I also express the thanks of the committee to all those who submitted written and oral evidence. Their contributions have been of great assistance in informing our report's conclusions and recommendations. I also thank the Minister and her officials for giving evidence and for providing additional information to us in writing.

On the general principles, we agree with the views of the Minister and the majority of witnesses who were in favour of the principle and of the need for the proposed Measure. The evidence submitted to the committee showed support for the principle and the need for the proposed Measure. Specifically, we noted the support of the witnesses for the flexibility of the proposed Measure in enabling the Welsh Ministers to respond to the needs of the red meat sector and to manage the levy collection mechanism.

In dealing with sections 2 and 3 of the proposed Measure, the committee received evidence from several witnesses who were in favour of the breadth and flexibility of sections 2, 3 and 4. We also support that

a'r hyblygrwydd hwn, a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i'r problemau sy'n wynebu'r diwydiant cig coch yng Nghymru wrth iddynt godi ac i wneud hynny mewn modd priodol ac amserol.

Yr ydym hefyd yn cefnogi ehangder a hyblygrwydd y darpariaethau a gynhwysir yn adran 4 y Mesur arfaethedig mewn perthynas â gosod ardollau a dynodi personau sy'n atebol. Wedi ystyried safbwyntiau'r tystion, fodd bynnag, sylweddolwn bwysigrwydd ymgynghori â'r diwydiant os gwneir unrhyw newidiadau yn y system ardollau. Yr ydym yn argymhell felly y dylai'r Mesur arfaethedig gynnwys gofyniad ynghylch ymgynghori â'r diwydiant os gwneir unrhyw newidiadau yn y system ardollau. Yr ydym hefyd wedi ystyried adran 4(4) y Mesur arfaethedig a'r weithdrefn a fyddai'n gymwys pe bai ffermwyr yn cael eu dynodi yn bersonau sy'n atebol am dalu ardoll. Deallwn mai ar ffurf Gorchymyn gweithdrefn negyddol ar hyn o bryd y byddai dynodiad o'r fath yn cael ei wneud, fel y clywsom eisoes gan y Gweinidog. Fodd bynnag, fel yr ydych hefyd wedi clywed, rhoddodd y Gweinidog wybod inni fod y Llywodraeth yn ystyried mai'r weithdrefn gadarnhaol a ddylai fod yn gymwys. Yn hynny o beth, argymhellwn fod y Gweinidog yn ystyried cyflwyno gwelliant er mwyn sicrhau mai'r weithdrefn gadarnhaol fyddai'n gymwys—ac ymddengys mai dyna fydd yn digwydd, ac yr ydym ni fel pwyllgor yn ei groesawu.

Yr oedd mwyafrif y tystion yn cefnogi'r fframwaith a nodir yn adran 7 y Mesur arfaethedig. Yr ydym yn fodlon â'r darpariaethau a nodir yn yr adran honno. Yr ydym hefyd yn fodlon yn gyffredinol ag adrannau 8 a 9, er ein bod yn nodi anghysondeb rhwng y drafftio yn adran 11(12) ac adran 8(8). Dyma greu trosedd ddiamod yn y naill achos ond nid yn y llall. Yr ydym yn argymhell bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant i gywiro'r anghysondeb hwn yn y cyfnod nesaf.

Nodwn fod y tystion yn fodlon ag adrannau 10 ac 11 y Mesur arfaethedig a'u bod wedi mynegi safbwyntiau nad yw'r darpariaethau yn yr adrannau hyn yn wahanol iawn i'r trefniadau cyfredol. Yr ydym hefyd yn fodlon â'r adrannau hyn yn amodol ar ein

breadth and flexibility, which will enable the Welsh Ministers to respond to the issues facing the red meat industry in Wales as they arise and to do so in an appropriate and timely manner.

We also support the breadth and flexibility of the provisions contained in section 4 of the proposed Measure in relation to imposing a levy and designating the persons liable. In considering the witnesses' views, however, we recognise the importance of consulting with the industry should any changes be made to the levy mechanism. We therefore recommend that the proposed Measure should contain a requirement to consult with the industry should any changes be made to the levy mechanism. We have also considered section 4(4) of the proposed Measure and the procedure that would apply if farmers were to be designated persons liable for the payment of a levy. We understand that, currently, such a designation would take the form of a negative procedure Order, as we heard from the Minister. However, as you have also heard, the Minister has informed us that the Government considers that it is the affirmative procedure that should apply. In light of that, we recommend that the Minister considers tabling an amendment to ensure that it is the affirmative procedure that would apply—and it appears as though that will happen, which we as a committee welcome.

The majority of witnesses supported the framework set out in section 7 of the proposed Measure. We are content with the provisions noted in that section. We are also generally content with sections 8 and 9, although we noted an inconsistency in the drafting of section 11(12) and section 8(8). One of them creates an absolute offence but the other does not. We recommend that the Minister tables an amendment to address that inconsistency at the next stage.

We note that the witnesses were content with sections 10 and 11 of the proposed Measure and they expressed their views that the provisions in those sections do not differ largely from the current arrangements. We are also content with those sections, subject

hargymhelliad blaenorol am yr angen i sicrhau cysondeb rhwng adran 11(12) ac adran 8(8).

5.50 p.m.

Yr ydym wedi ystyried adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, ac wedi ei nodi wrth wneud ein hargymhellion. Nodwyd hefyd yr ohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid, ac ystyriwyd yr ohebiaeth honno hefyd wrth wneud ein hargymhellion.

Felly, i gloi, os bydd y Cynulliad yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn derbyn casgliadau ac argymhellion ein hadroddiad ac yn ystyried cyflwyno gwelliannau priodol yn ystod Cyfnod 2.

**Janet Ryder:** Under Standing Order No. 15.6, the Subordinate Legislation Committee can consider and report on the appropriateness of provisions in proposed Assembly Measures that grant powers to make subordinate legislation to the Welsh Ministers. As a result, the Subordinate Legislation Committee considered the proposed Measure on 11 November 2009, when we took oral evidence from the Minister for Rural Affairs and her officials. We laid our report on 1 December, and it was taken into account by Legislation Committee No. 3 in drawing up its report.

The proposed Measure contains significant powers for subordinate legislation to be made by the Welsh Ministers. Unlike previous Measures considered by the Assembly, it does not amend existing Acts of Parliament; instead, it contains a self-contained framework for the imposition of a levy in relation to the red meat industry. The committee appreciates the need for the proposed Measure and is aware that it has been broadly welcomed by the industry.

However, we were concerned about the balance between the use of the negative and affirmative procedures, and we were not convinced that a persuasive case had been

to our previous recommendation on the need for consistency between sections 11(12) and 8(8).

We have considered the report of the Subordinate Legislation Committee, and we have taken note of it in drafting our recommendations. We also noted the correspondence received from the Finance Committee, and that was also considered in drafting our recommendations.

Therefore, to conclude, if the Assembly agrees with the general principles of the proposed Measure, I hope that the Minister will accept the conclusions and recommendations of our report and will consider tabling an appropriate amendment during Stage 2.

**Janet Ryder:** O dan Reol Sefydlog Rhif 15.6, gall y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ystyried priodolrwydd a pharatoi adroddiadau ynglŷn â phriodolrwydd darpariaethau Mesurau arfaethedig y Cynulliad sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Yn sgîl hynny, bu'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn ystyried y Mesur arfaethedig ar 11 Tachwedd 2009, pan dderbyniwyd tystiolaeth lafar gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig a'i swyddogion. Gosodwyd ein hadroddiad ar 1 Rhagfyr ac fe'i hystyriwyd gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 wrth iddo lunio'i adroddiad.

Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys pwerau sylweddol i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Yn wahanol i Fesurau blaenorol a ystyriwyd gan y Cynulliad, nid yw'n diwygio Deddfau Seneddol sy'n bodoli eisoes; yn hytrach, mae'n cynnwys fframwaith hunangynhwysol ar gyfer codi ardoll yng nghyswllt y diwydiant cig coch. Mae'r pwyllgor yn sylweddoli bod angen y Mesur arfaethedig ac mae'n ymwybodol bod y diwydiant wedi rhoi croeso cyffredinol i hynny.

Serch hynny, yr oeddem yn poeni ynglŷn â'r cydbwysedd rhwng defnyddio'r weithdrefn negyddol a'r weithdrefn gadarnhaol, ac ni chawsom ein hargyhoeddi gan y ddadl o



made for the use of the negative procedure in some cases. The proposed Measure contains the power to make significant changes to policy by negative resolution. In our view, significant changes of policy should be subjected to close scrutiny by the Assembly and, as a general principle, it would be better achieved by making such changes through the affirmative procedure. In that regard, I welcome the point that the Minister made in her speech.

The proposed Measure also grants powers in sections 3(3), 5(4) and 6(3) to make changes to the Measure itself when passed through secondary legislation—the so-called Henry VIII powers. The power in section 6(3) goes so far as to permit the Welsh Ministers to

‘make any amendments to this Measure as appear necessary or expedient...in connection with any provisions made under subsection (2)’.

While it is true that the affirmative procedure is proposed in this case, we concluded that powers to change primary legislation should be subject to the so-called superaffirmative procedure, whereby a consultation draft is also laid before an Order is made. I would welcome the Minister’s further consideration of that point.

As Dai Lloyd has already mentioned, section 4(4) of the proposed Measure includes the procedure for designating the different categories of persons liable to pay a levy. Like Legislation Committee No. 3, the Subordinate Legislation Committee concluded that there should be a consistent approach to so-called secondary and primary activities, and that both designations should be made by the affirmative procedure. Again, I welcome the Minister’s comments on that.

In section 8, it is proposed that Ministers have the power to issue directions about the submission of returns. A direction is, effectively, subordinate legislation but it is

blaid defnyddio’r weithdrefn negyddol mewn ambell achos. Mae’r Mesur arfaethedig yn cynnwys y pŵer i newid polisiau’n sylweddol drwy benderfyniad negyddol. Yn ein barn ni, dylai newidiadau sylweddol mewn polisiau fod yn destun craffu gofalus gan y Cynulliad, ac, fel egwyddor gyffredinol, llwyddid i wneud hynny’n well drwy ddefnyddio’r weithdrefn gadarnhaol i wneud newidiadau o’r fath. Yn y cyswllt hwnnw, yr wyf yn croesawu’r pwynt a wnaeth y Gweinidog yn ei haraith.

Mae’r Mesur arfaethedig hefyd yn caniatáu pwerau yn adrannau 3(3), 5(4) a 6(3) i newid y Mesur ei hun pan gaiff ei basio drwy is-ddeddfwriaeth—yr hyn a elwir yn bwerau Harri’r VIII. Mae’r pŵer yn adran 6(3) yn mynd cyn belled â chaniatáu i Weinidogion Cymru

‘wneud unrhyw ddiwygiadau i’r Mesur hwn sy’n ymddangos...yn angenrheidiol neu’n hwylus mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaethau a wneir o dan is-adran (2)’.

Er ei bod yn wir bod y weithdrefn gadarnhaol yn cael ei chynnig yn yr achos hwn, casglwyd y dylai pwerau i newid deddfwriaeth sylfaenol fod yn amodol ar y weithdrefn a elwir yn weithdrefn uwchgadarnhaol, lle y bydd drafft ymgynghori hefyd yn cael ei osod cyn gwneud Gorchymyn. Byddwn yn falch petai’r Gweinidog yn ystyried y pwynt hwnnw eto.

Fel y mae Dai Lloyd wedi crybwyll eisoes, mae adran 4(4) yn y Mesur arfaethedig yn cynnwys y weithdrefn ar gyfer dynodi’r gwahanol gategorïau o bobl sydd i dalu ardoll. Casgliad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, fel Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Rhif 3, oedd y dylid arddel ymagwedd gyson at y gweithgareddau a elwir yn is-weithgareddau ac yn weithgareddau sylfaenol, ac y dylai’r ddau ddynodiad gael eu gwneud drwy’r weithdrefn gadarnhaol. Unwaith eto, yr wyf yn croesawu sylwadau’r Gweinidog am hynny.

Yn adran 8, cynigir y dylai Gweinidogion gael y pŵer i gyhoeddi cyfarwyddiadau ynglŷn â chyflwyno datganiadau. Mewn gwirionedd, is-ddeddfwriaeth yw

made without the need for any legislative procedure in the Assembly. Therefore, we have recommended that this power be exercised through regulations, which would provide the opportunity for scrutiny by the Assembly.

Finally, we considered the broad power proposed in section 3(1) that would permit the Welsh Ministers to do anything that they consider appropriate to further the objectives set out in section 2. We accept the need for such general powers as a reflection of our devolution settlement. Unlike in Scotland, the Government of Wales Act 2006 does not provide a general transfer of prerogative and other executive functions, so that the general executive competence that the Scottish Ministers enjoy has not been given to the Welsh Ministers. As a result, general powers in specific Measures, such as section 3(1) of this proposed Measure, have to be relied upon for routine executive decisions for which no specific authority would be required in Scotland.

This is not a matter that we can address directly through this particular proposed Measure. However, the committee believes that it is an issue that needs to be flagged up, and we have recommended that the Welsh Government keeps under review the need for a more general executive competence, comparable to that in Scotland.

**Brynle Williams:** I move amendment 1 in the name of Alun Cairns. Add as a new point at the end of the motion:

*welcomes the provisions within the Measure to address the inequitable distribution of levy between Wales and other UK regions.*

First, I thank the Minister for bringing this motion before us today. I also echo the Minister's concerns about the announcement of job losses in Anglesey this afternoon, which I am sure we all share. As the Welsh Conservatives' amendment 1 states, we welcome the proposed Measure, particularly its provisions to address the major challenge concerning the collection of the Welsh levy,

cyfarwyddyd ond fe'i gwneir heb fod angen unrhyw weithdrefn ddeddfwriaethol yn y Cynulliad. Felly, yr ydym wedi argymhell y dylid rhoi'r pŵer hwn ar waith drwy reoliadau, a fyddai'n rhoi'r cyfle i'r Cynulliad graffu arnynt.

Yn olaf, ystyriwyd y pŵer eang a gynigir yn adran 3(1) a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth y maent yn ei ystyried yn briodol i hyrwyddo'r amcanion a nodir yn adran 2. Derbyniwn fod angen pwerau cyffredinol o'r fath i adlewyrchu'n setliad datganoli. Yn wahanol i'r sefyllfa yn yr Alban, nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau breiniol a gweithredol eraill yn gyffredinol, ac felly nid yw'r cymhwysedd gweithredol cyffredinol sydd gan Weinidogion yr Alban wedi'i roi i Weinidogion Cymru. O'r herwydd, rhaid dibynnu ar bwerau cyffredinol mewn Mesurau penodol, megis adran 3(1) yn y Mesur arfaethedig hwn, ar gyfer penderfyniadau gweithredol rheolaidd na fyddai gofyn cael awdurdod penodol ar eu cyfer yn yr Alban.

Nid yw hwn yn fater y gallwn fynd i'r afael ag ef yn uniongyrchol drwy'r Mesur arfaethedig penodol hwn. Fodd bynnag, cred y pwyllgor ei fod yn fater y mae angen tynnu sylw ato ac yr ydym wedi argymhell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gadw golwg ar yr angen am gymhwysedd gweithredol mwy cyffredinol, tebyg i hwnnw a geir yn yr Alban.

**Brynle Williams:** Cynigiau welliant 1 yn enw Alun Cairns. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn croesawu'r darpariaethau yn y Mesur i roi sylw i ddosbarthiad anghyfartal yr ardoll rhwng Cymru a rhanbarthau eraill y DU.*

Yn gyntaf, diolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r cynnig hwn ger ein bron heddiw. Ategaf hefyd bryderon y Gweinidog ynglŷn â chyhoeddi colli swyddi ar Ynys Môn y prynhawn yma, ac yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn unfryd yn hynny. Fel y dywed gwelliant 1 y Ceidwadwyr Cymreig, yr ydym yn croesawu'r Mesur arfaethedig, yn enwedig ei ddarpariaethau i fynd i'r afael â'r her fawr

namely ensuring that the money paid in levy by Welsh producers is used to promote Welsh produce, and is not lost because animals raised in Wales are slaughtered across the border. The Welsh Conservatives believe that this is a commonsense proposal, and I hope that all Members will support it. We highlighted this issue back in October when the Minister introduced the proposed Measure, and we welcome the inclusion of the provision in section 4 of the proposed Measure to raise levies from primary producers and others working elsewhere in the supply chain.

The current situation, in which the Welsh industry loses out on more than £1 million a year because of the geographic location of abattoirs, is unsustainable. As the Minister knows, the Welsh levy is particularly vulnerable—some 85 per cent of animals go through just four abattoirs, the majority of which are foreign owned. If just one of those abattoirs ceases trading, under the current arrangements, the work of Hybu Cig Cymru would be hamstrung, and it would short-change the Welsh producers who are paying the levy. The most straightforward and cost-effective way of resolving this issue would be for the Minister to reach an agreement with her counterparts from other UK regions, one that represented the fair and equitable conclusion that the industry in Wales deserves and that reflects where animals have been reared, not just the arbitrary location where they are slaughtered. Can the Minister update the Chamber on the progress that she has made in achieving that since the proposed Measure was introduced?

In the event of a failure to reach agreement in this way, the option to raise the levy from elsewhere in the supply chain would be possible under the proposed Measure. If that approach were to be taken, the costs of collecting it would be significantly higher for the simple reason that it is easier to raise the majority of the levy from just four abattoirs than from thousands of individual producers. In light of this, can the Minister provide information on the estimated costs of collecting levies from these other sources, as

ynglŷn â chasglu ardoll Cymru, sef sicrhau bod yr ardoll a delir gan gynhyrchwyr Cymru'n cael ei defnyddio i hybu cynnyrch Cymru, ac nad yw'n cael ei cholli oherwydd bod anifeiliaid a fegir yng Nghymru'n cael eu lladd dros y ffin. Cred y Ceidwadwyr Cymreig mai synnwyr cyffredin yw'r cynnig hwn, ac yr wyf yn gobeithio y bydd pob Aelod yn ei gefnogi. Tynnwyd sylw at hyn ym mis Hydref pan gyflwynodd y Gweinidog y Mesur arfaethedig, ac yr ydym yn croesawu cynnwys y ddarpariaeth yn adran 4 yn y Mesur arfaethedig i godi ardollau gan gynhyrchwyr cynradd ac eraill sy'n gweithio mewn mannau eraill yn y gadwyn cyflenwi.

Nid yw'r sefyllfa bresennol, lle y mae diwydiant Cymru'n colli mwy na £1 miliwn y flwyddyn oherwydd lleoliad daearyddol lladd-dai, yn un y gellir ei chynnal. Fel y gŵyr y Gweinidog, mae ardoll Cymru'n arbennig o fregus—aiff rhyw 85 y cant o'n hanifeiliaid drwy bedwar o ladd-dai'n unig, ac mae'r rhan fwyaf o'r rheini dan berchnogaeth dramor. Pe na bai ond un o'r lladd-dai hynny'n rhoi'r gorau i fasnachu, o dan y trefniadau presennol, byddai gwaith Hybu Cig Cymru'n cael ei lesteirio, a gwneid cam â'r cynhyrchwyr yng Nghymru sy'n talu'r ardoll. Y ffordd symlaf a mwyaf costeffeithiol o ddatrys y mater hwn fyddai i'r Gweinidog sicrhau cytundeb â'i chymheiriaid yn rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig, cytundeb a fyddai'n arwain at ganlyniad teg a chyfiawn i'r diwydiant yng Nghymru, fel y mae'n haeddu, a chytundeb sy'n seiliedig ar ymhle y megir yr anifeiliaid ac nid dim ond ar leoliad mympwyol y man lle y cânt eu lladd. A all y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr ynglŷn â'r cynnydd y mae wedi'i wneud o ran cyflawni hynny ers cyflwyno'r Mesur arfaethedig?

Os methir sicrhau cytundeb fel hyn, byddai'n bosibl codi'r ardoll o rywle arall yn y gadwyn gyflenwi o dan y Mesur arfaethedig. O fynd ati yn y ffordd honno, byddai'n ddrutach o lawer ei chasglu, am y rheswm syml ei bod yn haws codi'r rhan fwyaf o'r ardoll ar bedwar lladd-dy'n unig na'i chodi ar filoedd o gynhyrchwyr unigol. Yng ngoleuni hyn, a all y Gweinidog roi gwybodaeth inni am amcangostau casglu'r ardoll gan y ffynonellau eraill hyn, oherwydd y mae'n amlwg y byddai'n dda gan gynhyrchwyr

Welsh producers will obviously be interested in how efficient alternative models of levy collection would be?

Finally, as the Minister will be aware, producers have been short-changed on several occasions because of abattoirs going under and taking the levy that they held in trust with them, because it is not considered a preferential debt, as VAT or income tax are. Given the fragility of the processing sector in Wales and the relative frequency of these events, can the Minister comment about any intentions that she has to protect levies from being lost in that way in the future, through the proposed Measure?

**Joyce Watson:** I welcome today's debate and look forward to the proposed Measure being enacted, as I know that it will put the red meat industry on a firmer footing. I also welcome the fact that the Minister has reassured Members and the industry that there will be no change to the status of Hybu Cig Cymru as a body that is clearly at arm's length from the Government. There is concern, however, about the levy and the size of the levy in future, because it is charged at the abattoir and Wales's slaughter capacity is reduced, as we have heard from all sides today.

The beef industry is especially affected. Despite Wales's beef cow herd being 17 per cent of the UK total, HCC receives only 6 per cent of the levy, because most of the cattle raised by farmers in Wales are slaughtered over the border, as we heard mentioned just a moment ago. Wales's red meat industry enjoys an excellent reputation, and consumers are increasingly concerned about matters such as provenance, welfare and hygiene standards. All that suggests that there is an opportunity to develop Wales's slaughter capacity. We should play to our strengths and support existing abattoirs.

6.00 p.m.

I would like to add my deep regret about today's news from Anglesey. In the long term, I believe that we could look to expand the number of abattoirs, and not only would

Cymru gael gwybod pa mor effeithlon fyddai modelau amgen ar gyfer casglu'r ardoll?

Yn olaf, fel gwyr y Gweinidog, mae cynhyrchwyr wedi cael cam sawl tro oherwydd bod lladd-dai wedi mynd i'r wal gan fynd â'r ardoll a ymddiriedwyd iddynt gyda hwy, oherwydd nad yw'n cael ei ystyried yn ddyled sy'n flaenoriaeth, fel y mae TAW neu dreth incwm. O gofio mor fregus yw'r sector prosesu yng Nghymru a bod y pethau hyn yn digwydd yn gymharol aml, a all y Gweinidog gyflwyno sylwadau am unrhyw fwriadau sydd ganddi i warchod ardollau rhag cael eu colli yn y modd hwnnw yn y dyfodol, drwy'r Mesur arfaethedig?

**Joyce Watson;** Yr wyf yn croesawu'r ddadl heddiw gan edrych ymlaen at roi'r Mesur arfaethedig ar waith, oherwydd gwn y bydd yn rhoi sylfaen gadarnach i'r diwydiant cig coch. Yr wyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi tawelu meddwl yr Aelodau a'r diwydiant na fydd statws Hybu Cig Cymru'n newid o gwbl fel corff sydd yn amlwg hyd braich oddi wrth y Llywodraeth. Mae'r ardoll, fodd bynnag, a'i maint yn y dyfodol, yn destun pryder, am ei bod yn cael ei chodi yn y lladd-dy, ac am fod capasiti lladd-dai Cymru wedi crebachu, fel yr ydym wedi clywed gan bob ochr heddiw.

Effeithir yn arbennig ar y diwydiant cig eidion. Er bod buches eidion Cymru yn 17 y cant o gyfanswm buches y Deyrnas Unedig, dim ond 6 y cant o'r ardoll a gaiff Hybu Cig Cymru oherwydd bod y rhan fwyaf o'r gwartheg a fegir gan ffermwyr yng Nghymru'n cael eu lladd dros y ffin, fel y clywsom funud yn ôl. Mae gan ddiwydiant cig coch Cymru enw rhagorol, ac mae defnyddwyr yn poeni fwyfwy am faterion megis tarddiad, lles a safonau hylendid. Mae hynny i gyd yn awgrymu bod cyfle i ddatblygu capasiti lladd-dai Cymru. Dylem fanteisio ar ein cryfderau a chefnogi'r lladd-dai sydd gennym eisoes.

Hoffwn ategu fy mod innau'n gresynu'n fawr at y newyddion o Ynys Môn heddiw. Yn y tymor hir, credaf y gallem ystyried ehangu nifer y lladd-dai, a byddai hynny nid yn unig

that increase the levy, but it would reduce live exports, which would be good for farmers and for animal welfare. What can be done to further support the Welsh abattoirs, for example, along the lines of the funding that the Welsh Assembly Government already provides to the Food Standards Agency to discount the cost of meat hygiene?

**William Graham:** During that interesting presentation to the committee, all witnesses agreed with the general principles of the proposed Measure and the need for a legislative framework to promote and market the Welsh red meat sector. We all acknowledge that a statutory levy is needed in the red meat industry as a result of what some economists call a market failure, namely, the fact that many businesses in the red meat chain are too small to undertake research and development work, compile market intelligence, or promote and market their produce as individuals.

We therefore need a levy to be collected on behalf of the entire industry. Hybu Cig Cymru's use of levy money makes an invaluable contribution to agricultural research and development, as well as the marketing of Welsh produce, all of which benefits the Welsh livestock industry. However, the manner in which the levy is collected from the abattoirs, and the predominance of large abattoirs, makes Wales's share of the levy money extremely vulnerable to large abattoir closures. This could result in a devastating reduction in HCC's ability to fund important marketing, research and development. In the calendar year 2008, there were 24 abattoirs operating in Wales, all of which slaughtered sheep, and 20 of which slaughtered cattle. However, four of the 24 sheep-slaughtering abattoirs accounted for the majority of the sheep slaughtered—some 82 per cent—with four of the 20 cattle-slaughtering abattoirs accounting for the majority of the cattle slaughtered. If one of those high-throughput abattoirs were to close, levy income in Wales would be significantly affected.

Under the current system, Wales loses levy income to England and Scotland because animals born and reared in Wales travel

yn cynyddu'r ardoll, ond yn gostwng nifer yr allforion byw. Byddai hynny'n dda i ffermwyr ac er lles anifeiliaid. Beth y gellir ei wneud i roi rhagor o gymorth i ladd-dai Cymru, er enghraifft, yn yr un modd efallai â'r drefn a ddilynir gan Lywodraeth y Cynulliad eisoes i gyllido'r Asiantaeth Safonau Bwyd wrth gyfrannu at gost hylendid cig?

**William Graham:** Yn ystod y cyflwyniad diddorol hwnnw i'r pwyllgor, yr oedd pob tyst yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a bod angen fframwaith deddfwriaethol i hybu a marchnata sector cig coch Cymru. Yr ydym i gyd yn cydnabod bod angen ardoll statudol yn y diwydiant cig coch yn sgîl yr hyn y mae rhai economegwyr yn ei alw'n fethiant yn y farchnad, sef, y ffaith bod llawer o fusnesau'r gadwyn cig coch yn rhy fach i wneud gwaith ymchwil a datblygu, i gasglu gwybodaeth am y farchnad, neu i hyrwyddo a marchnata'u cynnyrch fel unigolion.

Felly, mae angen casglu ardoll ar ran y diwydiant i gyd. Mae'r ffordd y mae Hybu Cig Cymru'n defnyddio arian yr ardoll yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy i ymchwil a datblygu amaethyddol, yn ogystal ag i farchnata cynnyrch Cymru, ac mae hynny i gyd o fudd i ddiwydiant da byw Cymru. Fodd bynnag, mae'r ffordd y cesglir yr ardoll gan y lladd-dai, a gorbwysigrwydd y lladd-dai mawr, yn golygu bod cyfran Cymru o arian yr ardoll yn eithriadol o fregus os digwydd i'r lladd-dai mawr gau. Gallai hyn olygu lleihad dinistriol yng ngallu HCC i dalu am waith pwysig ym maes marchnata, ymchwil a datblygu. Ym mlwyddyn galendr 2008, yr oedd 24 o ladd-dai ar waith yng Nghymru, a'r rheini i gyd yn lladd defaid ac 20 ohonynt yn lladd gwartheg. Serch hynny, câi'r rhan fwyaf o'r defaid—tua 82 y cant—eu lladd gan bedwar o'r 24 lladd-dy a châi'r rhan fwyaf o'r gwartheg eu lladd gan bedwar o'r 20 lladd-dy a oedd yn lladd gwartheg. Petai un o'r lladd-dai hynny a oedd yn lladd nifer fawr o anifeiliaid yn cau, câi hynny effaith sylweddol ar incwm yr ardoll yng Nghymru.

O dan y drefn bresennol, mae Cymru'n colli incwm yr ardoll i Loegr ac i'r Alban oherwydd bod anifeiliaid sy'n cael eu geni

across to England and Scotland for slaughter. The Farmers' Union of Wales supported this view, emphasising that the current method of distributing levies between the devolved regions, based simply on the location of abattoirs, is wholly inequitable. Its response to the 2005 Radcliffe review indicated that a system that more adequately represented Welsh livestock numbers, rather than Welsh slaughterhouse numbers and capacity, could result in an increase in HCC's budget of between £0.75 and £1.5 million.

In addition to the concerns regarding the vulnerability of the Welsh abattoir sector, there are major concerns about retaining the current independent and board structure of HCC. Welsh Conservatives do not believe that there are circumstances in which HCC should be absorbed into the Welsh Assembly Government, and we have great pleasure in supporting the motion proposed today.

**Mick Bates:** The Welsh Liberal Democrats offer our support for this motion and the amendment. I welcome the fact that the recommendations from Legislation Committee No. 3's report have been accepted. To deal with them individually, I think that the first, on consultation, is essential. The evidence that was gathered shows that there is recognition among industry representatives that we must ensure that the levy that is charged on Welsh livestock is returned to Wales. It is as well to remind Members in this debate that this levy is intended to promote Welsh red meat. The vital point is that producers pay and that money should, ultimately, be returned by the slaughterhouses to Hybu Cig Cymru, to be used to promote Welsh meat. I hope that we do not lose sight of that.

There is equally a need to scrutinise how that money is spent. Reading through the evidence that was presented to Legislation Committee No. 3, it was interesting to see that there were hints that we should look at how the money is spent in order to gain the full benefit of the funding. We would do well to remind ourselves that, currently, 97 per cent of our red meat is exported from Wales, so the promotional activity to increase sales is important to the industry. It is with great

a'u magu yng Nghymru'n teithio i Loegr ac i'r Alban i'w lladd. Yr oedd Undeb Amaethwyr Cymru'n cefnogi'r farn hon, gan bwysleisio bod y dull presennol o ddsbarthu ardollau rhwng y rhanbarthau datganoledig, ar sail lleoliad y lladd-dai'n unig, yn gwbl annheg. Yn ei ymateb i adolygiad Radcliffe yn 2005, dywedodd y gallai system a fyddai'n cynrychioli niferoedd da byw Cymru'n fwy boddhaol, yn hytrach na niferoedd a chapasiti lladd-dai Cymru, olygu cynnydd o rhwng £0.75 ac £1.5 miliwn yng nghyllideb HCC.

Yn ogystal â'r pryderon ynglŷn â natur fregus sector lladd-dai Cymru, mae cadw strwythur annibynnol a strwythur bwrdd presennol HCC yn destun pryder hefyd. Nid yw'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu y dylai HCC gael ei lyncu gan Lywodraeth y Cynulliad dan unrhyw amgylchiadau, ac mae'n bleser mawr gennym gefnogi'r cynnig heddiw.

**Mick Bates:** Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n cynnig ein cefnogaeth i'r cynnig hwn ac i'r gwelliant. Yr wyf yn croesawu bod argymhellion adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 wedi'u derbyn. Gan ymdrin â hwy fesul un, credaf fod y cyntaf, ynglŷn ag ymgynghori, yn hanfodol. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn dangos bod cydnabyddiaeth ymhlith cynrychiolwyr y diwydiant fod yn rhaid inni sicrhau bod yr ardoll a godir ar dda byw Cymru'n dychwelyd i Gymru. Mae'n beth da atgoffa'r Aelodau yn y ddadl hon mai diben yr ardoll hon yw hybu cig coch Cymru. Y pwynt hollbwysig yw bod cynhyrchwyr yn talu, ac y dylai'r arian hwnnw, maes o law, gael ei ddychwelyd gan y lladd-dai i Hybu Cig Cymru, i'w ddefnyddio i hybu cig Cymru. Yr wyf yn gobeithio na chollwn olwg ar hynny.

Yn yr un modd, mae angen craffu ar sut y gwerir yr arian hwnnw. O ddarllen drwy'r dystiolaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3, yr oedd yn ddiddorol gweld bod rhai'n awgrymu y dylem edrych ar sut y gwerir yr arian er mwyn cael budd llawn o'r cyllido. Byddai'n dda inni'n hatgoffa'n hunain fod 97 y cant o'n cig coch ar hyn o bryd yn cael ei allforio o Gymru, felly mae'r gweithgarwch hyrwyddo i gynyddu gwerthiant yn bwysig i'r diwydiant.

regret that I mention that, today, we are seeing the beginning of a 90-day consultation on 200 job losses at Welsh Country Foods in Anglesey. That, to some extent, emphasises the vulnerability of our abattoir industry in Wales, which can disappear quickly. We have seen that when slaughterhouses go out of business, they do not return the levy money owed to the Meat and Livestock Commission in the olden days and currently to Hybu Cig Cymru. Therefore, the clear recommendation is for flexibility in reviewing the way that the levy is collected. In the evidence you gained, particularly in section 4, there were some doubts about the changes that could occur in the form of the collection of levy. However, there was a general realistic principle, and I think that it was the Farmers' Union of Wales that stated that we must be realistic. In its evidence it stated that it would examine ways that the Minister may wish to change the collection of levy. Fairer distribution is a key factor, which I have no doubt that the Minister will address in her future amendments to the Measure.

I end by welcoming, again, the Minister's statement that HCC will not be absorbed into the Welsh Government, as has been the model previously, when good, independent delivery arms in Wales have been removed and placed into the civil service. Unfortunately, it may be that Hybu Cig Cymru is an excellent example of something that we should fight to retain because it does such a good job. I hope that the Minister sticks by the positive procedure—we have had the discussion before about the use of the negative procedure—and it is most important that this Chamber is engaged with all stages of legislation and that, wherever possible, the positive procedure is used.

**Mohammad Asghar:** Along with my fellow Welsh Conservatives, I would like to welcome the Minister's statement on the proposed Red Meat Industry Measure. I also welcome the elements within the proposed Measure that will give flexibility to Hybu Cig Cymru and the Assembly Government to respond to the challenges and opportunities

Mae'n resyn mawr gennyf sôn heddiw am gychwyn cyfnod o 90 diwrnod o ymgynghori ynglŷn â cholli swyddi yn Welsh Country Foods ar Ynys Môn. I ryw raddau, mae hynny'n pwysleisio mor fregus yw ein diwydiant lladd-dai yng Nghymru, a all ddiflannu'n gyflym. Yr ydym wedi gweld, pan fydd lladd-dai'n mynd i'r wal, nad ydynt yn dychwelyd arian yr ardoll sy'n ddyledus i'r Comisiwn Cig a Da Byw fel yr oedd yn yr hen ddyddiau neu i Hybu Cig Cymru erbyn hyn. Felly, mae'n amlwg mai'r argymhelliad yw bod angen hyblygrwydd wrth adolygu sut y cesglir yr ardoll. Yn y dystiolaeth a gawsoch, yn enwedig yn adran 4, yr oedd rhai amheuon ynglŷn â'r newidiadau a allai ddigwydd yn y ffordd y cesglid yr ardoll. Fodd bynnag, yr oedd egwyddor realistig gyffredinol, a chredaf mai Undeb Amaethwyr Cymru a ddywedodd fod yn rhaid inni fod yn realistig. Yn ei dystiolaeth, dywedodd y byddai'n archwilio sut y gallai'r Gweinidog o bosibl newid y dull o gasglu'r ardoll. Mae dull dosbarthu tecach yn ffactor allweddol, ac nid oes gennyf amheuaeth na fydd y Gweinidog yn rhoi sylw i hynny yn ei gwelliannau i'r Mesur yn y dyfodol.

Yr wyf am ddirwyn i ben drwy groesawu, unwaith eto, ddatganiad y Gweinidog na chaiff HCC ei lyncu gan Lywodraeth y Cynulliad. Dyna fu'r model o'r blaen, wrth i ganghennau cyflawni annibynnol da yng Nghymru gael eu dileu a'u troi'n rhan o'r gwasanaeth sifil. Yn anffodus, efallai fod Hybu Cig Cymru'n enghraifft ragorol o rywbeth y dylem frwydro i'w gadw oherwydd ei fod yn gwneud gwaith cystal. Yr wyf yn gobeithio y gwnaiff y Gweinidog lynu wrth y weithdrefn gadarnhaol—yr ydym wedi cael y drafodaeth o'r blaen ynglŷn â defnyddio'r weithdrefn negyddol—ac mae'n bwysig iawn bod y Siambr hon yn ymwneud â phob cyfnod yn y ddeddfwriaeth a, lle bynnag y bo modd, fod y weithdrefn gadarnhaol yn cael ei defnyddio.

**Mohammad Asghar:** Gyda'm cyd Geidwadwyr Cymreig, hoffwn groesawu datganiad y Gweinidog am y Mesur arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch. Yr wyf yn croesawu hefyd yr elfennau o fewn y Mesur arfaethedig a fydd yn rhoi hyblygrwydd i Hybu Cig Cymru a Llywodraeth y Cynulliad ymateb i'r heriau

that the industry may face in future.

I will highlight one particular opportunity on which the Welsh industry is currently missing out. With 500,000 Muslim households in the UK, of which 30,000 are in Wales, there is a substantial growth market for halal meat. Minister, we produce more than 15 million sheep in Wales, but, sadly, we are definitely not earning the money that we could be to make our farming community richer. As my colleagues just said, most of our animals go to the other side of the border to be slaughtered and return for consumption. That, in itself, is a wrong law of economy. Minister, you will know that that would provide added value to the killing of sheep that would otherwise be worth less to our Welsh farmers. It is not good enough. Our Welsh farmers are losing a lot of sheep body parts that are consumable, whereas in your own constituency, most of the farmers pay the local council to throw out those parts of the sheep. That is not right. We do not have enough abattoirs in south-east Wales or in Wales as a whole to cater for the demand of this country and abroad. Yet, despite Wales supplying a sufficient volume of mature sheep, due to the lack of halal slaughter capacity in Wales, these animals are sent to the midlands and the Welsh levy is lost over the border, despite a large proportion of this meat returning to Wales for consumption. Can the Minister confirm that the Assembly Government, along with HCC, will use the power provided by this proposed Measure to ensure that the Welsh producer can capitalise on this growing market and that the levy lost in this way can be retained in Wales? You also mentioned in your speech, Minister, that there are inconsistencies in this proposed Measure. Therefore, I hope that you will rectify these problems.

6.10 p.m.

Finally, local businesses in Wales should promote our red meat. If you look at Morrison's, which is a Scottish company, and

a'r cyfleoedd y gall y diwydiant eu hwynebu yn y dyfodol.

Tynnaf sylw at un cyfle penodol y mae'r diwydiant yng Nghymru'n ei gollu ar hyn o bryd. Ceir 500,000 o aelwydydd Mwslemaidd yn y Deyrnas Unedig, a 30,000 o'r rheini yng Nghymru. Felly, mae marchnad twf sylweddol ar gael ar gyfer cig halal. Weinidog, yr ydym yn cynhyrchu mwy na 15 miliwn o ddefaid yng Nghymru, ond, yn anffodus, yn sicr, nid ydym yn ennill yr arian y gallem fod yn ei ennill i wneud ein cymuned ffermio'n gyfoethocach. Fel y dywedodd fy nghyd-Aelodau gynnu, bydd y rhan fwyaf o'n hanifeiliaid yn mynd dros y ffin i'w lladd ac yna'n dychwelyd i'w bwyta. Mae hynny, ynddo'i hun, yn anghywir o safbwynt economaidd. Weinidog, gwyddoch y byddai hynny'n darparu gwerth ychwanegol wrth ladd defaid a fyddai fel arall yn llai o werth i'n ffermwyr yng Nghymru. Nid yw'n ddigon da. Mae ein ffermwyr yng Nghymru'n colli llawer o'r rhannau hynny o gyrff defaid y gellid eu bwyta, ac yn eich etholaeth chi'ch hun, bydd y rhan fwyaf o'r ffermwyr yn talu i'r cyngor lleol daflu'r rhannau hynny. Nid yw hynny'n iawn. Nid oes gennym ddigon o ladd-dai yn ne-ddwyrain Cymru nac yng Nghymru drwyddi draw i ateb galw'r wlad hon a thramor. Eto i gyd, er bod Cymru'n cynhyrchu digon o ddefaid aeddfed, oherwydd nad oes gennym ddigon o gapasiti yma i ladd yn y dull halal, anfonir yr anifeiliaid hyn i ganolbarth Lloegr a chollir ardoll Cymru dros y ffin, er bod cyfran fawr o'r cig hwn yn dychwelyd i Gymru i'w fwyta. A all y Gweinidog gadarnhau y bydd Llywodraeth y Cynulliad, ynghyd â HCC, yn defnyddio'r pŵer a roddir drwy'r Mesur arfaethedig hwn i sicrhau bod cynhyrchwyr yng Nghymru'n gallu manteisio ar y farchnad hon sy'n tyfu a bod modd cadw'r ardoll a gollir fel hyn yng Nghymru? Crybwyllwyd yn eich araith hefyd, Weinidog, fod anghysonderau yn y Mesur arfaethedig hwn. Felly, yr wyf yn gobeithio yr unionwch y problemau hyn.

Yn olaf, dylai busnesau lleol yng Nghymru hybu ein cig coch. Os edrychwch ar Morrison's, sy'n gwmni o'r Alban, ac ar ei



its calendar for 2010, you will see that the first picture, for January, is of Scottish lamb. We should be encouraging companies in Wales to promote our red meat in a similar way.

**Elin Jones:** Diolch am y gefnogaeth gyffredinol i'r Mesur arfaethedig ac i'r hyblygrwydd sydd yn y ddeddfwriaeth i gyflawni'r hyn y bydd Gweinidogion Cymru a'r Cynulliad yn dymuno ei gyflawni ar ran y sector pwysig hwn.

Cyfeiriodd Dai Lloyd at bwysigrwydd ymgynghori os bydd unrhyw newidiadau sylweddol i'r drefn o gasglu treth, er enghraifft. Cytunaf, wrth gwrs—a gwnaeth Mick Bates yr un pwynt—fod angen ymgynghori ar newidiadau gweddol bellgyrhaeddol. Ni chredaf fod angen inni edrych ar osod y ddyletswydd ymgynghori ar wyneb y Mesur arfaethedig, ond gan fy mod wedi cytuno i'r hyn a awgrymwyd gan y ddau bwyllgor—y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth a Phwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3—sef ein bod yn edrych ar ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer pob Gorchymyn i newid casglu'r ardoll, byddai unrhyw Orchymynion felly yn galw ar Lywodraeth i ymgynghori'n helaeth ar eu cyflwyno a'r newid polisi.

Nid wyf o'r un farn â'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, sydd am weld y weithdrefn *superaffirmative* yn cael ei defnyddio yng nghyswllt rhai agweddau ar y Mesur arfaethedig. Yr wyf o'r farn fod defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol mewn perthynas ag adran 4 yn ei chyfarwydd yn gam sylweddol er mwyn delio â'r anghysonder y cyfeiriais ato yn fy araith agoriadol.

Cytunaf â Brynle Williams ei bod yn haws casglu ardoll oddi wrth y lladd-dy yn hytrach nag oddi wrth bob ffermwr cig coch yng Nghymru. Os bydd angen newid y polisi hwn yn y pen draw, byddai'n rhaid edrych ar y gost o ran biwrocratiaeth casglu ardoll oddi wrth bob cynhyrhydd cig coch. Byddai angen asesiad llawn cyn i unrhyw Lywodraeth ymgymryd â newid mor sylweddol â hwnnw.

Byddwn wrth fy modd yn gweld mwy o ladd-dai yng Nghymru, am yr union resymau a amlinellwyd gan Joyce Watson. Mae'r

galendr ar gyfer 2010, gwelwch mai'r llun cyntaf, ar gyfer mis Ionawr, yw cig oen yr Alban. Dylem fod yn annog cwmnïau yng Nghymru i hybu ein cig coch mewn modd tebyg.

**Elin Jones:** Thank you for the general support for the proposed Measure and for the flexibility contained in the legislation to achieve what the Welsh Ministers and the Assembly wish to achieve on behalf of this important sector.

Dai Lloyd referred to the importance of consultation should any substantial changes be made to the system of collecting taxes, for example. I agree, of course—and Mick Bates made the same point—that a consultation needs to be held on relatively far-reaching changes. I do not think that we need to look at placing the consultation duty on the face of the proposed Measure, but as we have agreed to what was suggested by both committees—the Sub-legislation Committee and Legislation Committee No. 3—namely that we consider using the affirmative procedure for all Orders to change the collection of the levy, any Orders would therefore call on Government to consult widely on their introduction and changes to the policy.

I do not agree with the Subordinate Legislation Committee that the *superaffirmative* procedure should be used in relation to some aspects of this proposed Measure. I am of the opinion that using the affirmative procedure in relation to section 4 in its entirety is a significant step in dealing with some of the inconsistencies I referred to in my opening remarks.

I agree with Brynle Williams that it is easier to collect a levy from an abattoir rather than from every individual red meat farmer in Wales. Should there be a need to change this policy ultimately, then we would have to look at the bureaucratic cost of collecting a levy from all red meat producers. We would need a full assessment before any Government were to implement such a significant change.

I would be delighted to see more abattoirs in Wales, for the exact reasons outlined by Joyce Watson. The Government has the

Llywodraeth hon yn gallu cefnogi lladd-dai yn y sector breifat—ac mae lladd-dai yn y sector breifat, wrth gwrs, sydd yn cael cefnogaeth—sydd am sefydlu neu ehangu yng Nghymru. Mae modd gwneud hynny fel rhan o'r cynllun ariannu o dan y cynllun datblygu gwledig.

**Andrew R.T. Davies:** We all support the retention of abattoirs in Wales, and, indeed, trying to increase processing capacity in Wales. Ultimately, that will result in more levy income. However, one of the biggest threats to abattoirs is the cost recovery programme that the Meat Hygiene Service has undertaken. It aims for full cost recovery by 2011. What progress have you made on that to enable the abattoir sector to grow and flourish and provide you with the levy income to promote Welsh meat?

**Elin Jones:** Yr ydym wedi trafod rôl y Gwasanaeth Hylendid Cig a'r costau. Fel Llywodraeth, yr ydym am weld cymhorthdal cyhoeddus yn parhau i roi cefnogaeth i ladd-dai llai a gwledig er mwyn sicrhau fod gennym amrywiaeth eang o ladd-dai yng Nghymru. Cafodd Gwenda Thomas a fi gyfarfod ychydig o wythnosau cyn y Nadolig gyda Jeff Rooker, sydd bellach yn gadeirydd yr FSA, i drafod y mater hwn.

Hoffwn orffen drwy ailddweud mai Hybu Cig Cymru yw'r corff perthnasol i weithredu'r ardoll yng Nghymru ac i hyrwyddo a datblygu'r sector bwysig hon, ac nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu newid y drefn honno.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the amendment. Does any Member object? I see that there are objections. I will therefore defer all voting on this item until voting time.

It was agreed that voting time would be at 5 p.m. It is now past 5 p.m., therefore we shall move straight to the votes. Does anyone want the bell to be rung? I see that no-one does.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.  
Votes deferred until voting time.*

ability to support abattoirs in the private sector—and there are abattoirs in the private sector, of course, that are supported—that want to establish or expand in Wales. This can be achieved as part of the funding scheme under the rural development plan.

**Andrew R.T. Davies:** Yr ydym i gyd yn cefnogi cadw lladd-dai yng Nghymru, ac, yn wir, yn cefnogi ceisio cynyddu'r capasiti prosesu yng Nghymru. Yn y pen draw, bydd hynny'n arwain at fwy o incwm o'r ardoll. Fodd bynnag, un o'r bygythiadau mwyaf i ladd-dai yw'r rhaglen adennill costau y mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig wedi ymgymryd â hi. Ei nod yw adennill costau'n llawn erbyn 2011. Pa gynnydd yr ydych wedi'i wneud ynglŷn â hynny er mwyn galluogi sector y lladd-dai i dyfu a ffynnu a rhoi'r incwm ichi o'r ardoll i hybu cig Cymru?

**Elin Jones:** We have discussed the role of the Meat Hygiene Service and the costs. As a Government, we wish to see public subsidy continuing to support the smaller and rural abattoirs in order to ensure that we have a wide variety of abattoirs in Wales. Gwenda Thomas and I had a meeting a few weeks before Christmas with Jeff Rooker, who is now the chair of the FSA, to discuss this issue.

I will conclude by restating that Hybu Cig Cymru is the relevant organisation to be implementing this levy in Wales and to be promoting and developing this important sector, and the Government has no intention of changing that system.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw bod y gwelliant yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod rhai'n gwrthwynebu, felly gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Cytunwyd mai am 5 p.m. y byddai'r cyfnod pleidleisio. Mae wedi troi 5 p.m. erbyn hyn, felly awn yn syth i bleidleisio. A oes unrhyw un yn dymuno imi ganu'r gloch? Gwelaf nad oes.

## Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Gwelliant 1 i NDM4348: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 31.  
Amendment 1 to NDM4348: For 17, Abstain 0, Against 31.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Cairns, Alun  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
German, Michael  
Isherwood, Mark  
Melding, David  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny  
Williams, Brynle  
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
Amendment not agreed.*

*Cynnig NDM4348: O blaid 37, Ymatal 10, Yn erbyn 1.  
Motion NDM4348: For 37, Abstain 10, Against 1.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Franks, Chris  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Bourne, Nick

Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Jenkins, Bethan  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Jones, Gareth  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Watson, Joyce  
 Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
 The following Members abstained:

Asghar, Mohammad  
 Cairns, Alun  
 Davies, Andrew R.T.  
 Davies, Paul  
 Isherwood, Mark  
 Melding, David  
 Millar, Darren  
 Morgan, Jonathan  
 Ramsay, Nick  
 Williams, Brynle

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4353: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 31.  
 Amendment 1 to NDM4353: For 17, Abstain 0, Against 31.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Asghar, Mohammad  
 Bates, Mick  
 Black, Peter  
 Bourne, Nick  
 Burnham, Eleanor  
 Cairns, Alun  
 Davies, Andrew R.T.  
 Davies, Paul  
 German, Michael  
 Isherwood, Mark  
 Melding, David  
 Millar, Darren  
 Morgan, Jonathan  
 Ramsay, Nick  
 Randerson, Jenny  
 Williams, Brynle  
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
 Barrett, Lorraine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Alun  
 Davies, Andrew  
 Davies, Jocelyn  
 Franks, Chris  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Jenkins, Bethan  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin

Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
Amendment not agreed.*

*Cynnig NDM4353: O blaid 37, Ymatal 10, Yn erbyn 0.  
Motion NDM4353: For 37, Abstain 10, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Franks, Chris  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Randerson, Jenny  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Watson, Joyce  
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
The following Members abstained:

Asghar, Mohammad  
Bourne, Nick  
Cairns, Alun

Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
Melding, David  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Williams, Brynle

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

*Cynnig NDM4354: O blaid 31, Ymatal 6, Yn erbyn 11.  
Motion NDM4354: For 31, Abstain 6, Against 11.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
The following Members abstained:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
German, Michael  
Randerson, Jenny  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4355: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 31.  
Amendment 1 to NDM4355: For 17, Abstain 0, Against 31.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Cairns, Alun  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
German, Michael  
Isherwood, Mark  
Melding, David  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny  
Williams, Brynle  
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.*  
*Amendment not agreed.*

*Cynnig NDM4355: O blaid 48, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*  
*Motion NDM4355: For 48, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Asghar, Mohammad  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Cairns, Alun  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Jocelyn  
Davies, Paul  
Franks, Chris  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John

Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Isherwood, Mark  
 Jenkins, Bethan  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Jones, Gareth  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Melding, David  
 Mewies, Sandy  
 Millar, Darren  
 Morgan, Jonathan  
 Morgan, Rhodri  
 Ramsay, Nick  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Watson, Joyce  
 Williams, Brynle  
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion agreed.*

**Arfarniad Ariannol ar gyfer y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch**  
**Financial Resolution for the Proposed Red Meat Industry Measure**

**The Minister for Rural Affairs (Elin Jones):** I move that **Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Cynigiaf fod

*the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Proposed Red Meat Industry (Wales) Measure, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order Nos. 23.80(ii) and 23.81, arising in consequence of the Measure. (NDM4357)*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru), yn cytuno ag unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog Rhifau 23.80(ii) a 23.81, sy'n codi o ganlyniad i'r Mesur. (NDM4357)*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, in accordance with Standing Order No. 7.35, the proposal is agreed.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig sydd gerbron yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's business to a close. **Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.



*Daeth y cyfarfod i ben am 6.18 p.m.  
The meeting ended at 6.18 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau  
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
 Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
 Davies, Alun (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
 Griffiths, John (Llafur – Labour)  
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 James, Irene (Llafur – Labour)  
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ann (Llafur – Labour)  
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)